# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mercher, 3 Hydref 2012**
**Wednesday, 3 October 2012**

**Cynnwys**
**Contents**

4 Cwestiynau i’r Gweinidog Addysg a Sgiliau
Questions to the Minister for Education and Skills

Cwestiynau i’r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Questions to the Minister for Local Government and Communities

Pwynt o Drefn
Point of Order

Dadl Cyfnod 3 ar Fil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) o dan Reol Sefydlog Rhif 26.44
Stage 3 Standing Order No. 26.44 Debate on the National Assembly for Wales (Official Languages) Bill

Grŵp 1: Cyfieithu Cofnodion o Drafodion y Cynulliad (Gwelliannau 1 a 5)
Group 1: Translation of Reports of Assembly Proceedings (Amendments 1 and 5)

Grŵp 2: Cyhoeddi Cofnodion o Drafodion y Cynulliad (Gwelliant 9)
Group 2: Publication of Reports of Assembly Proceedings (Amendment 9)

Grŵp 3: Penodi Swyddog Cyfrifol (Gwelliant 6)
Group 3: Appointment of Responsible Officer (Amendment 6)

Grŵp 4: Ystyr y Ddarpariaeth (Gwelliant 2)
Group 4: Meaning of Provision (Amendment 2)

Grŵp 5: Darpariaethau y mae’n Rhaid eu Cynnwys yn y Cynllun (Gwelliannau 10, 11 a 12)
Group 5: Provisions that Must be Included in the Scheme (Amendments 10, 11 and 12)

Grŵp 6: Gwasanaethau a Ddarperir o dan y Cynllun (Gwelliannau 7 ac 8)
Group 6: Services Provided under the Scheme (Amendments 7 and 8)

Grŵp 7: Ymgynghori ar y Cynllun (Gwelliannau 3 a 4)
Group 7: Consultation on the Scheme (Amendments 3 and 4)

Cynnig Cyfnod 4 i Gymeradwyo Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) o dan Reol Sefydlog Rhif 26.47
Stage 4 Standing Order No. 26.47 Motion to Approve the National Assembly for Wales (Official Languages) Bill

Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Gysylltedd Rhyngwladol drwy Borthladdoedd a Meysydd Awyr Cymru
The Enterprise and Business Committee’s Report on International Connectivity through Welsh Ports and Airports

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Gofal Newyddenedigol
Welsh Conservatives Debate: Neonatal Care

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Dadl Fer: Cefnogi Buddsoddiad yn Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod
Short Debate: Supporting Investment in Llandrindod Wells County War Memorial Hospital

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau
## Questions to the Minister for Education and Skills

### Strategaeth y Gymraeg

### Welsh Language Strategy

***1. Llyr Huws Gruffydd**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth y Gymraeg. OAQ(4)0180(ESK)*

***1. Llyr Huws Gruffydd:** Will the Minister make a statement on the Welsh language strategy. OAQ(4)0180(ESK)*

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Mae'r Llywodraeth wedi dechrau gweithredu'r strategaeth, a'r cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Mae cyngor partneriaeth y Gymraeg wedi cyfarfod ddwywaith eleni, er mwyn darparu cyngor i mi ar weithrediad y strategaeth. Rydym hefyd yn paratoi fframwaith gwerthuso ar gyfer y strategaeth.

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** The Government is implementing the strategy, and first year action plan. The Welsh language partnership council has met twice this year, to advise me on the strategy's implementation. We are also preparing an evaluation framework for the strategy.

**Llyr Huws Gruffydd:** Diolch am yr ateb hwnnw. Mae'r strategaeth yn pwysleisio'r her fawr sy'n wynebu'r Gymraeg fel iaith gymunedol, fyw. Mae'r strategaeth yn eich ymrwymo chi i ystyried yr angen i ddarparu canllawiau ychwanegol ynghylch ystyried materion yn ymwneud â'r Gymraeg wrth i gynlluniau datblygu lleol gael eu paratoi. A gytunwch, felly, fod cyfle i gryfhau sefyllfa'r Gymraeg drwy'r Bil cynllunio arfaethedig, a pha drafodaethau ydych chi wedi eu cynnal â'r Gweinidog am effaith unrhyw newidiadau o ran cynllunio ar y Gymraeg?

**Llyr Huws Gruffydd:** Thank you for that response. The strategy does emphasise the huge challenge facing the Welsh language as a vibrant community language. The strategy commits you to considering the need to provide additional guidelines on the consideration of issues related to the Welsh language as local development plans are prepared. Do you agree, therefore, that there is an opportunity to strengthen the Welsh language's position through the proposed planning Bill, and what discussions have you had with the Minister on the impact of any changes to the planning system on the Welsh language?

**Leighton Andrews:** Rydym wedi sefydlu grŵp tasg a gorffen, wedi ei gadeirio gan Rhodri Llwyd Morgan, i drafod materion yng nghefn gwlad o ran yr iaith. Mae swyddogion o'r isadran gynllunio wedi cwrdd â swyddogion o awdurdodau cynllunio lleol i drafod arfer gorau mewn perthynas â chynnwys materion am y Gymraeg yn y broses o baratoi cynlluniau datblygu lleol. Cyflwynodd yr awdurdodau cynllunio enghreifftiau o arfer gorau, a bydd hyn yn

**Leighton Andrews:** We have established a task and finish group, chaired by Rhodri Llwyd Morgan, to discuss issues appertaining to rural areas and the language. Officials from the planning division have met officials from local planning authorities to discuss best practice as regards including issues relating to the Welsh language in the process of preparing local development plans. The planning authorities presented examples of best practice that will be fed into the review. I

bwydo i mewn i'r adolygiad. Rwy'n gobeithio gweld cynnydd da, felly, o ran cwblhau'r adolygiad.

hope to see good progress, therefore, in the context of completing the review.

**Suzy Davies:** Rwyf wedi cwrdd â chynrychiolwyr nifer o fentrau iaith yn ystod y misoedd diwethaf. Mae dalgylch rhai ohonynt yn cynnwys cymunedau di-Gymraeg. Mae'n debyg bod y cymunedau hynny yn dal i wrthsefyll gwaith y mentrau, er gwaethaf rhaglenni creadigol a pherthnasol. Os nad ydynt yn gweld yr iaith Gymraeg fel rhan o'u hunaniaeth, sut y bydd y cynllun iaith Gymraeg yn galluogi'r mentrau iaith i ddatblygu defnydd yr iaith yn yr ardaloedd di-Gymraeg?

**Suzy Davies:** I have met the representatives of a number of *mentrau iaith* over the past few months. The catchment areas of some of them include non-Welsh-speaking communities. It appears that those communities are still withstanding the work of the *mentrau*, despite their relevant and creative schemes. If they do not see the Welsh language as part of their identity, how will the Welsh language scheme enable the *mentrau iaith* to develop the use made of the language in non-Welsh-speaking areas?

**Leighton Andrews:** Mae'r mentrau iaith yn bwysig i ni o ran datblygu strategaeth iaith ar lawr gwlad ledled Cymru. Rydym eisiau cydweithio â'r mentrau, ar draws ein gwlad, i ddatblygu polisïau yn lleol sy'n annog datblygiad yr iaith, yn ogystal â helpu pobl i ddefnyddio'r iaith. Os oes gan yr Aelod enghreifftiau o awdurdodau lleol nad ydynt yn cefnogi'r mentrau iaith, rwy'n ei gwahodd i ysgrifennu ataf.

**Leighton Andrews:** The *mentrau iaith* are important to us in developing a language strategy at grass-roots level throughout Wales. We want to collaborate with the *mentrau*, across Wales, to develop local policies that encourage the development of the language and also assist people in making use of the language. If the Member has specific examples where local authorities are not supporting the *mentrau iaith,* I invite her to write to me.

**Suzy Davies:** Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Nid wyf yn sôn am broblemau gydag awdurdodau lleol, yn arbennig, ond gyda'r bobl yn y cymunedau. Un cwestiwn a ofynnais i'r mentrau iaith, na allent ei ateb, oedd un ynglŷn ag addysg. Ers datganoli, mae addysg Gymraeg fel ail iaith wedi bod yn orfodol at 16 mlwydd oed ym mhob ysgol gyfun cyfrwng Saesneg yng Nghymru. Serch hynny, nid yw myfyrwyr o'r ysgolion hynny yn eu hystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg—boed hynny yn rhugl neu beidio—ac nid ydynt yn gweld yr iaith fel rhan o'u hunaniaeth. Mae hunaniaeth, wrth gwrs, yn fater cymhleth. Pa ran fydd gan y strategaeth iaith o ran newid sut mae pobl yn eu gweld eu hunain?

**Suzy Davies:** Thank you for that response, Minister. I am not talking about problems with local authorities in particular, but with people within the communities. One question that I asked the *mentrau iaith*, which they could not answer, was on education. Since devolution, education in Welsh as a second language has been mandatory up until the age of 16 in every English-medium school in Wales. However, students from those schools do not consider themselves to be Welsh speakers—be they fluent or not—and they do not see the language as part of their identity. Of course, identity is a complex issue. What part will the language strategy play in changing the way in which people view themselves?

**Leighton Andrews:** Rydym wedi sefydlu grŵp i adolygu Cymraeg fel ail iaith yn ein hysgolion ac edrychaf ymlaen at weld yr adroddiad.

**Leighton Andrews:** We have established a group to review the delivery of Welsh as a second language in our schools and I look forward to seeing the report.

### Ysgolion Ffydd

### Faith Schools

***2. Darren Millar***: *A wnaiff y Gweinidog*

***2. Darren Millar:*** *Will the Minister make a*

*ddatganiad am ddarpariaeth ysgolion ffydd yng Nghymru. OAQ(4)0172(ESK)*

*statement on the provision of faith schools in Wales. OAQ(4)0172(ESK)*

**Leighton Andrews:** The Welsh Government recognises the historic and current contribution that maintained schools with a religious character make in every part of Wales. The document 'Faith in education', developed jointly with the Church in Wales and the Catholic Education Service, and launched in June 2011, affirmed this position.

**Leighton Andrews:** Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyfraniad hanesyddol a chyfredol y mae ysgolion a gynhelir sydd â chymeriad crefyddol yn ei wneud ym mhob rhan o Gymru. Cadarnhaodd y ddogfen 'Ffydd mewn addysg', a ddatblygwyd ar y cyd â'r Eglwys yng Nghymru a'r Gwasanaeth Addysg Gatholig, ac a lansiwyd ym mis Mehefin 2011, y sefyllfa hon.

**Darren Millar:** I commend you, Minister, for your work with religious bodies and others that support the work of education in Wales. However, one issue of concern is the current arrangements, which might change in the future, regarding the funding of capital projects for schools of a religious character. I understand that, under your proposals, the funding arrangements might change to reduce the amount that can be funded from the Welsh Government to 50%, whereas currently it can be up to 85%. What impact will that have on the twenty-first century schools programme, particularly in terms of the ability of faith organisations and local authorities to be able to meet the increase in their responsibilities, to be able to fund such projects in the future?

**Darren Millar:** Rwyf yn eich canmol, Weinidog, am eich gwaith gyda chyrff crefyddol ac eraill sy'n cefnogi gwaith addysg yng Nghymru. Fodd bynnag, un mater sy'n peri pryder yw'r trefniadau presennol, a allai newid yn y dyfodol, mewn perthynas ag ariannu prosiectau cyfalaf ar gyfer ysgolion o natur grefyddol. Deallaf, o dan eich cynigion, y gallai'r trefniadau ariannu newid i leihau'r swm y gall Llywodraeth Cymru ei roi i 50%, yn hytrach na'r swm presennol a all fod hyd at 85%. Pa effaith a gaiff hynny ar raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, yn enwedig o ran gallu sefydliadau ffydd ac awdurdodau lleol i ateb eu cyfrifoldebau cynyddol, i allu ariannu prosiectau o'r fath yn y dyfodol?

**Leighton Andrews:** I announced the changes to the twenty-first century schools programme earlier this year. That was after a long period of consultation as to how we could ensure the best value and best use of our capital funds, given that our capital budgets had been so significantly cut back by the UK Government. I do not envisage there being any particular difficulties with regard to the funding of new faith schools, but if the Member has any examples where he thinks problems might arise, I invite him to write to me.

**Leighton Andrews:** Cyhoeddais y newidiadau i raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain yn gynharach eleni, a hynny yn dilyn cyfnod hir o ymgynghori ar sut y gallem sicrhau gwerth gorau ein cronfeydd cyfalaf a'r defnydd gorau ohonynt, o gofio bod ein cyllidebau cyfalaf wedi cael eu torri'n sylweddol gan Lywodraeth y DU. Nid wyf yn rhagweld unrhyw anawsterau penodol o ran ariannu ysgolion ffydd newydd, ond os oes gan yr Aelod unrhyw enghreifftiau lle mae'n credu y gallai problemau godi, rwyf yn ei wahodd i ysgrifennu ataf.

**The Presiding Officer:** Angela Burns is not present, therefore question 3, OAQ(4)0184(ESK), will not be asked.

**Y Llywydd:** Nid yw Angela Burns yn bresennol, felly ni chaiff cwestiwn 3, OAQ (4)0184(ESK), ei ofyn.

**Safonau Llythrennedd a Rhifedd**

**Standards of Literacy and Numeracy**

***4. Joyce Watson:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i godi safonau*

***4. Joyce Watson**: Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to raise standards of literacy and*

*llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion. OAQ(4)0187(ESK)*

*numeracy in schools. OAQ(4)0187(ESK)*

**Leighton Andrews:** I have set out a comprehensive national programme to ensure that significant improvements in standards of literacy and numeracy are achieved in schools across Wales. There will be significant support to teachers and learners to deliver these programmes.

**Leighton Andrews:** Rwyf wedi llunio rhaglen genedlaethol gynhwysfawr i sicrhau gwelliannau sylweddol o ran safonau llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion ledled Cymru. Caiff athrawon a dysgwyr gymorth sylweddol i gyflwyno'r rhaglenni hyn.

**Joyce Watson:** I know that you have an ambitious scheme for school improvement and I look forward to reviewing the outcome of the literacy and numeracy framework consultation, which comes to an end next week. However, some of us will recall from English literature the best laid schemes of mice and men. The key to success will be to work with the teaching profession to ensure that the plans are deliverable. Therefore, can you assure me that there will be adequate training and support for teachers to deliver that new framework and that any additional workload will be built in?

**Joyce Watson:** Gwn fod gennych gynllun uchelgeisiol ar gyfer gwella ysgolion ac edrychaf ymlaen at adolygu canlyniad yr ymgynghoriad ar y fframwaith llythrennedd a rhifedd, a ddaw i ben yr wythnos nesaf. Fodd bynnag, gall y cynlluniau gorau fynd o chwith. Yr allwedd i lwyddiant fydd gweithio gyda'r proffesiwn addysgu i sicrhau bod y cynlluniau yn gyflawnadwy. Felly, a allwch roi sicrwydd i mi y caiff athrawon hyfforddiant a chymorth digonol i gyflawni'r fframwaith newydd hwnnw ac y caiff unrhyw lwyth gwaith ychwanegol ei gynnwys?

**Leighton Andrews:** Yes, we are ensuring that there is support in place for teachers to implement the new measures: the focus has been very strongly on the implementation of this. We know that the vast majority of schools already use a wide range of tests to screen or assess the progress of learners and we are seeking to ensure that we have consistency across Wales. We are putting in place a national support programme to ensure that all teachers and learning support assistants are able to implement the requirements of the literacy and numeracy framework. There will be additional resources available and there will be support through this process.

**Leighton Andrews:** Gallaf, rydym yn sicrhau bod cymorth ar gael i athrawon weithredu'r mesurau newydd: bu ffocws cryf iawn ar hyn. Gwyddom fod mwyafrif helaeth yr ysgolion eisoes yn defnyddio ystod eang o brofion i sgrinio neu asesu cynnydd dysgwyr ac rydym yn ceisio sicrhau cysondeb ledled Cymru. Rydym yn sefydlu rhaglen gymorth genedlaethol i sicrhau y gall pob athro a chynorthwyydd dysgu fodloni gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd. Bydd adnoddau ychwanegol ar gael yn ogystal â chymorth drwy'r broses hon.

**William Graham:** The Leitch report recommends that the United Kingdom should aim to be a world leader on skills by 2020. It suggests that, in order to do so, 95% of adults should have achieved the basic skills of functional literacy and numeracy. Minister, how will you encourage new national numeracy programmes to succeed where previous ones have not been so successful?

**William Graham:** Mae adroddiad Leitch yn argymell y dylai'r Deyrnas Unedig anelu at fod ar flaen y gad o ran sgiliau ledled y byd erbyn 2020. Mae'n awgrymu, er mwyn gwneud hynny, y dylai 95% o oedolion fod wedi meithrin sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol. Weinidog, sut y byddwch yn sicrhau bod rhaglenni rhifedd cenedlaethol newydd yn llwyddo lle nad yw rhai blaenorol wedi gwneud cystal?

**Leighton Andrews:** We have invested

**Leighton Andrews:** Rydym wedi

significantly in the development of the national numeracy programme. As my colleague, the Member for Mid and West Wales just said, we are consulting on the literacy and numeracy framework, and that consultation concludes shortly. For the first time, we are introducing reading and numeracy tests for all in years two through to nine. That will enable teachers to understand precisely where their students are. The literacy and numeracy framework will set down the standards that we would expect people to have at the end of each year.

buddsoddi'n sylweddol yn natblygiad y rhaglen rhifedd genedlaethol. Fel y soniodd fy nghyd-aelod, yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, rydym yn ymgynghori ar y fframwaith llythrennedd a rhifedd, a bydd yr ymgynghoriad hwnnw'n dod i ben yn fuan. Am y tro cyntaf, rydym yn cyflwyno profion darllen a rhifedd i bawb o flwyddyn dau hyd at flwyddyn naw. Bydd hynny'n galluogi athrawon i nodi union lefel eu myfyrwyr. Bydd y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn gosod y safonau y byddem yn disgwyl i bobl eu cyrraedd ar ddiwedd pob blwyddyn.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae llythrennedd a rhifedd, wrth reswm, yn eithriadol o bwysig i ddisgyblion ag anghenion arbennig wrth geisio sicrhau eu bod yn cyrraedd eu potensial addysgol llawn. Rwyf wedi codi'r pwnc o ddyslecsia gyda chi yn y gorffennol a'r gwaith sy'n cael ei wneud i baratoi deunyddiau yn y Gymraeg. A ydych chi'n cytuno y dylai'r gwaith hwn gael ei osod mewn rhyw sefydliad addysg uwch, er mwyn ei wneud yn broffesiynol, yn hytrach na'n bod yn dibynnu ar unigolion a chymdeithas wirfoddol i wneud hynny?

**Rhodri Glyn Thomas:** Literacy and numeracy are naturally exceptionally important to pupils with special needs in endeavouring to ensure that they reach their full educational potential. I have raised the subject of dyslexia with you in the past and the work that is being done to prepare materials through the medium of Welsh. Do you agree that this work should be done in some higher education institution, so that it is done professionally, rather than the production of materials being dependant on individuals and a voluntary organisation?

**Leighton Andrews:** Hoffwn ddiolch i Rhodri Glyn sydd wedi codi'r pwynt hwn yn y gorffennol gyda mi. Rwy'n deall y pwynt, ond mae'n amhosibl i mi ddweud bod rhaid i un sefydliad ddatblygu polisïau neu gyfleusterau arbennig. Byddai'n rhaid i ni fynd allan i dendr, wrth gwrs, pe byddem am ddatblygu deunyddiau newydd yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn deall y pwynt ac rydym yn gweithio ar hyn o bryd i ddatblygu pethau newydd i gefnogi addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer pobl â dyslecsia.

**Leighton Andrews:** I would like to thank Rhodri Glyn who has raised this issue with me in the past. I understand the point, but it is impossible for me to say that one institution must take responsibility for developing certain policies or facilities. We would have to go out to tender, of course, if we were to develop new materials in the future. However, we understand the point and we are currently working to develop new materials to support the teaching of pupils with dyslexia through the medium of Welsh.

**Mike Hedges:** Minister, I thank you for launching the numeracy project in my constituency last week. Were you impressed by the level of numeracy shown by the children in the school? Do you agree that it is better to teach numeracy through practical examples, so that children can see the use of it, rather than as a dry academic subject?

**Mike Hedges:** Weinidog, diolch am lansio'r prosiect rhifedd yn fy etholaeth yr wythnos ddiwethaf. A wnaeth lefel y rhifedd a ddangoswyd gan y plant yn yr ysgol greu argraff arnoch? A ydych yn cytuno ei bod yn well addysgu rhifedd drwy enghreifftiau ymarferol, er mwyn i'r plant allu gweld ei ddefnydd, yn hytrach na'i ystyried yn bwnc academaidd sych?

**Leighton Andrews:** I very much enjoyed the visits to Hafod and Ynystawe primary schools last week. We saw very innovative examples of the teaching of numeracy in

**Leighton Andrews:** Mwynheais yr ymweliadau ag ysgol gynradd yr Hafod ac ysgol gynradd Ynystawe yr wythnos ddiwethaf yn fawr. Gwelsom enghreifftiau

those schools. I was very encouraged by the way in which the schools were integrating literacy and numeracy throughout the different subjects that were being taught. That is critical. We want all teachers, whatever their subject—in secondary schools, certainly—to see themselves as teachers of literacy and numeracy. In many of the best schools, that is being done. There is a secondary school in Cardiff that is now revamping its entire first-year programme to ensure that literacy and numeracy are properly developed among all its pupils. We have a very strong literacy and numeracy framework, and I was very encouraged by the way teachers are using that creatively.

arloesol iawn o ddulliau addysgu rhifedd yn yr ysgolion hynny. Cefais fy nghalonogi'n fawr gan y ffordd yr oedd yr ysgolion yn integreiddio llythrennedd a rhifedd i mewn i'r pynciau gwahanol a addysgwyd. Mae hynny'n hollbwysig. Rydym am i bob athro, beth bynnag fo'i bwnc—mewn ysgolion uwchradd, yn sicr—ystyried ei hun yn athro llythrennedd a rhifedd. Mae hynny'n cael ei wneud eisoes mewn llawer o'r ysgolion gorau. Mae ysgol uwchradd yng Nghaerdydd sydd bellach yn ailwampio ei rhaglen blwyddyn gyntaf gyfan er mwyn sicrhau y caiff llythrennedd a rhifedd eu datblygu'n briodol ymysg ei holl ddisgyblion. Mae gennym fframwaith llythrennedd a rhifedd cryf iawn, a chefais fy nghalonogi'n fawr gan y modd creadigol y mae athrawon yn defnyddio'r fframwaith hwnnw.

**Blaenoriaethau**

**Priorities**

***5. Paul Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y deuddeg mis nesaf. OAQ(4)0175(ESK)*

***5. Paul Davies:*** *Will the Minister make a statement on his priorities for the next twelve months. OAQ(4)0175(ESK)*

**Leighton Andrews:** My priorities are set out in the programme for government.

**Leighton Andrews:** Mae fy mlaenoriaethau wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu.

**Paul Davies:** Thank you for that answer, Minister. I understand that one in six school pupils in Wales find the step up between primary school and secondary school difficult, and there is a drastic rise in the number of exclusions in this period. I am sure that tackling this problem is one of the Minister's priorities. Indeed, in 2010-11, fixed-term exclusions between year 6 and year 7 increased by 186%. Can the Minister tell us what the Welsh Government is doing to ease the transition from primary school to secondary school, and to tackle the number of exclusions between year 6 and year 7?

**Paul Davies:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Deallaf fod un o bob chwe disgybl ysgol yng Nghymru yn ei chael hi'n anodd ymdopi wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, ac mae cynnydd sylweddol yn nifer y gwaharddiadau yn ystod y cyfnod hwn. Rwyf yn siŵr bod mynd i'r afael â'r broblem hon yn un o flaenoriaethau'r Gweinidog. Yn wir, yn 2010-11, cynyddodd nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol rhwng blwyddyn 6 a blwyddyn 7 186%. A all y Gweinidog ddweud wrthym beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hwyluso'r cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, ac i fynd i'r afael â nifer y gwaharddiadau rhwng blwyddyn 6 a blwyddyn 7?

**Leighton Andrews:** Over the last decade, we have supported a number of programmes to support transition between primary and secondary school, and best practice has been developed. Estyn has looked at transition arrangements, and that best practice is widely available. I am very encouraged by what I see in a number of areas now around Wales,

**Leighton Andrews:** Dros y degawd diwethaf, rydym wedi cefnogi nifer o raglenni i hwyluso'r cyfnod pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, ac mae arfer gorau wedi ei ddatblygu. Mae Estyn wedi ystyried trefniadau pontio, ac mae'r arfer gorau hwnnw ar gael yn eang. Rwyf wedi cael fy nghalonogi'n fawr gan yr hyn

where secondary schools are working closely with their cluster primary schools to ensure that young people understand the new school environment into which they are moving. I am also encouraged by the way in which some secondary schools—and I have seen this in Newport, Cardiff and other places—are adapting the curriculum and the method of organising classes in the early years of secondary school. Therefore, I think that there is a lot of good practice out there. It is very important, as ever, that that good practice is shared.

rwyf bellach yn ei weld mewn nifer o ardaloedd ledled Cymru, lle mae ysgolion uwchradd yn gweithio'n agos gyda'u hysgolion cynradd clwstwr i sicrhau bod pobl ifanc yn deall yr amgylchedd ysgol newydd y maent yn symud iddo. Rwyf hefyd wedi cael fy nghalonogi gan y ffordd y mae rhai ysgolion—ac rwyf wedi gweld hyn yng Nghasnewydd, Caerdydd a mannau eraill—yn addasu'r cwricwlwm a'r modd y caiff dosbarthiadau eu trefnu yn ystod y blynyddoedd cynnar yn yr ysgol uwchradd. Felly, credaf fod llawer o arfer da yn mynd rhagddo. Mae'n bwysig iawn, bob amser, y caiff arfer da ei rannu.

**Kenneth Skates:** Minister, many studies have shown that access to books, good libraries and the support of specially trained educational librarians can be effective in raising literacy levels in young people, yet there is no legislative requirement for a school to have a library or a librarian on site. What work are you doing to ensure that, in those areas where a school does not have access to a dedicated library service, more creative options, such as shared arrangements or the relocation of a public library facility, are being explored?

**Kenneth Skates:** Weinidog, mae llawer o astudiaethau wedi dangos y gall llyfrau, llyfrgelloedd da a chymorth gan lyfrgellwyr addysgol sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig, fod yn effeithiol o ran gwella lefelau llythrennedd ymhlith pobl ifanc. Serch hynny, nid oes unrhyw ofyniad deddfwriaethol ar ysgolion i gael llyfrgell na llyfrgellydd ar y safle. Pa waith rydych yn ei wneud i sicrhau, yn yr ardaloedd hynny lle nad oes gan ysgol fynediad at wasanaeth llyfrgell penodedig, fod mwy o opsiynau creadigol, megis trefniadau rhannu neu ail-leoli cyfleuster llyfrgell gyhoeddus, yn cael eu harchwilio?

1.45 p.m.

**Leighton Andrews:** There is no question that public libraries can enhance the school experience. In my travels around schools Wales, I find very good use of library facilities in schools and, increasingly, those who have responsibility for maintaining library facilities are also responsible for the maintenance of the new technology that is available in schools as well, whether computers, tablet devices, or whatever. I have not come across a major issue regarding school libraries, but, if the Member has any examples that he would like to share with me of where he thinks there is a problem, I would be happy to hear from him.

**Leighton Andrews:** Nid oes amheuaeth y gall llyfrgelloedd cyhoeddus wella'r profiad ysgol. Wrth deithio o amgylch ysgolion yng Nghymru, rwy'n gweld defnydd da iawn o gyfleusterau llyfrgell mewn ysgolion ac, yn gynyddol, mae'r rheini sy'n gyfrifol am gynnal cyfleusterau llyfrgell hefyd yn gyfrifol am gynnal y dechnoleg newydd sydd ar gael mewn ysgolion yn ogystal, boed hynny'n gyfrifiaduron, dyfeisiau tabled, neu bethau eraill. Nid wyf wedi dod ar draws mater o bwys o ran llyfrgelloedd ysgol, ond, os oes gan yr Aelod unrhyw enghreifftiau yr hoffai eu rhannu â mi o feysydd lle mae problem yn ei farn ef, byddwn yn fwy na pharod i glywed ganddo.

**Simon Thomas:** Weinidog, rydych wedi addo sawl gwaith y bydd y consortia rhanbarthol yn eu lle yn ystod y mis hwn er mwyn cefnogi'r ysgolion hynny sydd ym mandiau 4 a 5. Fodd bynnag, y dystiolaeth ar

**Simon Thomas:** Minister, you have pledged on a number of occasions that the regional consortia will be in place this month to support schools in bands 4 and 5. However, the evidence anecdotally and at grass-roots

lafar ac ar lawr gwlad yw nad yw'r consortia hyn wedi eu ffurfio'n llawn eto a bod eu gweithgaredd yn gymysg, a dweud y lleiaf. Byddai Plaid Cymru yn sicrhau bod cefnogaeth ar gyfer ysgolion ym mandiau 4 a 5. Beth a ydych yn ei wneud ar hyn o bryd i sicrhau bod hyn yn digwydd?

level is that these consortia are not fully formed as of yet and that their activity is mixed to say the least. Plaid Cymru would ensure that there would be support for schools in bands 4 and 5. What are you doing at present to ensure that this happens?

**Leighton Andrews:** We have made available additional funding, of course, for schools in bands 4 and 5, which I announced earlier this year. That funding is in place. We are also ensuring that every school in band 4 or 5 has an action plan to develop whatever is necessary for it to turn its performance around. In respect of the regional consortia, I am satisfied with the progress that has been made by three of them—they were, in fact, up and running last month, not this month—and there is one, that for north Wales, where I still have concerns about whether the local authorities in that consortium have sufficiently supported the consortium's development. At the end of the day, the regional consortia are consortia of local authorities. Either the Member wants me to run education centrally, or he wants local authorities to run it through consortia, in which case, they are responsible for the pace at which they develop.

**Leighton Andrews:** Rydym wedi neilltuo arian ychwanegol, wrth gwrs, ar gyfer ysgolion ym mandiau 4 a 5, a gyhoeddais yn gynharach eleni. Mae'r arian hwnnw wedi'i ddyrannu. Rydym hefyd yn sicrhau bod gan bob ysgol ym mand 4 neu 5 gynllun gweithredu i ddatblygu beth bynnag sydd ei angen er mwyn iddo droi'r drol o ran ei berfformiad. O ran y consortia rhanbarthol, rwy'n fodlon ar y cynnydd a wnaed gan dri ohonynt-a oedd, mewn gwirionedd, ar waith y mis diwethaf, ac nid y mis hwn-ac mae gennyf bryderon o hyd ynghylch un ohonynt, sef yr un ar gyfer gogledd Cymru, nad yw'r awdurdodau lleol yn y consortiwm hwnnw wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r consortiwm yn ddigonol. Ar ddiwedd y dydd, consortia o lywodraeth leol yw consortia rhanbarthol. Un ai mae'r Aelod am imi redeg addysg yn ganolog, neu mae am i awdurdodau lleol ei rhedeg drwy gonsortia, ac os felly, nhw sy'n gyfrifol am y cyflymder y maent yn datblygu.

**Simon Thomas:** Byddai sawl un yn tybio eich bod chi am redeg addysg yn ganolog. Boed hynny fel y bo, rydych wedi cydnabod bod diffyg ar hyn o bryd gyda'r holl gonsortia yn paratoi yn ôl yr amserlen yr oeddech wedi ei gosod iddynt. Felly, pa gamau a ydych yn mynd i'w cymryd yn awr, gan fod y consortia yn cael eu gweld yn allweddol i sicrhau safonau gwell yn ein hysgolion?

**Simon Thomas:** Many would think that you want to run education centrally. Be that as it may, you have acknowledged that there is a problem for all of the consortia at the moment with regard to meeting the timetable that you have set out for them. So, what steps are you now going to take, because the consortia are seen as being crucial to ensuring improved standards in our schools?

**Leighton Andrews:** Three of the consortia are working pretty well in respect of what they are doing on school improvement. I do not think that they are perfect in what they are doing, but there have been very significant developments in three of them, as I said. In the fourth, there has also been progress, although it has been far slower than I would have liked. At the end of the day, these are consortia of local authorities. If the consortia or the local authorities are failing to deliver, then it is clear that further action will

**Leighton Andrews:** Mae tri o'r consortia yn gweithio'n eithaf da o ran yr hyn y maent yn ei wneud i wella ysgolion. Nid wyf yn credu eu bod yn gweithredu'n berffaith, ond mae datblygiadau sylweddol iawn wedi bod mewn tri ohonynt, er bod hynny wedi bod yn llawer arafach nag y byddwn wedi ei ddymuno. Ar ddiwedd y dydd, consortia o awdurdodau lleol yw'r rhain. Os yw'r consortia neu'r awdurdodau lleol yn

have to be taken by the Welsh Government.

methu â chyflawni, yna mae'n amlwg y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau pellach.

**William Powell:** Minister, I have recently received concerns regarding the priority that is currently being given to education for sustainable development and global citizenship in our schools. Since plans were brought forward to integrate its agenda into the wider curriculum, I am told that there is increasing concern within the Welsh education sector that the values have been sidelined in the competing priorities within the curriculum. Minister, will you confirm the importance of the effectiveness of sustainable development teaching in our schools and outline how you believe it should be prioritised?

**William Powell:** Weinidog, cefais bryderon yn ddiweddar ynghylch y flaenoriaeth sy'n cael ei rhoi ar hyn o bryd i addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn ein hysgolion. Gan fod cynlluniau wedi'u cyflwyno'n gynt i integreiddio ei agenda i mewn i'r cwricwlwm ehangach, rwyf ar ddeall bod pryder cynyddol o fewn y sector addysg yng Nghymru fod y gwerthoedd wedi cael eu gwthio i'r neilltu yn sgil y blaenoriaethau croes o fewn y cwricwlwm. Weinidog, a fyddech cystal â chadarnhau effeithiolrwydd addysgu datblygu cynaliadwy yn ein hysgolion ac amlinellu sut y credwch y dylid ei blaenoriaethu?

**Leighton Andrews:** I believe that sustainable development and global citizenship remain important and I see no evidence that that has changed.

**Leighton Andrews:** Credaf fod datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn bwysig o hyd ac ni welaf unrhyw dystiolaeth i ddangos bod hynny wedi newid.

### Blaenoriaethau

### Priorities

***6. Elin Jones:*** *Beth yw blaenoriaethau eich adran ar gyfer y chwe mis nesaf. OAQ(4)0178(ESK)*

***6. Elin Jones:*** *What are your department's priorities for the next six months. OAQ(4)0178(ESK)*

**Leighton Andrews:** Mae blaenoriaethau'r adran wedi eu nodi yn y rhaglen lywodraethu.

**Leighton Andrews:** The priorities for the department are set out in the programme for government.

**Elin Jones:** Ar hyn o bryd, mae prinder o ddoctoriaid iau o dan hyfforddiant mewn rhai ysbytai yng Nghymru. Er enghraifft, dau allan o'r chwech lle gafodd eu llenwi ym Mronglais ar y cynllun i hyfforddi meddygon teuluol. A ydych yn credu ei fod yn bryd i greu cynllun myfyrwyr meddygol gyda chymhelliad ariannol, o bosibl, i sicrhau i'r dyfodol fod cyflenwad digonol o ddoctoriaid iau?

**Elin Jones:** At present, there is a shortage of young doctors in training in certain hospitals in Wales. For example, two out of the six places in Bronglais for the GP training scheme were filled. Do you think that it is now time to create a medical student scheme with a financial incentive, perhaps, to ensure that there is an adequate supply of young doctors for the future?

**Leighton Andrews:** The Minister for Health and Social Services and I have discussed the issue of medical education on a number of occasions. If we thought that this issue could be tackled simply through the process of medical education in Wales, then we would make the changes that are required. I am

**Leighton Andrews:** Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau wedi trafod addysg feddygol ar sawl achlysur. Pe byddem yn credu y gellid mynd i'r afael â'r mater hwn drwy'r broses addysg feddygol yng Nghymru yn unig, yna byddem yn gwneud y newidiadau sydd eu hangen.

certainly open, however, to any ideas that the Member or any other Members may have where they think that these may reinforce our ability to retain doctors through the medical education system in Wales.

Fodd bynnag, rwyf yn sicr yn croesawu unrhyw syniadau a all fod gan yr Aelod neu unrhyw Aelodau eraill lle y credant y gall y rhain atgyfnerthu ein gallu i gadw meddygon drwy'r system addysg feddygol yng Nghymru.

**Mick Antoniw:** Minister, with regard to the twenty-first century schools programme, which is one of the Government's priorities, will you issue a statement in the near future to set out for local authorities when the funding stream may become available in order to enable them to progress with various projects that have been approved?

**Mick Antoniw:** Weinidog, o ran rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, sy'n un o flaenoriaethau'r Llywodraeth, a wnewch chi gyhoeddi datganiad yn y dyfodol agos i amlinellu ar gyfer awdurdodau lleol pryd y gall y ffrwd ariannu fod ar gael i'w galluogi i fynd ar drywydd amrywiol brosiectau a gymeradwywyd?

**Leighton Andrews:** As the Member may be aware, we announced more funding for projects just in the last day, and I am very pleased that we have been able to do that. My officials continue to have discussions with local authorities. In some cases, we are still awaiting information from the relevant local authority, but I am happy that we have secured additional capital moneys, which will enable us to accelerate capital projects in the next financial year. For example, within the Rhondda Cynon Taf local authority area, the secondary school reorganisation in Aberdare will be supported.

**Leighton Andrews:** Fel y gŵyr yr Aelod o bosibl, gwnaethom gyhoeddi mwy o gyllid ar gyfer prosiectau yn ystod y diwrnod diwethaf, ac rwy'n falch iawn ein bod wedi gallu gwneud hynny. Mae fy swyddogion yn parhau i drafod gydag awdurdodau lleol. Mewn rhai achosion, rydym yn dal i aros am wybodaeth gan yr awdurdod lleol perthnasol, ond rwyf yn hapus ein bod wedi sicrhau arian cyfalaf ychwanegol, a fydd yn ein galluogi i gyflymu prosiectau cyfalaf yn y flwyddyn ariannol nesaf. Er enghraifft, o fewn ardal awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf, caiff y gwaith o ad-drefnu ysgolion uwchradd yn Aberdâr ei gefnogi.

**Suzy Davies:** Minister, one of your welcome priorities is the wider promotion of the use of the Welsh language. Do you agree that fostering skills in another modern foreign language at an early age could help to improve literacy, fluency and confidence in Wales's two native languages?

**Suzy Davies:** Weinidog, un o'ch blaenoriaethau i'w groesawu yw hyrwyddo'r Gymraeg yn ehangach. A ydych yn cytuno y gallai meithrin sgiliau mewn iaith dramor fodern arall o oedran cynnar helpu i wella llythrennedd, rhuglder a hyder yn nwy iaith frodorol Cymru?

**Leighton Andrews:** I do not know, to be honest with you. I watched with interest a number of people over the summer, including the Member, suggesting that we should move to three languages being supported at primary school. The question I always have is, 'We are going to have English and Welsh, so which is the third language that Members want us to support through education in Wales?' No-one, I think, has really answered that question, because it could be a modern European language, it could be a language of the Indian sub-continent or it could be Mandarin. We need to have an honest debate about this issue and about the resources that

**Leighton Andrews:** Wn i ddim, a dweud y gwir. Gwelais nifer o bobl dros yr haf, gan gynnwys yr Aelod, yn awgrymu y dylem newid i gefnogi tair iaith yn yr ysgol gynradd. Y cwestiwn rwy'n ei gofyn bob amser yw, 'Bydd gennym y Gymraeg a'r Saesneg, felly beth yw'r drydedd iaith y mae Aelodau am inni ei chefnogi drwy addysg yng Nghymru?' Ni chredaf fod neb wedi ateb y cwestiwn hwnnw mewn gwirionedd, oherwydd gallai fod yn iaith Ewropeaidd fodern, gallai fod yn iaith o is-gyfandir India neu gallai fod yn Mandarin. Mae angen inni gael dadl onest am y mater hwn ac am yr adnoddau y byddai eu hangen i hyfforddi

would be required in terms of training teachers and the likely length of time that it would take to roll out such a plan. I thought that there was a lot of hot air spoken on the subject over the summer.

athrawon a'r amser y byddai'n ei gymryd i gyflwyno cynllun o'r fath. Roeddwn i'n meddwl bod llawer o falu awyr ynghylch y mater hwn dros yr haf.

**Aled Roberts:** Weinidog, yn dilyn yr anghydfod gydag Ofqual yn ystod y chwe mis diwethaf, a oes rhaid i'ch adran flaenoriaethu'r gyfundrefn graddio TGAU yn ystod y chwe mis nesaf? A oes posibilrwydd bod angen gwneud rhyw fath o gytundeb yn dilyn yr adroddiad a gyhoeddwyd ar y pryd?

**Aled Roberts:** Minister, following the dispute with Ofqual over the past six months, does your department need to prioritise the GCSE grading system over the next six months? Is there a possibility that you could come to some kind of agreement following the report that was published at the time?

**Leighton Andrews:** We continue to have conversations with Ofqual about a number of matters, including the grading of GCSEs and A-levels for the year ahead and for years beyond that. As the Member is aware, a qualifications review is under way. That will report to us towards the end of November and will enable us to take further decisions.

**Leighton Andrews:** Rydym yn parhau i gael trafodaethau ag Ofqual ar nifer o faterion, gan gynnwys graddio TGAU a Safon Uwch ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ac ar gyfer blynyddoedd y tu hwnt i hynny. Fel y mae'r Aelod yn ymwybodol, mae adolygiad o gymwysterau ar waith. Cawn adroddiad ar yr adolygiad hwnnw tua diwedd mis Tachwedd a bydd yn ein galluogi i wneud penderfyniadau pellach.

**Aled Roberts:** A oes gennych unrhyw bryderon? Rwyf yn cydnabod bod datganiad ysgrifenedig wedi ei wneud yr wythnos hon ynghylch newid y system asesu a'r cwricwlwm yng Nghymru, ond ni fydd hynny'n weithredol tan 2014. Os nad yw'n bosibl i chi gael cytundeb gydag Ofqual, beth yw eich bwriad fel Gweinidog?

**Aled Roberts:** Do you have any concerns? I accept that a written statement was issued this week regarding changing the assessment and curriculum system in Wales, but that will not be implemented until 2014. If it is not possible for you to come to an agreement with Ofqual, what is your intention as Minister?

**Leighton Andrews:** Well, I will cross that bridge when I come to it.

**Leighton Andrews:** Popeth yn ei dro.

### Cynllun Brecwast am Ddim

### Free School Breakfasts

***7. Sandy Mewies:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun brecwast am ddim mewn ysgolion yng Nghymru. OAQ(4)0182(ESK)*

***7. Sandy Mewies:*** *Will the Minister give an update on the free school breakfasts scheme in Wales. OAQ(4)0182(ESK)*

**Leighton Andrews:** More than 76% of primary schools currently participate in the scheme, providing pupils with the opportunity to have a good start to the school day. The 2012 school census showed that, in the week prior to census week, 35.6% of pupils at participating schools took at least one free breakfast.

**Leighton Andrews:** Ar hyn o bryd, mae mwy na 76% o ysgolion cynradd yn cymryd rhan yn y cynllun, gan roi'r cyfle i ddisgyblion gael dechrau da i'r diwrnod ysgol. Dangosodd cyfrifiad ysgolion 2012 fod 35.6% o'r disgyblion yn yr ysgolion a oedd yn cymryd rhan wedi cael o leiaf un brecwast am ddim yn ystod yr wythnos cyn wythnos y cyfrifiad.

**Sandy Mewies:** Thank you for that, Minister.

**Sandy Mewies:** Diolch ichi am hynny,

Everyone involved in education acknowledges that children who are hungry find it difficult to concentrate, and that is one of the reasons why free school breakfasts, which this Welsh Labour Government has pioneered, have been such a success. In spite of that, the UK coalition Government refuses to follow Wales's lead in England, despite calls from health and education experts to do so. Minister, could you give assurances that this successful initiative will continue to play an important part in addressing the impact of child poverty on education in Wales, as we continue our drive to build a fairer society?

Weinidog. Mae pawb sy'n ymwneud ag addysg yn cydnabod bod plant sy'n newynog yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio, ac mae hynny'n un o'r rhesymau pam bod brecwast ysgol am ddim, a arloeswyd gan y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru, wedi bod yn gymaint o lwyddiant. Serch hynny, mae Llywodraeth glymblaid y DU yn gwrthod dilyn camre Cymru yn Lloegr, er gwaethaf galwadau gan arbenigwyr ym maes iechyd ac addysg i wneud hynny. Weinidog, a allech roi sicrwydd y bydd y fenter lwyddiannus hon yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael ag effaith tlodi plant ar addysg yng Nghymru, wrth inni barhau â'n hymgyrch i adeiladu cymdeithas decach?

**Leighton Andrews:** I am very happy to give that assurance. We are committed to the free breakfast scheme, and the draft budget includes funding for that. We are, of course, looking to ensure that we support that through local authorities as we move ahead. The Member is quite right to draw the contrast between what we are doing in Wales and what is being done elsewhere. Of course, there is one party in Wales that does not support the free breakfast programme in any case.

**Leighton Andrews:** Rwyf yn hapus i roi'r sicrwydd hwnnw. Rydym yn ymrwymedig i'r cynllun brecwast am ddim, ac mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys cyllid ar gyfer hynny. Rydym, wrth gwrs, yn awyddus i sicrhau ein bod yn cefnogi hynny drwy awdurdodau lleol wrth inni symud ymlaen. Mae'r Aelod yn gwbl gywir i gyferbynnu'r hyn rydym yn ei wneud yng Nghymru a'r hyn sy'n cael ei wneud mewn mannau eraill. Wrth gwrs, mae un blaid yng Nghymru nad yw'n cefnogi'r rhaglen brecwast am ddim o gwbl.

**Darren Millar:** Minister, you will know that there is absolutely no evidence of an improvement in educational attainment as a result of your free breakfast scheme. You will also know of my party's position on this, which is that parents, not teachers, should give their children breakfast. Do you not think that the £15 million you have in your budget for 2013-14 that is allocated to this particular programme would be better spent on books, classrooms and teaching staff?

**Darren Millar:** Weinidog, byddwch yn ymwybodol nad oes unrhyw dystiolaeth o gwbl o welliant mewn cyrhaeddiad addysgol yn sgil eich cynllun brecwast am ddim. Byddwch hefyd yn ymwybodol o sefyllfa fy mhlaid o ran hyn, sef mai rhieni, nid athrawon, ddylai roi brecwast i'w plant. Onid ydych yn credu y byddai'n well gwario'r £15 miliwn sydd gennych yn eich cyllideb ar gyfer 2013-14 a gaiff ei ddyrannu i'r rhaglen benodol hon ar lyfrau, ystafelloedd dosbarth a staff addysgu?

**Leighton Andrews:** No.

**Leighton Andrews:** Na.

**The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood):** Minister, reducing the impact of poverty on educational attainment is the third national priority for education. As well as supporting the free breakfast scheme, Plaid Cymru would use schools as community assets so that their resources could be used to benefit children and families living in poverty. Given last week's announcement of

**Mae Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood):** Weinidog, lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol yw'r drydedd flaenoriaeth genedlaethol ar gyfer addysg. Yn ogystal â chefnogi'r cynllun brecwast am ddim, byddai Plaid Cymru yn defnyddio ysgolion fel asedau cymunedol fel y gellid defnyddio eu hadnoddau er budd plant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi. Yn sgil

a national numeracy strategy and the launch of the literacy strategy last year, do you have any plans to develop a strategy for the third national priority for education, which is reducing the impact of poverty on educational attainment over the next 12 months?

cyflwyno strategaeth rhifedd genedlaethol yr wythnos ddiwethaf a lansio'r strategaeth llythrennedd y llynedd, a oes gennych unrhyw gynlluniau i ddatblygu strategaeth ar gyfer y drydedd flaenoriaeth genedlaethol ar gyfer addysg, sef lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol dros y 12 mis nesaf?

**Leighton Andrews:** We have already started to implement our work in that area. I have not developed a strategy for literacy or numeracy; we have developed a national literacy programme and a national numeracy programme. These are practical steps that we have outlined to take these things forward. We have put in additional funding as result of the budget settlement last year through the pupil deprivation grant to ensure that schools have resources to enable them to develop work to tackle the impact of poverty on poor attainment, and I have seen very good examples of ways in which schools have worked to address that challenge not only within the school environment but with families. I saw some of those when I was with my colleague in Swansea East last week. There is a lot of very good work going on on the ground. We have developed very clearly the guidance around the pupil deprivation grant, which explains fully how local authorities and schools can take this work forward.

**Leighton Andrews:** Rydym eisoes wedi dechrau ar ein gwaith yn y maes hwn. Nid wyf wedi datblygu strategaeth ar gyfer llythrennedd na rhifedd; rydym wedi datblygu rhaglen llythrennedd genedlaethol a rhaglen rhifedd genedlaethol. Mae'r rhain yn gamau ymarferol rydym wedi'u hamlinellu i fynd ar drywydd y pethau hyn. Rydym wedi rhoi cyllid ychwanegol o ganlyniad i setliad cyllideb y llynedd drwy'r grant amddifadedd disgyblion er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cael adnoddau i'w galluogi i ddatblygu gwaith i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad gwael, ac rwyf wedi gweld enghreifftiau da iawn o ffyrdd y mae ysgolion wedi gweithio i fynd i'r afael â'r her honno, nid yn unig o fewn amgylchedd yr ysgol, ond gyda theuluoedd. Gwelais rai o'r rheiny tra'n ymweld â Dwyrain Abertawe gyda fy nghyd-aelod yr wythnos ddiwethaf. Mae llawer o waith da iawn yn digwydd ar lawr gwlad. Rydym wedi datblygu canllawiau clir iawn yn seiliedig ar y grant amddifadedd disgyblion, sy'n egluro'n llawn sut y gall awdurdodau lleol ac ysgolion ddatblygu'r gwaith hwn.

**Julie Morgan:** Now that the plan is for the budget for free school breakfasts to be transferred to local authorities—I believe that the Minister said in an earlier report that 76% of schools are now participating—is there anything else that can be done to encourage those last few schools that are not participating to join in, given that we all know what a huge benefit the breakfast scheme is?

**Julie Morgan:** Gan mai'r bwriad nawr yw trosglwyddo'r gyllideb ar gyfer brecwast ysgol am ddim i awdurdodau lleol—credaf fod y Gweinidog wedi dweud mewn adroddiad cynharach fod 76% o ysgolion bellach yn cymryd rhan—a oes unrhyw beth arall y gellir ei wneud i annog yr ychydig ysgolion hynny sy'n weddill nad ydynt yn cymryd rhan i ymuno â'r cynllun brecwast, o ystyried ein bod i gyd yn ymwybodol o'i fantais enfawr?

**Leighton Andrews:** Over the period the scheme has operated, we have obviously sought to encourage local authorities to participate, and we have sought to encourage more schools to take part in it as well. We will continue to promote the benefits of the scheme. We believe in this scheme, as my colleague the Member for Cardiff North has

**Leighton Andrews:** Yn ystod y cyfnod y bu'r cynllun ar waith, rydym yn amlwg wedi ceisio annog awdurdodau lleol i gymryd rhan, ac rydym wedi ceisio annog mwy o ysgolion i gymryd rhan hefyd. Byddwn yn parhau i hyrwyddo manteision y cynllun. Rydym yn credu yn y cynllun hwn, fel y dywedodd fy nghyd-aelod, yr Aelod dros

said. It is important that we all spell that out to the people of Wales, including through the media, which is not always supportive of this scheme and which has sometimes tried to undermine it through the intemperate comments some interviewers have made about it in the past. It is also very important that we stand up against those who do not support the scheme—the 'cereal killers' on the benches opposite.

Ogledd Caerdydd. Mae'n bwysig ein bod i gyd yn gwneud hynny'n amlwg i bobl Cymru, gan gynnwys drwy'r cyfryngau, nad yw bob amser yn gefnogol o'r cynllun hwn ac sydd wedi ceisio ei danseilio weithiau drwy'r sylwadau eithafol y mae rhai cyfwelwyr wedi'u gwneud yn ei gylch yn y gorffennol. Mae hefyd yn bwysig iawn ein bod yn sefyll i fyny yn erbyn y rheiny ar y meinciau gyferbyn nad ydynt yn cefnogi'r cynllun.

**Cynllun Bandio**

**Banding Scheme**

***8. Lindsay Whittle:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith graddau TGAU Saesneg eleni ar gynllun bandio Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru. OAQ(4)0168(ESK)*

***8. Lindsay Whittle:*** *Will the Minister make a statement on the impact of this year's English GCSE grading on the Welsh Government's banding scheme for Welsh secondary schools. OAQ(4)0168(ESK)*

**Leighton Andrews:** This year's secondary school banding calculation will include the regraded GCSE English language information from WJEC. Results are scheduled to be published in the week commencing 10 December, a week later than last year due to the additional time required for regrading.

**Leighton Andrews:** Bydd y broses o gyfrifo bandiau ysgolion uwchradd eleni yn cynnwys gwybodaeth gan CBAC am y canlyniadau Saesneg iaith TGAU a ailraddiwyd. Disgwylir i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 10 Rhagfyr, wythnos yn ddiweddarach na'r llynedd oherwydd yr amser ychwanegol yr oedd ei angen ar gyfer ailraddio.

**Lindsay Whittle:** Have you had any discussions with your counterparts in other countries about the decision to regrade one of the key denominators of school banding? How confident are you now in the school banding system? What steps are you taking to ensure that Welsh qualifications are relevant and valuable to our young people, wherever in the world they choose to work and study?

**Lindsay Whittle:** A ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'ch cymheiriaid mewn gwledydd eraill ynghylch y penderfyniad i ailraddio un o elfennau allweddol y broses o fandio ysgolion? Pa mor hyderus ydych bellach yn y system bandio ysgolion? Pa gamau rydych yn eu cymryd i sicrhau bod cymwysterau yng Nghymru yn berthnasol ac yn werthfawr i'n pobl ifanc, lle bynnag yn y byd y byddant yn dewis gweithio ac astudio?

**Leighton Andrews:** I have had discussions with my colleague the Minister for Education in Northern Ireland, John O'Dowd, about the whole issue of regrading. I have had a letter from the Secretary of State for Education in England, who has said that he does not think that a meeting would be appropriate to discuss regrading, among other matters. So, I can give the Member a half-confirmation of an answer there. What we are seeking to do here, obviously, is attend to what was very clearly an injustice. However, the wider qualifications review, which will be published in November, will give us the

**Leighton Andrews:** Rwyf wedi cael trafodaethau gyda fy nghyd-aelod, y Gweinidog dros Addysg yng Ngogledd Iwerddon, John O'Dowd, ynglŷn ag ailraddio. Rwyf wedi cael llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn Lloegr, sydd wedi dweud nad yw'n credu y byddai cyfarfod yn briodol i drafod ailraddio, ymhlith pethau eraill. Felly, gallaf roi cadarnhad rhannol i'r Aelod o ran ateb. Yr hyn rydym yn ceisio ei wneud yma, yn amlwg, yw mynd i'r afael â'r hyn a oedd yn anghyfiawnder clir. Fodd bynnag, bydd yr adolygiad ehangach o gymwysterau, a gaiff

opportunity to look at other models for the development of qualifications in Wales, alongside the existing system of GCSEs and A-levels.

ei gyhoeddi ym mis Tachwedd, yn rhoi'r cyfle inni edrych ar fodelau eraill ar gyfer datblygu cymwysterau yng Nghymru, ochr yn ochr â'r system bresennol o gymwysterau TGAU a Safon Uwch.

2.00 p.m.

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** The important thing about qualifications is that they be robust and that people recognise them as such. Do you not recognise that the decision that you took had the potential to damage the Welsh Joint Education Committee brand, especially as it has such a large footprint in England? Have you had discussions with the WJEC to find out whether it has picked up any hesitation from schools across the border in accepting its qualifications next year and beyond?

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew RT Davies):** Y peth pwysig am gymwysterau yw eu bod yn gadarn a bod pobl yn eu cydnabod fel y cyfryw. Onid ydych yn cydnabod y gallai'r penderfyniad a wnaed gennych niweidio brand Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, yn enwedig gan fod ganddo ôl-troed mor fawr yn Lloegr? A ydych wedi cael trafodaethau gyda CBAC i ganfod a yw wedi nodi unrhyw betruster ymysg ysgolion dros y ffin ynghylch derbyn ei gymwysterau y flwyddyn nesaf a thu hwnt?

**Leighton Andrews:** I wrote to the chair of the WJEC last week, as I said in the Chamber, to ask the WJEC board to consider a number of issues that arose from the review of the market for qualifications, which reported to me earlier this year and which I published to Assembly Members before the summer recess. In respect of the standard of qualifications, I note with great interest that the Conservative Chair of the House of Commons select committee said yesterday that Michael Gove should

'stop taking the urgency pills'.

**Leighton Andrews:** Fel y dywedais yn y Siambr, ysgrifennais at gadeirydd CBAC yr wythnos diwethaf i ofyn i fwrdd CBAC ystyried nifer o faterion a ddeilliodd o'r adolygiad o'r farchnad gymwysterau, y cefais adroddiad arno yn gynharach eleni ac a gyhoeddais i Aelodau'r Cynulliad cyn toriad yr haf. O ran safon y cymwysterau, nodaf â chryn ddiddordeb fod Cadeirydd Ceidwadol pwyllgor dethol Tŷ'r Cyffredin wedi dweud ddoe y dylai Michael Gove

bwyllo.

### Ad-drefnu Addysg Uwch

### The Reconfiguration of Higher Education

***9. David Rees:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ad-drefnu Addysg Uwch yng Nghymru fel y nodwyd yn ei bapur gwyn ar gyfer Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru). OAQ(4)0183(ESK)*

***9. David Rees:*** *Will the Minister provide an update on the reconfiguration of Higher Education within Wales as identified in his white paper for the Further and Higher Education (Wales) Bill. OAQ(4)0183(ESK)*

**Leighton Andrews:** We are making good progress towards delivering our commitment to a smaller number of stronger universities, which are more sustainable and better equipped to meet the needs of learners and the Welsh economy. I have issued a written statement today on reconfiguration in south-east Wales.

**Leighton Andrews:** Rydym yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni ein hymrwymiad i nifer llai o brifysgolion cryfach, sy'n fwy cynaliadwy ac yn fwy parod i ddiwallu anghenion dysgwyr a'r economi yng Nghymru. Rwyf wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig heddiw ar ail-gyflunio yn ne-ddwyrain Cymru.

**David Rees:** Thank you for that answer, Minister, and for the statement, which definitely answered my original question.

**David Rees:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog, ac am y datganiad, sy'n bendant wedi ateb fy nghwestiwn gwreiddiol. Gan

Moving on, the White Paper also talks about governance, and highlighted that a modern and effective system of governance is central to driving improvement. The White Paper then talked about looking at governance issues and the McCormick report after reconfiguration had settled. Will you revisit that, so that governance could also be included in the White Paper to look at how it all fits together, so that we get the best quality higher education system in Wales?

symud ymlaen, mae'r Papur Gwyn hefyd yn sôn am lywodraethu, ac yn amlygu bod system lywodraethu fodern ac effeithiol yn ganolog i lywio gwelliant. Mae'r Papur Gwyn hefyd yn sôn am faterion llywodraethu ac adroddiad McCormick ar ôl y broses ad-drefnu. A fyddwch yn ailedrych ar hynny, fel y gellid hefyd gynnwys llywodraethu yn y Papur Gwyn i ystyried sut mae'r cyfan yn cydblethu, er mwyn sicrhau'r system addysg uwch orau yng Nghymru?

**Leighton Andrews:** We are certainly going to ensure that we address the issue of governance at national and institutional levels. The proposals that were contained in the McCormick review will inform what we do in future. We have started the process of a constructive and interesting debate around governance in further and higher education over the past two years. I do not think that we have reached our final conclusions yet in respect of higher education governance, but we have made clear our proposals on further education governance. I expect to return to these issues during the course of this Assembly.

**Leighton Andrews:** Rydym yn bendant yn bwriadu sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r mater yn ymwneud â llywodraethu ar lefel genedlaethol a sefydliadol. Bydd y cynigion sy'n rhan o adolygiad McCormick yn llywio'r hyn y byddwn yn ei wneud yn y dyfodol. Rydym wedi cychwyn dadl adeiladol a diddorol ar lywodraethu mewn addysg bellach ac addysg uwch dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Nid wyf yn credu ein bod wedi cyrraedd ein casgliadau terfynol eto mewn perthynas â llywodraethu addysg uwch, ond rydym wedi nodi'n glir ein cynigion mewn perthynas â llywodraethu addysg bellach. Disgwyliaf ddychwelyd at y materion hyn yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

**Mohammad Asghar:** The Minister will be aware that his plans for the reconfiguration of higher education in South Wales East by forced mergers has met with strong opposition from students and the board of governors of Cardiff Metropolitan University. The governors voted by 13 to one against merging with the University of Wales, Newport and the University of Glamorgan. Cardiff Metropolitan's students' union also voted in favour of retaining its autonomy. Will the Minister take these views into account? What steps has he taken to address the seriousness of this whole scenario and the objection of Cardiff Metropolitan University to his merger plan?

**Mohammad Asghar:** Bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod myfyrwyr a bwrdd llywodraethwyr Prifysgol Fetropolitan Caerdydd wedi gwrthwynebu'n gryf ei gynlluniau i ad-drefnu addysg uwch yn ne-ddwyrain Cymru drwy orfodi sefydliadau i uno. Pleidleisiodd y llywodraethwyr 13 i un yn erbyn uno'r Brifysgol Fetropolitan â Phrifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg. Pleidleisiodd undeb myfyrwyr Prifysgol Fetropolitan Caerdydd hefyd o blaid cadw ei hannibyniaeth. A fydd y Gweinidog yn ystyried y sylwadau hyn? Pa gamau y mae wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon a gwrthwynebiad Prifysgol Fetropolitan Caerdydd I'w gynllun uno?

**Leighton Andrews:** Let me say this. We have a manifesto commitment as an incoming Government to create a higher education system in Wales that is based on a smaller number of stronger universities. That is the policy and we stand behind it. I am delighted that there are constructive merger discussions going on between the University of

**Leighton Andrews:** Gadewch i mi ddweud hyn. Mae gennym ymrwymiad maniffesto fel Llywodraeth newydd i greu system addysg uwch yng Nghymru sy'n seiliedig ar nifer llai o brifysgolion cryfach. Dyna'r polisi ac rydym yn glynu wrtho. Rwyf yn falch bod trafodaethau cadarnhaol yn mynd rhagddynt rhwng Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol

Glamorgan and the University of Wales, Newport. We are consulting on the dissolution Orders in respect of the University of Wales, Newport and Cardiff Metropolitan University. I issued a written statement on that today, and I have nothing further to add beyond what I said in that statement.

Cymru, Casnewydd ynghylch uno. Rydym yn ymgynghori ar y Gorchmynion diddymu mewn perthynas â Phrifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd. Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar hynny heddiw, ac nid oes gennyf unrhyw beth pellach i'w ychwanegu y tu hwnt i'r hyn a ddywedais yn y datganiad hwnnw.

**Simon Thomas:** Minister, Plaid Cymru—The Party of Wales very much agrees with the principle of mergers in south-east Wales, and we welcome in particular the voluntary merger between the universities of Glamorgan and Newport. However, we are not convinced that there is a business case or evidence for a forced merger as regards Cardiff Metropolitan University. Your statement today puts off for a further period of time your decision on this. Does that mean that you, too, are not yet convinced that you have the evidence to take this legislative step?

**Simon Thomas:** Weinidog, mae Plaid Cymru yn cytuno'n gryf iawn ag egwyddor uno yn ne-ddwyrain Cymru, ac rydym yn croesawu'n arbennig yr uno gwirfoddol rhwng prifysgol Morgannwg a phrifysgol Casnewydd. Fodd bynnag, nid ydym yn argyhoeddedig bod achos busnes na thystiolaeth dros orfodi Prifysgol Fetropolitan Caerdydd i uno. Mae eich datganiad heddiw yn gohirio eich penderfyniad ynghylch hyn am gyfnod pellach. A yw hynny'n golygu nad ydych eto'n argyhoeddedig fod gennych y dystiolaeth i gymryd y cam deddfwriaethol hwn?

**Leighton Andrews:** No, it does not mean that. It means this: that I am anxious that we have a proper debate and that all the material that needs to be in the public domain is in the public domain. That is what we are doing. As I said, I am pleased that the merger discussions between Glamorgan and Newport are going well, and I expect to see progress in that area on the timescale indicated. In respect of Cardiff Metropolitan University, we had the report from Professor Sir Steve Smith in the summer. We published our current stated position in a statement to the Assembly. We will now make available more information, and we will ensure that we have a further 12 weeks in which to discuss that with the interested stakeholders. There will be no resiling from this position, but we are open to discussion.

**Leighton Andrews:** Na, nid yw'n golygu hynny. Mae'n golygu hyn: rwyf yn awyddus inni gael dadl briodol ac i'r holl ddeunydd y mae angen ei gyhoeddi gael ei gyhoeddi. Dyna beth rydym yn ei wneud. Fel y dywedais, rwyf yn falch bod y trafodaethau uno rhwng Morgannwg a Chasnewydd yn mynd yn dda, ac rwyf yn disgwyl gweld cynnydd yn y maes hwnnw yn unol â'r amserlen a nodwyd. O ran Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, cawsom yr adroddiad gan yr Athro Syr Steve Smith yn yr haf. Gwnaethom gyhoeddi ein sefyllfa bresennol mewn datganiad i'r Cynulliad. Byddwn nawr yn cyhoeddi mwy o wybodaeth, a byddwn yn sicrhau bod gennym 12 wythnos arall i drafod hynny gyda'r rhanddeiliaid â diddordeb. Ni fyddwn yn cilio rhag y sefyllfa hon, ond rydym yn barod i drafod.

**Peter Black:** Will you give an update on the proposed merger of University of Wales Trinity St David and Swansea Metropolitan University?

**Peter Black:** A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnig i uno Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe?

**Leighton Andrews:** Yes, indeed. The merger is going well. We have seen the merger document being signed, which will create an institution in the south-west delivering high-

**Leighton Andrews:** Gwnaf, yn wir. Mae'r broses uno yn mynd rhagddi'n dda. Rydym wedi gweld y ddogfen uno yn cael ei llofnodi, a fydd yn creu sefydliad yn y de-

quality vocational higher education, as well as strong applied research. I want to express my congratulations to the teams involved in that development. I am also encouraged by the way in which they have worked with further education institutions in that region, which I think is an innovative development and shows an example that could be taken up across the whole of Wales.

orllewin sy'n darparu addysg alwedigaethol o ansawdd uchel, yn ogystal ag ymchwil berthnasol gryf. Hoffwn longyfarch y timau sy'n ymwneud â'r datblygiad hwnnw. Rwyf hefyd wedi fy nghalonogi gan y ffordd y maent wedi gweithio gyda sefydliadau addysg bellach yn y rhanbarth hwnnw, sy'n ddatblygiad arloesol yn fy marn i, ac yn dangos esiampl y gellid ei mabwysiadu ledled Cymru.

**The Presiding Officer:** Question 10, OAQ(4)0173(ESK), is transferred for written answer.

**Y Llywydd:** Trosglwyddwyd cwestiwn 10, OAQ (4) 0173 (ESK), i'w ateb yn ysgrifenedig.

**Cronfa Ddysgu Undebau Cymru**

**The Wales Union Learning Fund**

***11. Mark Drakeford:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Gronfa Ddysgu Undebau Cymru. OAQ(4)0171(ESK)*

***11. Mark Drakeford:*** *Will the Minister make a statement on the Wales Union Learning Fund. OAQ(4)0171(ESK)*

**The Deputy Minister for Skills (Jeff Cuthbert):** Since the Wales union learning fund, or WULF for short, was launched in 1999, it has assisted 166 projects to deliver a wide range of learning. WULF focuses on identifying and implementing learning opportunities in the workplace in order to ensure that employees have the skills required to carry out their work to the best of their ability.

**Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau (Jeff Cuthbert):** Ers i Gronfa Ddysgu Undebau Cymru, neu WULF, gael ei lansio yn 1999, mae wedi helpu 166 o brosiectau i ddarparu ystod eang o ddysgu. Mae WULF yn canolbwyntio ar nodi a gweithredu cyfleoedd dysgu yn y gweithle er mwyn sicrhau bod gan weithwyr y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni eu gwaith hyd eithaf eu gallu.

**Mark Drakeford:** Thank you, Deputy Minister. The fund has been a conspicuous success throughout its more than a decade of existence. It is now open for a further round of bids for funding. Can you tell us what steps the Welsh Government is taking to ensure that these opportunities are publicised as widely as possible so that the fund can continue to be a success in the future?

**Mark Drakeford:** Diolch, Ddirprwy Weinidog. Mae'r gronfa wedi bod yn llwyddiant amlwg drwy gydol y degawd a mwy ers ei sefydlu. Mae bellach ar agor am rownd arall o geisiadau am gyllid. A allwch ddweud wrthym pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau y caiff y cyfleoedd hyn eu hysbysebu mor eang â phosibl fel y gall y gronfa barhau i fod yn llwyddiant yn y dyfodol?

**Jeff Cuthbert:** You are quite right that another round is now available. The 2013-16 prospectus was agreed in partnership with the Wales TUC. The prospectus has been published on the Welsh Government website and, indeed, was the subject of a news article. The Wales TUC, in partnership with the Welsh Government, has issued a direct invitation to all certificated trade unions with members based in Wales, regardless of whether they are affiliated to the Trades Union Congress, to take part in that process.

**Jeff Cuthbert:** Rydych yn llygad eich lle fod rownd arall bellach ar waith. Cytunwyd ar brosbectws 2013-16 mewn partneriaeth â TUC Cymru. Mae'r prosbectws wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ac, yn wir, wedi bod yn destun erthygl newyddion. Mae TUC Cymru, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, wedi estyn gwahoddiad uniongyrchol i'r holl undebau llafur ardystiedig sydd ag aelodau yng Nghymru, p'un a ydynt yn gysylltiedig â Chyngres yr Undebau Llafur ai peidio,

gymryd rhan yn y broses honno.

**Paul Davies:** I welcome the fact that there is an assessment panel, consisting of Confederation of British Industry and TUC representatives, which recommends the projects that should receive this funding. I understand that the final approval rests with you, Deputy Minister. Can you therefore tell us how you ensure that the money benefits as many employees as possible, to help as many individuals as possible to progress at work so that we achieve a better skilled and more engaged workforce?

**Paul Davies:** Croesawaf y ffaith bod panel asesu, yn cynnwys Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a chynrychiolwyr o'r TUC, sy'n argymell y prosiectau a ddylai gael yr arian hwn. Deallaf fod y penderfyniad terfynol yn eiddo i chi, Ddirprwy Weinidog, A allwch ddweud wrthym felly sut rydych yn sicrhau bod yr arian yn rhoi budd i gynifer o weithwyr â phosibl, er mwyn helpu cynifer o unigolion â phosibl i symud ymlaen yn eu gwaith a sicrhau bod gennym weithlu mwy cydgysylltiedig?

**Jeff Cuthbert:** You are quite right that the purpose of WULF is to ensure that we have a workforce that is as well equipped as possible, and you are also right to point out that the panel that approves projects includes the CBI, as well as the TUC and, indeed, the Welsh Government. It is incumbent upon those who are submitting project applications to ensure that they are covering as wide a range of employees as possible, and that the programme that is to be delivered is relevant to the nature of work at that establishment, including, very importantly, the issue of functional literacy and numeracy.

**Jeff Cuthbert:** Rydych yn llygad eich lle mai diben WULF yw sicrhau bod gennym weithlu sydd â'r sgiliau gorau posibl, ac rydych hefyd yn gywir i nodi bod y panel sy'n cymeradwyo prosiectau yn cynnwys y CBI, yn ogystal â'r TUC ac, yn wir, Llywodraeth Cymru. Mae'n ddyletswydd ar y rheiny sy'n cyflwyno ceisiadau prosiect i sicrhau eu bod yn cwmpasu ystod mor eang â phosibl o gyflogeion, a bod y rhaglen sydd i'w chyflwyno yn berthnasol i natur y gwaith yn y sefydliad hwnnw, gan gynnwys, yn bwysig iawn, llythrennedd a rhifedd.

**Leanne Wood:** Deputy Minister, when Plaid Cymru signed the 'One Wales' agreement, we agreed to support the union learning fund and we recognise its progress in improving the skills of working people. We are also interested in improving the skills of hard-to-reach workers in the private sector, where union membership is, unfortunately, thin and where wages are much lower than the UK average. We know, from the Welsh Government's regional pay analysis, that wages reflect skills ahead of any other factor. Can you therefore tell us what interventions you can take to raise the skills of private sector workers in Wales?

**Leanne Wood:** Ddirprwy Weinidog, pan lofnododd Plaid Cymru gytundeb 'Cymru'n Un', gwnaethom gytuno i gefnogi cronfa ddysgu'r undebau ac rydym yn cydnabod ei chynnydd o ran gwella sgiliau pobl sy'n gweithio. Rydym hefyd yn awyddus i wella sgiliau gweithwyr sy'n anodd eu cyrraedd yn y sector preifat, lle nad oes llawer o bobl, yn anffodus, yn perthyn i undeb, a lle mae cyflogau yn llawer is na'r cyfartaledd yn y DU. Gwyddom, yn sgil dadansoddiad Llywodraeth Cymru o gyflogau rhanbarthol, fod cyflogau yn adlewyrchu sgiliau cyn unrhyw ffactor arall. A allwch ddweud wrthym felly pa ymyriadau y gallwch eu cymryd i wella sgiliau gweithwyr yn y sector preifat yng Nghymru?

**Jeff Cuthbert:** It is incumbent upon anybody submitting an application to be representing a recognised and certificated trade union. If you are referring to private companies that have very few union memberships, therefore, there are difficulties there. However, the trade unions are constantly trying to increase

**Jeff Cuthbert:** Mae'n ddyletswydd ar unrhyw un sy'n cyflwyno cais i gynrychioli undeb llafur cydnabyddedig ac ardystiedig. Felly, os ydych yn cyfeirio at gwmnïau preifat sydd â nifer fach iawn o weithwyr sy'n aelodau o undeb, mae anawsterau'n codi. Fodd bynnag, mae'r undebau llafur yn

their membership and, if that happens, they will be in a position to submit a successful bid.

ceisio cynyddu eu haelodaeth yn barhaus ac, os digwydd hynny, byddant mewn sefyllfa i gyflwyno cais llwyddiannus.

**Vaughan Gething:** Deputy Minister, I saw at first hand during my time at the Wales TUC the impact that the Wales union learning fund had and how it transformed not only the lives of learners but union learning representatives. It is genuinely transformative, especially in the area of basic skills. Can you confirm how many people have accessed the learning fund since it was introduced? Can you also confirm that this Government will continue to support workplace learning involving accredited trade unions?

**Vaughan Gething:** Ddirprwy Weinidog, gwelais drosof fi fy hun yn ystod fy amser yn TUC Cymru effaith cronfa ddysgu undebau Cymru, a'r modd y gwnaeth drawsnewid, nid yn unig fywydau dysgwyr, ond hefyd gynrychiolwyr dysgu undebau. Mae'n wirioneddol drawsnewidiol, yn enwedig ym maes sgiliau sylfaenol. A allwch gadarnhau faint o bobl sydd wedi manteisio ar y gronfa ddysgu ers iddi gael ei chyflwyno? A allwch hefyd gadarnhau y bydd y Llywodraeth hon yn parhau i gefnogi dysgu yn y gweithle sy'n cynnwys undebau llafur achrededig?

**Jeff Cuthbert:** I can confirm that we will continue to support the fund. You mentioned union learning reps, who are a very important part of our industrial base, and there are now over 1,200 trained union learning reps in Wales. On the number of employees assisted, between 2009 and 2011, 16,732 individuals were supported across 618 workplaces, and a further 16,000 learners were supported between 2011 and 2012.

**Jeff Cuthbert:** Gallaf gadarnhau y byddwn yn parhau i gefnogi'r gronfa. Gwnaethoch sôn am gynrychiolwyr dysgu undebau, sy'n rhan bwysig iawn o'n sylfaen ddiwydiannol, a bellach mae dros 1,200 o gynrychiolwyr dysgu undebau hyfforddedig yng Nghymru. O ran nifer y cyflogeion a gynorthwywyd, rhwng 2009 a 2011, cafodd 16,732 o unigolion eu cynorthwyo ar draws 618 o weithleoedd, a chafodd 16,000 o ddysgwyr eraill eu cynorthwyo rhwng 2011 a 2012.

### Swyddi Parhaol i Athrawon

### Permanent Teaching Positions

***12. Mark Isherwood:*** *Sut mae Llywodraeth Cymru yn helpu athrawon i ddod o hyd i swyddi parhaol mewn ysgolion yng Nghymru. OAQ(4)0179(ESK)*

***12. Mark Isherwood:*** *How is the Welsh Government helping teachers find permanent positions in Welsh schools. OAQ(4)0179(ESK*)

**Leighton Andrews:** To avoid producing more teachers than can gain employment in Wales, we have made significant reductions to the number of places on teacher training courses in recent years, using an annual data analysis to inform decisions on how many new teachers are required to meet the demand from schools.

**Leighton Andrews:** Er mwyn osgoi cynhyrchu mwy o athrawon nag y gellir eu cyflogi yng Nghymru, rydym wedi lleihau nifer y lleoedd ar gyrsiau hyfforddi athrawon yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan ddefnyddio dadansoddiad blynyddol o ddata i lywio penderfyniadau ynghylch faint o athrawon newydd sydd eu hangen i ateb y galw gan ysgolion.

**Mark Isherwood:** How do you respond to the Wrexham constituent, who contacted me to say that he qualified as a primary school teacher in 2006 and passed his newly qualified teacher induction in 2008, but has still yet to secure a full-time permanent post? He states that that is the case for lots of teachers in Wales, and that Mr Andrews

**Mark Isherwood:** Beth yw eich ymateb i'r etholwr o Wrecsam a gysylltodd â mi i ddweud ei fod wedi cymhwyso fel athro ysgol gynradd yn 2006 ac wedi pasio ei gyfnod ymsefydlu fel athro newydd gymhwyso yn 2008, ond yn dal heb lwyddo i gael swydd llawn-amser barhaol? Dywedodd fod hynny'n wir am lawer o athrawon yng

repeatedly passes responsibility to the LEA and individual schools on how they cover teacher absences and how they appoint teachers. He goes on to say that surely the Welsh Government must hold some influence and set policies and guidelines for LEAs to adhere to. What is your message to my teacher constituent?

Nghymru, a bod Mr Andrews dro ar ôl tro yn bwrw'r cyfrifoldeb ar yr AALl ac ysgolion unigol o ran sut maent yn cyflenwi pan fydd athrawon yn absennol a sut maent yn penodi athrawon. Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru, yn ddi-os, gael rhywfaint o ddylanwad a phennu polisïau a chanllawiau i Awdurdodau Addysg Lleol lynu wrthynt. Beth yw eich neges i'm hetholwr o athro?

**Leighton Andrews:** It is very clear that we have, I am afraid, insufficient places for all the teachers who have been trained. That is why I have reduced the entries into teacher training in recent years and have done so more radically than some might have expected, I think. We have to look at what has been happening throughout Wales. We have clearly reducing numbers, particularly in secondary schools, and we have a challenge among local authorities to deal with their surplus places. It is very clear that we have not got the balance right at the present time in respect of opportunities for teachers, but I think that the steps that we are now taking will address that.

**Leighton Andrews:** Yn anffodus, mae'n amlwg iawn nad oes gennym ddigon o leoedd i'r holl athrawon sydd wedi'u hyfforddi. Dyna pam rwyf wedi lleihau nifer y lleoedd ar gyrsiau hyfforddi athrawon yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac wedi gwneud hynny mewn modd mwy radical nag y gallai rhai fod wedi ei ddisgwyl, yn fy marn i. Mae'n rhaid inni edrych ar yr hyn sydd wedi bod yn digwydd ledled Cymru. Mae'n amlwg bod y niferoedd yn lleihau, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, ac mae gennym her ymysg awdurdodau lleol i ddelio â'u lleoedd gwag. Mae'n amlwg iawn nad oes gennym y cydbwysedd cywir ar hyn o bryd mewn perthynas â chyfleoedd i athrawon, ond credaf y bydd y camau rydym bellach yn eu cymryd yn mynd i'r afael â hynny.

### System Arholi i Gymru

### An Examination System for Wales

***13. Lindsay Whittle***: *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch creu system arholi benodol i Gymru. OAQ(4)0174(ESK)*

***13. Lindsay Whittle***: *What discussions has the Minister had regarding the creation of a distinct examination system for Wales. OAQ(4)0174(ESK)*

**Jeff Cuthbert:** As we have already stated, the Welsh Government will be waiting on the publication of the review of qualifications for 14 to 19-year-olds before considering the best route forward for the examination system in Wales. This, as well as the marketplace review of awarding organisations, will receive a formal Government response in January.

**Jeff Cuthbert:** Fel y dywedwyd eisoes, bydd Llywodraeth Cymru yn aros i'r adolygiad o gymwysterau ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed gael ei gyhoeddi cyn ystyried y ffordd orau ymlaen ar gyfer y system arholi yng Nghymru. Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno ymateb ffurfiol ar hyn, yn ogystal â'r adolygiad marchnad o sefydliadau dyfarnu, ym mis Ionawr.

**Lindsay Whittle:** I hope that you will consider the Party of Wales's idea of an independent exam system for our nation, which will deliver for the needs of Welsh students. Do you agree that the establishment of the English baccalaureate means that a distinct qualification system for Wales is almost already a reality? What further

**Lindsay Whittle:** Rwyf yn gobeithio y byddwch yn ystyried syniad Plaid Cymru i greu system arholi annibynnol ar gyfer ein cenedl, a fydd yn diwallu anghenion myfyrwyr yng Nghymru. A ydych yn cytuno bod sefydlu'r fagloriaeth Saesneg yn golygu bod system gymhwyster sy'n unigryw i Gymru bron eisoes yn realiti? Pa

discussions do you intend to have to ensure that Welsh qualifications are an accurate assessment of students' attainment, and how will you gain the confidence of the education sector and of employers in any changes?

drafodaethau pellach rydych yn bwriadu eu cael i sicrhau bod cymwysterau yng Nghymru yn cynnig asesiad cywir o gyrhaeddiad myfyrwyr, a sut y byddwch yn ennyn hyder y sector addysg a chyflogwyr mewn unrhyw newidiadau?

**Jeff Cuthbert:** Those are key factors of the review of qualifications and of the discussions on the marketplace. My colleague, the Minister for Education and Skills, has answered much of that, I think, in replying to earlier questions. You referred to the English baccalaureate, and it is important to recognise that that is not a qualification in its own right as the Welsh baccalaureate is. There could well be further divergence with England, if it is justified, and we will know more about that when the review of qualifications reports.

**Jeff Cuthbert:** Mae'r rheiny'n ffactorau allweddol yn yr adolygiad o gymwysterau a'r trafodaethau ar y farchnad. Mae fy nghyd-aelod, y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau, wedi mynd i'r afael â llawer o hynny, yn fy marn i, wrth ateb cwestiynau cynharach. Gwnaethoch gyfeirio at y fagloriaeth Saesneg, ac mae'n bwysig cydnabod nad yw honno'n gymhwyster yn ei rinwedd ei hun fel y mae bagloriaeth Cymru. Gallai fod rhagor o wahaniaethau yn Lloegr, os gellir eu cyfiawnhau, a byddwn yn gwybod mwy am hynny pan gawn adroddiad ar yr adolygiad o gymwysterau.

2.15 p.m.

**Byron Davies:** Deputy Minister, it cannot be denied that there is a great deal of concern among Welsh students, particularly now that we have the beginnings of a rift, perhaps even an established rift, between English and Welsh examination systems and the beginning of a breakdown in consistency. Will you outline what you are doing with UK partners, specifically our partners in England, to ensure that Welsh students are not disadvantaged by any disparity that is beginning to emerge? Do you not agree that the examination system in Wales has become something of a political football?

**Byron Davies:** Ddirprwy Weinidog, ni ellir gwadu bod cryn bryder ymysg myfyrwyr yng Nghymru, yn enwedig o ystyried yr hollt sy'n dechrau ymddangos, neu sydd eisoes yn bodoli o bosibl, rhwng systemau arholi yng Nghymru a Lloegr a'r diffyg cysondeb sy'n dechrau dod i'r amlwg. A fyddech cystal ag amlinellu'r hyn rydych yn ei wneud gyda phartneriaid yn y DU, yn benodol ein partneriaid yn Lloegr, er mwyn sicrhau nad yw myfyrwyr Cymru o dan anfantais yn sgil unrhyw wahaniaeth sy'n dechrau dod i'r amlwg? Oni chytunwch fod y system arholi yng Nghymru wedi dod yn dipyn o bêl-droed wleidyddol?

**Jeff Cuthbert:** It is the UK Government Secretary of State Michael Gove who has created the difficulties for students in Wales and elsewhere by his untimely and unevidenced announcements that he will abolish GCSEs. What those learners in England will go through over the next couple of years, knowing that the Secretary of State does not value their qualification, is almost beyond belief. We in Wales will not be railroaded into anything like that sort of decision. We will consider the evidence-based review that I have referred to earlier, and our decisions will follow that.

**Jeff Cuthbert:** Michael Gove, Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU, sydd wedi creu'r anawsterau i fyfyrwyr yng Nghymru ac mewn mannau eraill, a hynny drwy ei gyhoeddiadau anamserol nad ydynt yn seiliedig ar dystiolaeth y bydd yn cael gwared ar TGAU. Mae'n anodd credu beth fydd y dysgwyr hynny yn Lloegr yn mynd drwyddo dros yr ychydig flynyddoedd nesaf gan wybod nad yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydnabod gwerth eu cymwysterau. Ni fyddwn ni yng Nghymru yn cael ein gorfodi i wneud unrhyw benderfyniad o'r fath. Byddwn yn ystyried yr adolygiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth y cyfeiriais ato eisoes, a bydd ein penderfyniadau yn dilyn hynny.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
## Questions to the Minister for Local Government and Communities

### Trais Domestig

***1. Rebecca Evans:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thrais domestig. OAQ(4)0187(LGC)*

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Rydym yn ymrwymedig i leihau cyfraddau trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Byddwn yn cyhoeddi Papur Gwyn yn ddiweddarach eleni yn amlinellu deddfwriaeth i gefnogi'r strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel', gan arwain y ffordd drwy ein prosiect 10000 o Fywydau Diogelach.

**Rebecca Evans:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. A ydych yn cytuno bod yn rhaid i'r comisiynwyr heddlu a throsedd newydd flaenoriaethu trais domestig a sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu o'u cyllidebau i alluogi'r heddlu i ymateb yn briodol i drais domestig yn eu hardaloedd ac i gynnig lloches a gwasanaethau allgymorth i oedolion a phlant sy'n dioddef?

**Carl Sargeant:** Bydd manylion yn y Papur Gwyn am y disgwyliad o weithio gyda phartneriaid. Rwyf yn rhannu eich pryder o ran mynd ar drywydd hyn. Rydym wedi cael cydberthynas waith wych â heddluoedd yng Nghymru, ac rwyf yn gobeithio y bydd cyflwyno CPE i Gymru yn ddefnyddiol yn y broses o fynd i'r afael â'r drosedd erchyll hon.

**Mohammad Asghar:** Mae strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at 10 o lysoedd trais domestig arbenigol sy'n gweithredu ledled Cymru. Mae'n cynnwys addewid i ymgysylltu â byrddau cyfiawnder troseddol lleol i weld beth mwy y gellir ei wneud i wella perfformiad y llysoedd hyn ac i drefnu digwyddiad ar gyfer Cymru gyfan i edrych ar drefniadau llywodraethu, perfformiad, rheoli a sicrhau ansawdd y llysoedd hynny. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth

### Domestic Violence

***1. Rebecca Evans:*** *Will the Minister provide an update on the Welsh Government's efforts to address domestic violence. OAQ(4)0187(LGC)*

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** We are committed to reducing rates of violence against women and of domestic abuse. We will publish a White Paper later this year outlining legislation to support 'The Right to be Safe' strategy, paving the way through our 10000 Safer Lives project.

**Rebecca Evans:** Thank you for that answer, Minister. Do you agree that the new police and crime commissioners must prioritise domestic violence and ensure that sufficient resources are allocated from their budgets to allow police to respond appropriately to domestic violence in their areas and to offer refuge and outreach services for both adult and child victims?

**Carl Sargeant:** There will be details in the White Paper about the expectation of working with partners. I share your concern about how this moves forward. We have had a great working relationship with the forces in Wales, and I hope that the introduction of PCCs to Wales will be helpful in the process of combating this heinous crime.

**Mohammad Asghar:** The Welsh Government's 'The Right to be Safe' strategy refers to 10 specialist domestic violence courts operating across Wales. It contains a pledge to engage with local criminal justice boards to see what more can be done to enhance the performance of these courts and to organise an all-Wales event to look at the governance, performance, management and quality assurance arrangements of those courts.

Will the Minister update the Assembly on what progress has been made in this regard, please?

ddiweddaraf i'r Cynulliad am y cynnydd a wnaed yn hyn o beth, os gwelwch yn dda?

**Carl Sargeant:** 'The Right to be Safe' programme is on target, and I refer the Member to the document outlining the current position in terms of its annual reporting. Of course, this work is never-ending and it will continue to be a priority of this Government. I am grateful for the cross-party support in the Chamber to tackling these issues, including the support from the Member.

**Carl Sargeant:** Mae rhaglen 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' yn cyflawni yn unol â'i thargedau, a chyfeiriaf yr Aelod at y ddogfen sy'n amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran ei hadroddiadau blynyddol. Wrth gwrs, mae'r gwaith hwn yn ddiddiwedd a bydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Rwyf yn ddiolchgar am y gefnogaeth drawsbleidiol yn y Siambr i fynd i'r afael â'r materion hyn, yn cynnwys y gefnogaeth gan yr Aelod.

**Jocelyn Davies:** Your manifesto pledges to

**Jocelyn Davies:** Mae eich maniffesto yn addo

'Save 10,000 lives by ensuring all key health, social care and education workers can detect the early warning signs of domestic abuse'.

'Achub 10,000 o fywydau drwy sicrhau bod pob gweithiwr iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg allweddol yn gallu adnabod arwyddion rhybudd cynnar cam-drin domestig'.

What progress have you made on this and how did you arrive at the 10,000 potential deaths figure?

Pa gynnydd rydych wedi'i wneud o ran hyn a sut y gwnaethoch gyrraedd y ffigur o 10,000 o farwolaethau posibl?

**Carl Sargeant:** I point out to the Member that our manifesto says 10,000 safer lives, and what we have tried to do is to encourage the public sector to ensure that every front-line case worker who works with the public at large—in the fire service or police, social workers, or anybody in the public sector—receives some sort of training to ensure that they are familiar with the signs and symptoms of domestic abuse. We are asking them to put five questions to the individual. I recently visited a women's refuge in Llanelli to better inform us for the White Paper that we are producing. Some of the thoughts around the White Paper and how we are developing that are included in 10000 Safer Lives. The evidence that a lady presented to us was that if only somebody had asked her at the early stages of the domestic abuse, a lot of the issues for her and her family would have been resolved. We believe that, by asking individuals to ask these questions and by not allowing this to be public facing, this will enhance progress in the 10000 Safer Lives project. [*Interruption*.]

**Carl Sargeant:** Tynnaf sylw'r Aelod at y ffaith bod ein maniffesto yn dweud 10,000 o fywydau diogelach, a'r hyn rydym wedi ceisio ei wneud yw annog y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau bod pob gweithiwr achos rheng-flaen sy'n gweithio gyda'r cyhoedd yn gyffredinol—yn y gwasanaeth tân neu'r heddlu, gweithwyr cymdeithasol, neu unrhyw un yn y sector cyhoeddus—yn cael rhyw fath o hyfforddiant i sicrhau ei fod yn gyfarwydd ag arwyddion a symptomau cam-drin domestig. Rydym yn gofyn iddynt ofyn pum cwestiwn i'r unigolyn. Yn ddiweddar, ymwelais â lloches i fenywod yn Llanelli i roi gwell gwybodaeth inni ar gyfer y Papur Gwyn yr ydym yn ei baratoi. Mae rhai o'r syniadau ynghylch y Papur Gwyn a sut rydym yn ei ddatblygu wedi'u cynnwys yn 10,000 o Fywydau Diogelach. Mae'r dystiolaeth y cyflwynodd gwraig inni yn dangos pe bai rhywun wedi gofyn iddi yn ystod camau cynnar y cam-drin domestig, y byddai llawer o'r materion iddi hi a'i theulu wedi cael eu datrys. Yn ein barn ni, drwy ofyn i unigolion ofyn y cwestiynau hyn a thrwy beidio â gadael i hyn wynebu'r cyhoedd, bydd hyn yn gwella cynnydd o ran prosiect 10000 o Fywydau Mwy Diogel. [*Torri ar draws*.]

**The Presiding Officer:** I am sorry; I got distracted then. I call on the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.

**Y Llywydd:** Mae’n ddrwg gennyf; tynnwyd fy sylw i. Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

**Peter Black:** Minister, a large number of third sector organisations are engaged with this agenda. What regular meetings do you have with them to discuss their concerns, and what issues have they raised with you?

**Peter Black:** Weinidog, mae nifer fawr o sefydliadau trydydd sector yn ymgysylltu â’r agenda hon. Pa gyfarfodydd rheolaidd a gewch gyda hwy i drafod eu pryderon, a pha faterion y maent wedi eu codi gyda chi?

**Carl Sargeant:** I have regular meetings across the whole sector, including meetings with the police, judiciary and the third sector. We have a very close team. To inform us on the White Paper on domestic abuse and the Bill structure, we engaged many stakeholders who are involved in this subject and brought together quite a formidable force, in terms of identifying the issues and trying to find resolutions to them.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn cyfarfod yn rheolaidd ar draws y sector cyfan, gan gynnwys cyfarfodydd gyda’r heddlu, y farnwriaeth a’r trydydd sector. Mae gennym dîm agos iawn. Er mwyn ein hysbysu ar y Papur Gwyn ar gam-drin domestig a strwythur y Bil, ymgysylltwyd â llawer o randdeiliaid sy’n ymwneud â’r pwnc hwn ac yn sgil hyn roedd gennym dipyn o rym, o ran nodi’r materion a cheisio dod o hyd i atebion iddynt.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Minister. A number of those organisations came to the Communities, Equality and Local Government Committee last week. One of the issues that they raised with us was the question of certainty of funding. A number of projects rely on funding from the Supporting People programme, but there are advice and support services that rely on grants. Many organisations said that if they had certainty of funding over a three-year period, they would be much better able to plan ahead in terms of how they provide those services. Have you given any consideration to making a change of this kind?

**Peter Black:** Diolch ichi am eich ateb, Weinidog. Daeth nifer o’r sefydliadau hynny i’r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yr wythnos diwethaf. Un o’r materion a godwyd gyda ni oedd y cwestiwn o sicrwydd arian. Mae nifer o brosiectau yn dibynnu ar arian gan y rhaglen Cefnogi Pobl, ond mae gwasanaethau cyngor a chymorth sy’n dibynnu ar grantiau. Dywedodd llawer o sefydliadau pe bai ganddynt sicrwydd arian dros gyfnod o dair blynedd, y byddent mewn sefyllfa well o lawer i allu cynllunio ymlaen llaw o ran sut maent yn darparu’r gwasanaethau hynny. A ydych wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i wneud newid o’r fath?

**Carl Sargeant:** I am continually looking at how we can deliver services better. If that is a helpful financial model, and if I can have assurances from the Minister for Finance regarding the finances coming into the Welsh Government, we can do some work around it. The key issue for me is ensuring that the finance that we spend on this subject gets to front-line service delivery, so that it is effective. I am checking all service providers in respect of how we can get quality services to all parts of Wales, not just some areas, and ensuring that they have security of

**Carl Sargeant:** Rwyf yn edrych drwy’r amser ar y ffordd y gallwn ddarparu gwasanaethau gwell. Os yw hynny’n golygu model ariannol defnyddiol, ac os gallaf gael sicrwydd gan y Gweinidog Cyllid ynghylch y cyllid sy’n dod i Lywodraeth Cymru, gallwn wneud rhywfaint o waith yn ei gylch. Y mater allweddol imi yw sicrhau bod y cyllid a wariwn ar y pwnc hwn yn cyrraedd gwasanaethau rheng flaen, fel eu bod yn effeithiol. Rwyf yn holi pob darparwr gwasanaethau o ran sut y gallwn sicrhau bod gwasanaethau o safon yn cael eu darparu i bob rhan o Gymru, nid dim ond rhai ardaloedd, a sicrhau eu bod yn cael sicrwydd gwasanaeth ar

service for the future.

gyfer y dyfodol.

**The Presiding Officer:** Question 2, OAQ(4)0180(LGC), has been transferred for written answer.

**Y Llywydd:** Trosglwyddwyd cwestiwn 2, OAQ (4)0180(LGC), i'w ateb yn ysgrifenedig.

**System Cyfiawnder Ieuenctid**

**Youth Justice System**

***3. Rebecca Evans:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid, neu sydd mewn perygl o fod yn rhan o'r system honno. OAQ(4)0188(LGC)*

***3. Rebecca Evans:*** *Will the Minister make a statement on services to meet the needs of children and young people in, or at risk of entering, the youth justice system. OAQ(4)0188(LGC)*

**Carl Sargeant:** Children and young people who become involved in the youth justice system can be some of the most disadvantaged. On 18 September, I launched a Green Paper consultation to consider what more can be done to strengthen services to better meet the needs of these children and young people.

**Carl Sargeant:** Gall plant a phobl ifanc sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid fod ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig. Ar 18 Medi, lansiais ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd i ystyried beth arall y gellir ei wneud i gryfhau gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc hyn yn well.

**Rebecca Evans:** Thank you for that answer, Minister. In May of this year, the Transition to Adulthood Alliance reported that around 90% of young offenders suffer from one or more mental illness. Will you commit to working with the Minister for Health and Social Services to ensure that access to mental health services form a core part of any future strategy on youth justice, and that those young people at risk of entering the criminal justice system are given a successful transition from child and adolescent mental health services to adult mental health services?

**Rebecca Evans:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Ym mis Mai eleni, nododd y Gynghrair Pontio i Fyd Oedolion fod tua 90% o droseddwyr ifanc yn dioddef o un salwch meddwl neu fwy. A wnewch chi ymrwymo i weithio gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn rhan greiddiol o unrhyw strategaeth yn y dyfodol ar gyfiawnder ieuenctid, a bod y bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o fynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol yn pontio'n llwyddiannus o wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed i wasanaethau iechyd meddwl i oedolion?

**Carl Sargeant:** I am grateful for the Member's question. She recognises that there are many underlying issues with young people, in terms of how they enter the criminal justice system. Some of these could be mental health-related issues, and I recognise that. Of course, I work very closely with the Minister for health, as we do across Government, on how we can better ensure that our policies develop for the benefit of the people of Wales. The Member makes reference to the paper, and the paper makes reference to the 'Together for Mental Health' strategy. That is something on which I am

**Carl Sargeant:** Rwyf yn ddiolchgar am gwestiwn yr Aelod. Mae'n cydnabod bod gan bobl ifanc lawer o faterion sylfaenol, o ran sut maent yn mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol. Gallai rhai o'r rhain fod yn faterion sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl, ac rwyf yn cydnabod hynny. Wrth gwrs, rwyf yn gweithio'n agos iawn gyda'r Gweinidog iechyd, fel y gwnawn ar draws y Llywodraeth, ar sut y gallwn sicrhau yn well fod ein polisïau yn datblygu er budd pobl Cymru. Mae'r Aelod yn cyfeirio at y papur, ac mae'r papur yn cyfeirio at y strategaeth 'Gyda'n Gilydd ar gyfer Iechyd Meddwl'.

very keen to work with the Minister, in moving forward with the consultation paper.

Mae hynny'n rhywbeth rwyf yn awyddus iawn i weithio gyda'r Gweinidog arno, wrth symud ymlaen gyda'r papur ymgynghori.

**William Graham:** Will the Minister confirm the importance of advocacy services to support children and young people, and will he also confirm that he is confident that all of these services are delivered equally throughout Wales?

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau pa mor bwysig yw gwasanaethau eiriolaeth i gefnogi plant a phobl ifanc, ac a wnaiff hefyd gadarnhau ei fod yn hyderus bod yr holl wasanaethau hyn yn cael eu darparu yn gyfartal ledled Cymru?

**Carl Sargeant:** This brings us back to the response that I gave Peter Black on domestic abuse services. We are trying to encourage having at least a minimal standard of service for all of Wales, in terms of access. Wales is very demographically diverse. Therefore, the challenge is to be able to deliver services in the north, north-east, south and south-west, and so forth. It will always be a challenge for the Government and other bodies to do that. However, this is something to which we should aspire. The consultation paper is based on what services are available, how they are working, whether we can improve those services or how we can do them differently. The paper will be used to see what services are available, how they are working, and whether we can get better from within those service by just doing them differently, and that information will be used to inform us of whether we need a Bill or not for the future.

**Carl Sargeant:** Mae hyn yn dod â ni yn ôl at yr ateb a roddais i Peter Black ar wasanaethau cam-drin domestig. Rydym yn ceisio annog gwasanaeth o safon ofynnol o leiaf i Gymru gyfan, o ran mynediad. Mae Cymru yn amrywiol iawn o ran demograffeg. Felly, yr her yw gallu darparu gwasanaethau yn y gogledd, y gogledd-ddwyrain, y de a'r de-orllewin, ac yn y blaen. Bydd bob amser yn her i'r Llywodraeth a chyrff eraill wneud hynny. Fodd bynnag, mae hyn yn rhywbeth y dylem anelu ato. Mae'r papur ymgynghori yn seiliedig ar ba wasanaethau sydd ar gael, sut maent yn gweithio, a allwn wella'r gwasanaethau hynny neu sut y gallwn eu gwneud yn wahanol. Defnyddir y papur i weld pa wasanaethau sydd ar gael, sut maent yn gweithio, ac a allwn wella o fewn y gwasanaethau hynny drwy wneud pethau'n wahanol, a defnyddir y wybodaeth honno i roi gwybod inni a oes angen Bil arnom ai peidio ar gyfer y dyfodol.

**Leanne Wood:** I know from when our two parties formed the One Wales Government that you understand that young people's life chances are more seriously harmed the earlier they come into contact with the criminal justice system. A fundamental part of social justice is that we should ensure a system that does not write anyone off, and we need a system that helps young people to access opportunities in employment, for example, and through sport, which we know can have an impact on reducing reoffending rates. Will you therefore be seeking control over the youth justice system in Wales as part of your Government's response to part 2 of the Commission on Devolution in Wales?

**Leanne Wood:** Gwn o brofiad pan unodd ein dwy blaid i ffurfio Llywodraeth Cymru'n Un eich bod yn deall po gynharaf y bydd pobl ifanc yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, mwyaf niweidiol fydd y profiad hwnnw i'w cyfleoedd mewn bywyd. Fel rhan hanfodol o gyfiawnder cymdeithasol, dylem sicrhau system nad yw'n eithrio neb, ac mae angen system sy'n helpu pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd o ran cyflogaeth, er enghraifft, a thrwy chwaraeon, a all, fel y gwyddom, gael effaith ar leihau cyfraddau aildroseddu. A wnewch chi felly geisio rheolaeth dros y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru fel rhan o ymateb eich Llywodraeth i ran 2 o'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru?

**Carl Sargeant:** The Member is quite right and she will be aware of the discussions that took place previously on devolving these

**Carl Sargeant:** Mae'r Aelod yn llygad ei lle a bydd yn ymwybodol o'r trafodaethau a gynhaliwyd yn flaenorol ar ddatganoli'r

fundamental services to Wales. I have some further considerations to make on whether that is the right model to take forward in relation to the Silk commission, but I agree with the Member wholeheartedly that early intervention to ensure that activities or support are available for young people to prevent their coming into the youth justice system is absolutely key to ensuring that we do not write anybody off for the future. Short-term investment upfront will prevent huge costs in the longer term, so I certainly support the Member's concern about early intervention.

**Swyddogaethau Craffu**

***4. David Melding:*** *Pa fesurau sydd ar waith i ddatblygu'r swyddogaethau craffu a gyflawnir gan Gynghorwyr yng Nghymru. OAQ(4)0175(LGC)*

**Carl Sargeant:** I am supporting several initiatives to support councillors to undertake effective scrutiny. These include funding for the Centre for Public Scrutiny to establish a dedicated programme of work in Wales, and a third tranche of the scrutiny development fund.

**David Melding:** I am very interested to hear about those potential developments, and I commend the work of the Electoral Reform Society, which has urged you to consider reopening the scrutiny development fund. It has also emphasised the need to ensure access to information for backbench councillors along with the consideration of new models, such as introducing the role of leader of the opposition, so that we have it institutionalised that there is challenge in a system, which places much more executive authority with certain councillors now than ever before.

**Carl Sargeant:** The Member will be aware, through the Local Government (Wales) Measure 2011, in which we allocated positions for support for members outside the cabinet structure, that all councillors should be able to access that. They are independent of the chief executive and have a function in their own right to support members in that information line. I am grateful for the Member's support for the scrutiny

gwasanaethau sylfaenol hyn i Gymru. Mae gennyf rai pethau eraill i'w hystyried ynghylch ai hwnnw'n yw'r model cywir i fwrw ymlaen ag ef mewn perthynas â chomisiwn Silk, ond cytunaf â'r Aelod yn llwyr fod ymyriad cynnar i sicrhau bod gweithgareddau neu gymorth ar gael i bobl ifanc i'w hatal rhag dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid yn gwbl allweddol i sicrhau nad ydym yn eithrio unrhyw un yn y dyfodol. Bydd buddsoddi byrdymor ymlaen llaw yn atal costau enfawr yn y tymor hwy, felly rwyf yn sicr yn cefnogi pryder yr Aelod ynghylch ymyrryd yn gynnar.

**Scrutiny Functions**

***4. David Melding:*** *What measures are in place to develop the scrutiny functions undertaken by Councillors in Wales. OAQ(4)0175(LGC)*

**Carl Sargeant:** Rwyf yn cefnogi nifer o fentrau i gefnogi cynghorwyr i ymgymryd â gwaith craffu effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys cyllid ar gyfer y Ganolfan Craffu Cyhoeddus i sefydlu rhaglen waith bwrpasol yng Nghymru, a thrydedd gyfran o'r gronfa datblygu craffu.

**David Melding:** Mae gennyf ddiddordeb mawr mewn clywed am y datblygiadau posibl hynny, a chymeradwyaf waith y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, sydd wedi eich annog i ystyried ailagor y gronfa datblygu craffu. Mae hefyd wedi pwysleisio'r angen i sicrhau mynediad at wybodaeth ar gyfer cynghorwyr meinciau cefn, ynghyd ag ystyried modelau newydd, megis cyflwyno rôl arweinydd yr wrthblaid, er mwyn inni sicrhau bod system yn cyflwyno her fel mater o drefn, sy'n rhoi llawer mwy o awdurdod gweithredol i gynghorwyr penodol nawr nag erioed o'r blaen.

**Carl Sargeant:** Bydd yr Aelod yn ymwybodol, drwy Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, lle y gwnaethom ddyrannu swyddi ar gyfer cymorth i aelodau y tu allan i'r strwythur cabinet, y dylai pob cynghorydd allu cael mynediad at hynny. Maent yn annibynnol ar y prif weithredwr ac mae ganddynt swyddogaeth yn eu rhinwedd eu hunain i gefnogi aelodau yn y llinell wybodaeth honno. Rwyf yn ddiolchgar am

development fund, which we expect to be launched later this year, thereby developing and enhancing scrutiny arrangements, which I believe will give better governance and better delivery. I am therefore grateful for the Member's support.

gefnogaeth yr Aelod i'r gronfa datblygu craffu, y disgwyliwn iddi gael ei lansio yn ddiweddarach eleni, a thrwy hynny ddatblygu a gwella trefniadau craffu, a fydd, yn fy marn i, yn sicrhau gwell prosesau llywodraethu a gwell darpariaeth. Rwyf yn ddiolchgar felly am gefnogaeth yr Aelod.

**Mike Hedges:** Having spent 28 years up until May as a member of scrutiny committees in Swansea council, and having at one time been a chair of a scrutiny committee, I do not think that scrutiny has worked in local government as well as the Minister or any of us would have liked. Does the Minister agree with me that we really need to ensure that local authorities ensure that the people on scrutiny committees have all the relevant information in a timely manner? Also, is there any need for further guidance on this to ensure that scrutiny manages to cover everything? There is always a danger that in dealing with, for example, looked-after children's educational attainment, you will look at the education side of it but not the social services side of it, which may have a greater effect.

**Mike Hedges:** Ar ôl treulio 28 o flynyddoedd hyd at fis Mai fel aelod o bwyllgorau craffu yng nghyngor Abertawe, ac ar ôl bod yn gadeirydd pwyllgor craffu ar un adeg, ni chredaf fod craffu wedi gweithio mewn llywodraeth leol gystal ag y byddai'r Gweinidog neu unrhyw un ohonom wedi ei hoffi. A yw'r Gweinidog yn cytuno â mi bod gwir angen inni sicrhau bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod y bobl ar bwyllgorau craffu yn cael yr holl wybodaeth berthnasol mewn modd amserol? Hefyd, a oes angen canllawiau pellach ar hyn er mwyn sicrhau bod craffu yn llwyddo i gwmpasu popeth? Mae perygl bob amser, wrth ddelio, er enghraifft, â chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal, y byddwch yn edrych ar yr agwedd addysg ond nid ar yr agwedd gwasanaethau cymdeithasol, a allai gael mwy o effaith.

**Carl Sargeant:** The Member raises a very important issue about being fully apprised of the situation. We have issued guidance recently, and I am more than happy to send a copy of that to the Member for his perusal. The issue for me is about making sure that all local authorities are consistent in their support for members in order to scrutinise the executive function of the council. I know that the Member is extremely experienced in this matter and I always take his words very seriously when he has advice for me.

**Carl Sargeant:** Mae'r Aelod yn codi mater pwysig iawn ynglŷn â bod yn gwbl ymwybodol o'r sefyllfa. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau yn ddiweddar, ac rwyf yn fwy na pharod i anfon copi ohonynt at yr Aelod er mwyn iddo eu darllen. Y mater i mi yw gwneud yn siwr bod pob awdurdod lleol yn gyson yn eu cefnogaeth i aelodau er mwyn craffu ar swyddogaeth weithredol y cyngor. Gwn fod yr Aelod yn hynod o brofiadol yn y mater hwn, ac rwyf bob amser yn cymryd ei eiriau yn ddifrifol iawn pan fydd ganddo gyngor imi.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, rwyf yn rhannu llawer o'r pryderon y mae David Melding wedi eu codi. A ydych yn rhannu â mi y gofid mewn rhai sefyllfaoedd lle mae bwrdd gweithredol y bydd rhai o'r prif swyddogion yn teimlo mai eu pennaf ddyletswydd hwy yw gwasanaethu'r bwrdd hwnnw? O'r herwydd, mae perygl nad yw cynghorwyr meinciau cefn yn cael y gwasanaeth llawn a'r cymorth y mae arnynt eu hangen gan swyddogion.

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, I share many of the concerns that David Melding has raised. Do you share the concern that in some situations where there is an executive board, some of the chief officers feel that their main duty is to serve that board? This means that there is a risk that backbench councillors do not receive from officials the full service and support that they require.

2.30 p.m.

**Carl Sargeant:** The Member raises an interesting point. However, as I said to David Melding, what we did through the local government Measure was to provide a service by an independent officer outside of the chief executive's remit in terms of supporting backbench members for that information purpose. It is important that we are able to support good scrutiny with authorities, and if the Member has any thoughts around that, or any reason to believe that that is not working, I would be happy to receive his correspondence.

**Carl Sargeant:** Mae'r Aelod yn codi pwynt diddorol. Fodd bynnag, fel y dywedais wrth David Melding, yr hyn a wnaethom drwy'r Mesur llywodraeth leol oedd darparu gwasanaeth gan swyddog annibynnol y tu allan i gylch gwaith y prif weithredwr o ran cefnogi aelodau meinciau cefn at ddiben y wybodaeth honno. Mae'n bwysig ein bod yn gallu cefnogi craffu da gydag awdurdodau, ac os oes gan yr Aelod unrhyw syniadau ynghylch hynny, neu unrhyw reswm dros gredu nad yw hynny'n gweithio, byddwn yn fwy na pharod i dderbyn ei ohebiaeth.

**Rhodri Glyn Thomas:** Diolch am y gwahoddiad, Weinidog. Gallaf eich sicrhau y byddaf yn ysgrifennu atoch ynglŷn ag un mater penodol, ac un cyngor penodol. Fodd bynnag, roeddwn yn gofyn y cwestiwn yn gyffredinol. Nid beirniadu'r prif swyddogion yr wyf, dim ond nodi ei bod yn naturiol i'r berthynas honno ddatblygu rhwng y prif weithredwr, arweinydd y cyngor, y bwrdd gweithredol a'r holl brif swyddogion, ac felly bod cynghorwyr meinciau cefn yn cael eu gadael mewn sefyllfa lle nad oes ganddynt fawr ddim arweiniad, fawr ddim grym, a dim modd i gyflawni eu gwaith craffu yn effeithiol.

**Rhodri Glyn Thomas:** Thank you for the invitation, Minister. I can assure you that I will be writing to you with regard to one specific issue, and one specific council. However, I was asking a general question. I am not criticising chief officers, but noting that it is only natural for that relationship to develop between the chief executive, the council leader, the executive board and the chief officers, and that, as a result, backbench councillors are left without much guidance, without much power, with no way of effectively completing their scrutiny work.

**Carl Sargeant:** There are two separate issues in terms of the Cabinet structure and the organisation. There are clear guidelines regarding the code of conduct for members, and also the professional operation of an organisation to support the council function. As I said, we have put in place a separate principle, based on the Member's concerns, namely that there is a designated officer in an authority to support members with the information and guidance that they would seek, independent of any senior officer team in terms of the chief executive.

**Carl Sargeant:** Mae dau fater ar wahân o ran strwythur y Cabinet a'r sefydliad. Mae yna ganllawiau clir ynghylch y cod ymddygiad ar gyfer aelodau, a hefyd weithrediad proffesiynol sefydliad i gefnogi swyddogaeth y cyngor. Fel y dywedais, rydym wedi rhoi egwyddor ar wahân ar waith, yn seiliedig ar bryderon yr Aelod, sef bod yna swyddog dynodedig mewn awdurdod i gefnogi aelodau sydd â'r wybodaeth a'r canllawiau y byddent yn eu ceisio, yn annibynnol ar unrhyw dîm uwch swyddog o ran y prif weithredwr.

## Gwella Diogelwch Cymunedol

## Increasing Community Safety

***5. Ann Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei flaenoriaethau ar gyfer gwella diogelwch cymunedol yn Nyffryn Clwyd. OAQ(4)0184(LGC)*

***5. Ann Jones:*** *Will the Minister provide an update on his priorities for increasing community safety in the Vale of Clwyd. OAQ(4)0184(LGC)*

**Carl Sargeant:** The Welsh Government works closely with partners to ensure a joined-up approach to community safety in the Vale of Clwyd, including funding 101 police community support officers in north Wales, and providing a domestic abuse capital grant of over £700,000 since 2008-09 to support the development of one-stop shops across the region, which I recently visited with the Member.

**Carl Sargeant:** Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i sicrhau ymagwedd gydgysylltiedig at ddiogelwch cymunedol yn Nyffryn Clwyd, gan gynnwys ariannu 101 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yng ngogledd Cymru, a darparu grant cyfalaf cam-drin domestig o fwy na £700,000 ers 2008-09 i gefnogi'r broses o ddatblygu siopau un-stop ledled y rhanbarth, yr ymwelais â hwy yn ddiweddar gyda'r Aelod.

**Ann Jones:** Thank you for that answer, Minister. The Tory-led coalition in Westminster—and the Home Office in particular—is slashing by half the funding for independent domestic violence advisers. That is on top of its plans for policing, which will affect front-line policing, Legal Aid, which will be removed for many women, and the courts service. This is endangering all the advice services that women fleeing domestic violence may wish to avail themselves of. That produces a huge hurdle for women who are fleeing domestic violence, particularly those in my constituency. You have already mentioned the violence against women (Wales) Bill. However, will you continue to make representations to the UK Government about the need to protect services for some of the most vulnerable people in my constituency, and across Wales, so that those people are not put at further risk of violence? Will you also mention that the Tories' savage public sector cuts are helping those people who want to commit violence against women to do so?

**Ann Jones:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae'r glymblaid a arweinir gan y Torïaid yn San Steffan—a'r Swyddfa Gartref yn benodol—yn haneru'r arian ar gyfer cynghorwyr trais domestig annibynnol. Mae hynny ar ben ei chynlluniau ar gyfer plismona, a fydd yn effeithio ar blismona rheng flaen, Cymorth Cyfreithiol, a gaiff ei ddileu i lawer o fenywod, a'r gwasanaeth llysoedd. Mae hyn yn peryglu'r holl wasanaethau cyngor y gall menywod sy'n ffoi rhag trais domestig fod yn awyddus i fanteisio arnynt. Mae hynny'n creu rhwystr enfawr i fenywod sy'n ffoi rhag trais domestig, yn enwedig y rhai yn fy etholaeth i. Rydych eisoes wedi crybwyll Bil Trais yn erbyn Menywod (Cymru). Fodd bynnag, a fyddwch yn parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU am yr angen i ddiogelu gwasanaethau ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed yn fy etholaeth, a ledled Cymru, fel nad yw'r bobl hynny yn cael eu rhoi mewn mwy o berygl o drais? A wnewch chi hefyd sôn bod toriadau llym y Torïaid yn y sector cyhoeddus yn helpu'r bobl hynny sydd am fod yn dreisgar yn erbyn menywod i wneud hynny?

**Carl Sargeant:** Your support for the Welsh Government's determination to tackle these issues is clear; I am grateful for that support, as well as for the support of many other Assembly Members. You are quite right, and it has been well documented, that the reduction in funding from Westminster to Wales will have an implication. However, I have been keen to ensure that my team, working under the community safety department, fully understands my commitment, and this Government's commitment, to tackling these issues. We cannot always mitigate the reduction in

**Carl Sargeant:** Mae eich cefnogaeth i benderfyniad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion hyn yn glir; rwyf yn ddiolchgar am y gefnogaeth honno, yn ogystal ag i gefnogaeth nifer o Aelodau Cynulliad eraill. Rydych yn llygad eich lle, ac mae wedi cael ei dogfennu'n dda, y bydd goblygiadau ynghlwm wrth y gostyngiad mewn arian gan San Steffan i Gymru. Fodd bynnag, rwyf wedi bod yn awyddus i sicrhau bod fy nhîm, gan weithio o dan yr adran diogelwch cymunedol, yn llawn ddeall fy ymrwymiad, ac ymrwymiad y Llywodraeth hon, i fynd i'r afael â'r materion hyn. Ni

funding from Westminster; however, we can work much closer with our partners in Wales. As I alluded to earlier, the police are working closely with the department. I have been clear with the chief officers that, when the police and crime commissioners come into post, I would expect any funding from the Welsh Government that is intended to be targeted at domestic abuse services to continue; if not, we would have to find another mechanism for funding.

allwn bob amser liniaru'r gostyngiad mewn arian gan San Steffan; fodd bynnag, gallwn weithio'n llawer agosach gyda'n partneriaid yng Nghymru. Fel y crybwyllais yn gynharach, mae'r heddlu'n gweithio'n agos gyda'r adran. Rwyf wedi bod yn glir gyda'r prif swyddogion, pan fydd y comisiynwyr heddlu a throsedd yn dechrau ar eu swyddi, y byddwn yn disgwyl i unrhyw arian gan Lywodraeth Cymru sydd i fod i gael ei anelu at wasanaethau cam-drin domestig barhau; os na fydd, byddai'n rhaid inni ddod o hyd i ddull arall o ariannu.

**Mark Isherwood:** We have already corresponded over matters relating to independent domestic violence advisers and so on in north Wales. However, given your comment about the need for partnership regarding community safety in the Vale of Clwyd and beyond, how do you respond to the statement in the minutes from the Wales Association of Community Safety Officers meeting in Llandrindod Wells on 17 July that there appeared to be a widening gap between the Minister and the actual delivery of the safer communities fund?

**Mark Isherwood:** Rydym eisoes wedi gohebu ynghylch materion yn ymwneud ag ymgynghorwyr trais domestig annibynnol ac yn y blaen yn y gogledd. Fodd bynnag, o ystyried eich sylwadau am yr angen am bartneriaeth ynghylch diogelwch cymunedol yn Nyffryn Clwyd a thu hwnt, sut rydych yn ymateb i'r datganiad yn y cofnodion o gyfarfod Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru yn Llandrindod ar 17 Gorffennaf ei bod yn ymddangos bod bwlch yn lledu rhwng y Gweinidog a'r broses wirioneddol o gyflwyno'r gronfa cymunedau mwy diogel?

**Carl Sargeant:** When we have less money, there is less money to give out. That is simple economics, Mark; as a former bank manager, you should understand that. The issue for me is how to make best use of our funding to tackle the issues that are important to us as a Government. I will not take any lessons from you on our commitment to community safety.

**Carl Sargeant:** Pan fo gennym lai o arian, mae llai o arian i'w ddosbarthu. Mae hynny'n economeg syml, Mark; fel cyn-reolwr banc, dylech ddeall hynny. Y mater i mi yw sut i wneud y defnydd gorau o'n harian i fynd i'r afael â'r materion sy'n bwysig inni fel Llywodraeth. Ni chymeraf unrhyw wersi gennych chi ar ein hymrwymiad i ddiogelwch cymunedol.

**Llyr Huws Gruffydd:** Rydym wedi gweld cynnydd o 30% mewn torcyfraith mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru. Mae ffermydd, yn enwedig mewn ardaloedd fel Dyffryn Clwyd, wedi gweld olew a diesel yn cael eu dwyn yn ogystal â pheiriannau a hyd yn oed anifeiliaid, gan gostio rhyw £385,000 i economi'r gogledd yn unig. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â hyn? Hefyd, yn eich barn chi, Weinidog, pa gyfraniad y gall cynlluniau fel *Farmwatch* ei wneud?

**Llyr Huws Gruffydd:** We have seen an increase of 30% in rural crime in Wales. Farms, especially in areas such as the Vale of Clwyd, have seen oil and diesel as well as machinery and even livestock being stolen, at a cost of some £385,000 for the north Wales economy alone. What is the Welsh Government doing to tackle this issue? Also, in your view, Minister, what contribution can schemes such as Farmwatch make?

**Carl Sargeant:** I certainly embrace the Farmwatch proposal and I know that the Deputy Minister, Alun Davies, is keen to

**Carl Sargeant:** Rwyf yn sicr yn croesawu'r cynnig Gwarchod Ffermydd a gwn fod y Dirprwy Weinidog Alun Davies, yn awyddus

support its principle. There is a partnership approach to this and I have raised these issues with chief constables. These thefts seem to go in phases: there have been scrap-metal thefts followed by fuel thefts, and thieves just move around the system. We need to focus on all of these issues and tackle them head on. I met with chief constables today to discuss some of these issues that are of concern in the Member's region, and we take this matter very seriously with our partners.

i gefnogi ei egwyddor. Mae ymagwedd bartneriaeth at hyn ac rwyf wedi codi'r materion hyn gyda phrif gwnstabliaid. Mae'r achosion hyn o ddwyn yn digwydd mewn cyfnodau, yn ôl pob golwg: cafwyd achosion o ddwyn metel sgrap ac yna ddwyn tanwydd, ac mae lladron yn symud o gwmpas y system. Mae angen inni ganolbwyntio ar yr holl faterion hyn a mynd i'r afael â hwy'n uniongyrchol. Cyfarfûm â phrif gwnstabliaid heddiw i drafod rhai o'r materion hyn sy'n peri pryder yn rhanbarth yr Aelod, ac rydym yn ystyried y mater hwn yn ddifrifol iawn gyda'n partneriaid.

**Blaenoriaethau**

**Priorities**

***6. Andrew R.T. Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer Canol De Cymru dros dymor yr Hydref. OAQ(4)0182(LGC)*

***6. Andrew R.T. Davies:*** *Will the Minister outline his priorities for South Wales Central for the Autumn term. OAQ(4)0182(LGC)*

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his question. My priorities for the whole of Wales are to deliver on our programme for government to our communities.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Fy mlaenoriaethau ar gyfer Cymru gyfan yw cyflawni ein rhaglen ar gyfer llywodraeth i'n cymunedau.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you, Minister, for that answer. I have raised on several occasions the issue of animal welfare and, in particular, fly grazing, on which you are the lead Minister, as I am led to believe by the Leader of the House. Could you outline what residents, animal charities and authorities in the South Wales Central area will be able to do to ensure that this problem does not arise this winter, given that we are told that the Government has been working across portfolio to address this issue? What specific differences will there be this winter in how you address this, in order to prevent it from happening in South Wales Central?

**Andrew R.T. Davies:** Diolch ichi, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Rwyf wedi codi ar sawl achlysur fater lles anifeiliaid ac, yn benodol, pori anghyfreithlon, sef pwnc rydych chi'n Weinidog arweiniol arno, yn ôl yr hyn a ddywed Arweinydd y Tŷ. A allech amlinellu beth y gall trigolion, elusennau anifeiliaid ac awdurdodau yn ardal Canol De Cymru ei wneud i sicrhau nad yw'r broblem hon yn codi y gaeaf hwn, o ystyried ein bod wedi cael gwybod bod y Llywodraeth wedi bod yn gweithio ar draws portffolio i fynd i'r afael â'r mater hwn? Pa wahaniaethau penodol fydd yna y gaeaf hwn o ran y modd yr ewch i'r afael â hyn, er mwyn ei atal rhag digwydd yng Nghanol De Cymru?

**Carl Sargeant:** I am grateful for your question, but I am not sure about the accuracy of some of the detail in terms of me being the lead Minister on this, although the Leader of the House made reference to that the other week.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn ddiolchgar am eich cwestiwn, ond nid wyf yn siŵr am gywirdeb rhai o'r manylion o ran y ffaith mai fi yw'r Gweinidog sy'n arwain ar hyn, er i Arweinydd y Tŷ gyfeirio at hynny yr wythnos o'r blaen.

A collective approach across Government is required to ensure that we tackle the very serious issues that you raise. Most recently,

Mae angen ymagwedd ar y cyd ar draws y Llywodraeth er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r materion difrifol iawn a

we received a letter from the cross-party group on the horse, chaired by Angela Burns. I am sure that one of my ministerial colleagues would be delighted to attend a meeting of that group to ensure that we address some of the issues that she raises.

godir gennych. Yn fwyaf diweddar, cawsom lythyr gan y grŵp trawsbleidiol ar y ceffyl, a gadeirir gan Angela Burns. Rwyf yn siŵr y byddai un o'm cyd-Weinidogion yn falch o fynychu un o gyfarfodydd y grŵp hwnnw er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â rhai o'r materion y mae'n eu codi.

**Vaughan Gething:** You will no doubt be aware of the trial being piloted by Labour-run Sheffield City Council of a tram-train network able to move between rails and tracks on roads. This offers a real opportunity to improve transport links in urban areas, including south Wales and make local rail services more cost-effective. Could you confirm whether your officials have been, or will be, involved in monitoring the costs, impact and benefits of the trials in Sheffield and Rotherham, and do you agree that there is real potential, if it is successful, to expand a similar network here after electrification and to introduce something like a south Wales metro?

**Vaughan Gething:** Mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol o'r treial sydd ar droed gan Gyngor Llafur Dinas Sheffield sef rhwydwaith tram-drên a all symud rhwng rheiliau a thraciau ar y ffyrdd. Mae hyn yn cynnig cyfle gwirioneddol i wella cysylltiadau trafnidiaeth mewn ardaloedd trefol, gan gynnwys de Cymru a sicrhau bod gwasanaethau rheilffordd lleol yn fwy cost-effeithiol. A allech gadarnhau a yw eich swyddogion wedi bod, neu y byddant, yn ymwneud â monitro costau, effaith a manteision y treialon yn Sheffield a Rotherham, ac a ydych yn cytuno bod potensial gwirioneddol, os yw'n llwyddiannus, i ehangu rhwydwaith tebyg yma ar ôl trydaneiddio ac i gyflwyno rhywbeth fel metro de Cymru?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his question. I am aware of the scheme in Sheffield. At this present time, I do not think that we should write anything off. We should explore all opportunities to develop transport services. I know that the Member represents Cardiff South and Penarth, but this is about taking a holistic approach to a modal shift so that we can give people across Wales the opportunity to access better transport services. That is an aspiration of this Government.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Rwyf yn ymwybodol o'r cynllun yn Sheffield. Ar hyn o bryd, nid wyf yn credu y dylem ddiystyru unrhyw beth. Dylem archwilio pob cyfle i ddatblygu gwasanaethau trafnidiaeth. Gwn fod yr Aelod yn cynrychioli De Caerdydd a Phenarth, ond mae hyn yn ymwneud â chymryd ymagwedd gyfannol tuag at newid moddol fel y gallwn roi'r cyfle i bobl ledled Cymru allu manteisio ar wasanaethau trafnidiaeth gwell. Mae hynny'n un o ddyheadau'r Llywodraeth hon.

**Leanne Wood:** A major issue in South Wales Central is the need for integrated public transport, and, in particular, the need for two-way links between Cardiff and the Valleys. The report on the Cardiff and Valleys metro by Mark Barry states that significant new devolved powers are needed if that integrated transport system is to be delivered. These powers include responsibility for rail infrastructure and a fair funding settlement, which the Party of Wales supports, obviously. Do you see these new powers as being essential for delivery of integrated transport in south Wales?

**Leanne Wood:** Un mater o bwys yng Nghanol De Cymru yw'r angen am drafnidiaeth gyhoeddus integredig, ac, yn benodol, yr angen am gysylltiadau dwy-ffordd rhwng Caerdydd a'r Cymoedd. Mae'r adroddiad ar fetro Caerdydd a'r Cymoedd gan Mark Barry yn nodi bod angen pwerau datganoledig newydd sylweddol er mwyn cyflwyno'r system drafnidiaeth integredig honno. Mae'r pwerau hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am seilwaith rheilffyrdd a setliad ariannu teg, y mae Plaid Cymru yn ei gefnogi, yn amlwg. A ydych o'r farn bod y pwerau newydd hyn yn hanfodol er mwyn darparu trafnidiaeth integredig yn y de?

**Carl Sargeant:** In some circumstances, yes, and I am in discussions with Ministers in London over these matters.

**Carl Sargeant:** Mewn rhai amgylchiadau, yn wir, ac rwyf mewn trafodaethau gyda Gweinidogion yn Llundain ynghylch y materion hyn.

**Seilwaith Rheilffyrdd**

**Rail Infrastructure**

***7. Aled Roberts:*** *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch y seilwaith rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0177(LGC)*

***7. Aled Roberts:*** *What discussions has the Minister had with the UK Government on rail infrastructure in North Wales. OAQ(4)0177(LGC)*

**Carl Sargeant:** I am in discussions with UK Government about the role of the Welsh Government in rail decision making. I have been clear that I want to see north Wales properly connected to the electrified network around Liverpool. I am sure that the Member will be interested to know that I specifically raised the issue of north Wales in a welcoming letter to the Secretary of State for Transport, and I wish to pursue that with him. Members will also wish to be aware that, just before the start of this session, I had a telephone conversation with the Minister of State for Transport to discuss the continuation of services on the north Wales line following Westminster's proposal to scrap the west coast franchise process.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn wrthi'n trafod gyda Llywodraeth y DU am rôl Llywodraeth Cymru o ran gwneud penderfyniadau am reilffyrdd. Rwyf wedi egluro fy mod am weld y gogledd yn cael ei chysylltu'n briodol â'r rhwydwaith trydan o gwmpas Lerpwl. Rwyf yn siŵr y bydd gan yr Aelod ddiddordeb mewn gwybod imi godi mater y gogledd yn benodol mewn llythyr o groeso at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, a hoffwn fynd ar drywydd hynny gydag ef. Bydd Aelodau hefyd yn dymuno gwybod, yn union cyn dechrau'r sesiwn hon, imi gael sgwrs dros y ffôn gyda'r Gweinidog Gwladol dros Drafnidiaeth i drafod parhad gwasanaethau ar reilffordd y gogledd yn dilyn bwriad San Steffan i gael gwared ar broses masnachfraint arfordir y gorllewin.

**Aled Roberts:** Diolch am hynny, Weinidog. Mae cyllideb o ryw £140 miliwn o fewn Adran Trafnidiaeth y Deyrnas Unedig ar gyfer prosiectau datblygu cyfnod 6, sef y cyfnod ar ôl 2015. A wnaiff y Gweinidog gefnogi cais i'r gronfa er mwyn datblygu achos busnes manwl ar drydaneiddio'r rheilffordd ar hyd yr arfordir i Gaergybi?

**Aled Roberts:** Thank you for that, Minister. There is a budget of some £140 million within the United Kingdom Department for Transport for stage 6 development projects, that is the period after 2015. Will the Minister support a bid to this fund to develop a detailed business case on the electrification of the coast line to Holyhead?

**Carl Sargeant:** Yes.

**Carl Sargeant:** Gwnaf.

**Darren Millar:** Minister, I am very pleased to hear that you have been engaging with the UK Government on this issue, which we have raised many times in this Chamber. I am also concerned, however, to ensure that there is a direct rail link with Liverpool. I wonder what discussions you might have had with your UK counterparts, and indeed with the Wales Office, regarding the possibility of re-establishing a direct rail link into Liverpool, given the commercial and economic benefits that that might bring to north Wales.

**Darren Millar:** Weinidog, rwyf yn falch iawn o glywed eich bod wedi bod yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y mater hwn, yr ydym wedi sôn amdano droeon yn y Siambr hon. Rwyf hefyd yn pryderu, fodd bynnag, y dylid sicrhau bod yna gyswllt rheilffordd uniongyrchol gyda Lerpwl. Tybed pa drafodaethau y gallech fod wedi'u cael gyda'ch cymheiriaid yn y DU, ac yn wir gyda Swyddfa Cymru, ynghylch y posibilrwydd o ailsefydlu cyswllt rheilffordd uniongyrchol i Lerpwl, o ystyried y manteision masnachol

ac economaidd y gallai hynny eu dwyn i ogledd Cymru.

**Carl Sargeant:** I recognise the Member's concern and support for the principled stance that we take in terms of operating in a setting where the economy of north Wales is united with that of north-west England, and how we can get better benefit from the rail infrastructure programme. I have a diary engagement with the Secretary of State for Wales and the Secretary of State for Transport in London. As I mentioned to the Member earlier, I have written to him and discussed with him the issue of enhancing services in north Wales.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn cydnabod pryder a chefnogaeth yr Aelod ynghylch y safiad egwyddorol yr ydym yn ei arddel o ran gweithredu mewn lleoliad lle mae economi'r gogledd yn unedig ag economi gogledd-orllewin Lloegr, a sut y gallwn gael mwy o fudd o'r rhaglen seilwaith rheilffyrdd. Mae cyfarfod wedi'i drefnu gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yn Llundain. Fel y dywedais wrth yr Aelod yn gynharach, rwyf wedi ysgrifennu ato a thrafod gydag ef y mater o wella gwasanaethau yn y gogledd.

**Alun Ffred Jones:** Byddwch yn ymwybodol, Weinidog, bod yr A55 yn cael ei chyfrif yn gyswllt traws-Ewropeaidd sy'n cysulltu Paris a Dulyn. Yr hyn sy'n rhyfedd yw bod y cyswllt rheilffford traws-Ewropeaidd, sy'n rhedeg o Frwsel, yn mynd trwy goridor de Cymru i Abertawe, lle nad oes cyswllt o gwbl ag Iwerddon. Onid yw'n bryd i Lywodraeth Cymru bwyso ar yr awdurdodau ym Mrwsel i sicrhau bod y cyswllt trên rhwng Paris a Llundain a Dulyn yn cael ei gydnabod, er mwyn cryfhau'r achos dros drydaneiddio rheilffordd y gogledd?

**Alun Ffred Jones:** You will be aware, Minister, that the A55 is considered a trans-European link connecting Paris and Dublin. What is strange is that the trans-European rail link, running from Brussels, uses the south Wales corridor to Swansea, where there is no link at all to Ireland. Is it not high time that the Welsh Government urged the authorities in Brussels to ensure that that train link is acknowledged between Paris, London and Dublin, in order to strengthen the case for the electrification of the north Wales line?

**Carl Sargeant:** Of course, the Member raises a significant point, and it is something that I will be raising with the department in London, as well as my colleague Alun Davies, over the issues around Europe.

**Carl Sargeant:** Wrth gwrs, mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig, ac mae'n rhywbeth y byddaf yn ei godi gyda'r adran yn Llundain, yn ogystal â'm cyd-Aelod, Alun Davies, ynghylch y materion sy'n ymwneud ag Ewrop.

**Blaenoriaethau**

**Priorities**

***8. Byron Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer tymor yr Hydref. OAQ(4)0174(LGC)*

***8. Byron Davies:*** *Will the Minister outline his priorities for the Autumn term. OAQ(4)0174(LGC)*

**Carl Sargeant:** My priorities are to deliver on our programme for government commitments to reduce poverty, to make our communities safer and to support the delivery of effective and efficient public services that meet the needs of Wales.

**Carl Sargeant:** Fy mlaenoriaethau yw cyflawni ein rhaglen ar gyfer ymrwymiadau'r llywodraeth i leihau tlodi, i wneud ein cymunedau yn fwy diogel ac i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon sy'n diwallu anghenion Cymru.

**Byron Davies:** Thank you for that response, Minister. I very much regret to say that we

**Byron Davies:** Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Mae'n flin iawn gennyf ddweud

had a familiar sight on the M4 this morning—an eight-mile traffic queue near Port Talbot. This was sadly caused by an accident, but it is a constant reminder about the fragility of our transport network here in Wales. With this in mind, and given your recent consultation on easing the flow of traffic on the M4, when can we expect a strategic investment plan to increase capacity and safety on the M4 in south Wales?

ein bod wedi gweld golygfa gyfarwydd ar yr M4 y bore yma—ciw traffig wyth milltir ger Port Talbot. Cafodd hyn ei achosi yn anffodus gan ddamwain, ond mae'n ein hatgoffa'n gyson am natur fregus ein rhwydwaith trafnidiaeth yma yng Nghymru. Gyda hyn mewn golwg, ac o ystyried eich ymgynghoriad diweddar ar leddfu llif y traffig ar yr M4, pryd y gallwn ddisgwyl cynllun buddsoddi strategol i gynyddu capasiti a diogelwch ar yr M4 yn y de?

**Carl Sargeant:** It would be foolish of me to pre-empt a consultation exercise, and certainly that is something that I will be considering and taking all issues into account, including the one that the Member raises today.

**Carl Sargeant:** Byddai'n wirion imi achub y blaen ar ymgynghoriad, ac yn sicr mae hynny'n rhywbeth y byddaf yn ei ystyried ynghyd â'r holl faterion, gan gynnwys yr un y mae'r Aelod yn ei godi heddiw.

**Byron Davies:** Turning to the Severn bridge, the opposition on these benches could not be clearer, really: we proposed a freeze in the Severn tolls for the next four years, which would have saved Welsh motorists some £3.4 million in 2012.

**Byron Davies:** Gan droi at bont Hafren, ni allai'r wrthblaid ar y meinciau hyn fod yn gliriach, mewn gwirionedd: gwnaethom gynnig rhewi tollau Hafren am y pedair blynedd nesaf, a fyddai wedi arbed tua £3.4 miliwn i fodurwyr Cymru yn 2012.

2.45 p.m.

Will you outline exactly what discussions you or your department have had regarding the Severn bridge toll and its future? Perhaps you could tell us about any conversation that you might have had with your opposite number in Westminster on this issue.

A fyddwch yn amlinellu'n union pa drafodaethau rydych chi neu eich adran wedi eu cael ynghylch tollau pont Hafren a'u dyfodol? Efallai y gallech ddweud wrthym am unrhyw sgwrs y gallech fod wedi'i chael gyda'r Gweinidog cyfatebol yn San Steffan ar y mater hwn.

**Carl Sargeant:** I have had many conversations, including conversations about the toll mechanism, which the UK Government is in charge of. It is interesting that your influence seems to be minimal if you are suggesting that the reduction in the tolls could save an awful lot of money, when it is a decision by the UK Government could enact that saving.

**Carl Sargeant:** Rwyf wedi cael llawer o sgyrsiau, yn cynnwys sgyrsiau am y dull codi tollau, y mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol amdano. Mae'n ddiddorol bod eich dylanwad yn ymddangos yn fach iawn, yn ôl pob golwg, os ydych yn awgrymu y gallai'r gostyngiad yn y tollau arbed llawer iawn o arian, pan mai penderfyniad gan Lywodraeth y DU allai gyflawni'r arbedion hynny.

**David Rees:** Last Thursday evening, I attended an event in the upper Afan valley to celebrate 10 years of Communities First working in that area and to see the excellent work that is being done for individuals and communities through Communities First. We know that Communities First is coming to an end and that in January 2013 we should be seeing a change, but could you give us a

**David Rees:** Nos Iau diwethaf, euthum i ddigwyddiad yng nghwm Afan uchaf i ddathlu 10 mlynedd o Cymunedau yn Gyntaf yn gweithio yn yr ardal honno ac i weld y gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud ar gyfer unigolion a chymunedau drwy Cymunedau yn Gyntaf. Gwyddom fod Cymunedau yn Gyntaf yn dod i ben ac ym mis Ionawr 2013 y dylem fod yn gweld

statement as to what will happen post 2013, so that the staff know in which direction they are moving in order to help the communities that they are working in?

newid, ond a allech roi datganiad inni ynghylch beth fydd yn digwydd ar ôl 2013, fel bod y staff yn gwybod i ba gyfeiriad y maent yn symud er mwyn helpu'r cymunedau y maent yn gweithio ynddynt?

**Carl Sargeant:** It has been an interesting process in taking Communities First to a different level. The decision to have a reduced number of partnerships and larger clusters incorporating areas that were not previously covered by a Communities First area—where intervention should have taken place—provides flexibility around the new cluster areas to embrace that. We received 52 applications for eligible areas and my officials are working with the applicants to ensure a quick turnaround so that there is a continuity of service albeit on a different level.

**Carl Sargeant:** Mae wedi bod yn broses ddiddorol mynd â Cymunedau yn Gyntaf i lefel wahanol. Mae'r penderfyniad i gael nifer lai o bartneriaethau a chlystyrau mwy o faint gan ymgorffori ardaloedd nad oeddent wedi'u cynnwys yn flaenorol gan ardal Cymunedau yn Gyntaf—lle y dylai ymyriad fod wedi digwydd—yn darparu hyblygrwydd o amgylch yr ardaloedd clwstwr newydd i dderbyn hynny. Derbyniwyd 52 o geisiadau ar gyfer ardaloedd cymwys ac mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r ymgeiswyr er mwyn sicrhau ei fod yn digwydd yn gyflym fel bod parhad yn y gwasanaeth er bod hynny ar lefel wahanol.

**Simon Thomas:** Will you take an early opportunity to examine the operation of the Home Office's child sex offender disclosure scheme—also known as Sarah's law—which has been operating in Wales for a year? Do you agree that communities and parents need to understand how this mechanism can work properly to ensure safer communities? Will you make it a priority in your early discussions with the incoming police and crime commissioners, so that we do not lose focus on these important aspects of community safety when we are looking at other aspects of crime?

**Simon Thomas:** A wnewch chi gymryd cyfle cynnar i archwilio gweithrediad cynllun datgelu troseddwyr rhyw plant y Swyddfa Gartref—a elwir hefyd yn gyfraith Sarah—sydd wedi bod yn gweithredu yng Nghymru am flwyddyn? A ydych yn cytuno bod angen i gymunedau a rhieni ddeall sut y gall y dull hwn weithio'n briodol i sicrhau cymunedau mwy diogel? A fyddwch yn ei wneud yn flaenoriaeth yn eich trafodaethau cynnar gyda'r comisiynwyr heddlu a throsedd newydd, fel nad ydym yn colli ffocws ar yr agweddau pwysig hyn ar ddiogelwch cymunedol pan fyddwn yn edrych ar agweddau eraill ar drosedd?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his question. As I pursue this issue with the police as part of this process, I will provide the Assembly, probably through a written statement, with an update on where we are in relation to this proposal.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Wrth imi fynd ar drywydd y mater hwn gyda'r heddlu fel rhan o'r broses hon, byddaf yn rhoi i'r Cynulliad, yn ôl pob tebyg drwy ddatganiad ysgrifenedig, ddiweddariad ar ein sefyllfa mewn perthynas â'r cynnig hwn.

**Kenneth Skates:** Minister, as you will know, the regulation and management of unsurfaced roads, sometimes known as green lanes by local authorities, is a contentious issue across Wales. While we want to protect the ancient and modern rights of way, off-roading has become increasingly popular in areas such as mine, and there is a risk of erosion along

**Kenneth Skates:** Weinidog, fel y gwyddoch, mae rheoleiddio a rheoli ffyrdd heb arwyneb, a elwir weithiau yn lonydd gwyrdd gan awdurdodau lleol, yn fater dadleuol ledled Cymru. Er ein bod yn awyddus i ddiogelu hawliau tramwy hynafol a modern, mae gyrru oddi ar y ffordd wedi dod yn fwyfwy poblogaidd mewn ardaloedd fel fy etholaeth

many green lanes, as well as the ongoing danger of walkers and horse riders being put at risk of injury. Will you work with local authorities across Wales to ensure that the regulation of green lanes is working and that their management serves both the walkers and riders who use them?

i, ac mae perygl o erydiad ar hyd llawer o lonydd gwyrdd, yn ogystal â'r perygl parhaus o gerddwyr a marchogion ceffylau yn wynebu risg o anaf. A wnewch chi weithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru er mwyn sicrhau bod y broses o reoleiddio lonydd gwyrdd yn gweithio a bod y broses o'u rheoli yn gwasanaethu'r cerddwyr a'r marchogion sy'n eu defnyddio?

**Carl Sargeant:** This issue is one that many Members in the Chamber are familiar with. This issue not only causes great upset in local communities, but huge damage to the environment in which these motor vehicles are used. There is some collective responsibility here, and I am working closely with the Minister for Environment and Sustainable Development in terms of the opportunities that we can support. The police and local authorities take action on this issue and I am aware of sections 59 and 60 of the Police Reform Act 2002, where there is an opportunity to seize vehicles. I was recently with community support officers in Cardiff when they held an activity, during which they seized vehicles.

**Carl Sargeant:** Mae'r mater hwn yn un y mae nifer o Aelodau yn y Siambr yn gyfarwydd ag ef. Mae'r mater hwn nid yn unig yn achosi gofid mawr mewn cymunedau lleol, ond difrod enfawr i'r amgylchedd lle y caiff y cerbydau modur hyn eu defnyddio. Mae rhywfaint o gyd-gyfrifoldeb yma, ac rwyf yn gweithio'n agos gyda Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy o ran y cyfleoedd y gallwn eu cefnogi. Mae'r heddlu a'r awdurdodau lleol yn cymryd camau gweithredu ar y mater hwn, ac rwyf yn ymwybodol o adrannau 59 a 60 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, lle mae cyfle i atafaelu cerbydau. Yn ddiweddar, roeddwn gyda swyddogion cymorth cymunedol yng Nghaerdydd pan gynhaliwyd gweithgaredd ganddynt, lle y gwnaethant atafaelu cerbydau.

**Blaenoriaethau**

**Priorities**

***9. Jocelyn Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer tymor yr Hydref. OAQ(4)0189(LGC)*

***9. Jocelyn Davies:*** *Will the Minister make a statement on his priorities for the Autumn term. OAQ(4)0189(LGC)*

**Carl Sargeant:** My priorities are to deliver on our programme for government commitments across the whole of Wales.

**Carl Sargeant:** Fy mlaenoriaethau yw cyflawni ein rhaglen ar gyfer ymrwymiadau'r llywodraeth ledled Cymru gyfan.

**Jocelyn Davies:** On page 68 of your manifesto, you most definitely promised to save 10,000 lives by detecting early warning signs of domestic abuse. I accept from your earlier answer that that figure on potential deaths was hugely exaggerated, but I am sure that you would agree that even one death from domestic abuse is a tragedy. How will you ensure that police officers are also involved in the detection of the earliest signs of domestic abuse?

**Jocelyn Davies:** Ar dudalen 68 eich maniffesto, gwnaethoch yn bendant addo arbed 10,000 o fywydau drwy ganfod arwyddion rhybudd cynnar o gam-drin domestig. Rwyf yn derbyn o'ch ateb cynharach bod y ffigur ar farwolaethau posibl wedi'i orliwio'n fawr, ond rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno bod hyd yn oed un achos o farwolaeth yn sgil cam-drin domestig yn drasiedi. Sut y byddwch yn sicrhau bod swyddogion yr heddlu hefyd yn ymwneud â chanfod yr arwyddion cynharaf o gam-drin domestig?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for her

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei

question. I would not say that we underestimated the 10000 Safer Lives project. Work with the public sector can have a much more significant effect. We are trying to work out how to measure these proposals so that we have evidence that intervention will make a big difference. The police forces are a key partner to this. As I said to the Member earlier, we are driving out, through the local service boards and the public service leadership group, an opportunity where they all have to provide me with evidence on how they are taking this proposal forward. I am also glad of the Member's full support for the way we tackle this agenda and of the continued support through the cross-party group.

chwestiwn. Ni fyddwn yn dweud ein bod wedi tanamcangyfrif prosiect 10000 o Fywydau Diogelach. Gall gweithio gyda'r sector cyhoeddus gael effaith fwy sylweddol o lawer. Rydym yn ceisio gweithio allan sut i fesur y cynigion hyn er mwyn inni gael tystiolaeth y bydd ymyriadau yn gwneud gwahaniaeth mawr. Mae'r heddluoedd yn bartner allweddol i hyn. Fel y dywedais wrth yr Aelod yn gynharach, rydym yn cyflwyno, drwy'r byrddau gwasanaethau lleol a grŵp arwain y gwasanaethau cyhoeddus, cyfle lle bo'n rhaid i bob un ohonynt roi tystiolaeth imi sy'n dangos sut maent yn gweithredu ar y cynnig hwn. Rwyf hefyd yn falch o gefnogaeth lawn yr Aelod o ran y ffordd yr ydym yn mynd i'r afael â'r agenda hon ac o'r gefnogaeth o hyd drwy'r grŵp trawsbleidiol.

**Nick Ramsay:** Minister, I wrote to you over the summer regarding the need for improved tourism signage across Wales—brown tourism signs on trunk roads. In your answer to my written question, you said that you are planning 'a complete overhaul'—I think that they were the words that you used—of tourism signage across the country. Can you tell us where you are in that process and when you anticipate the new signage regime for places of historic interest across Wales to be in place?

**Nick Ramsay:** Weinidog, ysgrifennais atoch dros yr haf ynghylch yr angen am arwyddion twristiaeth gwell ledled Cymru—arwyddion twristiaeth brown ar gefnffyrdd. Yn eich ateb i'm cwestiwn ysgrifenedig, dywedwyd eich bod yn bwriadu ailwampio'r cyfan—credaf mai dyna beth a ddywedwyd gennych—o ran arwyddion twristiaeth ledled y wlad. A allwch ddweud wrthym ble rydych arni yn y broses honno a pha bryd y rhagwelwch y bydd y gyfundrefn arwyddion newydd ar waith ar gyfer lleoedd o ddiddordeb hanesydol ledled Cymru?

**Carl Sargeant:** I recognise that it is important that there is not only the opportunity to travel generally around Wales, but that there is a great tourism potential and that it is important that people know where there are key buildings or services that they can attend, if they are properly signposted. We have done a review—the Member is quite right—of that proposal, and I am considering what the outturn of that will be in terms of delivery for local authorities to be able to post, or otherwise, brown signage, which the Member and many other Members write to me about on a regular basis.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn cydnabod ei bod yn bwysig bod cyfle, nid yn unig i deithio o amgylch Cymru yn gyffredinol, ond bod yna botensial twristiaeth mawr a'i bod yn bwysig bod pobl yn gwybod lle mae yna adeiladau neu wasanaethau allweddol y gallant fynd iddynt neu fanteisio arnynt, os cyfeirir atynt yn briodol. Rydym wedi cynnal adolygiad—mae'r Aelod yn llygad ei le—o'r cynnig hwnnw, ac rwyf yn ystyried beth fydd canlyniad hwnnw o ran darparu er mwyn i awdurdodau lleol allu postio, neu fel arall, arwyddion brown, y mae'r Aelod a llawer o Aelodau eraill yn ysgrifennu ataf yn eu cylch yn rheolaidd.

**William Powell:** Turning to the priority of communication in your department, I was recently contacted by a constituent who has been disturbed to discover that with no warning, other than hastily erected temporary signs, her local trunk road, the A487, is to be

**William Powell:** Gan droi at y flaenoriaeth o gyfathrebu yn eich adran, cysylltwyd â mi yn ddiweddar gan etholwr sydd wedi dychryn o ddarganfod bod ei chefnffordd leol, yr A487, yn mynd i gau am gyfnod o bedair wythnos o 10 Hydref ymlaen, a hynny heb unrhyw

closed for a period of four weeks from 10 October. On seeking advice as to how to get her children to and from school, which is a mere 10 miles away, she was informed that she would have to take a 50-mile round trip diversion twice a day. Clearly, this is a very difficult situation. Will you agree, Minister, if I supply the detail, to look into this case, and, more generally, to give us a guarantee that communications are a priority for the transport department in relation to the public, minimising disruption in their lives?

rybudd, ac eithrio arwyddion dros dro a godwyd ar frys. Ar ôl ceisio cyngor ar sut i gael ei phlant i'r ysgol ac yn ôl, sydd ond 10 milltir i ffwrdd, cafodd wybod y byddai'n rhaid iddi ddilyn gwyriad o 50-milltir yna ac yn ôl ddwywaith y dydd. Yn amlwg, mae hon yn sefyllfa anodd iawn. A wnewch chi gytuno, Weinidog, os rhoddaf y manylion i chi, i ymchwilio i'r achos hwn, ac, yn fwy cyffredinol, i roi sicrwydd inni fod cyfathrebu yn flaenoriaeth ar gyfer yr adran trafnidiaeth mewn perthynas â'r cyhoedd, gan leihau aflonyddwch yn eu bywydau gymaint â phosibl?

**Carl Sargeant:** I would welcome communication from the Member with detail around that. I assure you that I will look at that. The trunk road, by its very nature, travels across Wales and through very sparse areas sometimes, so there is difficulty in terms of closure for maintenance proposals. I believe that early communication is paramount. We must ensure that people are aware of these proposals, apart from when emergency repairs become necessary. The Member quite rightly raises this issue, and I am interested in the issue that has been raised by his constituent and that of the 5o-mile round trip that has been offered, which may be quite inappropriate.

**Carl Sargeant:** Byddwn yn croesawu gohebiaeth gan yr Aelod gyda manylion ynghylch hynny. Gallaf eich sicrhau y byddaf yn edrych ar hynny. Mae'r gefnffordd, yn ôl ei natur, yn teithio ar draws Cymru a thrwy ardaloedd gwasgaredig iawn weithiau, felly mae'n peri anhawster o ran cau ar gyfer cynigion cynnal a chadw. Rwy'n credu bod cyfathrebu cynnar yn hollbwysig. Rhaid inni sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r cynigion hyn, oni bai bod angen gwneud atgyweiriadau brys. Mae'r Aelod yn gywir ddigon yn codi'r mater hwn, ac mae gennyf ddiddordeb yn y mater a godwyd gan ei etholwr ynghyd â'r daith 50 milltir yna ac yn ôl a gynigiwyd, a all fod yn eithaf amhriodol.

**Cymorth i Awdurdodau Lleol**

**Support to Local Authorities**

***10. Elin Jones:*** *Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig i awdurdodau lleol yn sgil y llifogydd yn gynharach eleni. OAQ(4)0181(LGC)*

***10. Elin Jones:*** *What support is the Welsh Government offering to local authorities following the floods earlier this year. OAQ(4)0181(LGC)*

**Carl Sargeant:** Local authorities have statutory powers to deal with emergencies and are expected to plan accordingly. However, the Welsh Government provides assistance to local authorities during emergency situations and can provide discretionary financial support to authorities dealing with exceptional incidents.

**Carl Sargeant:** Mae gan awdurdodau lleol bwerau statudol i ddelio ag argyfyngau a disgwylir iddynt gynllunio yn unol â hynny. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth i awdurdodau lleol yn ystod sefyllfaoedd o argyfwng a gall roi cymorth ariannol dewisol i awdurdodau sy'n ymdrin â digwyddiadau eithriadol.

**Elin Jones:** Weinidog, un o'r pryderon sydd wedi deillio o brofiad llifogydd Aberystwyth a Thal-y-bont eleni yw cryfder a chapasiti'r pontydd i wrthsefyll unrhyw lifogydd yn y dyfodol, gan gynnwys pontydd sydd ar y gefnffordd. Mae'r awdurdod lleol yn awyddus iawn i wneud adolygiad o'r pontydd

**Elin Jones:** Minister, one concern that has arisen following the flooding at Aberystwyth and Tal-y-bont this year is the strength and capacity of the bridges to withstand any future flooding, including the bridges on the trunk road. The local authority is very eager to undertake a review of these bridges. Will

hyn. A wnewch chi gadarnhau y bydd eich adran yn barod i gydweithio gyda'r awdurdod lleol wrth wneud adolygiad o'r fath?

you confirm that your department will be willing to collaborate with the local authority on such a review?

**Carl Sargeant:** Yes. I believe that it is really important to ensure that we have the capacity across our trunk road network and that we are protected from some of the unforeseen issues that flooding may potentially cause. I will ask my department to ensure that it has further discussions with Ceredigion local authority.

**Carl Sargeant:** Gwnaf. Credaf ei bod yn wirioneddol bwysig sicrhau bod gennym y capasiti ar draws ein rhwydwaith cefnffyrdd a'n bod yn cael ein diogelu rhag rhai o'r materion nas rhagwelir y gallai llifogydd eu hachosi o bosibl. Byddaf yn gofyn i'm hadran sicrhau ei bod yn cynnal trafodaethau pellach ag awdurdod lleol Ceredigion.

**Russell George:** Following the floods in June, can the Minister tell me how many applications his department received under the emergency financial assistance scheme; how many of those applications were successful; and how much financial support was allocated? Will the Minister also tell me whether any Welsh Government support has been requested from local authorities for additional funding as a result of the flooding over the summer?

**Russell George:** Yn dilyn y llifogydd ym mis Mehefin, a all y Gweinidog ddweud wrthyf faint o geisiadau a dderbyniodd ei adran o dan y cynllun cymorth ariannol brys; faint o'r ceisiadau hynny a lwyddodd; a faint o gymorth ariannol a gafodd ei ddyrannu? A wnaiff y Gweinidog hefyd ddweud wrthyf a ofynnwyd am unrhyw gymorth gan Lywodraeth Cymru oddi wrth awdurdodau lleol am arian ychwanegol o ganlyniad i'r llifogydd dros yr haf?

**Carl Sargeant:** I cannot give the Member the details yet, but I will write to him with that information.

**Carl Sargeant:** Ni allaf roi'r manylion i'r Aelod eto, ond ysgrifennaf ato i roi'r wybodaeth honno.

### Buddsoddi i Arbed

### Investing to Save

***11. Julie James***: *Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i annog awdurdodau lleol i fuddsoddi i arbed. OAQ(4)0176(LGC)*

***11. Julie James***: *What is the Minister doing to encourage local authorities to invest to save. OAQ(4)0176(LGC)*

**Carl Sargeant:** As part of our public service improvement and efficiency programme, the Welsh Government encourages the principle of invest to save. It does this, for example, by supporting projects with invest-to-save funding and by working in partnership with local authorities through the local government borrowing initiative, which the Member is aware of, to invest in local transport networks and reduce maintenance costs.

**Carl Sargeant:** Fel rhan o'n rhaglen effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru yn annog yr egwyddor o fuddsoddi i arbed. Mae'n gwneud hyn, er enghraifft, drwy gefnogi prosiectau gydag arian buddsoddi-i-arbed a thrwy weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol drwy fenter benthyca llywodraeth leol, y mae'r Aelod yn ymwybodol ohoni, er mwyn buddsoddi mewn rhwydweithiau trafnidiaeth lleol a lleihau costau cynnal a chadw.

**Julie James:** Thank you for that answer, Minister. Given the rising costs of energy that we are all very familiar with, has the Minister taken any steps to ascertain the feasibility of installing photovoltaic panels on domestic and non-domestic properties owned by local authorities, with a view to getting lower

**Julie James:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. O ystyried costau cynyddol ynni yr ydym i gyd yn gyfarwydd iawn â hwy, a yw'r Gweinidog wedi cymryd unrhyw gamau i ganfod dichonoldeb gosod paneli ffotofoltäig ar eiddo domestig ac annomestig sy'n eiddo i awdurdodau lleol, gyda'r bwriad

energy bills for local authorities and to assist residents who may be experiencing fuel poverty?

o gael biliau ynni is i awdurdodau lleol a chynorthwyo trigolion a allai fod yn profi tlodi tanwydd?

**Carl Sargeant:** Yes, this is something that I would certainly raise with the public service leadership group, that is, a collaborative approach to developing new opportunities. This is something that I know the Minister for Environment and Sustainable Development will be very keen to be involved in. I am aware that Wrexham County Borough Council was to install solar photovoltaic panels on over 3,000 properties within its social housing stock. In the long term, this makes a huge saving, but it also makes very good sense environmentally.

**Carl Sargeant:** Do, mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn sicr yn ei godi gyda grŵp arwain y gwasanaethau cyhoeddus, hynny yw, dull cydweithredol o ddatblygu cyfleoedd newydd. Mae hyn yn rhywbeth y gwn y bydd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn awyddus iawn i gymryd rhan ynddo. Rwyf yn ymwybodol bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn bwriadu gosod paneli ffotofoltäig solar ar fwy na 3,000 o eiddo o fewn ei stoc tai cymdeithasol. Yn yr hirdymor, bydd hyn yn arwain at arbedion enfawr, ond mae hefyd yn gwneud synnwyr da iawn yn amgylcheddol.

**Janet Finch-Saunders:** Minister, in July, the Assembly’s Finance Committee highlighted some concerns in relation to transparency and the lack of a detailed breakdown for this particular scheme. There was concern, and while you have acknowledged that you will provide a more detailed breakdown of individual projects in future, I question why that has not been done before, because this is public money. What are you doing to ensure that there is absolute transparency and accountability running right through the invest-to-save scheme? Would you also update me on the invest-to-save scheme designed to integrate north Wales’s closed-circuit television operations into one single control room?

**Janet Finch-Saunders:** Weinidog, ym mis Gorffennaf, tynnodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad sylw at rai pryderon mewn perthynas â thryloywder a diffyg dadansoddiad manwl ar gyfer y cynllun penodol hwn. Roedd pryder, ac er eich bod wedi cydnabod y byddwch yn darparu dadansoddiad mwy manwl o brosiectau unigol yn y dyfodol, cwestiynaf pam nad yw hynny wedi cael ei wneud o’r blaen, am mai arian cyhoeddus ydyw. Beth rydych yn ei wneud i sicrhau bod tryloywder ac atebolrwydd llwyr yn rhedeg drwy’r cynllun buddsoddi-i-arbed cyfan? A fyddech hefyd cystal â rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf imi am y cynllun buddsoddi-i-arbed a gynlluniwyd i integreiddio gweithrediadau teledu cylch cyfyng y gogledd o fewn un ystafell reoli?

**Carl Sargeant:** I am surprised that the Member has raised issues without giving any detail about the particular project that she believes is not transparent or open with regard to the public scrutiny of some of these opportunities. In total, invest-to-save is supporting around 59 projects. The Member may wish to write to me regarding any concerns that she has relating to any of those projects. The Minister for Finance and I would certainly have great interest in hearing about those.

**Carl Sargeant:** Synnaf fod yr Aelod wedi codi materion heb roi unrhyw fanylion am y prosiect penodol nad yw’n dryloyw nac yn agored, yn ei barn hi, o ran y broses graffu gyhoeddus ar rai o’r cyfleoedd hyn. Mae buddsoddi-i-arbed yn cefnogi tua 59 o brosiectau i gyd. Efallai yr hoffai’r Aelod ysgrifennu ataf ynghylch unrhyw bryderon a all fod ganddi yn ymwneud ag unrhyw un o’r prosiectau hynny. Byddai gan y Gweinidog Cyllid a minnau ddiddordeb mawr mewn clywed am y rheini yn bendant.

This is about empowering local authorities and the public sector to make savings in relation to public spend. We have seen some

Mae hyn yn ymwneud â grymuso awdurdodau lleol a’r sector cyhoeddus i wneud arbedion o ran gwariant cyhoeddus.

great initiatives and great outturns from this project. Despite some of her negative comments, I hope that the Member would be on board with this proposal.

Rydym wedi gweld rhai mentrau ardderchog a chanlyniadau ardderchog o'r prosiect hwn. Er gwaethaf rhai o'i sylwadau negyddol, rwyf yn gobeithio y byddai'r Aelod o blaid y cynnig hwn.

**Diogelwch Cymunedol yn Llanelli**

**Community Safety in Llanelli**

***12. Simon Thomas:*** *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch diogelwch cymunedol yn Llanelli. OAQ(4)0178(LGC)*

***12. Simon Thomas:*** *What discussions has the Minister had regarding community safety in Llanelli. OAQ(4)0178(LGC)*

**Carl Sargeant:** I have had none specifically about community safety in Llanelli, but I meet chief constables on a quarterly basis and I work closely with local authorities to tackle the broader issues of crime and anti-social behaviour.

**Carl Sargeant:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau penodol am ddiogelwch cymunedol yn Llanelli, ond byddaf yn cwrdd â phrif gwnstabliaid yn chwarterol ac rwyf yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i fynd i'r afael â materion ehangach o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Simon Thomas:** Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Hoffwn dynnu sylw at yr ymgyrch gan bapur newydd Llanelli, y *Llanelli Star*, yn erbyn y cyffur mephedrone, sef ymgyrch yr wyf yn ei gefnogi ac ymgyrch y mae Keith Davies, yr Aelod dros Lanelli hefyd wedi ei gefnogi—rwyf yn dymuno'r gorau iddo heddiw, wrth gwrs. A oes modd i'r Gweinidog hefyd gefnogi'r ymgyrch hon ac, yn benodol, i ddweud pa gamau y gallwn eu cymryd i godi ymwybyddiaeth o'r cyffur hwn ac i godi ymwybyddiaeth o sgîl effeithiau drwg y cyffur, yn enwedig os yw'n cael ei gamddefnyddio?

**Simon Thomas:** Thank you, Minister, for that response. I wish to draw attention to the campaign by a local newspaper in Llanelli, the *Llanelli Star*, against the drug mephedrone, which is a campaign that I support and that Keith Davies, the Member for Llanelli, has also supported—I wish him well today, of course. Could the Minister also support this campaign and, specifically, tell us what steps we can take to raise awareness of this drug and to raise awareness of the negative side-effects of the drug, especially if it is misused?

**Carl Sargeant:** I share the Member's concern about the misuse of drugs, but he will be aware that the portfolio of substance misuse and alcohol now rests with the Minister for health. She may wish to write to the Member with regard to the detail. However, of course, I support in principle the steps taken by anybody to tackle anti-social behaviour and the use of drugs in any form that causes harm to users or others.

**Carl Sargeant:** Rhannaf bryder yr Aelod am gamddefnyddio cyffuriau, ond bydd yn ymwybodol bod y portffolio camddefnyddio alcohol a sylweddau bellach yn nwylo'r Gweinidog iechyd. Efallai y bydd am ysgrifennu at yr Aelod o ran y manylion. Fodd bynnag, wrth gwrs, rwyf yn cefnogi mewn egwyddor y camau a gymerir gan unrhyw un i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r defnydd o gyffuriau mewn unrhyw ffurf sy'n achosi niwed i ddefnyddwyr neu bobl eraill.

**Mark Isherwood:** I have previously asked you a question regarding the Wales Association of Community Safety Officers' minutes regarding you, and you referred to the UK Government.

**Mark Isherwood:** Rwyf wedi gofyn ichi o'r blaen gwestiwn ynghylch cofnodion Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru amdanoch chi, ac fe wnaethoch gyfeirio at Lywodraeth y DU.

3.00 p.m.

Therefore, how do you respond to the concerns raised in its minutes that some four months into the year—this was July's meeting—partnerships were still awaiting approval of community safety partnership submissions regarding disbursement of the fund, which was adversely impacting staff retention and project continuity? There were also concerns that the proposal to regionalise Safer Communities funding would remove local connectivity and add to tensions building around the regionalism and localism agenda, with particular reference to the problems experienced by area planning boards in the field of substance misuse fund management.

Felly, sut rydych yn ymateb i'r pryderon a godwyd yn ei chofnodion fod partneriaethau ryw bedwar mis o ddechrau'r flwyddyn—cyfarfod mis Gorffennaf oedd hwn—yn dal i aros am gymeradwyaeth o ran cyflwyniadau partneriaeth diogelwch cymunedol ynghylch treuliau'r gronfa, a oedd yn effeithio'n andwyol ar gadw staff a pharhad prosiectau? Roedd pryderon hefyd y byddai'r cynnig i ranbartholi cyllid Cymunedau Mwy Diogel yn dileu cysylltedd lleol ac yn ychwanegu at densiynau a oedd yn cronni o amgylch yr agenda rhanbartholdeb a lleoliaeth, gan gyfeirio'n benodol at y problemau a brofir gan fyrddau cynllunio ardal ym maes rheoli cronfeydd camddefnyddio sylweddau.

**Carl Sargeant:** I am slightly surprised that the board wishes to bring its concerns through you as a conduit to the Minister's office; I do not know why it has not approached me directly on this issue. The issue for the community safety partnership budgets and all budgets across my portfolio is clear: we have a budget of over £5 billion in the portfolio, and I want to ensure that every penny of it is spent well. That includes CSPs, local authorities and anyone that interacts with the Welsh Government. We are on the right track to ensure that this limited amount—following the £2.1 billion reduction in funding from the Westminster Government to Wales—has an impact on services, and we have to be very careful about what we spend our money on now.

**Carl Sargeant:** Synnaf braidd fod y bwrdd yn dymuno cyflwyno ei bryderon drwyddoch chi fel cyfrwng i swyddfa'r Gweinidog; ni ddeallaf pam nad yw wedi cysylltu â mi yn uniongyrchol ar y mater hwn. Mae'r mater ar gyfer cyllidebau'r bartneriaeth diogelwch cymunedol a'r holl gyllidebau ar draws fy mhortffolio yn glir: mae gennym gyllideb o fwy na £5 biliwn yn y portffolio, ac rwyf am sicrhau y caiff pob ceiniog ohono ei wario'n dda. Mae hynny'n cynnwys Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, awdurdodau lleol ac unrhyw un sy'n rhyngweithio â Llywodraeth Cymru. Rydym ar y trywydd iawn i sicrhau bod y swm cyfyngedig hwn—yn dilyn y gostyngiad o £2.1 biliwn mewn arian gan Lywodraeth San Steffan i Gymru—yn effeithio ar wasanaethau, ac mae'n rhaid inni fod yn ofalus iawn am yr hyn rydym yn gwario ein harian arno yn awr.

## Pwynt o Drefn
## Point of Order

**Mick Antoniw:** I wish to raise a point of order on a matter of principle regarding an item of business on today's agenda, namely item 6, which is the Conservative motion, which deals with matters relating to NHS configuration. It is a matter on which it is important that there is a ruling and some clarity from you, Presiding Officer.

**Mick Antoniw:** Dymunaf godi pwynt o drefn ar fater o egwyddor ynghylch eitem o fusnes ar yr agenda heddiw, sef eitem 6, cynnig y Ceidwadwyr, sy'n ymdrin â materion sy'n ymwneud â threfnu'r GIG. Mae'n fater lle mae'n bwysig bod yna ddyfarniad a rhywfaint o eglurder gennych chi, Lywydd.

The point is that the Welsh Government has

Y pwynt yw bod Llywodraeth Cymru wedi

initiated a consultation and engagement process that is, effectively, a quasi-judicial process. Recommendations will come back to Government, which will again be acting in a quasi-judicial role. It seems to me that there is a serious issue that, when we have that process under way, we have motions that are, in effect, prejudging that process. Paragraph 3.12 of the Assembly's principles and practice for the tabling and laying of Assembly business states that the Presiding Officer has an overriding discretion to refuse to accept a motion if it brings into question the proper conduct of Assembly business. It seems to me that this motion raises the question of whether interfering with a quasi-judicial process brings into question the proper conduct of Assembly business. Under those circumstances, will you consider using your overriding discretion, or, alternatively, give a ruling on the matter?

cychwyn ar broses ymgynghori ac ymgysylltu, i bob pwrpas, sydd yn broses lled-farnwrol. Bydd argymhellion yn dod yn ôl i'r Llywodraeth, a fydd, unwaith eto, yn gweithredu mewn rôl led-farnwrol. Mae'n ymddangos i mi bod mater difrifol lle, pan fydd y broses honno ar waith, mae gennym gynigion sydd, i bob pwrpas, yn rhagfarnu'r broses honno. Mae paragraff 3.12 o egwyddorion ac arfer y Cynulliad ar gyfer cyflwyno a gosod busnes y Cynulliad yn datgan bod gan y Llywydd ddisgresiwn tra phwysig i wrthod derbyn cynnig os yw'n taflu amheuaeth ar y dull priodol o gynnal busnes y Cynulliad. Mae'n ymddangos i mi bod y cynnig hwn yn gofyn y cwestiwn a yw ymyrryd â phroses led-farnwrol yn codi amheuaeth ar y dull priodol o gynnal busnes y Cynulliad. O dan yr amgylchiadau hynny, a wnewch ystyried defnyddio eich disgresiwn tra phwysig, neu, fel arall, ddyfarnu ar y mater?

**The Presiding Officer:** Thank you for the point of order, and for giving me prior notice of your intention to raise it. We had a conversation earlier, but you obviously needed further clarification.

**Y Llywydd:** Diolch am y pwynt o drefn, ac am fy rhybuddio ymlaen llaw am eich bwriad i'w godi.Cawsom sgwrs yn gynharach, ond mae'n amlwg bod angen eglurhad pellach arnoch.

The Welsh Government is accountable to the National Assembly, and Members can table motions relating to any aspect of the Government's work. To prevent them from doing so would be contrary to the basic principle of parliamentary accountability. The motion, if passed, will not be binding on Ministers when it comes to them taking the decision in question, and I see no grounds on which to constrain the right of Members to express their views on the matter in question.

Mae Llywodraeth Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol, a gall yr Aelodau gyflwyno cynigion sy'n ymwneud ag unrhyw agwedd ar waith y Llywodraeth. Byddai ei hatal rhag gwneud hynny yn groes i'r egwyddor sylfaenol o atebolrwydd seneddol. Ni fydd y cynnig, os caiff ei gymeradwyo, yn rhwymo Gweinidogion pan ddaw'n amser iddynt wneud y penderfyniad dan sylw, ac ni welaf unrhyw sail i gyfyngu ar hawl Aelodau i fynegi eu barn ar y mater dan sylw.

My ruling therefore is that the motion does not bring into question the proper conduct of business, and there are no grounds whatsoever to rule it out of order. In doing so, I am acting entirely in accordance with our Standing Orders and with established parliamentary practice here and elsewhere.

Fy nyfarniad, felly, yw nad yw'r cynnig yn taflu amheuaeth ar y dull priodol o gynnal busnes, ac nid oes unrhyw sail o gwbl i'w ddyfarnu'n amhriodol. Wrth wneud hynny, rwyf yn gweithredu yn gwbl unol â'n Rheolau Sefydlog ac ag arfer seneddol sefydledig yma ac mewn mannau eraill.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.04 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.04 p.m.*

**Dadl Cyfnod 3 ar Fil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol), o dan Reol Sefydlog Rhif 26.44**

## Stage 3 Standing Order No. 26.44 Debate on the National Assembly for Wales (Official Languages) Bill

### Grŵp 1: Cyfieithu Cofnodion o Drafodion y Cynulliad (Gwelliannau 1 a 5)
### Group 1: Translation of Reports of Assembly Proceedings (Amendments 1 and 5)

**The Deputy Presiding Officer:** The first group of amendments to consider is in relation to the translation of reports of Assembly proceedings. The lead amendment in the group is amendment 1. I call on Suzy Davies to move amendment 1 and to speak to it and the other amendments in the group.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae'r grŵp cyntaf o welliannau i'w ystyried mewn perthynas â chyfieithu adroddiadau ar drafodion y Cynulliad.Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 1. Rwy'n galw ar Suzy Davies i gynnig gwelliant 1 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

**Suzy Davies:** Cynigiaf welliant 1 yn fy enw.

**Suzy Davies:** I move amendment 1 in my name.

Fel y dywedais yn y ddadl ddiwethaf ar y Bil hwn, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil. Mae'n gwbl amlwg na ddylai deddfwrfa sydd â phŵer i osod dyletswyddau mewn perthynas â chydraddoldeb i'r Gymraeg allu osgoi dyletswyddau o'r fath ei hun. Nid yw'r Cynulliad neu'r Comisiwn yn dod o dan gylch gwaith Comisiynydd y Gymraeg neu'r safonau newydd. Felly, mae'r Bil hwn yn gyfle i Gomisiwn y Cynulliad gadarnhau y bydd ei ddull, ac, yn y pendraw, ei gynllun ei hun, yr un mor gadarn.

As I stated in the last debate on this Bill, the Welsh Conservatives support the general principles of the Bill. It is evident that a legislature with the power to impose duties in relation to equality for the Welsh language should not be able to avoid such duties itself. Neither the Assembly nor the Commission come under the remit of the Welsh Language Commissioner or the new standards. Therefore, this Bill is an opportunity for the Assembly Commission to confirm that its method and its own scheme will be just as robust.

Yr angen hwn am gadernid yw un o'r rhesymau pam rwyf wedi cyflwyno gwelliant 1. Fel y bydd rhai Aelodau'n cofio, yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, mae 'trafodion y Cynulliad' yn golygu trafodion yn y Cyfarfodydd Llawn, pwyllgorau ac is-bwyllgorau. Ni wahaniaethir o gwbl rhwng statws y tair elfen hynny. Wrth gynnal trafodion y Cynulliad, rhaid i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal ar draws y tair elfen. Nid oes unrhyw ofyniad o'r fath mewn perthynas â chofnod trafodion y Cynulliad. Wrth gwrs, rwyf yn cydnabod y gall y gwaith o greu cofnod cwbl ddwyieithog o holl drafodion y Cynulliad fod yn gostus, er nad yw'r costau hyn yn gwbl glir. Efallai clywn rywbeth oddi wrth y Comisiynydd neu Aelodau eraill ar hyn. Yn sicr, nid ydym fel plaid am wario arian heb reswm.

The need for robustness is one of the reasons why I have tabled amendment 1. As Members will recall, in the Government of Wales Act 2006, 'Assembly proceedings' means proceedings in Plenary, committees and sub-committees. No distinction is made between the status of those three elements. In holding Assembly proceedings, both Welsh and English languages must be treated equally across the three elements. There is no distinction as regards the record of Assembly proceedings. Of course, I acknowledge that the work of producing a fully bilingual record of all Assembly proceedings could be expensive, although those costs are not entirely clear. Perhaps we will hear something from the Commissioner or other Members on this. Certainly, as a party, we are not seeking to spend money without reason.

Fodd bynnag, gan na wahaniaethir o gwbl rhwng statws y tair elfen o dan y teitl 'trafodion y Cynulliad' yn Neddf

However, as no distinction is made between the status of the three elements under the heading of 'Assembly proceedings' in the

Llywodraeth Cymru, cyfrifoldeb y Comisiwn yw esbonio pam mae gan Gyfarfodydd Llawn statws uwch o dan is-adran newydd (1C). Mae'r is-adran hon yn cyflwyno'r gofyniad am gofnod ar gyfer Cyfarfodydd Llawn yn y ddwy iaith swyddogol, ond nid oes gofyniad tebyg ar gyfer pwyllgorau ac is-bwyllgorau. Efallai bydd rhai Aelodau yn fodlon ag esboniad y Comisiynydd heddiw. Os felly, byddant hefyd yn derbyn y dylai esboniad ymddangos yn y cyfnod hwn, sydd yr elfen bwysicaf o drafodion y Cynulliad, mae'n debyg, yn hytrach na chael ei guddio mewn cofnod pwyllgor nad yw'n gwbl ddwyieithog.

Government of Wales Act, it is the responsibility of the Commission to explain why Plenary meetings have a higher status under new subsection (1C). This subsection introduces the requirement for a record of Plenary meetings in both official languages, but there is no such requirement for committees or sub-committees. Perhaps some Members will be happy with the explanation from the Commissioner today. If so, we would also accept that an explanation should appear in this stage, which is the most important element of the Assembly's proceedings, it seems, rather than being hidden in the record of a committee meeting that is not fully bilingual.

Rwy'n nodi'r driniaeth amodol o drafodion pwyllgorau gan Bethan Jenkins yn ei gwelliant 5, ond rwy'n nodi hefyd nad yw wedi cyflwyno gwelliant tebyg ar gyfer is-bwyllgorau. Er fy mod yn gallu cydnabod pragmatiaeth hyn, mae'n drysu'r gofyniad ar y Comisiwn i esbonio pam mae tair elfen o dan y teitl 'trafodion y Cynulliad' yn cael eu trin yn wahanol mewn perthynas â chofnod o'r trafodion hynny. Oherwydd hyn, ni allwn gefnogi'r gwelliant hwnnw.

I note Bethan Jenkins's conditional treatment of committee proceedings in her amendment 5, but I also note that she did not table a similar amendment in relation to sub-committees. Although I can acknowledge the pragmatism of this, it confuses the requirement of the Commission to explain why the three elements under the heading of 'Assembly proceedings' are being treated differently in relation to a record of those proceedings. As a result, we cannot support that amendment.

**Alun Ffred Jones:** Rwyf yn ddiolchgar iawn am y cyfle i gyfrannu ac i siarad am welliant 5 yn enw Bethan Jenkins. Fy niddordeb yn y Bil hwn yw sicrhau bod rhagor o gefnogaeth ymarferol i ni sydd yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson yn ein gwaith bob dydd yn y lle hwn. Dyna fy unig ddiddordeb yn y Bil hwn. Yn sicr, mae lle sylweddol i'r Comisiwn wella ei ddarpariaeth bresennol. Rwyf yn derbyn bydd llawer o hyn yn y cynllun a gaiff ei gyflwyno gan y Comisiwn maes o law. Bwriad y gwelliant hwn yw darparu cofnod yn y ddwy iaith o drafodaethau pwyllgorau mewn perthynas â thrafodion deddfwriaeth a chraffu ar Weinidogion, gan y bydd y rhain yn sail i drafodaethau pellach. Rwy'n clywed pwynt Suzy Davies ac rwy'n deall o le mae'n dod, ond eto mae fel petai hi'n cuddio tu ôl i ryw fanylion deddfwriaethol. Nid yw hi'n trin, mewn gwirionedd, y peth pwysicaf, sef y defnydd ymarferol o'r iaith ar lawr y lle hwn ac o fewn ein pwyllgorau. Felly, mae angen gwella'r ddarpariaeth ddwyieithog i Aelodau mewn pwyllgorau i hwyluso'r gwaith ac rwy'n disgwyl gweld canllawiau yn y cynllun

**Alun Ffred Jones:** I am grateful for the opportunity to contribute and speak to amendment 5 in the name of Bethan Jenkins. My interest in this Bill is to ensure that further practical support is available to those of us who use the Welsh language regularly in our day-to-day work in this place. That is my only interest in this Bill. Certainly, there is a significant room for the Commission to improve its current provision. I accept that a great deal of this will be in the scheme that will be put forward by the Commission in due course. The aim of this amendment is to provide a record in both languages of committee proceedings in relation to proceedings on Bills and scrutiny of Ministers, as these will be the basis for further discussion. I hear the point made by Suzy Davies and I understand where she is coming from, but it is as if she is hiding behind legislative detail. She does not really get to grips with the most important issue, which is the practical use made of the language on the floor of this place and in committees. Therefore, we need to improve

ynglŷn â hyn.

the bilingual provision for Members in committees to make the work easier and I expect to see plans in the scheme in relation to this.

Mae cofnod *verbatim* yn anifail gwahanol, ac ni fedraf gyfiawnhau'r gost uchel rwyf wedi ei glywed yn cael ei dyfynnu sawl gwaith i ddarparu cofnod dwyieithog nad yw'n ddogfen fyw. Fodd bynnag, mae gwelliant Bethan Jenkins yn gosod disgwyliadau penodol ar y Comisiwn i greu cofnod dwyieithog mewn dau faes sy'n ganolog i'n gwaith fel Aelodau Cynulliad. Felly, rwy'n eich annog i gefnogi'r gwelliant ar y sail honno.

A verbatim record is a different animal altogether, and I cannot justify the high cost that I have heard cited on a number of occasions to provide a bilingual record that is not a live document. However, Bethan Jenkins places specific requirements on the Commission to create a bilingual record in two areas that are central to our work as Assembly Members. Therefore, I encourage you to support this amendment on that basis.

**Llyr Huws Gruffydd:** Rwy'n cyd-fynd â nifer o'r sylwadau sydd wedi cael eu gwneud hyd yn hyn, ond, i mi, mae egwyddor sylfaenol syml yma, sef bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Os ydych yn credu yn yr egwyddor honno, mae'n gwbl resymol i mi ddisgwyl, fel siaradwr Cymraeg ac Aelod o'r Cynulliad sy'n fwy hyderus, yn fwy huawdl ac, yn fy marn i, yn fwy effeithiol yn cyflawni fy ngwaith trwy gyfrwng fy mamiaith, fod y ddwy iaith swyddogol sydd gan Gymru wir yn cael eu trin yn gyfartal. Neu a ydym yn dweud bod un iaith yn fwy swyddogol na'r llall?

**Llyr Huws Gruffydd:** I agree with a number of the comments that have been made so far, but, for me, there is a simple basic principle here, and that is that the Welsh and English languages should be treated equally. If you believe in that principle, it is entirely reasonable for me, as a Welsh speaker and an Assembly Member who is more confident, more fluent, and, in my view, more effective in carrying out my work in my mother tongue, to expect that both official languages of Wales really are treated equally. Or are we saying that one language is more official than the other?

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ei gwneud yn glir ei bod yn bwysig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gosod esiampl i gyrff eraill, a'i fod yn dangos arweiniad clir o ran y Gymraeg. Pa hawl fydd gan y Cynulliad neu'r comisiynydd i fynnu bod cyrff eraill yng Nghymru yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal os nad yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud hynny?

The Welsh Language Commissioner has made it clear that it is important that the National Assembly for Wales sets an example for other bodies, and that it demonstrates clear leadership with regard to the Welsh language. What right will the Assembly or the commissioner have to insist that other bodies in Wales treat the Welsh and English languages equally if the National Assembly for Wales does not do so?

Y cysur i mi yw fy mod yn tybio bod pob un ohonom yn y Siambr am gyrraedd yr un nod yn y pen draw. Rydym oll am gyrraedd yr un lle o safbwynt dwyieithrwydd y sefydliad hwn. Yr unig anghydweld, mae'n debyg, yw sut rydym yn cyrraedd y pwynt hwnnw.

What reassures me is that I assume that each one of us in the Chamber wants to achieve the same goal in the end. We all want to get to the same point with regard to the bilingualism of this institution. The only disagreement, it seems, is how we get to that point.

Byddaf yn pleidleisio o blaid gwelliant 1, oherwydd dyna, yn fy marn i, y ffordd orau o sicrhau bod y Cynulliad yn gweithredu fel sefydliad trwyadl dwyieithog—rhywbeth

I will be voting for amendment 1, because that, in my view, is the best way to ensure that the Assembly operates as a thoroughly bilingual institution—something that, for me,

sydd, i mi, yn egwyddor sylfaenol a rhywbeth sydd ag arwyddocâd cenedlaethol.

is a fundamental principle and something that has national significance.

**Eluned Parrott:** I, too, recognise the symbolic importance of this institution with regard to the Welsh language, and the difference between the obligations that we are putting on ourselves and those that are put on other bodies operating in Wales. I recognise that there are practical implications and cost implications to the amendments that are put forward here, but I would like to see a clear sign of a movement toward being able to provide a record of committee proceedings in both languages, which I think is only fair. If the Commission is able to assure me that, in the wording of the scheme, it will put forward something that is robust and clearly demonstrates movement toward that, understanding that the practical implications of accepting amendment 1 are difficult in the immediate term, I would be happy to vote against it. If not, I will be forced to vote for it.

**Eluned Parrott:** Rwyf innau, hefyd, yn cydnabod pwysigrwydd symbolaidd y sefydliad hwn o ran y Gymraeg, a'r gwahaniaeth rhwng y rhwymedigaethau yr ydym yn eu gosod ar ein hunain a'r rhai sy'n cael eu gosod ar gyrff eraill sy'n gweithredu yng Nghymru. Rwy'n cydnabod bod yna oblygiadau ymarferol a goblygiadau cost o ran y gwelliannau sy'n cael eu cyflwyno yma, ond hoffwn weld arwydd clir o symud tuag at allu darparu cofnod o drafodion pwyllgorau yn y ddwy iaith, sydd ond yn deg yn fy marn i. Os yw'r Comisiwn yn gallu fy sicrhau, yng ngeiriad y cynllun, y bydd yn cyflwyno rhywbeth sy'n gadarn ac yn dangos yn glir symud tuag at hynny, gan ddeall bod goblygiadau ymarferol derbyn gwelliant 1 yn anodd ar hyn o bryd, byddwn yn hapus i bleidleisio yn ei erbyn. Os na, byddaf yn cael fy ngorfodi i bleidleisio drosto.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Fel y trydydd siaradwr ar y meinciau hyn, Ddirprwy Lywydd, rhof drydydd safbwynt ar y mater hwn, oherwydd roeddwn yn gyfrifol, fel Cadeirydd y Comisiwn yn y Cynulliad blaenorol, am gomisiynu'r broses i gynhyrchu Bil ieithoedd swyddogol. Bwriad y Bil yw deddfu yn benodol am yr hyn y gallwn ei wneud yma yn y Cynulliad Cenedlaethol am ein busnes ni ein hunain, gan gynnwys ymwneud y cyhoedd â ni.

**Lord Elis-Thomas:** As the third speaker on these benches, Deputy Presiding Officer, I will give a third view on this issue, because I was responsible, as Chair of the Commission in the previous Assembly, for commissioning the process to produce an official languages Bill. The aim of the Bill is to legislate specifically about what we can do here in the National Assembly in relation to our own business, including the public's engagement with us.

Nid wyf am sôn heddiw am fusnes y Llywodraeth, ond mae'n rhaid imi ddweud y cefais sefyllfa anodd iawn rhai misoedd yn ôl, pan oedd 15 ohonom—pysgotwyr ym Morfa Nefyn, cynghorydd sir a minnau—yn trafod materion ynghylch parthau morol. Roedd y dogfennau o'n blaen yn gyfan gwbl Saesneg, felly mae amser yn dod pan fo'n rhaid inni benderfynu beth yw'n blaenoriaethau. Rwy'n cyfeirio at sefyllfa fel yr un honno oherwydd y flaenoriaeth i mi yw gallu gweithio'n effeithiol yn y dewis iaith yn y sefyllfa. Os ydym yn dewis gwario mwy ar atgynhyrchu geiriau ein hunain mewn un iaith swyddogol neu'r llall, a yw hynny'n golygu bod yna lai o arian i sicrhau bod modd i mi drafod dogfennau sy'n dod o du'r Llywodraeth yn y dewis iaith gyda fy

I do not want to discuss Government business today, but I have to say that I was in a very difficult situation some months ago, when 15 of us—fishermen in Morfa Nefyn, a county councillor and myself—were discussing issues relating to marine zones. The documents before us were entirely in English, therefore a time comes when we have to decide what our priorities are. I refer to such a situation because the priority for me is to be able to work effectively in the language of one's choice in any situation. If we choose to spend more on reproducing our own words in one official language or another, does that mean that less money is available to ensure that I can discuss Government documents in my language of choice with my constituents? That is why I do not want to see these

etholwyr? Dyna pam nid wyf am weld y gwelliannau hyn yn cael eu derbyn, oherwydd y bwriad gwreiddiol oedd gosod egwyddorion ynglŷn ag iaith swyddogol a bod yr holl fanylion gweithredu yn ymddangos mewn cynllun iaith.

amendments agreed, because the original intention was to set out principles in relation to official language and then all of the operational details would appear in a language scheme.

Rhaid imi ddweud fy mod yn ei chael hi'n anodd iawn deall beth yw'r dröedigaeth ryfeddol sydd wedi dod dros y Ceidwadwyr Cymreig, oherwydd cefais y fraint fawr gan y Llywodraeth Geidwadol flaenorol—diolch yn fawr i'r Arglwydd Roberts o Gonwy a llawer arall—o fod yn gadeirydd bwrdd iaith statudol. Roedd yn gwbl glir i mi beth yr oeddwn yn ei wneud wrth weithredu polisi'r Ceidwadwyr yn yr 1990au, sef sefydlu'r egwyddor o ddwyieithrwydd yng Nghymru.

I have to say that I find it difficult to understand the incredible conversion that has come over the Welsh Conservatives, because I had the great privilege granted by the previous Conservative Government—thanks to Lord Roberts of Conwy and many others—of being the chair of a statutory language board. It was entirely clear to me what I was doing in implementing Conservative policy in the 1990s, which was establishing the principle of bilingualism in Wales.

3.15 p.m.

Fodd bynnag, roedd yr ymarferoldeb yn digwydd o fewn cynlluniau iaith, a'r rheswm am hynny yw bod amodau gwahanol mewn gwahanol ardaloedd ac mewn gwahanol wasanaethau. Gwn ein bod yn awr mewn byd o safonau, ond yn achos y ddeddfwrfa hon, yr egwyddor bwysig yw bod gennym ieithoedd swyddogol, ond er mwyn Tad, gadawn y gweithrediad i'r Comisiwn ar y pryd oherwydd dyna'r ffordd ymarferol o ddelio â'r anghenion. Rhaid imi ddweud, ymdrechais pan oeddwn yn Gadeirydd y Comisiwn wastad i gadw'r newid yng ngwariant blynyddol y Comisiwn yn is na'r newid yng ngwariant y Llywodraeth. Mae'n siomedigaeth imi y byddwn yn pasio pethau yma heddiw a fydd yn caniatáu gwariant penagored. Nid oes neb wedi dweud wrthyf, o blith cynigwyr y gwelliannau hyn, faint y bydd yn ei gostio i sefydlu'r dwyieithrwydd egwyddorol, anymarferol hwn y maent yn ei geisio. A ydych yn meddwl y bydd pobl Cymru, mewn cyfnod o ddirwasgiad, yn derbyn sefyllfa lle mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn dewis gwario fel hyn ar atgynhyrchu geiriau ei Aelodau ei hunan?

However, the practicalities should be set out in the language schemes, and the reason for that is that different conditions come into play in different areas and in different services. I know that we are now entering the world of standards, but in the case of this legislature, the important principle is that we have official languages, but for heaven's sake, let us leave the operation to the Commission at the time, because that is the practical way of dealing with the requirements. I have to say, when I was Chair of the Commission, I always sought to keep the variation in the Commission's annual expenditure lower than that in the Government's. It is a great disappointment to me that we will pass things here today that will pave the way for unlimited expenditure. No-one among those moving these amendments has told me how much it will cost to establish this in-principle, impractical bilingualism that they seek. Do you really think that the people of Wales, in a time of recession, will accept a situation in which the National Assembly chooses to spend like this on reproducing its own Members' words?

**Rhodri Glyn Thomas:** Rwyf am ymdrin â'r ddau welliant ar wahân, oherwydd rwy'n credu eu bod yn cyfleu dau beth hollol wahanol.

**Rhodri Glyn Thomas:** I will deal with the two amendments separately, because I believe that they convey two totally distinct concepts.

Nid wyf yn deall yn iawn pam mae gwelliant

I do not quite understand why amendment 1

1 wedi cael ei gyflwyno. Cyflwynwyd gwelliant fel hyn—bron yr union welliant—yn y pwyllgor yng Nghyfnod 2 gan y Ceidwadwyr Cymreig, a thynnwyd hwnnw yn ôl ar ôl inni drafod y mater. Nid wyf yn siŵr pam mae Suzy Davies yn dweud ei bod eisiau gwybod beth yw'r gost. Dywedais yn y pwyllgor beth oedd y gost ac rwyf wedi ailadrodd hynny fwy nag unwaith. Felly, mae'n siŵr bod pawb arall yn y Siambr hon heblaw am Suzy Davies yn gwybod yn union beth yw'r gost. Mae'r gost rhwng £400,000 a £600,000, ac mae'r ffigur hwnnw wedi cael ei gyflwyno ichi fel gwybodaeth sawl gwaith.

has been tabled. An amendment such as that—virtually the exact same one—was tabled in committee in Stage 2 by the Welsh Conservatives, and that was withdrawn after we had considered the matter. I am not certain why Suzy Davies says that she wants to know the cost. I told the committee what the cost was and I have repeated it on more than one occasion. Therefore, I am certain that everyone else in the Chamber except Suzy Davies knows exactly what it costs. It costs between £400,000 and £600,000, and that figure has been presented to you as information on numerous occasions.

Fodd bynnag, nid mater o arian yw hyn, ond mater o egwyddor sylfaenol. Mae'n fater o geisio penderfynu sut y gallwn symud fel sefydliad tuag at sefyllfa lle mae'r ddwy iaith yn gwbl gyfartal—ac nid yw hynny'n golygu gwneud yn union yr un peth yn y ddwy iaith, ond sicrhau eu bod yn gwbl gyfartal. Fel yr oedd Dafydd Elis-Thomas yn ei ddweud, mae'n golygu bod Aelodau yn y fan hon yn gallu dewis pa iaith i'w defnyddio a pha iaith i weithio ynddi, ac rwy'n meddwl bod gwelliant 5 yn cyfeirio at y pethau hynny. Mae gwelliant 5 yn adeiladu ar y drafodaeth a gawsom yn y pwyllgor. Mae gwelliant 1, fodd bynnag, yn anwybyddu'r drafodaeth honno yn gyfan gwbl.

However, this is not a matter of money, but of fundamental principle. It is a matter of trying to decide how we as an organisation can move towards a position in which both languages are completely equal—and that does not mean doing exactly the same thing in both languages, but ensuring that they are completely equal. As Dafydd Elis-Thomas said, it means that Members in this place can choose which language to use and which language to work in, and I think that amendment 5 does refer to those things. Amendment 5 builds on the discussion that we had in committee. Amendment 1, however, completely disregards that discussion.

Mae Dafydd Elis-Thomas hefyd wedi codi pwynt sylfaenol arall, sef mai materion ar gyfer y cynllun yw'r rhain yn hytrach na materion i'w rhoi ar wyneb y Bil. Rydym wedi symud. Gofynnwyd i ni fel Comisiwn gynnwys Cofnod y Trafodion, sef y cofnod o'n trafodaethau yn y sesiynau hyn, ar wyneb y Bil. Ein barn ni oedd mai yn y cynllun y dylai hynny fod, ond gofynnodd y pwyllgor inni wneud a gwnaethom gytuno i hynny. Mae'n bwysig ein bod yn gwbl glir.

Dafydd Elis-Thomas has also raised another fundamental point, namely that these are matters for the scheme, rather than matters to put on the face of the Bill. We have moved. We were asked as a Commission to include the Record of Proceedings, which is the report of our deliberations in these sessions, on the face of the Bill. Our opinion was that that should be placed in the scheme, but the committee asked us to do so and we agreed to it. It is important to be clear about that.

Gwrandewais ar yr hyn yr oedd gan Suzy Davies i'w ddweud am y gwahaniaethu yma rhwng 'trafodion y Cynulliad' a 'trafodion Cynulliad', ac nid wyf yn credu ei bod wedi deall yr hyn sy'n gynwysedig yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. 'Trafodion y Cynulliad' yw trafodion y sesiynau hyn ar brynhawn dydd Mawrth a phrynhawn dydd Mercher. 'Trafodion Cynulliad' yw pob peth arall. O geisio newid y geiriad drwy'r gwelliant, mae'n dweud ei bod eisiau

I listened to what Suzy Davies had to say about the distinction made between 'proceedings of the Assembly' and 'Assembly proceedings', and I do not believe that had understood what is contained in the Government of Wales Act 2006. The 'proceedings of the Assembly' are our deliberations in these sessions on a Tuesday and Wednesday afternoon. 'Assembly proceedings' are everything else. By seeking to change the wording by amendment, she is

cyfieithu'r holl drafodion sy'n digwydd yn y Cynulliad. Mae adroddiadau pwyllgorau, ar ddiwedd eu hymchwiliadau, yn gwbl ddwyieithog, felly pam mae eisiau cyfieithu pob peth arall—dogfennau marw nad ydynt yn cael eu defnyddio? Y ddogfen fyw yw'r adroddiad ar ddiwedd y drafodaeth ac mae hwnnw'n cael ei gyhoeddi yn ddwyieithog. Felly, ar dir egwyddor ac nid ar dir arian, gofynnaf ichi fod yn ofalus iawn o ran ymrwymo'r Comisiwn i wneud gwaith dianghenraid na fydd yn golygu bod yr un gair ychwanegol o Gymraeg yn cael ei ddefnyddio yn y lle hwn ac na fydd yn golygu bod gwaith Aelodau fel fi, sy'n dewis ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg, yn cael ei hwyluso o gwbl.

saying that she wants to translate all the proceedings that happen in the Assembly. Committee reports, at the end of their inquiries, are completely bilingual, so why does she want everything else translated—dead documents that do not get used? The live document is the report at the end of the discussion and that is published bilingually. Therefore, on the grounds of principle, and not of money, I ask you to be very cautious about committing the Commission to carrying out unnecessary work that will not mean that a single additional word of Welsh is spoken in this place, or that the work of Members such as me, who choose to work through the medium of Welsh, will be in any way facilitated.

Yng nghyd-destun gwelliant 5, mae'r Comisiwn wedi sefydlu adolygiad llawn o waith y pwyllgorau ac o'r cymorth sy'n cael ei roi i Aelodau, a bydd y materion sydd yng ngwelliant 5 yn cael eu codi o fewn yr adolygiad hwnnw cyn diwedd y flwyddyn. Felly, ac ymateb i Eluned Parrott—

In the context of amendment 5, the Commission has set up a full review of the work of the committees and of the support that is given to Members, and the matters contained in amendment 5 will be raised as part of that review before the end of the year. Therefore, to respond to Eluned Parrott—

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Un o'r anawsterau, os caf ddweud, yw nad oes drafft gynllun wedi dod gerbron ochr yn ochr â'r Bil drafft. Dyna fyddai wedi digwydd yn y byd delfrydol, ond rwy'n deall nad yw'r pethau hyn yn gallu digwydd bob amser. Fodd bynnag, a gawn sicrwydd y gall y Cynulliad drafod y drafft gynllun yn gyflawn mewn pwyllgor fel y gallwn fynd â'r mater ymhellach, drwy gytundeb?

**Lord Elis-Thomas:** One of the difficulties, if I may say so, is that no draft scheme has been provided along with the draft Bill. That is what would have happened in an ideal world, but I understand that these things are not always possible. However, can you give us an assurance that the Assembly will have an opportunity to discuss the draft scheme fully in committee so that we can take this further, by agreement?

**Rhodri Glyn Thomas:** Yn sicr, rwy'n barod iawn i dderbyn hynny. Rwyf eisiau trafodaeth lawn am y drafft gynllun.

**Rhodri Glyn Thomas:** Certainly, I am most willing to accept that. I wish to have a full discussion on the draft scheme.

Yn bersonol, rwyf am weld y trafodaethau am ddeddfwriaeth a'r craffu ar Weinidogion, a'r brîff y mae Aelodau yn ei gael mewn pwyllgorau yn cynnwys mwy o Gymraeg, oherwydd byddai hynny'n ddefnyddiol i mi ac i bob Aelod arall sy'n defnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, bydd hyn yn rhan o'r adolygiad, felly bydd cyfle i weld hyn, Eluned, yn y drafft gynllun, a bydd cyfle inni gael trafodaeth bellach am hynny.

Personally, I want to see discussions on legislation and on the scrutiny of Ministers, as well as the Members' brief for committees containing more Welsh, because that would be useful for me and every other Member who uses the Welsh language. However, this will form a part of the review, so there will be an opportunity to see this, Eluned, in the draft scheme, and there will be an opportunity for further discussion on that.

Felly, ar y sail honno, ar ran y Comisiwn, rwy'n gofyn ichi wrthod gwelliannau 1 a 5. Er fy mod yn cydymdeimlo â'r egwyddorion

Therefore, on that basis, on behalf of the Commission, I ask you to reject amendments 1 and 5. Although I have sympathy with the

sy'n cael eu codi yng ngwelliant 5, nid wyf yn credu mai ar wyneb y Bil y dylai hynny fod, ond yn y cynllun, wedi inni gael yr adolygiad llawn. Rwy'n gobeithio hefyd fod hynny yn mynd â ni i'r cyfeiriad yr oedd Llyr yn sôn amdano, sef symud tuag at sefyllfa lle mae'r ddwy iaith yn gwbl gyfartal. Dyna yr ydym yn ei gyhoeddi yn y Bil hwn a dyna yr ydym ni fel Comisiwn yn ymrwymedig i'w wneud.

principles raised in amendment 5, I do not believe that that should be placed on the face of the Bill, but rather in the scheme, following the full review. I also hope that that takes us in the direction that Llyr was talking about, namely moving towards a position in which both languages are completely equal. That is what we state in this Bill and that is what we as a Commission are committed to doing.

**Suzy Davies:** Mae'r Bil hwn yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006, sydd eisoes yn cadarnhau'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae'r Bil yn ceisio cryfhau'r egwyddor a chael gwared ar y rhwystrau i driniaeth gyfartal. Cyflwynwyd y Bil hwn gan y Comisiwn, nid gan y Llywodraeth ac nid drwy bleidlais y meinciau cefn, felly roedd yn anochel y byddai'n rhaid i'r Comisiwn roi esboniad cadarn o ran ble i osod y trothwy ar yr hyn a olygir gan gydraddoldeb. Os yw Aelodau'n fodlon bod y Comisiwn wedi rhoi esboniad cadarn, nid oes raid i Aelodau gefnogi gwelliant 1 ac mae'r broblem o ran arian yn mynd i ffwrdd. Fodd bynnag, os nad ydynt yn fodlon ei fod wedi gwneud hynny, efallai y byddant yn gofyn y cwestiwn hwn. A allai'r Comisiwn fod wedi paratoi ar gyfer barn wahanol gan y Cynulliad am drothwy cydraddoldeb er mwyn cyflawni nod y Bil o'i gymharu â'r hyn y mae Comisiynydd y Gymraeg yn bwriadu ei wneud fel rhan o'i gwaith? Beth ddywedodd y comisiynydd iaith wrth y Comisiynwyr eraill am sut i wynebu a delio â'r oblygiadau hynny?

**Suzy Davies:** This Bill amends the Government of Wales Act 2006, which already confirms the principle of equal treatment for Welsh and English. The Bill tries to strengthen that principle and to remove the barriers to equal treatment. This Bill was brought forward by the Commission, not the Government and not through a backbench vote, so it was inevitable that the Commission would have to give a robust explanation on where to set the threshold for what is meant by equality. If Members are content that the Commission has given a robust explanation, Members do not have to support amendment 1 and the financial problem then disappears. However, if they are not content that it has done so, they may want to ask this question. Could the Commission have prepared for a differing view from the Assembly on the threshold of equality to achieve the aim of the Bill as compared with what the Welsh Language Commissioner intends to do as part of her work? What did the language commissioner say to the other Commissioners about how to face up to and deal with those implications?

**The Deputy Presiding Officer:** Do you wish to proceed with a vote on amendment 1?

**Y Dirprwy Lywydd:** A ydych yn dymuno bwrw ymlaen â'r bleidlais ar welliant 1?

**Suzy Davies:** Yes.

**Suzy Davies:** Ydw.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 1 be agreed to. Are there any objections? I see that there are. Therefore, we will proceed with an electronic vote.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw bod gwelliant 1 yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, byddwn yn bwrw ymlaen â'r bleidlais electronig.

*Gwelliant 1: O blaid 17, Ymatal 1, Yn erbyn 36.*
*Amendment 1: For 17, Abstain 1, Against 36.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

| | |
|---|---|
| Asghar, Mohammad | Andrews, Leighton |
| Davies, Andrew R.T. | Antoniw, Mick |
| Davies, Byron | Black, Peter |
| Davies, Paul | Burns, Angela |
| Davies, Suzy | Chapman, Christine |
| Finch-Saunders, Janet | Cuthbert, Jeff |
| George, Russell | Davies, Alun |
| Graham, William | Davies, Jocelyn |
| Gruffydd, Llyr Huws | Drakeford, Mark |
| Isherwood, Mark | Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord |
| Jones, Elin | Evans, Rebecca |
| Millar, Darren | Gething, Vaughan |
| Ramsay, Nick | Gregory, Janice |
| Roberts, Aled | Griffiths, John |
| Whittle, Lindsay | Griffiths, Lesley |
| Williams, Kirsty | Hart, Edwina |
| Wood, Leanne | Hedges, Mike |
| | Hutt, Jane |
| | James, Julie |
| | Jones, Alun Ffred |
| | Jones, Ann |
| | Jones, Ieuan Wyn |
| | Lewis, Huw |
| | Mewies, Sandy |
| | Morgan, Julie |
| | Neagle, Lynne |
| | Parrott, Eluned |
| | Powell, William |
| | Price, Gwyn R. |
| | Rathbone, Jenny |
| | Rees, David |
| | Sargeant, Carl |
| | Skates, Kenneth |
| | Thomas, Gwenda |
| | Thomas, Rhodri Glyn |
| | Watson, Joyce |

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Thomas, Simon

*Gwrthodwyd gwelliant 1.*
*Amendment 1 not agreed.*

**Grŵp 2: Cyhoeddi Cofnodion o Drafodion y Cynulliad (Gwelliant 9)**
**Group 2: Publication of Reports of Assembly Proceedings (Amendment 9)**

**The Deputy Presiding Officer:** We now move on to the second group of amendments in relation to the publication of reports of Assembly proceedings. The lead and only amendment in the group is amendment 9. I call on Aled Roberts to move and speak to the amendment.

**Y Dirprwy Lywydd:** Symudwn ymlaen yn awr at yr ail grŵp o welliannau mewn perthynas â chyhoeddi adroddiadau o drafodion y Cynulliad. Y prif welliant a'r unig welliant yn y grŵp yw gwelliant 9. Rwy'n galw ar Aled Roberts i gynnig a siarad am y gwelliant.

**Aled Roberts:** Cynigiaf welliant 9 yn fy enw i ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol.

**Aled Roberts:** I move amendment 9 in my name on behalf of the Liberal Democrats.

Mae'n bleser cael siarad yn y ddadl hon

It is a pleasure to be able to speak in this

heddiw er mwyn cymryd camau ymarferol, fel y dywedodd Alun Ffred, i gryfhau darpariaeth y Gymraeg fel iaith swyddogol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

debate, in order to take practical steps, as Alun Ffred said, to strengthen the provision for Welsh as an official language here in the National Assembly for Wales.

Rwy'n ddiolchgar i'r Comisiynydd am roi sicrwydd y byddai'n rhoi ystyriaeth bellach i'r materion a godwyd gan Aelodau yn ystod trafodion Cyfnod 2, ac mae llawer ohonynt ger ein bron eto heddiw. Mae'n rhaid imi ddiolch i'r Comisiwn hefyd am drafod y gwelliannau gyda mi a'n cynorthwyo i gyrraedd canlyniad boddhaol o ran y gwelliannau sydd i'w trafod yn ddiweddarach.

I am grateful to the Commissioner for his assurances that he would give further consideration to matters that Members raised during the Stage 2 proceedings, many of which are back before us today. I must also thank the Commission for discussing the amendments with me and for helping us to arrive at a satisfactory outcome in respect of the amendments that are to be discussed later on.

Ym mis Rhagfyr 2010, pasiodd y Cynulliad Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ond eithriwyd y Cynulliad fel corff o'i ddarpariaethau, cam a arweiniodd at gyflwyno'r Bil ieithoedd swyddogol a'r cynllun ieithoedd swyddogol arfaethedig. Rhwng 1999 a 2009, roedd Cofnodion Cyfarfodydd Llawn y Cynulliad ar gael yn gwbl ddwyieithog. Rhwng 2005 a 2009, roedd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd, a hynny o fewn 24 awr. Yn 2009, penderfynodd Comisiwn y Cynulliad i beidio â darparu Cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion y Cyfarfodydd Llawn. Ym mis Hydref 2010, cwynodd nifer o aelodau'r cyhoedd am y ffaith nad oedd y Cofnod ar gael yn y Gymraeg, a dechreuodd Fwrdd yr Iaith Gymraeg ymchwiliad i'r mater. Ym mis Mehefin 2011, daeth bwrdd yr iaith i'r casgliad bod y Cynulliad wedi torri ei gynllun iaith ei hun drwy fethu â chynnig Cofnodion cwbl ddwyieithog. Rhwng mis Awst a mis Hydref 2011, cynhaliodd Comisiwn y Cynulliad ymgynghoriad ar gynlluniau i newid y gyfraith, a chyflwynwyd Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) ar 30 Ionawr 2012. Ar ôl clywed tystiolaeth gan nifer o arbenigwyr a chyrff, dadleuodd y pwyllgor a fu'n craffu ar y Bil y dylai holl drafodion y Cynulliad fod ar gael yn llawn ddwyieithog, gan gynnwys trafodion y pwyllgorau a'r is-bwyllgorau.

In December 2010, the Assembly passed the Welsh Language (Wales) Measure 2011, but the Assembly as a body was excepted from its provisions, a step that led to the introduction of the official languages Bill and the proposed official languages scheme. Between 1999 and 2009, the Records of the Assembly's Plenary meetings were available fully bilingually. Between 2005 and 2009, the Welsh and English versions were published simultaneously, namely within 24 hours. In 2009, the Assembly Commission decided not to publish a fully bilingual Record of Plenary proceedings. In October 2010, many members of the public complained about the fact that the Record was no longer available in Welsh, and the Welsh Language Board initiated an investigation into the matter. In June 2011, the language board came to the conclusion that the Assembly was in breach of its own language scheme by not providing a fully bilingual Record. Between August and October 2011, the Assembly Commission held a consultation on plans to change the law, and the National Assembly for Wales (Official Languages) Bill was formally introduced on 30 January 2012. Having heard evidence from numerous experts and organisations, the committee that scrutinised the Bill argued that all proceedings of the Assembly should be available bilingually, including the discussions of committees and sub-committees.

Yn ystod y pleidleisio yng Nghyfnod 2 yn y pwyllgor, newidiwyd y Bil i gynnwys gwelliant a fyddai'n sicrhau y byddai Cofnod dwyieithog o drafodion Cyfarfodydd Llawn, ond nid i'w gyhoeddi ar yr un pryd â'r

During the voting at Stage 2 in committee, the Bill was amended to incorporate an amendment that provided for there to be a bilingual Record of Plenary proceedings, but it would not be published at the same time as

fersiwn Saesneg. Ni chytunwyd ar welliant arall a fyddai wedi sicrhau bod holl drafodion y Cynulliad ar gael yn y Gymraeg. Felly, bydd trafodion y pwyllgorau'n dal i fod ar gael yn Saesneg yn unig. Yn ystod yr holl drafodaethau a gefais â'r Comisiwn, soniodd am ei fwriad i warantu bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal. Mae pawb yn derbyn nad dyma'r sefyllfa ar hyn o bryd, o ran gweithredu mewnol y sefydliad. Mae hynny hefyd yn amlwg iawn yng ngwaith cyhoeddus y Cynulliad. Mae angen camau radical i wrthdroi'r patrwm hwnnw.

the English version. Another amendment that would have provided for all Assembly proceedings to be available in Welsh was not agreed, and so committee transcripts will remain available in English only. In all the discussions that I had with the Commission, the intention to guarantee that both languages would be treated equally was stated. Everyone accepts that that is not the current position as regards the internal workings of the organisation. It is also very evident in the Assembly's public work. Radical steps are needed if we are to overturn that trend.

Mae angen inni osod esiampl i sefydliadau eraill yng Nghymru. Newidiwyd yr arfer o gyfieithu'r Cofnod deirgwaith mewn tair blynedd, er na newidiwyd y cynllun iaith. Daeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r casgliad bod y Cynulliad yn torri ei gynllun iaith ei hun, ond anwybyddodd y Cynulliad ddyfarniad y corff statudol hwnnw, gan barhau i gyhoeddi Cofnod nad oedd yn ddwyieithog am 17 mis.

We need to be an exemplar for other organisations in Wales. The practice of translating the Record was changed three times in three years, although the language scheme was not amended. The Welsh Language Board came to the conclusion that the Assembly was in breach of its own language scheme, but the Assembly ignored the ruling of that statutory body, by continuing for 17 months to publish a Record that was not bilingual.

Byddai gwelliant 9 yn sicrhau y byddai'r Cynulliad yn cydymffurfio â safonau arfaethedig Comisiynydd y Gymraeg, sef na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran amseroedd cyhoeddi testunau nac anfon cyfathrebiadau. Pam fyddai'r Cynulliad eisiau torri'r egwyddor honno? Mae'r syniad y dylid cyhoeddi dogfennau Cymraeg ar yr un pryd â'r rhai Saesneg yn un a oedd wedi'i hen sefydlu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ôl Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Dyma'r argymhelliad a wnaed gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, yn sgîl ei ymchwiliad:

Amendment 9 would ensure that the Assembly complied with the standards proposed by the Welsh Language Commissioner, namely that Welsh should not be treated any less favourably than English in the timing of publishing texts or of issuing communications. Why would the Assembly want to fall foul of that principle? The idea that Welsh documents should be published at the same time as English documents was long established by the Welsh Language Board post the Welsh Language Act 1993. This was the recommendation of the language board following its investigation:

'Yn syth ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad, dylai'r Comisiwn ddarparu Cofnod trafodion y cyfarfod llawn yn gwbl ddwyieithog yn unol â'r arfer cyn Medi 2009.'

'Immediately following the commencement of the fourth assembly, the Commission should produce a fully bilingual record of the Plenary proceedings as was the practice prior to September 2009.'

Yr arfer cyn Medi 2009 oedd darparu fersiwn Gymraeg o'r Cofnod o fewn 24 awr. A yw'r Comisiynydd yn cytuno y dylai Comisiwn y Cynulliad gydymffurfio â safonau arfaethedig Comisiynydd y Gymraeg, a ddyfynnwyd eisoes? Hefyd, a fydd y Comisiwn yn gwarantu y bydd ei gynllun iaith yn cyrraedd yr un safon â safonau arfaethedig

The practice prior to September 2009 was to provide a Welsh-language version of the Record within 24 hours. Does the Commissioner agree that the Assembly Commission should comply with the standards proposed by the Welsh Language Commissioner, which have been cited? In addition, will the Commission be

Comisiynydd y Gymraeg?

guaranteeing that its language scheme will reach the same standards as the Welsh Language Commissioner proposed standards?

3.30 p.m.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Rwyf yn cael peth anhawster i ddeall beth yn union yw statws cyfansoddiadol Comisiynydd y Gymraeg, sy’n greadur y Llywodraeth, mewn perthynas â’r ddeddfwrfa hon.

**Lord Elis-Thomas:** I am having some difficulty in understanding how the constitutional status of the Welsh Language Commissioner, who is a creature of Government, relates to this legislature.

**Aled Roberts:** Byddwn ni fel sefydliad yn disgwyl bod cyrff cyhoeddus eraill yn gwrando ar Gomisiynydd y Gymraeg wrth iddynt drafod ymhellach. Felly, rwy’n teimlo y dylem ninnau gymryd sylw o ddadl y comisiynydd.

**Aled Roberts:** We as an institution will expect other public bodies to take heed of the Welsh Language Commissioner in further discussions. Therefore, I feel that we should take heed of the commissioner’s argument.

**Simon Thomas:** Ar y pwynt hwnnw, a yw hwnnw felly yn egwyddor sy’n mynd ar draws bywyd cyhoeddus yng Nghymru? A oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, pan oeddech chi’n arweinydd arno, Aled, yn cyhoeddi popeth yn ddwyieithog, gan gynnwys trafodion y pwyllgorau?

**Simon Thomas:** On that point, is that a principle that therefore runs across public life in Wales? Did Wrexham County Borough Council, when you were its leader, Aled, publish everything bilingually, including committee proceedings?

**Aled Roberts:** Nac oedd. Yr oeddwn am ddweud yn y ddadl hon fy mod yn falch fod gennyf yr hawl yn y Cynulliad i drafod yn Gymraeg. Yr wyf wedi dweud eisoes yn y Siambr nad oes gan aelodau etholedig ar gyngor Wrecsam, hyd yn hyn, yr hawl i drafod yn Gymraeg yn y pwyllgorau na’r siambr. Rhoes i gynnig gerbron, ond fe wnes i golli—dyna system democratiaeth. Yr wyf yn rhoi fy safbwynt i yma heddiw. Pam ydym fel Cymry yn derbyn, fel y dywedodd Llyr Huws Gruffydd, fod un iaith yn fwy swyddogol na’r llall?

**Aled Roberts:** No, it did not. I wanted to make the point in this debate that I am pleased to have the right in the Assembly to discuss matters through the medium of Welsh. I have previously mentioned in this Chamber that the elected members of Wrexham, even today, do not have the right to discuss anything in committees or in the council chamber through the medium of Welsh. I put a proposal before the council to that end, but I lost—that is how democracy works. I am giving my point of view today. Why are we as Welsh people, as Llyr Huws Gruffydd said, prepared to accept that one language is more official than the other?

**Suzy Davies:** Nid wyf yn cael llawer o anhawster ag egwyddor y gair hwn, ond mae cynnwys gofyniad ar gyfer cyhoeddi cydamserol ar wyneb y Bil yn cyflwyno problemau go iawn o safbwynt ymarferoldeb. Nid wyf am i’r Comisiwn fod yn fythol agored i dorri’r gyfraith drwy geisio cyflawni’r gwaith o fewn amserlen dynn, ond nid wyf am weld oedi diangen ychwaith. Fodd bynnag, er na fyddaf yn cefnogi’r gwelliant hwn, buaswn yn disgwyl i’r cynllun

**Suzy Davies:** I do not have much difficulty with the principle of this, but including on the face of the Bill a requirement for simultaneous publication does present serious problems in terms of practicality. I do not want the Commission to be constantly open to accusations of breaking the law in trying to achieve this work within tight timescales, but neither do I want to see unnecessary delay. However, although I will not be supporting this amendment, I would expect the scheme

fynd i'r afael â sut y gellid gwneud cynnydd o fewn amserlen dynn ar gyfer cyhoeddi cydamserol.

to get to grips with how we can make progress within a tight timescale for simultaneous publication.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Mae'n ddrwg gennyf siarad eto yn erbyn y gwelliant hwn—na, nid yw'n ddrwg gennyf, a dweud y gwir—am yr un rheswm ag y siaredais yn erbyn y gwelliant blaenorol. Unwaith eto, ni wnaed ymgais i ystyried y capasiti gwirioneddol sy'n ein hwynebu wrth sôn am gyhoeddi cofnod cyfan—a deallaf mai dyna'r ddadl—o'n holl weithgaredd yn y Gymraeg ac yn y Saesneg. Wrth 'gofnod', ystyriaf fod cynigydd y gwelliant hwn yn ystyried cofnod sydd wedi ei gyfansoddi fel testun a'i argraffu ar wefan y Cynulliad. Fodd bynnag, y 'cofnod' yw'r hyn a ddigwyddodd. Yr hyn a ddigwyddodd yn y lle hwn yw yr hyn sy'n cael ei ddarlledu yn awr, ar Senedd.tv, BBC Democracy Live, ac efallai, os ydym yn lwcus, ar BBC Parliament yn hwyr y nos ar nos Sadwrn. Nid y cofnod yw'r hyn sydd wedi cael ei ysgrifennu, er mor ardderchog yw'r bobl—ac yr wyf yn eu hadnabod yn dda—sy'n cofnodi'r gweithgareddau hyn; nid yr hyn y maent hwy yn ei gofnodi yw'r cofnod. Yr hyn y maent hwy yn ei gofnodi yw fersiwn destunol o'r hyn a ddigwyddodd.

**Lord Elis-Thomas:** I am sorry to speak against this amendment again—no, actually, I am not sorry—for the same reason that I spoke against the previous amendment. Once again, no effort has been made to consider the real capacity issue that we face in talking about publishing a full record—and I understand that that is the argument—of all our proceedings in Welsh and English. In using the word 'record', I consider that the proposer of this amendment is talking about a record that is composed as a text and which is then published on the Assembly's website. However, to me, the 'record' is what actually occurred. What has occurred in this place is what is now being broadcast on Senedd.tv, on BBC Democracy Live, and possibly, if we are lucky, on BBC Parliament late on a Saturday night. The record is not what has been written, despite the fact that those who produce a written record of our proceedings—and I know them very well—are excellent people; the text that they produce is not the record. What they report is a textual version of what occurred.

Felly, pan soniwn am gofnod—a dyma yw fy ngofid ynglŷn â rhoi'r pethau hyn ar wyneb Bil—yr ydym yn sôn am yr hyn sy'n ymddangos ar sianel BBC Democratiaeth Fyw y BBC ac ar Senedd.tv, yn gymaint ag yr ydym yn sôn am yr hyn sy'n ymddangos yn yr hyn a elwir yn Gofnod y Trafodion. Ymleddais frwydr galed i gadw bachau'r Stationery Office a Hansard oddi ar y lle hwn gan nad oeddwn yn credu bod angen i ni fynd i'r drafferth o argraffu a chyhoeddi rhywbeth a oedd yn debyg i ryw fath o lyfr trafodion yn null San Steffan.

Therefore, when we talk about a record—and this is my concern about placing these things on the face of a Bill—we are talking about what is broadcast on BBC Democracy Live and on Senedd.tv, just as much as we are talking about what appears in what is known as the Record of Proceedings. I fought a hard battle to prevent the Stationery Office and Hansard from getting their claws into this place because I did not believe that we needed to go to the trouble of printing and publishing something akin to a book of proceedings in the Westminster style.

Rwy'n ofni bod llawer o'r ddadl hon ynglŷn ag ieithoedd swyddogol yn mynd yn ôl i'r syniad ein bod ni'n rhyw fath o senedd hen ffasiwn o'r ugeinfed ganrif, neu hyd yn oed y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sydd eisiau dynwared testunau o'n trafodion er mwyn rhoi statws. Pa mor aml yr wyf wedi clywed y gair hwnnw? Nid oes gennyf ddiddordeb yn statws yr iaith Gymraeg, na'r iaith Saesneg, ond mae gennyf ddiddordeb anferth yn eu defnyddioldeb ac ym mharodrwydd pobl i

I am afraid that much of the argument about official languages harks back to the idea that we are some kind of old-fashioned parliament from the twentieth century or even the nineteenth century that wants to reproduce texts of our proceedings in order to confer status. How often have I heard that word? I have no interest in the status of the Welsh language or the English language, but I have a huge interest in its usability and in people's willingness to communicate. One of the

gyfathrebu. Un peth sy'n rhoi'r pleser mwyaf i mi yw dod ar draws cyfeillion yn y lle hwn, drwy'r amser, sy'n mentro siarad Cymraeg, ac ysgrifennu yn Gymraeg gan eu bod yn teimlo'n gyfforddus i wneud hynny am ein bod wedi creu Cynulliad lle mae dwyieithrwydd yn llawenydd ac nid yn fater o orfodaeth. Dewis pob Aelod yw sefyll lan a dewis ei iaith ef neu ei hiaith hi a siarad fel y maent yn dymuno, ac rwyf am ddiogelu hynny. Mae gwario arian ar ailadrodd ein geiriau ein hunain mewn testun printiedig yn golygu ein bod am fod yn ddynwarediad o Hansard ac o Saesnigrwydd ffiaidd Senedd y Deyrnas Unedig.

things that gives me the greatest pleasure is meeting friends in this place who, time and again, venture to speak and write Welsh because they feel comfortable in doing so due to the fact that we have created and Assembly where bilingualism is a joy and not a matter of compulsion. It is for each Member to stand up and choose the language in which he or she will speak, and I want to safeguard that choice. Spending money on reproducing our words in a printed text means that we want to be an emulation of Hansard and the foul Englishness of the United Kingdom Parliament.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae'n anodd gwybod beth i'w ddweud ar ôl gwrando ar araith Dafydd Elis-Thomas. Rwy'n gobeithio nad yw'n chwennych fy swydd i, ond mae'n gwneud gwaith arbennig o dda yn amddiffyn safbwynt y Comisiwn ar hyn o bryd.

**Rhodri Glyn Thomas:** It is difficult to know what to say having listened to Dafydd Elis-Thomas's speech. I hope that he is not after my job, but he is doing excellent work in defending the views of the Commission at present.

Gwrandewais ar yr hyn a oedd gan Aled i'w ddweud, ac yr oedd yn cyfeirio at y gorffennol wrth sôn am y cofnod. Y gorffennol yw'r gorffennol—nid dyna fy nghyfrifoldeb i gan nad oeddwn yn Gomisiynydd ar y pryd. Gwnaethom ymateb i'r alwad i gyhoeddi cofnod dwyieithog. Gwnaethom hynny mewn cydweithrediad â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, fel ag yr oedd ar y pryd, a Chomisiynydd y Gymraeg oedd cadeirydd y bwrdd. Symudwyd tuag at gyfieithu electronig gan y byddai hynny'n cynnig llawer o gyfleoedd inni yn y dyfodol. Mae Aled yn gofyn i ni fynd yn ôl i'r gorffennol er mwyn dibynnu'n gyfan gwbl ar gyfieithu gan bobl, heb unrhyw gymorth electronig. Ni fyddai hynny'n ychwanegu at yr adnodd sydd gennym.

I listened to Aled's contribution, in which he referred to the past in making reference to the record. The past is the past—that is not my responsibility, as I was not a Commissioner at that time. We responded to the demand for a bilingual record. We did that in collaboration with the Welsh Language Board, as it was at that time, and with the Welsh Language Commissioner, who was the board's chair. We moved towards electronic translation as it would provide many opportunities in the future. Aled is asking us to return to the past by depending entirely on the work of translators, without any electronic assistance. That would not add to the resource that we have.

Fel yr awgrymwyd gan Dafydd Elis-Thomas, mae problem fawr o ran adnoddau. Nid oes gennym yr adnoddau yn fewnol ac nid wyf yn credu, er mwyn cyflawni'r hyn y mae Aled yn gofyn amdano ac er mwyn cael cyfieithu o'r safon ofynnol o fewn yr amodau amseryddol dan sylw, fod yr adnodd yn bodoli yng Nghymru. Buasai derbyn y gwelliant hwn yn gwneud i ni fel sefydliad ac fel Comisiwn fynd yn barhaol groes i'n deddfwriaeth ein hunain gan nad yw'r adnoddau ar gael.

As Dafydd Elis-Thomas suggested, there is a huge problem in terms of resource. We do not have the resources in-house, and I do not believe that in order to achieve what Aled is seeking and in order to have translation of the required standard and within the timescale set out, that the resource actually exists in Wales. Accepting this amendment would mean that we as an institution and Commission would find ourselves continuously in breach of our own legislation, because the resources simply are not available.

Mae'r Cofnod dwyieithog, sef y Cofnod swyddogol yn y ddwy iaith, yn ymddangos ar ôl pum niwrnod gwaith. Drafft yw'r ddogfen sy'n bodoli cyn hynny; mae'r drafft yn agored i'w gywiro ac yno er gwybodaeth i Aelodau. Mae'r Cofnod swyddogol yn ymddangos ymhen pum niwrnod gwaith, ac mae'r ddwy iaith yn ymddangos ar yr un pryd.

The bilingual Record, which is the official Record in both languages, is published after five working days. The document published prior to that is a draft, which is open for correction and which is there for Members' information. The official Record appears within five working days, and both languages appear side by side in the same document.

Mae'n bwysig ein bod ni'n gofyn beth yw'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni wrth ddatgan bod y ddwy iaith yn gyfartal, oherwydd dyna'r hyn a wnawn yn y Bil hwn. Nid wyf yn gweld bod y gwelliant hwn yn ein helpu ni. Mae'n ein rhwystro ni rhag datblygu, gan y byddai'n rhaid inni fynd yn ôl a gwneud i ffwrdd â'r broses rydym wedi'i mabwysiadu ar gyfer cyfieithu'r Cofnod, ac ni fyddai gennym unrhyw botensial i wella'r sefyllfa o ran yr hyn rydym yn ei gyflawni. Felly, gofynnaf ichi—[*Torri ar draws.*]

It is important that we ask ourselves what it is that we are trying to achieve in stating that both languages are equal, because that is what we are doing in this Bill. I do not see that this amendment assists us in any way. It prevents us from moving forward, as we would have to return and do away with the process that we have adopted from the translation of the Record, and we would have no potential to improve the situation in terms of what we are currently achieving. So, I ask you—[*Interruption*.]

Nid wyf yn sôn am gost nac yn dweud na allwn ni ddarparu'r gwasanaethau hyn oherwydd y gost. Os ydych chi fel Aelodau yn gofyn i ni ddarparu'r gwasanaethau hyn i chi, ein gwaith ni fel Comisiwn yw gwneud hynny. Ond, byddai hyn yn costio mwy na £600,000—llawer iawn mwy na hynny mewn gwirionedd—ac nid wyf yn credu y byddai'n cyflawni unrhyw beth. Felly, mae'r Comisiwn, unwaith yn rhagor, yn gofyn ichi wrthod y gwelliant hwn.

I am not talking about cost or saying that we cannot provide these services because of the cost. If you as Members are asking us to provide these services to you, then it is for us as a Commission to do that. However, doing that would cost more than £600,000—and far more than that, if truth be told—and I do not believe that it would achieve anything. Therefore, the Commission, once again, asks you to reject this amendment.

**The Deputy Presiding Officer:** I call on Aled Roberts to reply to the debate.

**Y Dirprwy Lywydd:** Galwaf ar Aled Roberts i ymateb i'r ddadl.

**Aled Roberts:** Mae'r ddadl wedi'i gwneud. Credaf mai mater o egwyddor yw hwn. Nid wyf yn gweld bod ein sefyllfa ni yma yng Nghymru yn wahanol iawn i sefyllfa sefydliadau eraill ar draws y byd a chanddynt ddwy iaith swyddogol. Os ewch i leoedd fel New Brunswick, mae pobl yn mynnu bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn hollol gyfartal, a chredaf mai mater o egwyddor yw hynny.

**Aled Roberts:** The argument has been made. I think that it is a matter of principle. I do not think that our position here in Wales is any different to that of other institutions across the world that have two official languages. If you visit places such as New Brunswick, people there insist that both languages are treated on a totally equal basis, and I think that that is a matter of principle.

Nid ydym ni, fel Cynulliad, yn barod i dderbyn dadl oddi wrth sefydliadau eraill sy'n dweud ei bod yn rhy gostus i ddarparu yn y ddwy iaith. Dylem gydnabod barn y Comisiynydd—

We, as an Assembly, are not prepared to accept the argument from other institutions that it is too expensive to make provision on the basis of both languages. We should acknowledge the view of the Commissioner—

**Rhodri Glyn Thomas:** Gadewch i ni fod yn glir: yr hyn a ddywedais wrth drafod y gwelliant hwn a'r rhai blaenorol oedd nad wyf yn gwneud dadl o ran cost. Fe ofynnwyd i mi am y costau ac fe'u rhoddais. Nid dyna'r ddadl; yr egwyddor yw'r ddadl. Sut y byddai hyn yn cryfhau'r sefyllfa o ran y ddwy iaith yn cydfodoli yn gyfartal? Ni fydd yn gwneud hynny. Rhaid i ni ddatblygu potensial y buddsoddiad yr ydym yn ei wneud o ran y Cofnod. Byddai'r gwelliant hwn yn dileu hynny'n gyfan gwbl.

**Rhodri Glyn Thomas:** To be entirely clear, what I said in discussing this amendment and previous amendments is that I have not been making the case on the basis of cost. I was asked for the costs and I gave them. That is not the argument; it is the principle that is at stake here. How would this strengthen the position in terms of the equal coexistence of both languages? We must develop the potential in terms of the investment that we are making in the Record. This amendment would absolutely negate that.

**Aled Roberts:** Rwy'n credu eich bod chi heddiw yn tanseilio'r ffordd y mae'r wlad wedi symud ymlaen o ran dwyieithrwydd, ond mater o ddemocratiaeth ydyw ac os nad yw'r rhan fwyaf o Aelodau yn cytuno â hynny, byddant yn cytuno â chi.

**Aled Roberts:** I believe that you are today undermining the way in which this country has moved forward as regards bilingualism, but it is a matter of democracy and if the vast majority do not agree with this, then they will agree with you.

**The Deputy Presiding Officer:** Do you wish to proceed to a vote?

**Y Dirprwy Lywydd:** A ydych yn dymuno symud i bleidlais?

**Aled Roberts:** Yes.

**Aled Roberts:** Ydw.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 9 be agreed to. Does any Member object? There is an objection, so we will have an electronic vote.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw bod gwelliant 9 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly byddwn yn cael pleidlais electronig.

*Gwelliant 9: O blaid 6, Ymatal 0, Yn erbyn 48.*
*Amendment 9: For 6, Abstain 0, Against 48.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Gruffydd, Llyr Huws
Parrott, Eluned
Powell, William
Roberts, Aled
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John

Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd gwelliant 9.*
*Amendment 9 not agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** In accordance with the marshalled list, I invite Alun Ffred Jones to move amendment 5 formally in the name of Bethan Jenkins.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli, yr wyf yn gwahodd Alun Ffred Jones i gynnig gwelliant 5 yn ffurfiol yn enw Bethan Jenkins.

**Alun Ffred Jones:** Cynigiaf welliant 5 yn enw Bethan Jenkins.

**Alun Ffred Jones:** I move amendment 5 in the name of Bethan Jenkins.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 5 be agreed to. Does any Member object? There is an objection, so we will have an electronic vote.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw bod gwelliant 5 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly byddwn yn cael pleidlais electronig.

*Gwelliant 5: O blaid 12, Ymatal 0, Yn erbyn 42.*
*Amendment 5: For 12, Abstain 0, Against 42.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Davies, Jocelyn
Gruffydd, Llyr Huws
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Parrott, Eluned
Powell, William
Roberts, Aled
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy

Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Ann
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd gwelliant 5.*
*Amendment 5 not agreed.*

**Grŵp 3: Penodi Swyddog Cyfrifol (Gwelliant 6)**
**Group 3: Appointment of Responsible Officer (Amendment 6)**

**Alun Ffred Jones:** Cynigiaf welliant 6 yn enw Bethan Jenkins.

**Alun Ffred Jones:** I move amendment 6 in the name of Bethan Jenkins.

Rwy'n falch o gael dweud nad oes cost ynghlwm wrth y gwelliant hwn, er credaf y bydd yn gam cadarnhaol o safbwynt gweithredu cynllun iaith y Comisiwn. Nid oes gan y Comisiwn swyddog sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am weithredu polisi'r Cynulliad mewn perthynas â dwyieithrwydd a'r defnydd o'r Gymraeg.

I am pleased to say that there is no cost attached to this amendment, although I think that it will be a positive step in terms of implementing the Commission's language scheme. The Commission currently does not have an official directly responsible for implementing the Assembly's policies in terms of bilingualism and the use of the Welsh language.

Clywsom heddiw lawer gwaith ein bod am weld defnydd ymarferol o'r Gymraeg yn cael ei hybu yn y lle hwn, ac rwyf wedi dweud mai dyna yw fy mhrif gonsyrn i hefyd. Mae diffygion, ond nid oes swyddog penodol sydd â chyfrifoldeb am sicrhau gweithrediad y polisi hwnnw o fewn strwythur y Cynulliad. Rwy'n credu bod hynny'n wendid, a dyna pam mae Bethan wedi cyflwyno'r gwelliant hwn, er mwyn gosod y cyfrifoldeb yn glir ar un swyddog i sicrhau tegwch ac er mwyn i

We have heard many times today that we want to see the practical use of the Welsh language promoted in this place, and I have said that that is my main concern as well. There are deficiencies, but there is no designated official responsible for the implementation of this policy within the structure of the Assembly. I think that that is a weakness, which is why Bethan tabled this amendment, to make it the responsibility of a single official to ensure equity and also so

Aelodau nid yn unig wneud cwyn neu sylw i'r Comisiynwyr, ond fel bod swyddog perthnasol a all ddelio â rhai o'r gwendidau hynny a'u datrys hefyd. Roedd achos gennyf ddoe yr oeddwn yn siarad ag un o'r Comisiynwyr ynglŷn ag ef, ac mi fyddai wedi bod yn ddefnyddiol iawn cael swyddog i fynd ato i ymdrin â'r mater hwnnw.

that Members can not only make a complaint or a comment to Commissioners, but so that a relevant official is in place who can deal with and resolve some of those problems. I was talking about a case yesterday with one of the Commissioners, and it would have been extremely useful to have had an official to approach in order to deal with that issue.

Rydym wedi clywed llawer heddiw gan y Comisiynydd—gan Rhodri—wrth iddo ymateb i'r dadleuon, am y ffaith bod y Comisiwn yn ymwybodol bod angen cymryd camau os ydym yn cyrraedd y nod hwn o ddwyieithrwydd lawn, a bod hon yn rhyw fath o broses yr ydym yn ymwneud â hi. Serch hynny, yn y ddeddfwriaeth heddiw, mae cyfle i ni gymryd un cam bach ymarferol, sef sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn dweud y bydd swyddog yn cael ei benodi a chanddo gyfrifoldeb i weithredu'r cynllun pan ddaw hwnnw i law. Credaf y dylai hynny fod ar wyneb y Bil, ac rwy'n eich annog i'w gefnogi.

We have today heard a great deal from the Commissioner—from Rhodri—in responding to the arguments, that the Commission is aware of the need to take steps if we are to achieve this aim of full bilingualism, and that this is some kind of process that we are involved with. However, in this legislation today, there is an opportunity for us to take one small practical step, to ensure that the legislation states that an official will be appointed to be responsible for implementing the scheme, when that is brought before us. I believe that that should be on the face of the Bill, and I urge you to support it.

3.45 p.m.

**Suzy Davies:** Cwestiwn bach sydd gennyf, mewn ffordd. Bydd y Comisiwn yn atebol i'r Cynulliad os bydd yn methu â chydymffurfio a'r cynllun, felly nid oes angen creu swydd newydd, a haen o fiwrocratiaeth i'w chefnogi. Fodd bynnag, os mai'r bwriad yw rhoi'r cyfrifoldeb penodol hwn i swyddog cyfredol, rwy'n siŵr y gallem ystyried cefnogi'r gwelliant. A allaf ofyn am eglurhad, os gwelwch yn dda?

**Suzy Davies:** It is just a brief question, in a way. The Commission is to be accountable to the Assembly if it fails to comply with the scheme, so it is not necessary to create a new post and a tier of bureaucracy to support that position. However, if the intention is to give this specific responsibility to an existing official, I am sure that we could consider supporting the amendment. May I ask for an explanation, please?

**Rhodri Glyn Thomas:** Rwy'n cydymdeimlo yn fawr â chynnwys y gwelliant hwn sydd wedi'i gyflwyno yn enw Bethan Jenkins. Rwy'n credu bod Alun Ffred Jones wedi amlinellu'n glir pam fod angen swyddog o'r fath. Mae'n bosibl y bydd cost yn gysylltiedig â hyn, ac mae'n bosibl y bydd angen penodi rhywun o'r newydd, ond gellir edrych ar yr opsiwn o osod y cyfrifoldeb ar aelod presennol o'r staff hefyd. Yr unig beth y byddwn yn ei ddweud yw mai nid ar wyneb y Bil mae gosod gofynion fel hyn; dylai fod yn y cynllun. Efallai y gallaf ddweud wrth Alun Ffred Jones mai fi yw'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am arwain ar y materion hyn yng nghyd-destun cynnwys y cynllun hefyd, ac fel rwyf wedi dweud, mae fy

**Rhodri Glyn Thomas:** I sympathise with the content of this amendment tabled in the name of Bethan Jenkins. I think that Alun Ffred Jones has outlined clearly why such an official is required. There may be a cost attached to this, and perhaps it might be necessary to make a new appointment, but the option of giving the responsibility to a current member of staff could also be considered. The only thing that I would say is that the face of the Bill is not the place for this; it should be included in the scheme. Perhaps I could just tell Alun Ffred Jones that I am the Commissioner responsible for leading on these issues in the context of the scheme as well, and as I have said, I sympathise fully with this amendment.

nghydymdeimlad i'n llwyr â gofynion y gwelliant hwn. Ond, rwy'n annog Aelodau i beidio â gosod mwy o wybodaeth ar wyneb y Bil, ond i'w adael ar gyfer y cynllun. Chi, fel Aelodau, fydd yn penderfynu ar gynnwys y cynllun hwnnw hefyd.

However, I urge Members not to place more information on the face of the Bill, but to leave this for the scheme. It will be you, as Members, who will decide upon the content of that scheme as well.

**Alun Ffred Jones:** O safbwynt cwestiwn Suzy Davies, wrth gwrs y gellid gosod y cyfrifoldeb hwn ar swyddog cyfredol neu o fewn y strwythur. Nid wyf yn sôn am benodi rhywun o'r tu allan. Tra'n derbyn bod gan Rhodri gyfrifoldeb penodol fel Comisiynydd mewn perthynas â'r Gymraeg, yr hyn rwy'n sôn amdano yw swyddog o fewn y peiriant sy'n gallu ymateb i ddifygion neu gŵynion neu sylwadau ynglŷn â gweithrediad y drefn. Mae gan Rhodri lawer o gyfrifoldebau eraill—mae'n ddyn prysur iawn—felly rwy'n credu y byddai'n fuddiol cael swyddog. Nid wyf yn gweld dim byd o'i le ar osod y gofyniad hwnnw ar wyneb y Bil.

**Alun Ffred Jones:** In respect of Suzy Davies's question, this responsibility could indeed be placed on an existing official or within the structure. I am not talking about making an external appointment. While I accept that Rhodri has a specific responsibility as a Commissioner for the Welsh language, I am talking about an officer within the system, who can respond to complaints or comments about the implementation of the scheme. Rhodri has many other responsibilities—he is a very busy man—and I think that it would be beneficial to have an official. I do not see anything wrong with placing that on the face of the Bill.

**The Deputy Presiding Officer:** Do you wish to proceed to a vote on amendment 6?

**Y Dirprwy Lywydd:** A ydych yn dymuno symud i bleidlais ar welliant 6?

**Alun Ffred Jones:** Yes.

**Alun Ffred Jones:** Ydw.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 6 be agreed to. Does any Member object? I see that there is objection. Therefore, I call for a vote.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw bod gwelliant 6 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, galwaf am bleidlais.

*Gwelliant 6: O blaid 22, Ymatal 0, Yn erbyn 32.*
*Amendment 6: For 22, Abstain 0, Against 32.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann

| | |
|---|---|
| Thomas, Simon<br>Whittle, Lindsay<br>Wood, Leanne | Lewis, Huw<br>Mewies, Sandy<br>Morgan, Julie<br>Neagle, Lynne<br>Price, Gwyn R.<br>Rathbone, Jenny<br>Rees, David<br>Sargeant, Carl<br>Skates, Kenneth<br>Thomas, Gwenda<br>Thomas, Rhodri Glyn<br>Watson, Joyce<br>Williams, Kirsty |

*Gwrthodwyd gwelliant 6.*
*Amendment 6 not agreed.*

**Grŵp 4: Ystyr y Ddarpariaeth (Gwelliant 2)**
**Group 4: Meaning of Provision (Amendment 2)**

**The Deputy Presiding Officer:** The lead and only amendment in this group is amendment 2 and I call on Suzy Davies to move and speak to the amendment.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y prif welliant a'r unig welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 2 a galwaf ar Suzy Davies i gynnig a siarad am y gwelliant.

**Suzy Davies:** Cynigiaf welliant 2 yn fy enw i.

**Suzy Davies:** I move amendment 2 in my name.

Rwyf wedi cyflwyno'r gwelliant hwn i roi'r geiriau '*provision about*' yn lle'r geiriau '*provision for*', gan fod modd dehongli'r gair '*for*' mewn sawl ffordd. Gall hynny fod yn broblematig. A ydym am i eiriad y Bil hwn gael ei brofi mewn llys barn? Mae'r broblem hon o ddehongli yn codi yn y ddwy iaith swyddogol, mae'n debyg. Nid ydym yn gallu edrych ar y geiriau Cymraeg, er enghraifft, am eglurhad.Gellir dehongli'r gair '*for*' yn rhagnodol iawn, gan nodi bod rhaid cael dehongliad cydamserol o un iaith swyddogol i'r llall yn holl drafodion y Cynulliad, er enghraifft, o dan is-adran (5)(a). I'r rhai sydd o'r farn bod y gair '*about*' yn rhoi gormod o ryddid, hoffwn atgoffa Aelodau mai ni sy'n dilysu'r cynllun, ac os yw'r cynllun yn aneglur neu'n cymryd pethau'n ganiataol, byddem yn ei wrthod, wrth gwrs.

I have tabled this amendment in order to include the words 'provision about' rather than 'provision for', because the word 'for' could be interpreted in a number of different ways. That could be problematic. Do we really want the wording of this Bill to be tested in the courts? It appears that the problem arises in both official languages. We cannot look at the Welsh wording, for example, for clarity on the issue. The word 'for' could be interpreted very prescriptively, noting that there must be a simultaneous interpretation from one language to another in all Assembly proceedings, for example, under sub-section (5)(a). For those of the opinion that the word 'about' provides too much leeway, I would like to remind Members that we have to validate the scheme and if it is not clear or takes certain things for granted we would reject it, of course.

**Rhodri Glyn Thomas:** Rydym wedi edrych ar y geiriad hwn, ac rwy'n derbyn bod y geiriad yn gwneud y cyd-destun yn fwy eglur, felly nid oes gan y Comisiwn wrthwynebiad i'r gwelliant hwn.

**Rhodri Glyn Thomas:** We have looked at this wording and I accept that the wording makes the context clearer, so the Commission has no objection to this amendment.

**The Deputy Presiding Officer:** Suzy Davies, do you wish to reply?

**Y Dirprwy Lywydd:** Suzy Davies, a ydych am ymateb?

**Suzy Davies:** Hoffwn ddweud diolch, os nad oes unrhyw un arall am gyfrannu.

**Suzy Davies:** I would like to say thank you, if no-one else wishes to contribute.

**The Deputy Presiding Officer:** Do you wish to proceed to a vote? I see that you do. The question is that amendment 2 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, amendment 2 is therefore agreed.

**Y Dirprwy Lywydd:** A ydych yn dymuno symud i bleidlais? Gwelaf eich bod. Y cwestiwn yw bod gwelliant 2 yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, mae gwelliant 2 felly yn cael ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 2.*
*Amendment 2 agreed.*

**Grŵp 5: Darpariaethau y mae'n Rhaid eu Cynnwys yn y Cynllun (Gwelliannau 10, 11 a 12)**
**Group 5: Provisions that Must be Included in the Scheme (Amendments 10, 11 and 12)**

**The Deputy Presiding Officer:** The lead amendment in this group is amendment 10. I call on Aled Roberts to move amendment 10 and speak to the other amendments in the group.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 10. Rwy'n galw ar Aled Roberts i gynnig gwelliant 10 a siarad am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

**Aled Roberts:** Cynigiaf welliant 10 yn fy enw i.

**Aled Roberts:** I move amendment 10 in my name.

Mae'r gwelliannau hyn wedi cael eu trafod yn fanwl gyda'r Comisiwn, ac rwy'n falch ein bod wedi cytuno ar eiriad sy'n dderbyniol i'r naill a'r llall. Mae'r geiriad hwn yn llwyddo i gysoni'r safonau sy'n ofynnol o ran staff a swyddogaethau'r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad, a rhyddid grwpiau ac unigolion, megis grwpiau trawsbleidiol a staff cymorth. Mae bwriad y Bil yn glir—rhaid cael rhyddid i ddefnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall wrth ymwneud â'r Cynulliad. Rwy'n annog pawb yma i gefnogi'r gwelliannau, gan y byddai gwanhau'r hawl mewn unrhyw ffordd gennym, trwy beidio â thrin y ddwy iaith yn gyfartal, hefyd yn gwanhau dilysrwydd y Bil hwn.

These amendments have been discussed in detail with the Commission, and I am pleased that we have agreed a wording that is mutually acceptable. This wording succeeds in making consistent the standards relating to the staff and functions of the Assembly and the Assembly Commission, and the freedom of groups and individuals, such as cross-party groups and support staff. The intention in the Bill is clear—there must be freedom to use either language in any involvement with the Assembly. I urge everybody to support these amendments because weakening that entitlement by not treating both languages equally would also weaken the validity of this Bill.

**Suzy Davies:** Os yw'r gwelliant hwn yn cael ei basio—sut mae dweud hyn? Rydym am gefnogi'r gwelliannau hyn, felly nid oes llawer mwy imi ddweud ar hyn o bryd.

**Suzy Davies:** If this amendment is carried—how can I say this? We are going to support the amendment, so there is not much that I need to add at this point.

**The Deputy Presiding Officer:** I call on the Commissioner to reply.

**Y Dirprwy Lywydd:** Galwaf ar y Comisiynydd i ymateb.

**Rhodri Glyn Thomas:** Gall y Comisiwn dderbyn gwelliannau 10, 11 a 12. Y peth

**Rhodri Glyn Thomas:** The Commission can accept amendments 10, 11 and 12. The

pwysig, o ran gwelliant 12, er ein bod wedi cael trafodaeth y prynhawn yma ynglŷn â sut yn union mae sefydlu dwy iaith yn gyfartal yn y sefydliad hwn, a sut y gallwn roi cyfle llawn i Aelodau ddewis pa iaith i'w defnyddio ac i staff ddewis pa iaith i'w defnyddio, ac i'r cyhoedd allu defnyddio iaith o'u dewis, yw y gallaf ddweud wrthych, o ran polisi dwyieithog y Cynulliad, nad oes neb sy'n cysylltu â'r fan hon yn y Gymraeg yn cael ateb mewn unrhyw iaith arall. Nid yw hynny'n wir am bawb arall—nid yw hyd yn oed yn wir am bawb sy'n rhannu'r adeilad hwn gyda ni. Ond, mae'n wir am bolisi dwyieithog Comisiwn y Cynulliad. Felly, mater o benderfynu sut yr ydym am sefydlu'r ddwy iaith yn gyfartal yw hyn. Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn unedig y dylai'r cyfle hwnnw fod yn llawn i bob un sydd naill ai'n gweithio yn y sefydliad hwn neu'n ymwneud ag ef. Rydym yn hapus bod gwelliannau 10, 11 a 12 yn cryfhau'r datganiad hwnnw sydd eisoes yn y Bil.

important thing, as regards amendment 12, although we have had a discussion here this afternoon on exactly how two languages will be established on an equal footing in this institution, and on how we can give Members the full opportunity to choose which language to use, as well as staff and the public, is that I can tell you, from the point of view of the Assembly's bilingual policy, that no-one who contacts this place through the medium of Welsh receives a reply in any language other than Welsh. That is not true of everybody else—in fact, it is not true of everbody who shares this building with us. However, it is true of the Assembly Commission. Therefore, it is a matter of deciding how we will establish equality for both languages. I am sure that we are all united in thinking that that opportunity should be fully available for everyone who works here or is associated with this institution. We are happy that amendments 10, 11 and 12 strengthen the statement that is already included in the Bill.

**The Deputy Presiding Officer:** Do you wish to reply, Aled?

**Y Dirprwy Lywydd:** A ydych yn dymuno ateb, Aled?

**Aled Roberts:** Hoffwn ddiolch i'r Comisiynydd, ac i staff y Comisiwn, am y drafodaeth adeiladol a gawsom.

**Aled Roberts:** I would like to thank the Commissioner, and Commission staff, for the constructive debate that we have had.

**The Deputy Presiding Officer:** Do you wish to move to a vote? I see that you do. The question is that amendment 10 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, amendment 10 is therefore agreed.

**Y Dirprwy Lywydd:** A ydych yn dymuno symud i bleidlais? Gwelaf eich bod. Y cwestiwn yw bod gwelliant 10 yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, caiff gwelliant 10 felly ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 10.*
*Amendment 10 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** I invite Aled Roberts to move amendment 11.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gwahoddaf Aled Roberts i gynnig gwelliant 11.

**Aled Roberts:** Cynigiaf welliant 11 yn fy enw i.

**Aled Roberts:** I move amendment 11 in my name.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 11 be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, amendment 11 is therefore agreed.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw bod gwelliant 11 yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, caiff gwelliant 11 felly ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 11.*
*Amendment 11 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** I invite Aled Roberts to move amendment 12.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gwahoddaf Aled Roberts i gynnig gwelliant 12.

**Aled Roberts:** Cynigiaf welliant 12 yn fy enw i.

**Aled Roberts:** I move amendment 12 in my name.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 12 be agreed to. Are there any objections? I see that several Members object, so we will move to a vote.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw bod gwelliant 12 yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod sawl Aelod yn gwrthwynebu, felly byddwn yn symud i bleidlais.

*Gwelliant 12: O blaid 43, Ymatal 0, Yn erbyn 11.*
*Amendment 12: For 43, Abstain 0, Against 11.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Burns, Angela
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick

*Derbyniwyd gwelliant 12.*
*Amendment 12 agreed.*

**Grŵp 6: Gwasanaethau a Ddarperir o dan y Cynllun (Gwelliannau 7 ac 8)**
**Group 6: Services Provided under the Scheme (Amendments 7 and 8)**

**The Deputy Presiding Officer:** The lead amendment in this group is amendment 7. I call on Alun Ffred Jones to move amendment 7 in the name of Bethan Jenkins and to speak to the other amendments in the group.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 7. Galwaf ar Alun Ffred Jones i gynnig gwelliant 7 yn enw Bethan Jenkins ac i siarad am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

**Alun Ffred Jones:** Cynigiaf welliant 7 yn enw Bethan Jenkins.

**Alun Ffred Jones:** I move amendment 7 in the name of Bethan Jenkins.

Rwy'n falch o'r cyfle i gael cymryd rhan yn y drafodaeth hon heddiw. Mae'r ddau welliant yn ymwneud â sicrhau'r cynnydd mwyaf posibl i ni sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sefydliad hwn a hefyd i sicrhau gwasanaethau i bawb sy'n ymwneud â'r sefydliad hwn.

I am pleased to take part in this debate today. Both of these amendments deal with ensuring that we achieve the greatest progress possible for those of us working through the medium of Welsh in this place and also secure services for everyone engaging with this institution.

Mae gwelliant 7 yn ymwneud â'r cynllun. Mae'n sicrhau bod y cynllun yn amlinellu'r union wasanaethau a fydd yn cael eu darparu, yn unol ag ysbryd y ddeddfwriaeth hon a chan sicrhau cydraddoldeb i'r ddwy iaith. Mae gwelliant 8 yn sicrhau y bydd adroddiad y Comisiwn ar y cynllun yn nodi'n fanwl i ba raddau mae'r gwasanaethau dwyieithog wedi cyrraedd y nod, neu, os ydynt wedi methu, pam fod hynny wedi digwydd. Felly, sicrheir bod eglurder ynghylch yr union wasanaethau sydd ar gael a hefyd bod y broses o adolygu a monitro'r cynllun yn cael ei gwneud yn eglur yn yr adroddiad. Maent yn welliannau digon syml, gyda'r bwriad o ddod ag eglurder i'r sefyllfa er mwyn i Aelodau allu mesur llwyddiant neu beidio'r cynllun.

Amendment 7 deals with the scheme. It ensures that the scheme outlines the exact services that are to be provided in accordance with the spirit of this Bill and ensuring equality for both languages. Amendment 8 ensures that the Commission's report on the scheme notes in detail to what degree the services have reached their target, or, if they have failed, why that has occurred. Therefore, it secures clarity on the exact services available and that the process of reviewing and monitoring the scheme is made clear in the report. They are relatively simple amendments, aimed at bringing clarity to the situation so that Members can assess the success or otherwise of the scheme.

**Rhodri Glyn Thomas:** Dywedodd Alun Ffred Jones bod y rhain yn welliannau syml, ond credaf eu bod yn welliannau eithriadol o bwysig, oherwydd maent yn golygu bod yn rhaid i'r Comisiwn esbonio'n union beth a wneir o ran cyfieithu—pam rydym yn ei wneud a pham nad ydym yn ei wneud ar adegau. Rhoddir y cyfrifoldeb arnom i esbonio hynny i chi fel Aelodau, ac i fod yn atebol i chi fel Aelodau a hefyd i'r cyhoedd o ran yr hyn rydym yn ei wneud. Bydd hyn yn ffordd inni fesur cynnydd yn ein darpariaeth ar gyfer Aelodau a staff yn y sefydliad hwn.

**Rhodri Glyn Thomas:** Alun Ffred Jones said that these were simple amendments, but I believe that they are exceptionally important amendments, because they mean that the Commission has to explain exactly what is done with regard to translation—why we are doing it or why we sometimes do not do it. It places the responsibility upon us to explain that to you as Members and also to the public in terms of what we do. It will be a way for us to measure the progress that we are making for Members and staff in this institution. Therefore, the Commission is

Felly, mae'r Comisiwn yn gwbl gefnogol i'r gwelliannau hyn ac yn hapus iddynt gael eu derbyn.

totally supportive of these amendments and happy for them to be accepted.

**The Deputy Presiding Officer:** Do you wish to proceed to a vote on amendment 7?

**Y Dirprwy Lywydd:** A ydych yn dymuno symud i bleidlais ar welliant 7?

**Alun Ffred Jones:** Ydw.

**Alun Ffred Jones:** Yes.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 7 be agreed to. Are there any objections? There is no objection, therefore amendment 7 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw bod gwelliant 7 yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Nid oes gwrthwynebiad, felly caiff gwelliant 7 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 7.*
*Amendment 7 agreed*

**The Deputy Presiding Officer:** I call on Alun Ffred Jones to move amendment 8.

**Y Dirprwy Lywydd:** Galwaf ar Alun Ffred Jones i gynnig gwelliant 8.

**Alun Ffred Jones:** Cynigiaf welliant 8 yn enw Bethan Jenkins.

**Alun Ffred Jones:** I move amendment 8 in the name of Bethan Jenkins.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 8 be agreed to. Are there any objections? There is no objection, therefore amendment 8 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw bod gwelliant 8 yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Nid oes gwrthwynebiad, felly caiff gwelliant 8 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 8.*
*Amendment 8 agreed.*

**Grŵp 7: Ymgynghori ar y Cynllun (Gwelliannau 3 a 4)**
**Group 7: Consultation on the Scheme (Amendments 3 and 4)**

**The Deputy Presiding Officer:** The lead amendment in this group is amendment 3. I call on Suzy Davies to move amendment 3 and to speak to the other amendments in the group.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 3. Rwy'n galw ar Suzy Davies i gynnig gwelliant 3 ac i siarad am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

**Suzy Davies:** Cynigiaf welliant 3 sydd wedi'i gyflwyno yn fy enw.

**Suzy Davies:** I move amendment 3 in my name.

O dan adran 2(8)(b), gall y Comisiwn fabwysiadu gwelliant i'w gynllun unrhyw bryd, ac mae adran 2(9) yn awgrymu proses gymharol hir, sy'n cynnwys ceisio barn y cyhoedd. Ar y cyfan, mae hynny'n dderbyniol, ond gallaf ragweld achlysuron pan na fyddai proses o'r fath yn addas ar gyfer gwelliant cymharol ddibwys—er enghraifft, rhoi estyniad o wythnos i

Under section 2(8)(b), the Commission can adopt an amendment to its scheme at any time, and section 2(9) suggests a relatively lengthy process that includes seeking the views of the public. On the whole, that is acceptable, but I can anticipate occasions where such a process would not be appropriate for a relatively minor amendment—for example, giving an

ddyddiad terfyn neu gynnwys ymgynghorai newydd mewn proses.

extension of one week for a deadline or including a new consultee in a process.

Mae gwelliannau 3 a 4 yn diogelu tryloywder ac ymgynghoriad ac yn caniatáu i newidiadau bach gael eu cyflwyno'n gynt. Os bydd y Comisiwn yn mynd yn rhy bell wrth benderfynu beth yw ystyr newid bach, yna gall Aelodau wrthdroi ei benderfyniad.

Amendments 3 and 4 safeguard transparency and consultation and allow minor changes to be introduced more swiftly. If the Commission goes too far in deciding what a minor amendment constitutes, Members can overturn that decision.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae'r ymrwymiad i ymgynghori eisoes yn y Bil, ond rwy'n derbyn hwyrach bod hyn yn gosod y gofyniad hwnnw yn fwy eglur ac yn fwy cadarn, ac rwy'n hapus iawn i dderbyn y gwelliannau ac i annog Aelodau hefyd i'w derbyn.

**Rhodri Glyn Thomas:** The commitment to consult is already contained within the Bill, but I accept that perhaps this clarifies that requirement and makes it firmer, and I am very happy to accept the amendments and to urge Members to also accept them.

4.00 p.m.

**The Deputy Presiding Officer:** Suzy Davies is due to reply.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae Suzy Davies i fod ateb.

**Suzy Davies:** Nid oes unrhyw beth arall i'w ychwanegu, diolch, Ddirprwy Lywydd.

**Suzy Davies:** There is nothing else to add, thank you, Deputy Presiding Officer.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 3 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Therefore, amendment 3 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw bod gwelliant 3 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 3 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 3.*
*Amendment 3 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** Do you wish to move amendment 4?

**Y Dirprwy Lywydd:** A ydych yn dymuno cynnig gwelliant 4?

**Suzy Davies:** I move amendment 4 in my name.

**Suzy Davies:** Cynigiaf welliant 4 yn fy enw i.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 4 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Therefore, amendment 4 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw bod gwelliant 4 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 4 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 4.*
*Amendment 4 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** We have reached the end of our Stage 3 consideration of the National Assembly for Wales (Official Languages) Bill. I declare that all sections of

**Y Dirprwy Lywydd:** Rydym wedi cyrraedd diwedd Cyfnod 3 o'n hystyriaeth o Fil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol). Rwyf yn datgan bod pob adran

and Schedules to the Bill are deemed agreed. That concludes Stage 3 proceedings.

ac Atodlen i'r Bil wedi ei dderbyn. Dyna ddiwedd trafodion Cyfnod 3.

**Cynnig Cyfnod 4 i Gymeradwyo Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) o dan Reol Sefydlog Rhif 26.47**
**Stage 4 Standing Order No. 26.47 Motion to Approve the National Assembly for Wales (Official Languages) Bill**

*Cynnig*

*Motion*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 26.47 yn cymeradwyo Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol).*

*The National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 26.47, approves the National Assembly for Wales (Official Languages) Bill.*

**Comisynydd y Cynulliad (Rhodri Glyn Thomas):** Cynigiaf y cynnig.

**Assembly Commissioner (Rhodri Glyn Thomas):** I move the motion.

Bu'n fraint ac yn anrhydedd mawr i gael llywio'r trafodaethau hyn ar y Bil ar ran y Comisiwn. Diolchaf yn fawr iawn i Aelodau am eu cefnogaeth ac am y ffordd adeiladol y mae Aelodau wedi mynd ati i geisio cryfhau'r Bil hwn, a'r nod yr ydym i gyd yn ymgyrraedd tuag ati o sefydlu'r ddwy iaith yn gyfartal yn y Cynulliad Cenedlaethol.

It has been a privilege and a great honour to have been able to steer these discussions on the Bill on behalf of the Commission. I warmly thank Members for their support and for the constructive manner in which Members have endeavoured to strengthen this Bill, and the aim that we are all aiming for of establishing both languages on an equal footing in the National Assembly.

Craidd penderfyniad y Comisiwn i ddod â'r Bil hwn ymlaen oedd yr angen i ni, fel deddfwrfa gyflawn, aeddfed, gymryd meddiant dros ein darpariaeth fewnol ar gyfer yr iaith Gymraeg. Mae darpariaeth statudol ar gyfer y Gymraeg bellach wedi symud ymlaen. Er mor werthfawr oedd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi creu fframwaith newydd erbyn hyn. Yn gyson ag egwyddorion cyfansoddiadol, nid ydym ni, fel deddfwrfa, yn dod o dan ddarpariaethau'r Mesur. Mae hynny wedi gadael bwlch. Mae'n ddyletswydd arnom, fel corff, i lenwi'r bwlch hwnnw trwy sicrhau rheolau cadarn, o dan oruchwyliaeth Aelodau'r Cynulliad, i amddiffyn hawliau'r rhai sydd am ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

The main purpose of the Commission in bringing this Bill forward was the need for us, as a full and mature legislature, to take ownership of our in-house provision for the Welsh language. The statutory provision for the Welsh language has now moved forward. However valuable the Welsh Language Act 1993 was, the Welsh Language (Wales) Measure 2011 has created a new framework. In accordance with constitutional principles, we, as a legislature, do not come under the provisions of that Measure. Therefore, there is a gap. It is our duty, as a body, to fill that gap by putting in place firm rules, under the supervision of Assembly Members, to protect the rights of those who wish to use the Welsh language.

Mae gennym yng Nghymru ddwy brif gymuned ieithyddol. Er mai gwarchod hawliau'r gymuned leiafrifol yw effaith ymarferol y Bil, nid yw hynny, mewn unrhyw ffordd, yn golygu tresmasu ar hawliau'r mwyafrif. Cred y Comisiwn yw ei bod hi'n bosibl i'r ddwy iaith, y Gymraeg a'r

We have to main linguistic communities in Wales. Although the practical effect of the Bill is to protect the rights of the minority community, that does not mean trespassing, in any way, on the rights of the majority. The Commission believes that it is possible for both the Welsh and English languages to live

Saesneg, fyw a ffynnu ochr yn ochr. Dyna yw uchelgais y Comisiwn ar gyfer y Cynulliad, sef gweld sefydliad gwirioneddol ddwyieithog.

and flourish side by side. That is the ambition of the Commission for the Assembly, for it to be a truly bilingual institution.

Mae'n deg nodi, ac yn gyfrifoldeb nodi, bod rhai wedi codi cwestiynau ynglŷn â'n gallu cyfreithiol i fynegi yn y Bil, mewn ffordd glir a dealladwy, y ffaith bod ein dwy iaith yn gyfartal, a bod gennym, y tu mewn i'r Cynulliad, ddwy iaith swyddogol. Mae'r Comisiwn yn ffyddiog nad oes unrhyw rwystr cyfreithiol i hynny. Rwy'n ddiolchgar i'r Dirprwy Lywydd am edrych ar y mater hwn yn fanwl er mwyn sicrhau ein bod ar dir cadarn.

It is fair to note, and it is my responsibility to note, that some people have raised questions about our legal competence to express in the Bill, in a clear and intelligible manner, the fact that our two languages are equal, and that we, within the Assembly, have two official languages. The Commission is confident that there is no legal impediment to that. I am grateful to the Deputy Presiding Officer for looking into this matter in detail in order to ensure that we are on terra firma.

Nid wyf yn credu y byddai unrhyw un sydd wedi ystyried y mater yn ofalus ac yn synhwyrol yn gwarafun i'n Cynulliad Cenedlaethol yr hawl i wneud y datganiad hwnnw—datganiad nad ydyw, mewn unrhyw ffordd, yn tanseilio statws y naill iaith na'r llall.

I do not believe that anyone who has considered the matter carefully and sensibly would begrudge the National Assembly the right to make that statement—a statement that does not undermine, in any way, the status of either language.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygiad y Bil unigryw hwn yn ystod ei daith trwy'r Senedd. Rwy'n arbennig o ddiolchgar i Gadeirydd ag aelodaeth y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol am eu gwaith craffu gofalus a phroffesiynol yn ystod Cyfnod 2. Rwy'n dra diolchgar i'r Cadeirydd, Ann Jones, am ei chefnogaeth bob amser i'r hyn yr oedd y Comisiwn yn ceisio ei gyflawni.

I thank everyone who has contributed to the development of this unique Bill during its journey through the Senedd. I am particularly grateful to the Chair and the membership of the Communities, Equality and Local Government Committee for their careful and professional scrutiny during Stage 2. I am very grateful to the Chair, Ann Jones, for her constant support for that which the Commission was trying to achieve.

Diolch hefyd i'r rhanddeiliaid perthnasol ac i'r unigolion a gyfrannodd at y broses graffu, gan gynnwys y rhai a fynychodd y cyfarfodydd cyhoeddus a drefnwyd gennym ni'r Comisiwn flwyddyn yn ôl. Diolch hefyd i'm cyd-Gomisiynwyr am eu hystyriaeth drylwyr o'r Bil a'u cefnogaeth ddidwyll i'w amcanion, ac am eu help yn llunio gweledigaeth gyffrous ar gyfer ein gwasanaethau dwyieithog yn fwy cyffredinol.

I also thank the relevant stakeholders and individuals who contributed to the scrutiny process, including those who attended the public meetings that the Commission arranged a year ago. I also thank my fellow Commissioners for their thorough consideration of the Bill, their sincere support for its aims, and their help in constructing an exciting vision for our bilingual services more generally.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r swyddogion sydd wedi gweithio yn galed iawn er mwyn sicrhau bod holl gynnwys y Bil wedi ei wneud mewn ffordd broffesiynol a'i fod yn gwbl gadarn. Mae'n bwysig, wrth inni geisio creu deddfwriaeth yn y fan hon, ein bod yn gwbl glir ynglŷn â beth sydd angen ei gynnwys mewn deddfwriaeth. Hwyrach, wrth

I would also like to thank the officials who have been working very hard in order to ensure that the whole content of the Bill has been delivered in a professional manner and that it is completely robust. It is important, when creating legislation here, that we are completely clear about what needs to be included within that legislation. Perhaps, in

inni ystyried rhai o'r trafodaethau a gawsom ar ddechrau Cyfnod 3, mai'r egwyddor a ddylai bod yn ein meddyliau yw'r hyn sy'n angenrheidiol i wneud deddfwriaeth dda, ac nid bob amser ceisio cynnwys popeth er mwyn cadw pawb yn hapus.

considering some of the discussions that we had at the start of Stage 3, the principle that should remain in our minds is what is essential to make good legislation, and not always try to include everything in order to keep everyone happy.

Gan fy mod yn cyfeirio at swyddogion, gwnaf eithriad—gan nad ydym fel rheol yn cyfeirio at swyddogion—oherwydd mae Keith Bush, prif gyfreithiwr Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn gadael ei swydd. Rwy'n dra diolchgar iddo am y gwaith y mae wedi ei wneud ar y Bil hwn, ond rwy'n credu bod gan holl Aelodau'r Cynulliad ddyled mawr iawn i Keith am y gwaith mawr y mae wedi ei wneud o ran sefydlu'r lle hwn fel deddfwrfa sy'n gwneud ei gwaith yn broffesiynol.

As I am referring to officials, I am going to make an exception—because we do not usually refer to officials—but Keith Bush, the National Assembly for Wales's chief legal adviser is leaving his post. I am exceptionally grateful to him for the work that he has done on this Bill, but I am sure that all Assembly Members are greatly indebted to Keith for the huge amount of work that he has done in establishing this place as a legislature that carries out its work professionally.

Wrth sôn am y daith o ran y Bil hwn, nid yw'r daith ar ben; mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen. Fel yr awgrymais, bydd y Comisiwn yn ystyried cynnwys ei gynllun ieithoedd swyddogol dros y misoedd nesaf gyda'r nod o'i osod ar gyfer ystyriaeth y Cynulliad yn y flwyddyn newydd. Mae'n arwyddocaol, o ran y bleidlais a gawsom, ein bod wedi pleidleisio mewn ffordd gref iawn dros yr egwyddor o'r ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal. Rwy'n mawr obeithio bod honno bellach yn egwyddor sy'n cael ei derbyn gan bawb yn y lle hwn ac y gallwn symud ymlaen gyda'n gilydd i'w wireddu. Mae'r Comisiwn wedi gwrando ar y sylwadau a wnaethpwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi gweithredu hyd eithaf ei allu er lles y Gymraeg, ac yn ymfalchïo yn yr esiampl y mae'r Bil yn ei osod i Gymru. Gofynnaf, felly, i Aelodau i gefnogi'r Bil hwn yng Nghyfnod 4.

In talking about this Bill's journey, that journey is not at an end; the work continues. As I suggested, the Commission will be considering the content of its official languages scheme over the next few months with the aim of presenting it for the attention of the Assembly in the new year. It is significant, in relation to the vote that we had, that we voted in very strongly for the principle of both languages being treated equally. I very much hope that that is now a principle that is accepted by everybody in this place and that we can proceed together to realise that. The Commission has listened to the comments that have been made over the last year, has worked to its utmost on behalf of the Welsh language, and takes pride in the example that the Bill sets for the rest of Wales. Therefore, I ask Members to support this Bill at Stage 4.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Nid wyf hyd yn oed yn cofio ar ba ddiwrnod yr oeddwn yn eistedd yn y fan honno yn cynnig y drafft gwreiddiol yn y Cynulliad blaenorol. Fodd bynnag, rwy'n falch i weld y broses hon yn dod i ben ac rwy'n diolch yn fawr i fy nghyd-Aelodau i gyd am y drafodaeth ac am gefnogi'r hyn y byddwn yn ei alw yn ddwyieithrwydd egwyddorol ond rhesymol ymarferol. Mae'r geiriau hynny yn mynd â mi yn ôl at ddyddiau'r hen Ddeddf Iaith Gymraeg 1993: rhesymol ac ymarferol o dan yr amgylchiadau, heb gost ormodol. Mae'r geiriau hynny wedi eu hargraffu ar fy

**Lord Elis-Thomas:** I do not even recall on what day I was sitting there proposing the original draft in the previous Assembly. However, I am pleased to see this process being concluded and I am very grateful to all my fellow Members for the debate and for supporting what I would call principled but reasonably practicable bilingualism. Those words take me back to the days of the old Welsh Language Act 1993: reasonably practicable in the circumstances, without excessive costs. Those words are imprinted on my brain, and that is why I took the stance that I took in supporting my colleague and

ymennydd, a dyna sy'n peri fy mod wedi cymryd y safbwynt hwn i gefnogi fy nghyfaill a chefnogi'r Comisiwn yma heddiw.

supporting the Commission here today.

Rwy'n diolch yn arbennig i Rhodri Glyn am gyfeirio at Keith Bush. Rwyf am eilio hynny, os caf i, a dweud cymaint y mae'n briodol inni ddiolch iddo ac i'r cyfreithwyr eraill sy'n gweithio i ni, oherwydd er waethaf—well i mi beidio â sôn am 'gŵn bach sy'n cyfarth'; ymadrodd metafforaidd yw hwnnw, wrth gwrs—pobl sy'n herio ein hawl i ddeddfu mewn rhai meysydd, mae gallu deddfu yn effeithlon, yn deg, yn safadwy, yn ddiogel ac yn gyfreithiol yn hanfodol i unrhyw ddeddfwrfa. Er, ar un ystyr, Bil bach yw hwn, mae gallu sefyll ar ein traed a dweud yma heddiw bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru gan ei bod yn iaith swyddogol yn ei Chynulliad Cenedlaethol yn foment hanesyddol arall i ni ar ein llwybr i ragor o ddatganoli.

I particularly want to thank Rhodri Glyn for referring to Keith Bush. I wish to second his comments, if I may, and say how appropriate it is for us to thank him and the other lawyers who work for us, because despite—I had better not mention 'yapping dogs'; that is a metaphorical expression, of course—those who are challenging our right to legislate in some fields, the ability to legislate effectively, fairly, in a stable way, safely and legally is crucial for any legislature. Although, in one sense, this is a minor Bill, being able to stand here today and say that Welsh is an official language in Wales because it is an official language in its National Assembly is another historic moment for us on our path towards further devolution.

**Rhodri Glyn Thomas:** Unwaith yn rhagor, hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth. Gwn fod y trafodaethau hyn weithiau yn gallu bod yn anodd a'n bod yn gorfod gwneud penderfyniadau ymarferol sydd weithiau yn rhai anodd. Fodd bynnag, rwy'n credu ein bod wedi gallu trafod y materion hynny a chytuno ar yr egwyddor o ddwy iaith yn bodoli yn gyfartal. Rwyf yn argyhoeddedig bod y sefydliad hwn yn cynnig arweiniad i Gymru gyfan ar y mater hwn, ac rwy'n falch o'r hyn rydym wedi llwyddo i'w gyflawni o ran y ddwy iaith yng Nghymru.

**Rhodri Glyn Thomas:** Once again, I thank everybody for their support. I know that these deliberations can sometimes be difficult and we have to take practical decisions that are sometimes difficult. However, I believe that we have been able to discuss those matters and agree on the principle of two languages co-existing equally. I am completely convinced that this institution does offer leadership to the whole of Wales on this matter, and I am pleased with what we have succeeded in achieving from the point of view of the both languages of Wales.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid pasio Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol). A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, caiff y Bil ei basio yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the National Assembly for Wales (Official Languages) Bill. Are there any objections? I see that there are not. Therefore, the Bill is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Gysylltedd Rhyngwladol drwy Borthladdoedd a Meysydd Awyr Cymru
## The Enterprise and Business Committee's Report on International Connectivity through Welsh Ports and Airports

**The Deputy Presiding Officer:** In accordance with Standing Order No. 12.23(iii), I have not selected the two amendments to the motion, amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.23 (iii), nid wyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig, gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts.

*Cynnig NDM5053 Nick Ramsay*

*Motion NDM5053 Nick Ramsay*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes: Cysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Gorffennaf 2012.*

*Notes the report of the Enterprise and Business Committee: International connectivity through Welsh ports and airports, which was laid in the Table Office on 4 July 2012.*

**Nick Ramsay:** I move the motion.

**Nick Ramsay:** Cynigiaf y cynnig.

I am delighted as Chair of the Enterprise and Business Committee to open this debate on the committee's report on 'International connectivity through Welsh ports and airports'. When we reported in July, we were working against a backdrop of keen public debate over the future of Cardiff Airport, so I believe that our inquiry was timely and constructive in that process. I thank the members of my committee for their resilience in agreeing to the recommendations that I believe, if implemented, will make a significant contribution to the economic potential of Wales's ports and airports, and to improving transport links between them. I would also like to thank the many individuals and organisations that contributed to our inquiry.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes rwyf yn falch iawn o gael agor y ddadl hon ar adroddiad y pwyllgor sy'n dwyn y teitl 'Cysylltedd Rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru'. Pan gyflwynwyd ein hadroddiad ym mis Gorffennaf, roeddem yn gweithio yn erbyn cefndir o drafodaeth gyhoeddus frwd am ddyfodol Maes Awyr Caerdydd, felly credaf fod ein hymchwiliad yn amserol ac yn adeiladol yn hynny o beth. Hoffwn ddiolch i aelodau fy mhwyllgor am y eu gwytnwch i gytuno ar yr argymhellion a fydd, os cânt eu gweithredu, yn gwneud cyfraniad sylweddol, yn fy marn i, i botensial economaidd porthladdoedd a meysydd awyr Cymru, ac i wella cysylltiadau trafnidiaeth rhyngddynt. Hoffwn hefyd ddiolch i'r unigolion a'r sefydliadau niferus a gyfrannodd at ein hymchwiliad.

I believe that the top three messages from our inquiry are that, firstly, Welsh ports and airports are vital to the future of the Welsh economy, and have a crucial part to play in developing our international trade and tourism links. Secondly, much more needs to be done to develop Welsh ports and airports as key economic drivers. Thirdly, even though we recognise that responsibility for

Credaf mai'r tair prif neges sy'n deillio o'n hymchwiliad yw, yn gyntaf, bod porthladdoedd a meysydd awyr Cymru yn hollbwysig i ddyfodol economi Cymru, a bod ganddynt ran hanfodol i'w chwarae i ddatblygu ein masnach ryngwladol a'n cysylltiadau twristiaeth. Yn ail, mae llawer mwy i'w wneud eto i ddatblygu porthladdoedd a meysydd awyr Cymru fel

ports and aviation policy lies mainly with the UK Government, there are many opportunities for the Welsh Government to capitalise on the potential of Welsh ports and airports as a valued means of boosting the economy and enabling them to prosper in their own right.

ffactorau allweddol sy'n sbarduno'r economi. Yn drydydd, er ein bod yn cydnabod mai Llywodraeth y DU sy'n bennaf cyfrifol am borthladdoedd a'r polisi hedfan, mae llawer o gyfleoedd i Lywodraeth Cymru fanteisio ar botensial porthladdoedd a meysydd awyr Cymru fel ffordd werthfawr o roi hwb i'r economi a'u galluogi i ffynnu yn eu rhinwedd eu hunain.

We made 19 recommendations in all in our report, and I am pleased that the Welsh Government has accepted 15 of them. To highlight some of our key recommendations, recommendation 2 is that the Welsh Government should formulate a strategic, evidence-based position for developing air transport in Wales. The committee wanted to see the Government develop a thorough assessment of the economic impact of aviation in Wales, so that there is full understanding of where air services are needed, what kinds of routes can support Wales's sustainable economic development, and how this can best be delivered. I trust that the Cardiff Airport taskforce will take forward this work, and the committee will also look forward to scrutinising Ministers on progress during the spring term next year.

Gwnaethom 19 o argymhellion i gyd yn ein hadroddiad, ac rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn 15 ohonynt. I dynnu sylw at rai o'n hargymhellion allweddol, argymhelliad 2 yw y dylai Llywodraeth Cymru lunio dull strategol, yn seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn datblygu trafnidiaeth awyr yng Nghymru. Roedd y pwyllgor yn awyddus i weld y Llywodraeth yn datblygu asesiad trylwyr o effaith economaidd y diwydiant hedfan yng Nghymru, fel bod dealltwriaeth lawn o ble mae angen gwasanaethau awyr, pa fath o lwybrau a all gefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy Cymru, a'r ffordd orau o gyflawni hyn. Hyderaf y bydd tasglu Maes Awyr Caerdydd yn gweithredu ar y gwaith hwn, ac y bydd y pwyllgor hefyd yn edrych ymlaen at graffu ar gynnydd y Gweinidogion yn ystod tymor y gwanwyn y flwyddyn nesaf.

Recommendation 4 is that the Welsh Government should continue to press the managers of Cardiff Airport to invest in its development and devise a new master plan. The committee agreed that the priority for Cardiff Airport should be to develop routes that serve inbound tourism and business traffic, as opposed to development that simply takes tourists out of Wales. The Welsh Government has responded by accepting our recommendation only in principle, but we shall be keen to monitor how this issue will be taken forward by the Cardiff Airport taskforce.

Argymhelliad 4 yw y dylai Llywodraeth Cymru barhau i bwyso ar reolwyr Maes Awyr Caerdydd i fuddsoddi yn ei ddatblygiad a llunio cynllun meistr newydd. Cytunodd y Pwyllgor mai'r flaenoriaeth i Faes Awyr Caerdydd fydd datblygu llwybrau sy'n gwasanaethu twristiaid sy'n dod i mewn a thraffig busnes, yn hytrach na datblygiad sydd ond yn mynd â thwristiaid allan o Gymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb drwy dderbyn ein hargymhelliad mewn egwyddor yn unig, ond byddwn yn awyddus i fonitro sut y caiff y mater hwn ei ddatblygu gan dasglu Maes Awyr Caerdydd.

Recommendations 5 and 6 are that the Welsh Government should improve bus and rail links between Cardiff Airport and the city centre through a dedicated express bus service and, potentially, a frequent, direct train service. I note that the Welsh Government has accepted both of these recommendations, again in principle, so the Enterprise and Business Committee will be

Argymhellion 5 a 6 yw y dylai Llywodraeth Cymru wella cysylltiadau bws a rheilffordd rhwng Maes Awyr Caerdydd a chanol y ddinas drwy wasanaeth bws pwrpasol ac, o bosibl, wasanaeth trên uniongyrchol mynych. Nodaf fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn y ddau argymhelliad hyn mewn egwyddor unwaith eto, felly bydd y Pwyllgor Menter a Busnes yn awyddus i fonitro cynnydd wrth

keen to monitor progress in taking them forward. In particular, I note that the Welsh Government's response states that detailed work has already been done on dedicated express bus services to the airport. I would like to hear more from the Minister about the findings of that work and its practical implications.

weithredu arnynt. Yn benodol, nodaf fod ymateb Llywodraeth Cymru yn datgan bod gwaith manwl eisoes wedi'i wneud ar wasanaethau bws cyflym pwrpasol i'r maes awyr. Hoffwn glywed mwy gan y Gweinidog am ganfyddiadau'r gwaith hwnnw a'i oblygiadau ymarferol.

4.15 p.m.

Turning to the issue of ports, recommendation 15 of our report stated that the Welsh Government should clarify its intentions for enterprise zones that include Welsh ports and airports so that Wales can fully benefit from this initiative. The Welsh Government's response states that this work has already been undertaken and refers us to a website for details. The website refers to 'specific incentives' for supporting businesses that may wish to locate to enterprise zones. On this point, perhaps the Minister could clarify what those incentives are, specifically?

Gan droi at y porthladdoedd, nododd argymhelliad 15 ein hadroddiad y dylai Llywodraeth Cymru egluro ei bwriadau ar gyfer ardaloedd menter sy'n cynnwys porthladdoedd a meysydd awyr Cymru fel y gall Cymru elwa'n llawn ar y fenter hon. Noda ymateb Llywodraeth Cymru fod y gwaith hwn eisoes wedi'i wneud ac mae'n ein cyfeirio at wefan am fanylion. Mae'r wefan yn cyfeirio at 'gymhellion penodol' i gefnogi busnesau sy'n dymuno lleoli mewn ardaloedd menter o bosibl. Ar y pwynt hwn, efallai y gallai'r Gweinidog egluro beth yn union yw'r cymhellion hynny?

Recommendation 18 of our report challenged the Welsh Government to support Cruise Wales in devising and implementing a strategic marketing plan to promote Wales to international cruise operators. Recommendation 17 challenged the Welsh Government to encourage port operators to develop facilities that will attract and accommodate cruise liners. The committee agreed with many of our witnesses that there could be substantial benefits from Wales investing in the cruise market, although we believe that Wales needs to be discerning in that market by catering for particular niche interests around heritage and culture.

Roedd argymhelliad 18 yn ein hadroddiad yn herio Llywodraeth Cymru i helpu Cruise Cymru i lunio a gweithredu cynllun marchnata strategol er mwyn hyrwyddo Cymru i weithredwyr mordeithiau rhyngwladol. Roedd argymhelliad 17 yn herio Llywodraeth Cymru i annog gweithredwyr porthladdoedd i ddatblygu cyfleusterau a fydd yn denu ac yn darparu ar gyfer llongau mordeithio mawr. Cytunodd y pwyllgor â llawer o'n tystion y gallai fod manteision sylweddol pe bai Cymru yn buddsoddi yn y farchnad fordeithio, er ein bod yn credu bod angen i Gymru fod yn graff yn y farchnad drwy ddarparu ar gyfer diddordebau arbenigol penodol yn seiliedig ar dreftadaeth a diwylliant.

I am very pleased that the Government has accepted both of those recommendations, although I would note a need for urgency as it can take years for cruise companies to plan new routes and calling ports, and it was clear from the evidence presented to us that Wales is losing out daily in relation to cruise visits to other parts of the UK and Ireland.

Rwy'n falch iawn bod y Llywodraeth wedi derbyn y ddau argymhelliad hynny, er y nodwn fod angen gweithredu ar fyrder gan y gall gymryd blynyddoedd i gwmnïau mordeithio gynllunio llwybrau a phorthladdoedd galw newydd, ac roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a gyflwynwyd inni fod Cymru ar ei cholled yn ddyddiol mewn perthynas ag ymweliadau mordeithio â rhannau eraill o'r DU ac Iwerddon.

One of the main conclusions of our report was that there is a need for a more holistic approach so that the Welsh Government's policies for ports and airports achieve greater synergy with its policies for improving the transport network as a whole. Although the Government has stated that it accepts this approach, I would welcome further information on how Ministers intend to drive this forward.

Un o brif gasgliadau ein hadroddiad oedd bod angen dull gweithredu mwy cyfannol fel bod polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer porthladdoedd a meysydd awyr yn cyflawni mwy o synergedd gyda'i pholisïau ar gyfer gwella'r rhwydwaith trafnidiaeth yn ei gyfanrwydd. Er bod y Llywodraeth wedi datgan ei bod yn derbyn hyn, byddwn yn croesawu rhagor o wybodaeth am sut y mae Gweinidogion yn bwriadu bwrw ymlaen â hyn.

Finally, in drafting our report, my committee was fully aware that the Welsh Government cannot achieve all of the 19 recommendations on its own. It is therefore essential that Welsh Ministers are fully involved in policy discussions at a UK level, and I would like to hear from the Minister how the Welsh Government is engaging with counterparts in the UK Government. Central to those intergovernmental discussions is the need for Welsh Ministers and civil servants to be advocating for the further devolution of powers to Wales so that we can better shape and influence the sustainable development of ports and airports. I was therefore pleased that the Welsh Government accepted our recommendation to explore the case for devolving air passenger duty to Wales, although the committee would caution that the priority should be on using APD on those services that stimulate sustainable inward tourism and business investment opportunities.

Yn olaf, wrth ddrafftio ein hadroddiad, roedd fy mhwyllgor yn gwbl ymwybodol na all Llywodraeth Cymru gyflawni pob un o'r 19 o argymhellion ar ei phen ei hun. Mae'n hanfodol felly fod Gweinidogion Cymru yn cymryd rhan lawn mewn trafodaethau polisi ar lefel y DU, a hoffwn glywed gan y Gweinidog sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'i chyd-Weinidogion yn Llywodraeth y DU. Yn ganolog i'r trafodaethau rhynglywodraethol hynny mae'r angen i Weinidogion Cymru a gweision sifil ddadlau dros ddatganoli rhagor o bwerau i Gymru fel y gallwn lunio a dylanwadu ar ddatblygiad cynaliadwy porthladdoedd a meysydd awyr yn well. Rwyf yn falch felly bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn ein hargymhelliad i archwilio'r achos dros ddatganoli toll y teithwyr awyr i Gymru, er y byddai'r pwyllgor yn rhybuddio y dylid rhoi blaenoriaeth ar ddefnyddio'r doll ar y gwasanaethau hynny sy'n ysgogi twristiaeth gynaliadwy o'r tu allan a chyfleoedd buddsoddi busnes.

I wish to end by reiterating that ports and airports, though part of a largely non-devolved UK Government policy, are vital to Wales's economic growth. It is essential that the Welsh Government utilises all levers at its disposal so that the full potential of ports and airports can be realised.

Hoffwn gloi drwy ddatgan unwaith eto fod porthladdoedd a meysydd awyr, er eu bod yn rhan o bolisi Llywodraeth y DU nad yw wedi'i ddatganoli, yn hanfodol i dwf economaidd Cymru. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio pob dull sydd ar gael fel y gellir gwireddu potensial llawn porthladdoedd a meysydd awyr.

**Kenneth Skates:** I welcome the debate on the Enterprise and Business Committee's report today. I reiterate the Chairman's point about the vital strategic role our ports and airports have to play in getting the Welsh economy growing again. I would like to raise a couple of brief points in my contribution today about how this report relates specifically to my region of north Wales. I

**Kenneth Skates:** Croesawaf y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes heddiw. Er mwyn ailddatgan pwynt y Cadeirydd am y rôl strategol hanfodol y mae'n rhaid i'n porthladdoedd a'n meysydd awyr ei chwarae er mwyn sicrhau bod economi Cymru yn tyfu eto. Hoffwn godi un neu ddau o bwyntiau byr yn fy nghyfraniad heddiw am y modd y mae'r adroddiad hwn

hope that you will indulge me. The first point relates to the evidence we collected about the future of UK airport policy as it relates to Wales. I think that many AMs have felt that the recent debate that has taken place away from here about the future development of airport capacity in the UK has perhaps, in many ways, ignored the needs of Wales. Where that debate has briefly referenced Wales, it has been too heavily focused on the possibility of a third runway for Heathrow and its importance perhaps for the south Wales economy.

yn ymwneud yn benodol â'm rhanbarth yn y gogledd. Gobeithio y byddwch yn maddau imi am hynny. Mae'r pwynt cyntaf yn ymwneud â'r dystiolaeth a gasglwyd gennym am ddyfodol polisi meysydd awyr y DU fel y bo hynny'n berthnasol i Gymru. Credaf fod nifer o ACau wedi teimlo fod y ddadl ddiweddar sydd wedi digwydd i ffwrdd oddi yma am ddatblygiad meysydd awyr yn y DU yn y dyfodol o bosibl, mewn sawl ffordd, wedi anwybyddu anghenion Cymru. Lle mae'r ddadl honno wedi cyfeirio'n fras at Gymru, bu gormod o ffocws ar y posibilrwydd o gael trydedd rhedfa i Heathrow a'i phwysigrwydd i economi de Cymru.

I hope that this report will remind us that, with this, as with other parts of the Welsh infrastructure, the needs of north Wales are slightly different and that there is a need to recognise that more effectively in Government policy. For example, our interests are served just as much by exploring the opening up of airport capacity in the midlands and on Merseyside as at Heathrow. Although this is not an area touched on directly in the report, I hope that this is something the Welsh Government will examine as we seek to influence where new capacity can be opened up in the UK network.

Gobeithiaf y bydd yr adroddiad hwn yn ein hatgoffa, yn hyn o beth, fel gyda rhannau eraill o seilwaith Cymru, fod anghenion y gogledd ychydig yn wahanol a bod angen cydnabod hynny'n fwy effeithiol ym mholisi'r Llywodraeth. Er enghraifft, mae ystyried ehangu capasiti meysydd awyr yng nghanolbarth Lloegr ac ar lannau Mersi yr un mor fuddiol â ni ag ystyried capasiti yn Heathrow. Er nad yw hwn yn faes a grybwyllir yn uniongyrchol yn yr adroddiad, gobeithiaf fod hyn yn rhywbeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ystyried wrth inni geisio dylanwadu ar leoliad capasiti newydd posibl yn rhwydwaith y DU.

In relation to points made in the report about connectivity to English ports and airports, our report is clear about the concerns that we expressed about the current policy framework being operated by the Department for Transport, which, remarkably, sees no connection between the policy of the electrification of UK railways and Wales's international connectivity through the airports of the UK. In general, I have concerns that the rail electrification policy rightly being promoted by the UK Government is not being planned in the most economically sensible way to lever in either investment or jobs. That needs to be addressed by the UK Government. In particular, I urge my colleague, the Minister for transport, to ensure that, as work progresses with the electrification project, he examines in tandem the cross-border transport changes that will be needed to ensure that we take advantage of projects such as High Speed Two, so that we

Mewn perthynas â'r pwyntiau a wnaed yn yr adroddiad am gysylltedd â phorthladdoedd a meysydd awyr yn Lloegr, mae ein hadroddiad yn glir ynghylch y pryderon a fynegwyd gennym am y fframwaith polisi cyfredol a weithredir gan yr Adran Drafnidiaeth, sydd, yn rhyfeddol, yn methu â gweld unrhyw gysylltiad rhwng polisi trydaneiddio rheilffyrdd y DU a chysylltedd rhyngwladol Cymru drwy feysydd awyr y DU. Yn gyffredinol, mae gennyf bryderon nad yw'r polisi ynglŷn â thrydaneiddio'r rheilffyrdd, a hyrwyddir yn gwbl briodol gan Lywodraeth y DU, yn cael ei gynllunio yn y ffordd fwyaf synhwyrol yn economaidd i ddenu buddsoddiad neu swyddi. Mae angen i Lywodraeth y DU fynd i'r afael â hynny. Yn benodol, anogaf fy nghyd-aelod, y Gweinidog dros drafnidiaeth, i sicrhau, wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen gyda'r prosiect trydaneiddio, ei fod yn ystyried ar y cyd y newidiadau mewn trafnidiaeth drawsffiniol y

can encourage long-term investment in north and south Wales.

bydd angen eu gwneud er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio ar brosiectau megis Gwasanaeth Cyflym Dau, fel y gallwn annog buddsoddiad hirdymor yng ngogledd a de Cymru.

With regard to our ports network, it is worth remembering that many non-Welsh ports are also strategically important to the wider Welsh economy. Some of north Wales's most important manufacturing industries rely on Associated British Ports and other ports infrastructure in the north-west of England. At present, we have a unified structure when it comes to ports policy. However, what became clear during our evidence sessions is that policy at the Department for Transport operates in an England-only fashion. That is why we have placed heavy emphasis in our report on the need for better joined-up thinking between Whitehall and Wales in this area, especially in relation to the interests of Wales and its port network.

O ran ein rhwydwaith o borthladdoedd, mae'n werth cofio bod llawer o borthladdoedd y tu allan i Gymru hefyd yn strategol bwysig i economi ehangach Cymru. Mae rhai o ddiwydiannau gweithgynhyrchu pwysicaf gogledd Cymru yn dibynnu ar Associated British Ports a phorthladdoedd eraill yng ngogledd-orllewin Lloegr. Ar hyn o bryd, mae gennym strwythur unedig o ran polisi porthladdoedd. Fodd bynnag, yr hyn a ddaeth yn amlwg yn ystod ein sesiynau tystiolaeth yw bod polisi yn yr Adran Drafnidiaeth yn gweithredu ar sail Lloegr yn unig. Dyna pam rydym wedi rhoi pwyslais mawr yn ein hadroddiad ar yr angen am feddwl mwy cydgysylltiedig rhwng Whitehall a Chymru yn y maes hwn, yn enwedig mewn perthynas â buddiannau Cymru a'i rhwydwaith o borthladdoedd.

One of the possible areas of fruitful return could be in encouraging sectors such as the cruise liner market in areas like north Wales. As we outline in the report, cruise tourism has been the highest growth sector in the developed world, growing at an average rate of 8% over the last 40 years. Cruise Wales said to us that 2011 was the most successful year for Wales to date, receiving 23,000 passengers from 28 calls, including 14 into Holyhead, with important day trips organised across north Wales's coastal strip and beyond. Stena Line said in its evidence to us that, given the right berthing conditions, it would be interested in an attempt to build a more ambitious and imaginative cruise market through north Wales. A large cruise liner of some 2,500 passengers could generate £250,000 a day through tourist spend on excursions, restaurants and souvenirs, and through vessel servicing. As someone who has a north Wales constituency that could benefit from day trips and wider knock-on tourism, I would certainly urge the Welsh Government to explore the possibility of improving the infrastructure, which is holding back the possibility of this market expanding still further.

Un o'r meysydd buddiol posibl y gellid ei ystyried yw annog sectorau megis marchnad y llongau mordeithio mewn ardaloedd fel gogledd Cymru. Fel yr amlinellwn yn yr adroddiad, twristiaeth fordeithio fu'r sector twf mwyaf yn y byd datblygedig, gan dyfu ar gyfradd gyfartalog o 8% dros y 40 mlynedd diwethaf. Dywedodd Cruise Wales wrthym mai 2011 oedd y flwyddyn fwyaf llwyddiannus i Gymru hyd yn hyn, gan dderbyn 23,000 o deithwyr o 28 o ymweliadau, gan gynnwys 14 yng Nghaergybi, gyda gwibdeithiau dydd pwysig yn cael eu trefnu ar draws llain arfordirol y gogledd a thu hwnt. Dywedodd Stena Line yn ei dystiolaeth inni, o gael yr amodau angori iawn, y byddai ganddo ddiddordeb mewn ymgais i greu marchnad fordeithio fwy uchelgeisiol a dychmygus ar draws gogledd Cymru. Gallai llong fordeithio fawr gyda thua 2,500 o deithwyr gynhyrchu £250,000 y dydd drwy wariant twristiaid ar wibdeithiau dydd, bwytai a chofroddion, a thrwy wasanaethu llongau. Fel rhywun sydd ag etholaeth yn y gogledd a allai elwa ar wibdeithiau a sgîl-dwristiaeth ehangach, byddwn yn sicr yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried y posibilrwydd o wella'r seilwaith, sy'n llesteirio'r cyfle i'r farchnad

hon ehangu ymhellach.

The Welsh Government is aware that it needs to take an active role in capitalising on niche opportunities and encouraging port operators to improve the functionality and tourist experience at their facilities. This is key to encouraging investment and improving our economic performance, and I hope that we will see many of these recommendations becoming a reality over the next few years.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod angen iddi chwarae rôl weithredol i fanteisio ar gyfleoedd penodol ac annog gweithredwyr porthladdoedd i wella’r ffordd y mae eu cyfleusterau yn gweithredu a phrofiad ymwelwyr. Mae hyn yn allweddol i annog buddsoddi a gwella ein perfformiad economaidd, a gobeithiaf y byddwn yn gweld llawer o’r argymhellion hyn yn cael eu gwireddu dros y blynyddoedd nesaf.

**Byron Davies:** I am grateful for the opportunity to contribute to this debate. As a member of the committee, it was a most interesting exercise in which to participate. We have already heard about the importance of our Welsh ports and airports, and their ability to act as a vital economic driver for the Welsh economy if the Welsh Government acts on the many opportunities at its disposal. Much of the evidence to back up that statement, and the way in which to do it, is set out in this report, which I believe is essential reading.

**Byron Davies:** Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon. Fel aelod o’r pwyllgor, bu’n ymarfer hynod ddiddorol i fod yn rhan ohono. Rydym eisoes wedi clywed am bwysigrwydd ein porthladdoedd a’n meysydd awyr yng Nghymru, a’u gallu i weithredu fel sbardun economaidd hanfodol i economi Cymru pe bai Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar y cyfleoedd lu sydd ar gael iddi. Mae llawer o’r dystiolaeth i gefnogi’r datganiad hwnnw, a’r ffordd o wneud hynny, wedi’i nodi yn yr adroddiad hwn, sy’n ddeunydd darllen hanfodol yn fy marn i.

I was particularly struck by the quantity and quality of evidence that we received from academics, economists and industry experts, and this helped us to agree a total of 19 recommendations, which are laid out before you today. I am pleased that the Government has accepted 15 recommendations in full and has accepted the remainder in principle. It is worth noting, although I am sure that we will already be aware of it, that this is another important area that presents challenges that we as a nation cannot tackle without a co-operative approach, as the previous speaker said, and collaboration with our UK partners. It goes without saying that the Welsh Government and the UK Government must work together in tandem to action many of the recommendations. For me, this emphasises again the need for mature politics, and I ask that the governing party here stops blaming and starts delivering.

Yr hyn a’m trawodd yn arbennig oedd maint ac ansawdd y dystiolaeth a gawsom gan academyddion, economegwyr ac arbenigwyr y diwydiant, ac mae hyn wedi ein helpu i gytuno ar 19 o argymhellion i gyd, sy’n cael eu gosod ger eich bron heddiw. Rwyf yn falch bod y Llywodraeth wedi derbyn 15 o argymhellion yn llawn ac wedi derbyn y gweddill mewn egwyddor. Mae’n werth nodi, er fy mod yn sicr y byddwn eisoes yn ymwybodol ohono, fod hwn yn faes pwysig arall sy’n cyflwyno heriau na allwn ni fel cenedl fynd i’r afael â hwy heb ymagwedd gydweithredol, fel y dywedodd y siaradwr blaenorol, a chydweithio â’n partneriaid yn y DU. Afraid dweud bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU weithio ar y cyd i weithredu llawer o’r argymhellion. I mi, mae hyn yn pwysleisio unwaith eto yr angen am wleidyddiaeth aeddfed, a gofynnaf i’r blaid sydd mewn grym yma roi’r gorau i feio eraill a dechrau cyflawni.

One of the starkest pieces of evidence for Wales is in relation to our only international airport, Cardiff Airport, which is much talked

Un o’r darnau amlycaf o dystiolaeth i Gymru yw’r un ynglŷn â’n hunig faes awyr rhyngwladol, Maes Awyr Caerdydd, y mae

about. As we know, passenger numbers have dropped over 35% between 2007 and 2010 and the decline is speeding up, in stark contrast to the UK average for air travel, which increased by 4%. This fall in passenger business occurred at the same time as the airport experienced a catastrophic 98% fall in freight traffic.

llawer siarad amdano. Fel y gwyddom, mae nifer y teithwyr wedi gostwng dros 35% rhwng 2007 a 2010 ac mae'r dirywiad yn cyflymu, mewn gwrthgyferbyniad llwyr â chyfartaledd y DU ar gyfer hedfan, a gynyddodd 4%. Mae'r gostyngiad hwn yn nifer y teithwyr busnes wedi digwydd yr un pryd ag y cafwyd gostyngiad trychinebus o 98% mewn traffig busnes o ran busnes cludo nwyddau o'r maes awyr.

Speaking on behalf of the Welsh Conservatives in this debate, I can say that we still remain extremely concerned about the airport's current market position. While there was initial support when the First Minister took our committee's view and the political consensus in this Chamber around the airport's failing record into account in announcing the planned Cardiff Airport taskforce, the lack of action and ambition of the Government's approach continues to worry us greatly. We need ambition, action and achievement on this issue. Frankly, I would like to know what is happening with this Cardiff Airport taskforce. It is not a secret, surely. Can we have an update on this? Where are we with it, please? What are you doing with it?

Wrth siarad ar ran y Ceidwadwyr Cymreig yn y ddadl hon, gallaf ddweud ein bod yn dal i fod yn bryderus iawn ynglŷn â sefyllfa gyfredol y maes awyr yn y farchnad. Er bod cefnogaeth gychwynnol pan ystyriodd y Prif Weinidog farn ein pwyllgor a'r consensws gwleidyddol yn y Siambr hon ynghylch record aflwyddiannus y maes awyr wrth gyhoeddi tasglu arfaethedig Maes Awyr Caerdydd, mae'r diffyg gweithredu ac uchelgais ar ran y Llywodraeth yn dal i fod yn achos pryder mawr inni. Mae angen inni weld uchelgais, gweithredu a chyflawniad ar y mater hwn. A dweud y gwir, hoffwn wybod beth sy'n digwydd gyda thasglu Maes Awyr Caerdydd. Nid yw'n gyfrinach, does bosib. Allwn ni gael y wybodaeth ddiweddaraf am hyn? Ble rydym ni arni, os gwelwch yn dda? Beth rydych yn ei wneud ag ef?

Moving on to the best way to exploit the potential of our major ports, I have visited the Association of British Ports in Cardiff and Swansea since becoming an Assembly Member and in my role as shadow Minister and I cannot speak highly enough of its passion and professionalism. I believe that we have a dedicated port management across Wales. This is easy to see in the Haven waterway in Pembrokeshire, which is already taking advantage of the opportunities available by becoming a major hub for energy. However, we have heard that, because ports policy is not devolved, Welsh ports risk falling between stools, as the focus tends to be on large container ports, of which Wales has none. There is spare freight capacity at Welsh ports, but this type of operation is hampered by the restricted road and rail links to some ports, which is a devolved matter and an area in which we must see improvements. Time and again, whenever inward investment, business development or enterprise zones are

Gan symud ymlaen at y ffordd orau o fanteisio ar botensial ein porthladdoedd mawr, rwyf wedi ymweld â Chymdeithas Porthladdoedd Prydain yng Nghaerdydd ac Abertawe ers dod yn Aelod o'r Cynulliad ac yn fy rôl fel Gweinidog yr wrthblaid ac ni allaf ganmol ddigon ar angerdd a phroffesiynoldeb y Gymdeithas. Credaf fod gennym reolwyr porthladd ymroddedig ledled Cymru. Mae hyn yn hawdd i'w weld yn Nyfrffordd y Ddau Gleddau yn sir Benfro, sydd eisoes yn manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael trwy ddod yn ganolbwynt mawr ar gyfer ynni. Fodd bynnag, rydym wedi clywed, gan nad yw polisi ynglŷn â phorthladdoedd wedi'i ddatganoli, fod porthladdoedd Cymru mewn perygl o syrthio rhwng dwy stôl, gan fod y ffocws yn tueddu i fod ar borthladdoedd amlwyth mawr, nad oes yr un o'r rheini yng Nghymru. Gall porthladdoedd Cymru drafod mwy o nwyddau nag sy'n digwydd ar hyn o bryd, ond mae'r math hwn o weithrediad yn cael ei rwystro gan y cysylltiadau ffordd a

discussed, the one missing ingredient in the cake is strategic transport links. Strategic links to ports must be invested in. This is recognised in our recommendation 19.

rheilffordd cyfyngedig â rhai porthladdoedd, sy’n fater datganoledig ac yn faes lle mae’n rhaid inni weld gwelliannau. Dro ar ôl tro, pryd bynnag y trafodir mewnfuddsoddi, datblygu busnes neu ardaloedd menter, yr un elfen goll yw cysylltiadau trafnidiaeth strategol. Rhaid wrth fuddsoddi mewn cysylltiadau strategol â phorthladdoedd. Cydnabyddir hyn yn ein hargymhelliad 19.

I realise that, in the Government feedback, where you accept and expand, you do mention the onus on local authorities through the local development plan process. I do, however, want to underline the importance of strategic direction in investment on a Wales level and I would have liked to have seen more acknowledgement from your Labour Government of that. You must, as they say, put your money where your mouth is and invest in strategic road and rail links to ports. This is, undoubtedly, the future for Wales. We must value our international trade and tourism links and seek to maximise them. This is a statement that I am sure we all agree with. This is a report that I, as a member of the committee and in my role as the shadow Minister, endorse fully. What we need now is action.

Sylweddolaf, yn adborth y Llywodraeth, lle rydych yn derbyn ac yn ymhelaethu, eich bod yn sôn am y cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol drwy broses y cynllun datblygu lleol. Fodd bynnag, hoffwn danlinellu pa mor bwysig yw cyfeiriad strategol mewn buddsoddiad ar lefel Cymru a hoffwn fod wedi gweld mwy o gydnabyddiaeth gan eich Llywodraeth Lafur o hynny. Rhaid ichi, fel y dywedir, roi eich arian ar eich gair a buddsoddi mewn cysylltiadau ffordd a rheilffordd strategol â phorthladdoedd. Yn ddiamau, dyma’r dyfodol i Gymru. Rhaid inni werthfawrogi ein masnach ryngwladol a’n cysylltiadau twristiaeth a cheisio manteisio i’r eithaf arnynt. Mae hwn yn ddatganiad yr wyf yn siŵr ein bod ni i gyd yn cytuno ag ef. Mae hwn yn adroddiad yr wyf fi, fel aelod o’r pwyllgor ac yn fy rôl fel Gweinidog yr wrthblaid, yn ei lwyr gefnogi. Yr hyn yr ydym ei angen yn awr yw gweithredu.

**Mick Antoniw:** I would like to follow on a bit from the last speaker’s remarks, because, like him, I also have a great concern about, and a great love of, Cardiff Airport. In the early 1980s I was a local authority-appointed member of the airport committee. I remember the great pride that we all took in the airport when local authorities and the public sector invested in it to create the runway capable of taking a jumbo and when that first jumbo arrived. It was then a matter of great sadness that, in 1986, the Conservative Government introduced a wrecking piece of legislation, the Airport Act 1986. It was supposed to liberate airports from political interference. In fact, it has been a downhill process ever since, because, for certain airports, their whole survival is dependent upon their integration with an economic raison d’être within a set of communities. That is what the local authorities provided. Since then, with the exception of a number of years, there has been a decline, so that it has virtually the

**Mick Antoniw:** Hoffwn barhau am ychydig â sylwadau’r siaradwr diwethaf, oherwydd, fel yntau, yr wyf innau hefyd yn pryderu’n fawr am Faes Awyr Caerdydd fel un sydd â hoffter mawr ohono. Ar ddechrau’r 1980au roeddwn yn aelod o bwyllgor y maes awyr fel aelod a benodwyd gan yr awdurdod lleol. Cofiaf y balchder mawr yn y maes awyr a deimlai bob un ohonom pan fuddsoddodd yr awdurdodau lleol a’r sector cyhoeddus ynddo i greu rhedfa a allai dderbyn awyren ‘jumbo’ a phan gyrhaeddodd yr awyren gyntaf honno. Bu wedyn yn fater o dristwch mawr, yn 1986, i’r Llywodraeth Geidwadol gyflwyno darn dinistriol o ddeddfwriaeth, sef Deddf Maes Awyr 1986. Ei nod oedd rhyddhau meysydd awyr rhag ymyrraeth wleidyddol. Mewn gwirionedd, bu dirywiad byth oddi ar hynny, oherwydd, yn achos rhai meysydd awyr, mae eu dyfodol yn llwyr ddibynnu ar fod yn integredig â raison d’être economaidd o fewn grŵp o gymunedau. Dyna’r hyn a ddarparwyd gan yr awdurdodau lleol. Ers

lowest number of scheduled flights, domestic flights and freight, as Byron as already mentioned, and passenger numbers have almost halved. It has no hope whatsoever of achieving its previously set targets. Compare that with some of the other airports. I remember being in a debate on this and cheers and jeers went up when we talked about public ownership and so on. I am not talking about public ownership in terms of nationalisation of the airport; I am saying that there are different models of airport ownership that we ought to look at. Manchester Airport, one of the most successful airports and part of the Manchester Airports Group, which also includes East Midlands Airport and Bournemouth Airport, is publicly owned. It is local-authority owned. Newcastle International Airport, which is often compared with Cardiff Airport, is 51% local authority owned.

hynny, ac eithrio nifer o flynyddoedd, bu dirywiad, nes bod ganddo fwy neu lai y nifer isaf o deithiau rheolaidd, teithiau domestig a theithiau cludo nwyddau erioed, fel y crybwyllodd Byron eisoes, ac mae nifer y teithwyr wedi haneru bron. Nid oes ganddo unrhyw obaith o gyflawni'r targedau a osodwyd ar ei gyfer yn flaenorol. Cymharwch hynny â rhai o'r meysydd awyr eraill. Cofiaf fod mewn dadl ar hyn a'r bonllefau a'r gwatwar a glywyd wrthi inni sôn am berchnogaeth gyhoeddus ac yn y blaen. Nid wyf yn sôn am berchnogaeth gyhoeddus o ran gwladoli'r maes awyr; dweud yr wyf bod yna fodelau gwahanol o berchenogaeth maes awyr y dylem eu hystyried. Mae Maes Awyr Manceinion, un o'r meysydd awyr mwyaf llwyddiannus ac yn rhan o Grŵp Meysydd Awyr Manceinion, sydd hefyd yn cynnwys Maes Awyr Dwyrain Canolbarth Lloegr a Maes Awyr Bournemouth, yn eiddo cyhoeddus. Yr awdurdod lleol sy'n berchen arno. Yn achos Maes Awyr Rhyngwladol Newcastle, sy'n aml yn cael ei gymharu â Maes Awyr Caerdydd, mae'r awdurdod lleol yn berchen ar 51% ohono.

4.30 p.m.

**Andrew R.T. Davies:** I am grateful to the Member for taking an intervention, but the point that he is missing is that in all the examples that he has highlighted, what has been effective is the regional development arms working with the airports to put money into route development, which has not happened in Wales. It is interesting to note that, as recently as 2005, significant growth was forecast for Cardiff Airport over the next 20 years, but the Welsh Government has not engaged in supporting that growth.

**Andrew RT Davies:** Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am dderbyn ymyriad, ond y pwynt y mae'n ei golli yw mai'r hyn sydd wedi bod yn effeithiol yn yr holl enghreifftiau y tynnodd sylw atynt, yw bod y canghennau datblygu rhanbarthol wedi gweithio gyda'r meysydd awyr i fuddsoddi arian mewn datblygu llwybrau, rhywbeth nad yw wedi digwydd yng Nghymru. Mae'n ddiddorol nodi, mor ddiweddar â 2005, fod twf sylweddol wedi'i ragweld ar gyfer Maes Awyr Caerdydd dros yr 20 mlynedd nesaf, ond nid yw Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i gefnogi'r twf hwnnw.

**Mick Antoniw:** I do not accept that or think that it is an accurate reflection of what has happened. It is different because it is the local authority ownership and involvement with those other airports that has provided that input, as well as the fact that, as you know, there were certain state aid restrictions. Newcastle Airport, as I was saying, is owned by several local authorities and forms part of a strategic agenda in the region.

**Mick Antoniw:** Nid wyf yn derbyn hynny nac yn credu ei fod yn adlewyrchiad cywir o'r hyn sydd wedi digwydd. Mae'n wahanol oherwydd mai perchenogaeth yr awdurdod lleol a'r ymwneud â'r meysydd awyr eraill hynny sydd wedi cyfrannu at hynny, yn ogystal â'r ffaith, fel y gwyddoch, fod cyfyngiadau penodol ar gymorth gwladwriaethol. Mae Maes Awyr Newcastle fel yr oeddwn yn dweud, yn eiddo i sawl

awdurdod lleol ac yn rhan o agenda strategol yn y rhanbarth.

Having talked about the past, it is perhaps more important that we now move on to talk about the future. One important point about the future of that airport is that the Welsh Government is now taking serious steps, and it seems as though the private company that owns the airport is engaging with that. The point that I want to make, though, is that there needs to be a plan B. If we cannot achieve the sort of progress and role for the airport as an integral part of our economy that we think it ought to be playing, we need a plan B. That could be a buyer or, if that is not feasible, we ought to be looking at other options such as the potential for a new airport in Wales. Either way, the key thing is that we cannot go on as we are, and if progress is not made over the next 12 to 24 months, we have to consider very radical action on how we want the policy on the future of our airport to develop.

Ar ôl sôn am y gorffennol, efallai ei bod yn bwysicach ein bod yn awr yn symud ymlaen i sôn am y dyfodol. Un pwynt pwysig am ddyfodol y maes awyr hwnnw yw bod Llywodraeth Cymru bellach yn cymryd camau difrifol, ac ymddengys fel petai'r cwmni preifat sy'n berchen ar y maes awyr yn ymateb i hynny. Y pwynt yr oeddwn am ei wneud, fodd bynnag, yw bod angen cynllun amgen. Os na allwn sicrhau'r math o gynnydd a rôl i'r maes awyr fel rhan annatod o'n heconomi y dylai ei chwarae, yn ein barn ni, bydd angen cynllun amgen. Gallai hynny gynnwys prynwr neu, os nad yw hynny'n ymarferol, dylem fod yn edrych ar opsiynau eraill megis y potensial ar gyfer maes awyr newydd yng Nghymru. Sut bynnag, y peth allweddol yw na all y sefyllfa sydd ohoni barhau, ac os na fydd cynnydd yn ystod y 12 i 24 mis nesaf, rhaid inni ystyried cymryd camau radical iawn ynglŷn â sut yr ydym am i'r polisi ar ddyfodol ein maes awyr ddatblygu.

**Leanne Wood:** I, too, welcome the report from the Enterprise and Business Committee and the Welsh Government's largely positive response to the recommendations. I, too, will focus my contribution on Cardiff Airport, which is our only international airport and, as many Members have said this afternoon, it has faced some severe difficulties in recent years. Predicted increases in passenger numbers have not materialised, with the numbers falling again by 14% in 2011, down from nearly 1.4 million people to 1.2 million, and profit has turned to loss. Clearly, something must be changed.

**Leanne Wood:** Rwyf innau, hefyd, yn croesawu'r adroddiad gan y Pwyllgor Menter a Busnes ac ymateb cadarnhaol Llywodraeth Cymru ar y cyfan i'r argymhellion. Yn fy nghyfraniad byddaf innau hefyd yn canolbwyntio ar Faes Awyr Caerdydd, sef ein hunig faes awyr rhyngwladol ac, fel mae llawer o Aelodau wedi dweud y prynhawn yma, mae wedi wynebu rhai anawsterau mawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nid yw'r cynnydd a ragwelwyd yn nifer y teithwyr wedi digwydd, gyda'r niferoedd yn gostwng eto o 14% yn 2011, i lawr o bron i 1.4 miliwn o bobl i 1.2 miliwn, ac mae elw wedi troi'n golled. Yn amlwg, rhaid i rywbeth gael ei newid.

That is why I am somewhat surprised, like the previous speaker, that one area with which the committee did not engage in detail was the question of the ownership of Cardiff Airport. It has already been pointed out that, after the reorganisation of local government, the airport was privatised in 1995 and purchased by its current owner, Abertis, in 2005. In setting out his plans for a taskforce back in May, the First Minister said that he had been in talks with potential buyers

Dyna pam yr wyf yn synnu braidd, fel y siaradwr blaenorol, mai un maes na chafodd ei ystyried yn fanwl gan y pwyllgor oedd perchnogaeth Maes Awyr Caerdydd. Nodwyd eisoes, ar ôl ad-drefnu llywodraeth leol, i'r maes awyr gael ei breifateiddio yn 1995 a'i brynu gan ei berchennog presennol, Abertis, yn 2005. Wrth amlinellu ei gynlluniau ar gyfer tasglu yn ôl ym mis Mai, dywedodd y Prif Weinidog iddo fod mewn trafodaethau â darpar brynwyr sydd â

interested in a public-private partnership deal for the airport, with the Welsh Government taking a stake. It would be good to know what progress has been made on those talks. After all, that taskforce met for the first time in June and was due to have a second meeting in September, but it is my understanding that that second meeting has not yet taken place.

diddordeb mewn cytundeb partneriaeth cyhoeddus-preifat ar gyfer y maes awyr, gyda Llywodraeth Cymru yn cael budd ynddo. Byddai'n dda cael gwybod pa gynnydd sydd wedi'i wneud ar y trafodaethau hynny. Wedi'r cyfan, cyfarfu'r tasglu hwnnw am y tro cyntaf ym mis Mehefin a'r bwriad oedd y byddai'n cyfarfod eto ym mis Medi, ond rwyf ar ddeall nad yw'r ail gyfarfod hwnnw wedi cael ei gynnal eto.

The Party of Wales's position is that, within state aid rules, we would like to see as much support as possible given to Cardiff Airport so that it acts in the best interest of the people of Wales as a job creator and as a conduit for investment. Those state aid rules are currently being revised by the EU, with a particular focus on the role of regional airports for economic growth, and I hope that the Welsh Government has played a full role and responded to the consultation. If it has, I would welcome a copy of that response.

Safbwynt Plaid Cymru yw, o fewn rheolau cymorth gwladwriaethol, ein bod am weld cymaint o gymorth â phosibl yn cael ei roi i Faes Awyr Caerdydd er mwyn iddo weithredu er budd pobl Cymru i greu swyddi ac i fod yn gyfrwng buddsoddi. Mae'r rheolau hynny ynglŷn â chymorth gwladwriaethol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan yr UE, gyda ffocws penodol ar rôl meysydd awyr rhanbarthol ar gyfer twf economaidd, a gobeithiaf fod Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan lawn ac wedi ymateb i'r ymgynghoriad. Os yw wedi gwneud hynny, byddwn yn croesawu cael copi o'r ymateb hwnnw.

Government participation in airport ownership would hardly be unique. The Danish Government owns almost 40% of Copenhagen Airport. Through a stake in the airport, we could ensure that the guiding principles of our national airport would be more resources for route development, further investigation into joint funding to improve facilities, attracting business customers and foreign companies, who will then bring money to Wales, and developing a long-term strategy rather than grabbing a headline for a quick fix.

Go brin y byddai maes awyr o dan berchenogaeth Llywodraeth yn unigryw. Mae Llywodraeth Denmarc yn berchen ar bron 40% o Faes Awyr Copenhagen. Trwy gael budd yn y maes awyr, gallem sicrhau mai egwyddorion sylfaenol ein maes awyr cenedlaethol fyddai mwy o adnoddau ar gyfer datblygu llwybrau, ymchwilio ymhellach i ariannu ar y cyd i wella cyfleusterau, gan ddenu cwsmeriaid busnes a chwmnïau tramor, a fydd yn eu tro yn dod ag arian i Gymru, a datblygu strategaeth hirdymor yn hytrach na chael sylw yn y wasg am ateb cyflym.

That could also involve the promotion of our KLM links, with Schiphol as an international hub, and looking once again at links between Wales and New York, and other parts of North America. We need to ensure that Cardiff Airport reflects the best of Wales, and a better airport provides a boost to our local economy. Cardiff Airport is a Welsh icon, and the people of Wales rightly have a keen interest in its future. People want to have civic pride in our national airport. We all want it to be so much better. People do not want to have to go through Bristol to go on

Gallai hynny hefyd gynnwys hyrwyddo cysylltiadau KLM, gyda Schiphol yn ganolbwynt rhyngwladol, ac edrych unwaith eto ar gysylltiadau rhwng Cymru ac Efrog Newydd, a rhannau eraill o Ogledd America. Mae angen inni sicrhau bod Maes Awyr Caerdydd yn adlewyrchu'r gorau o Gymru, ac mae gwell maes awyr yn rhoi hwb i'n heconomi leol. Mae Maes Awyr Caerdydd yn eicon Cymreig, ac mae gan bobl Cymru ddiddordeb mawr yn ei ddyfodol, a hynny'n hollol gyfiawn. Mae pobl yn awyddus i deimlo balchder dinesig yn ein maes awyr

their holidays. There is a sense out there that Wales should have an international airport because we are a nation. People are frustrated and disappointed that that airport is not performing to its full potential, and they want to see it turned around. A Government stake in the airport could give the people of Wales more direct representation in the facility, which would, in turn, help to secure its future.

cenedlaethol. Rydym i gyd am iddo fod cymaint gwell. Nid yw pobl am orfod mynd drwy Fryste i fynd ar eu gwyliau. Mae yna ymdeimlad y dylai fod gan Gymru faes awyr rhyngwladol am ein bod yn genedl. Mae pobl yn teimlo'n rhwystredig ac yn siomedig nad yw'r maes awyr yn perfformio i'w lawn botensial, ac maent am ei weld yn cael ei wella. Gallai budd gan y Llywodraeth yn y maes awyr roi cynrychiolaeth fwy uniongyrchol yn y cyfleuster i bobl Cymru, a fyddai, yn ei dro, yn helpu i sicrhau ei ddyfodol.

**David Rees:** As a committee member, I am also pleased to be speaking in today's debate. I express my appreciation for the work of the committee clerk and her staff during the inquiry and in producing the report, and for the witnesses who attended.

**David Rees:** Fel aelod o'r pwyllgor, rwyf innau hefyd yn falch o gael siarad yn y ddadl heddiw. Hoffwn ddiolch i glerc y pwyllgor a'i staff am eu gwaith yn ystod yr ymchwiliad ac wrth baratoi'r adroddiad, ac i'r tystion a fu'n bresennol.

The report concludes, in paragraph 195, by emphasising the economic importance of strategically realising the potential of Welsh ports and airports, and there are many items in this report on which we can focus to that end, such as the role of Cardiff Airport. Others have already done this, and I am sure that others will also do so, but, on that point, I wish only to say that I welcome the First Minister's initiative in creating a taskforce to look at this issue, and I await the outcome of that before making any further comment on it.

Daw'r adroddiad i ben, ym mharagraff 195, drwy bwysleisio pwysigrwydd economaidd gwireddu potensial porthladdoedd a meysydd awyr Cymru yn strategol, ac mae llawer o eitemau yn yr adroddiad hwn y gallwn ganolbwyntio arnynt i'r perwyl hwnnw, megis rôl Maes Awyr Caerdydd. Mae eraill eisoes wedi gwneud hyn, ac rwyf yn siŵr y bydd eraill hefyd yn gwneud hynny, ond, ar y pwynt hwnnw, y cyfan yr hoffwn ei ddweud yw fy mod yn croesawu menter y Prif Weinidog i greu tasglu i edrych ar y mater hwn, ac arhosaf am ganlyniad hynny cyn gwneud unrhyw sylw pellach arno.

I wish to focus my contribution on an issue that has already been highlighted by the Member for South Wales West, who has now left the Chamber, and that is one of ports, and transport links that will help us to realise the benefit of using those ports. The UK national policy statement recognises the need to increase capacity in UK ports. Here in Wales, we have excellent ports, including one in my own constituency: the deep-water harbour in Port Talbot. It is important that we look at how we can encourage the greater use of these, whether by more short sea shipping, feeder shipping services or developing one or two ports to meet specific needs. The national policy statement forecasts an increase of 182% in container traffic by 2030 in the UK. The capacity of our major container ports in the UK may need to be supplemented by

Yn fy nghyfraniad hoffwn ganolbwyntio ar fater sydd eisoes wedi ei amlygu gan yr Aelod dros Orllewin De Cymru, sydd bellach wedi gadael y Siambr, sef porthladdoedd, a chysylltiadau trafnidiaeth a fydd yn ein helpu i wireddu manteision defnyddio'r porthladdoedd hynny. Mae datganiad polisi cenedlaethol y DU yn cydnabod bod angen cynyddu capasiti porthladdoedd y DU. Yma yng Nghymru, mae gennym borthladdoedd rhagorol, gan gynnwys un yn fy etholaeth fy hun: yr harbwr dŵr dwfn ym Mhort Talbot. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar sut y gallwn annog mwy o ddefnydd o'r rhain, p'un ai drwy fwy o forgludiant byr, gwasanaethau llongau bwydo neu ddatblygu un neu ddau borthladd i ddiwallu anghenion penodol. Mae'r datganiad polisi cenedlaethol yn rhagweld cynnydd o 182% mewn traffig

feeder ports. We have already heard that we do not have any container ports here in Wales, but we may be able to consider the opportunity of feeder ports. The report considered that aspect, and I hope that the Welsh Government looks at the greater utilisation of ports along these lines.

amlwyth erbyn 2030 yn y DU. Efallai y bydd angen i'n porthladdoedd amlwyth mawr yn y DU gael eu hategu gan borthladdoedd bwydo. Rydym eisoes wedi clywed nad oes gennym unrhyw borthladdoedd amlwyth yma yng Nghymru, ond efallai y gallwn ystyried y cyfle a roddir gan borthladdoedd bwydo. Ystyriodd yr adroddiad yr agwedd honno, a gobeithiaf fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar wneud defnydd helaethach o borthladdoedd ar hyd y llinellau hyn.

If we accept the view that ports need development, we also accept the view that we need a port-centric logistical approach to the movement of goods. In 2010, over 16 million tonnes of cargo went through our ports, an increase of 13% on the previous year. If we want to make use of the undercapacity, we must ensure that our transport infrastructure supports this business. The report strengthens the case for greater east-west connectivity. We must applaud the decision by the Minister for Local Government and Communities to focus on the east-west corridors in his national transport plan. I welcome yesterday's announcement in the draft budget of investment in the road, rail and air transport systems, as well. To support port development, we need good, effective connectivity. In north Wales, that is from Holyhead, across the north, to the marketplace in the north-west of England. In south Wales, it is from Pembroke Dock, across to the M4 and along the M4 corridor.

Os ydym yn derbyn y farn bod angen datblygu porthladdoedd, rydym hefyd yn derbyn y farn bod angen dull gweithredu yn seiliedig ar logisteg porthladd-ganolog i symud nwyddau. Yn 2010, aeth dros 16 miliwn tunnell o nwyddau drwy ein porthladdoedd, sef cynnydd o 13% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Os ydym am wneud defnydd o'r adnoddau nas defnyddiwyd yn llawn ar hyn o bryd, rhaid inni sicrhau bod ein seilwaith trafnidiaeth yn cefnogi'r busnes hwn. Mae'r adroddiad yn atgyfnerthu'r ddadl dros fwy o gysylltedd rhwng y dwyrain a'r gorllewin. Rhaid inni gymeradwyo penderfyniad y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau i ganolbwyntio ar y coridorau o'r dwyrain i'r gorllewin yn ei gynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Croesawaf y cyhoeddiad ddoe yn y gyllideb ddrafft ynglŷn â buddsoddiad yn y systemau trafnidiaeth ffyrdd, rheilffyrdd ac awyr, yn ogystal. Er mwyn cefnogi datblygiad porthladdoedd, mae angen cysylltedd da, effeithiol. Yn y gogledd, mae hynny'n ymestyn o Gaergybi, ar draws y gogledd, i'r farchnad yng ngogledd-orllewin Lloegr. Yn y De, mae'n ymestyn o Ddoc Penfro, draw i'r M4 ac ar hyd coridor yr M4.

However, we also need good rail links to allow as much freight as possible to travel by rail and to keep it off our roads. At the moment, 90% of UK freight travels by road. That is 2 billion tonnes of UK freight, which equates to a lot of traffic on our roads. Much emphasis has been placed on passenger transportation in the case for rail electrification, but we must not forget the volume of freight that is transported across the rail network. Up to 12 million tonnes of this is being forecast by 2014, which equates to 12% of the current UK figure. We must ensure that the concerns of rail freight groups

Fodd bynnag, mae angen cysylltiadau rheilffordd da hefyd i sicrhau y caiff cymaint o nwyddau â phosibl eu cludo ar y rheilffyrdd yn hytrach nag ar ein ffyrdd. Ar hyn o bryd, mae 90% o nwyddau yn y DU yn cael eu cludo ar y ffordd, sef tua 2 biliwn tunell o nwyddau'r DU, sy'n cyfateb i lawer o draffig ar ein ffyrdd. Mae llawer o bwyslais wedi'i roi ar gludiant teithwyr yn yr achos dros drydaneiddio'r rheilffyrdd, ond rhaid inni gofio faint o nwyddau sy'n cael eu cludo ar draws y rhwydwaith rheilffyrdd. Rhagwelir y bydd hyd at 12 miliwn o dunelli yn cael ei gludo erbyn 2014, sy'n cyfateb i 12% o ffigur

are also addressed, particularly in regard to electrification, and that might mean looking at gauges, when it comes to that side of the issue. UK rail freight increased by 10% in 2010-11, and that figure is expected to double by 2030, so we can see that there is a need to look carefully at that aspect of our networks. Work must be done by the UK Government to improve rail infrastructure in relation to freight. It has done this in England. It has supported rail infrastructure to support ports in England. It is about time it looked at supporting ports in Wales as well.

y DU ar hyn o bryd. Rhaid inni sicrhau bod pryderon grwpiau cludo nwyddau ar reilffyrdd yn cael sylw hefyd, yn enwedig o ran trydaneiddio, a gallai hynny olygu edrych ar led llinellau, o ran hynny. Cynyddodd faint o nwyddau a gludir ar reilffyrdd y DU 10% yn 2010-11, a disgwylir i'r ffigur hwnnw ddyblu erbyn 2030, felly gallwn weld bod angen edrych yn ofalus ar yr agwedd honno ar ein rhwydweithiau. Rhaid i waith gael ei wneud gan Lywodraeth y DU i wella seilwaith rheilffyrdd yng nghyswllt cludo nwyddau. Mae wedi gwneud hyn yn Lloegr. Mae wedi cefnogi seilwaith rheilffyrdd i gefnogi porthladdoedd yn Lloegr. Mae'n hen bryd iddi ystyried cefnogi porthladdoedd yng Nghymru hefyd.

To conclude, I must stress that not all levers are with the Welsh Government. I support paragraph 1.94, which advocates the further devolution of powers to better shape and influence the sustainable development of ports and airports in the future. In support of this view, one need only look at the comments of Professor Stuart Cole in the report, where he described the UK ports policy as a 'perfectly good English policy'. We need Welsh ports to work for the Welsh economy, and that is what must happen.

I gloi, rhaid imi bwysleisio nad yw Llywodraeth Cymru yn rheoli pob elfen yn hyn o beth. Cefnogaf baragraff 1.94, sy'n cynghori bod angen datganoli rhagor o bwerau i lunio a dylanwadu ar ddatblygiad cynaliadwy porthladdoedd a meysydd awyr yn well yn y dyfodol. I gefnogi'r farn hon, nid oes ond angen edrych ar sylwadau'r Athro Stuart Cole yn yr adroddiad, lle y dywedodd fod polisi porthladdoedd y DU yn 'bolisi digon da i Loegr'. Mae angen inni gael porthladdoedd Cymru i weithio dros economi Cymru, a dyna beth sy'n rhaid digwydd.

**Eluned Parrott:** I, too, thank all those who took the time to engage with this important and timely inquiry, and I thank the clerks who supported us all. It is timely, of course, because this is a subject of great interest, not only here, but also at the other end of the M4. Following on from our inquiry, the UK Government's consultation on aviation is a great opportunity for the Welsh Government and for us as individual Assembly Members to make representations about aviation in Wales and to put our priorities on the UK record as well as here. For example, there is the possibility of devolving the air passenger duty, or, if not, of suggesting other ways of using the air passenger duty to pull flights away from south-east England's very overcrowded airspace and bring them to regional airports, perhaps avoiding the need for a third runway at Heathrow.

**Eluned Parrott:** Hoffwn innau hefyd ddiolch i bawb a gymerodd yr amser i fod yn rhan o'r ymchwiliad pwysig ac amserol hwn, a hoffwn ddiolch i'r clercod a'n cefnogodd ni i gyd. Mae'n amserol, wrth gwrs, gan fod hwn yn bwnc sydd o ddiddordeb mawr, nid yn unig yma, ond hefyd ar ben arall yr M4. Yn dilyn ymlaen o'n hymchwiliad, mae ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar hedfan yn cynnig cyfle gwych i Lywodraeth Cymru ac i ni fel Aelodau Cynulliad unigol wneud sylwadau am y diwydiant hedfan yng Nghymru ac i nodi ein blaenoriaethau i Lywodraeth y DU yn ogystal ag yma. Er enghraifft, ceir y posibilrwydd o ddatganoli toll y teithwyr awyr, neu, os nad felly, o awgrymu ffyrdd eraill o ddefnyddio toll y teithwyr awyr i ddenu teithiau hedfan oddi wrth ofod awyr hynod brysur de-ddwyrain Lloegr a dod â hwy i feysydd awyr rhanbarthol, a thrwy hynny osgoi'r angen am drydedd rhedfa yn Heathrow o bosibl.

This debate is timely, too. As has already been mentioned by Byron, since the publication of our report, we have learned that Cardiff Airport has reported a loss and that the Swiss airline Helvetic will not return to Cardiff next year.

Mae'r ddadl hon yn amserol, hefyd. Fel y crybwyllwyd eisoes gan Byron, ers cyhoeddi ein hadroddiad, rydym wedi cael gwybod bod Maes Awyr Caerdydd wedi cyhoeddi iddo wneud colled ac na fydd y cwmni hedfan Helvetic o'r Swistir yn dychwelyd i Gaerdydd y flwyddyn nesaf.

My party and I strongly believe that Cardiff Airport has great potential to establish a firm footing for itself, but I have been disappointed, I must confess, by the Government's rhetoric over this past year. I believe that the Government needs to look more closely at how people access the airport, working with Arriva Trains Wales, Cardiff Bus and other providers to improve transport links to and from the airport. Why does the bus link from Cardiff, a distance of 12 miles, take the best part of an hour, and why, on Sundays, is there only one train every two hours to Cardiff?

Mae fy mhlaid a minnau yn credu'n gryf bod gan Faes Awyr Caerdydd botensial mawr i ymsefydlu a ffynnu, ond rwyf wedi cael fy siomi, rhaid imi gyfaddef, gan rethreg y Llywodraeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Credaf fod angen i'r Llywodraeth edrych yn fanylach ar sut y mae pobl yn cyrraedd y maes awyr, gan weithio gyda Trenau Arriva Cymru, Bws Caerdydd a darparwyr eraill i wella cysylltiadau cludiant i'r maes awyr ac oddi yno. Pam bod y cyswllt bws o Gaerdydd, sef pellter o 12 milltir, yn cymryd bron awr, a pham, ar ddydd Sul, mai dim ond un trên bob dwy awr sydd i Gaerdydd?

The establishment of the airport taskforce was welcomed by all, and I look forward to seeing its work progress. However, the airlines need to be consulted on future development, too. Some of the most compelling evidence the committee heard on route development came, unsurprisingly, from the airlines, which were very open and willing to engage with us. If we want to develop new routes, it is the airlines that we will have to negotiate with, and I would welcome their inclusion in the membership of the taskforce. Indeed, I believe that it was a serious oversight not to include them in the first instance.

Croesawyd y penderfyniad i sefydlu tasglu'r maes awyr gan bawb, ac edrychaf ymlaen at weld ei waith yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, mae angen inni ymgynghori â'r cwmnïau hedfan ar ddatblygiadau yn y dyfodol, hefyd. Y cwmnïau hedfan, ac nid yw hynny'n syndod, a gyflwynodd rywfaint o'r dystiolaeth fwyaf cymhellol a glywodd y pwyllgor ar ddatblygu llwybrau, ac roeddent yn agored iawn ac yn barod i siarad â ni. Os ydym am ddatblygu llwybrau newydd, rhaid cyd-drafod â'r cwmnïau hedfan, a byddwn yn croesawu eu gweld yn cael eu cynnwys fel aelodau o'r tasglu. Yn wir, credaf iddo fod yn gamgymeriad mawr i beidio â'u cynnwys yn y lle cyntaf.

The recommendations talk about the need to shout as loudly as possible about the current rules prohibiting state aid for airports such as Cardiff. That is true, but there are tools that are available to us now, and we must not use this one dead end as an excuse not to explore other paths that are available to us, such as marketing support, surface transport and those kinds of things. It is my firm hope that the taskforce will be one means of feeding new ideas to the Government. It is vital, however, that the group has been given firm strategic aims and knows what kind of flights would best support Wales's economic

Mae'r argymhellion yn sôn am yr angen i weiddi mor uchel â phosibl am y rheolau presennol sy'n gwahardd cymorth gwladwriaethol ar gyfer meysydd awyr fel Caerdydd. Mae hynny'n wir, ond mae pethau y gallwn eu gwneud yn awr, a rhaid inni beidio â defnyddio'r awgrym gwag hwn fel esgus i beidio ag archwilio'r llwybrau eraill sydd ar gael i ni, megis cymorth marchnata trafnidiaeth ar y ddaear a'r math hwnnw o bethau. Fy ngobaith mawr yw y bydd y tasglu yn un ffordd o fwydo syniadau newydd i'r Llywodraeth. Mae'n hanfodol, fodd bynnag, bod y grŵp wedi cael nodau strategol cadarn

strategy: not just flights that take tourists out of the country, but also those of overseas operators such as Vueling that bring tourists and businesspeople here. In this context, the loss of Helvetic is perhaps more serious for us as politicians than it is even for the airport as a business.

ac yn gwybod pa fath o deithiau fyddai orau i gefnogi strategaeth economaidd Cymru: nid dim ond teithiau hedfan sy'n mynd â thwristiaid allan o'r wlad, ond hefyd deithiau hedfan gweithredwyr tramor megis Vueling sy'n dod â thwristiaid a phobl fusnes yma. Yn y cyd-destun hwn, mae colli Helvetic o bosibl yn fwy difrifol inni fel gwleidyddion nag y mae hyd yn oed i'r maes awyr fel busnes.

Turning briefly to seaports, the road and rail links to our ports are vital, and I am sure that every Member here welcomes the UK Government's commitment to electrify not only the Great Western main line and the Valley lines, but also the relief sections of track, improving the possibility of moving our freight to and from places such as Ford in Bridgend, Aberthaw power station in the Vale, and Tata Steel in Port Talbot more effectively.

Gan droi'n fyr at borthladdoedd, mae'r cysylltiadau ffordd a rheilffordd â'n porthladdoedd yn hanfodol, ac rwyf yn siŵr bod pob Aelod yma yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i drydaneiddio, nid yn unig brif lein Great Western a rheilffyrdd y Cymoedd, ond hefyd y rheilffyrdd lliniaru, gan ei gwneud yn fwy tebygol y câi ein nwyddau eu symud yn fwy effeithiol i leoedd megis Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gorsaf bŵer Aberddawan yn y Fro, a Tata Steel ym Mhort Talbot ac oddi yno.

I hate to agree with you too often, David Rees, but I am going to on this occasion. Something that I would personally like in the next control period is to see more being done to get our freight off our crowded roads and onto our rail lines. We need to think about talking and liaising with the UK Government, building on the success that we have already had with the investment in our rail infrastructure. In particular, I would be interested in seeing how the EU's trans-European transport network, TEN-T, funding might be used to develop the strategic links to ports in west and north Wales.

Mae'n gas gennyf gytuno â chi yn rhy aml, David Rees, ond gwnaf hynny ar yr achlysur hwn. Un peth yr hoffwn ei weld yn y cyfnod rheoli nesaf yw mwy o ymgais i symud nwyddau oddi ar ein ffyrdd prysur a'u cludo ar ein rheilffyrdd. Mae angen inni feddwl am siarad a chydgysylltu â Llywodraeth y DU, gan adeiladu ar y llwyddiant yr ydym eisoes wedi'i gael gyda'r buddsoddiad yn ein seilwaith rheilffyrdd. Yn benodol, byddai gennyf ddiddordeb mewn gweld sut y gellid defnyddio cyllid rhwydwaith trafnidiaeth traws-Ewropeaidd yr UE, TEN-T, i ddatblygu'r cysylltiadau strategol â phorthladdoedd yng ngorllewin a gogledd Cymru.

Recommendation 15 of the report calls on the Welsh Government to clarify its intentions regarding enterprise zones, which include ports and airports, so that these can fully benefit, as mentioned by Nick Ramsay. Minister, I am particularly concerned about the progress of the St Athan enterprise zone and would welcome a progress report, if not today, then at the soonest possible opportunity. I have heard worrying reports about a lack of runway availability at St Athan itself preventing potential business opportunities, and I really would welcome your comments on that, if possible today.

Mae argymhelliad 15 yr adroddiad yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro ei bwriadau ynglŷn â'r ardaloedd menter, sy'n cynnwys porthladdoedd a meysydd awyr, fel y gall y rhain elwa'n llawn, fel y soniodd Nick Ramsay. Weinidog, rwyf yn pryderu'n arbennig am hynt ardal fenter Sain Tathan a byddwn yn croesawu adroddiad cynnydd, os nad heddiw, yna ar y cyfle cynharaf posibl. Rwyf wedi clywed adroddiadau sy'n achos pryder bod diffyg argaeledd rhedfeydd yn Sain Tathan ei hun yn rhwystro cyfleoedd busnes posibl, a byddwn yn wir yn croesawu eich sylwadau ar hynny, heddiw os oes

modd.

4.45 p.m.

Returning to the report, recommendation 18 calls on the Welsh Government to work with Careers Wales to develop a marketing plan to bring cruise ships into Welsh ports. It is something that is often overlooked as a potential avenue for business, but it is one that is important. England has done it, Scotland has done it, Northern Ireland and the Republic of Ireland have done it. Surely we are more beautiful than they are; we have so much beauty to show the world that, surely, it is time to follow their lead and make those kind of investments in the infrastructure for tourism around our beautiful coastline that will bring tourists here to Wales to spend their money.

Gan ddychwelyd at yr adroddiad, mae argymhelliad 18 yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Gyrfa Cymru i ddatblygu cynllun marchnata i ddod â llongau mordeithio i borthladdoedd Cymru. Mae'n rhywbeth sy'n cael ei anwybyddu'n aml fel ffynhonnell bosibl o fusnes, ond mae'n un bwysig. Mae Lloegr wedi gwneud hynny, mae'r Alban wedi gwneud hynny, mae Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon wedi gwneud hynny. Onid ydym yn fwy prydferth na hwy; mae gennym gymaint o harddwch i'w ddangos i'r byd, rhaid ei bod yn bryd inni ddilyn eu hesiampl a gwneud buddsoddiadau o'r fath yn y seilwaith ar gyfer twristiaeth o amgylch ein harfordir hardd a fydd yn dod â thwristiaid yma i Gymru i wario eu harian.

**Mohammad Asghar:** I am grateful for the opportunity to speak this afternoon on the report of the Enterprise and Business Committee on international connectivity through ports and airports in Wales. I welcome the committee's report. Welsh ports and airports are vital to the economic growth of Wales. It is vital therefore that the Welsh Government provides effective support for the development of both ports and airports to maximise their beneficial impact on businesses and tourism.

**Mohammad Asghar:** Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i siarad y prynhawn yma ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar gysylltedd rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr yng Nghymru. Croesawaf adroddiad y pwyllgor. Mae porthladdoedd a meysydd awyr Cymru yn hollbwysig i dwf economaidd Cymru. Mae'n hollbwysig felly bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth effeithiol i ddatblygu porthladdoedd a meysydd awyr fel ei gilydd er mwyn sicrhau'r budd mwyaf i fusnesau a thwristiaeth.

I wish to concentrate my remarks this afternoon on Cardiff Airport alone. It has the potential to become an international gateway for businesses and tourism. However, it is a matter of concern that the number of passengers travelling through Cardiff Airport has decreased. According to civil aviation statistics, 300,000 passengers were lost to this airport between 2000 and 2011. During the same period, Bristol Airport saw passenger numbers rise from 2.1 million to 5.7 million. What growth on the other side of the Bristol Channel. On this side, there is a disaster for aviation.

Yn fy sylwadau hoffwn ganolbwyntio y prynhawn yma ar Faes Awyr Caerdydd yn unig. Mae ganddo'r potensial i ddod yn borth rhyngwladol ar gyfer busnesau a thwristiaeth. Fodd bynnag, mae'n fater o bryder bod nifer y teithwyr sy'n teithio drwy Faes Awyr Caerdydd wedi gostwng. Yn ôl ystadegau hedfan sifil, collwyd 300,000 o deithwyr rhwng 2000 a 2011 i'r maes awyr hwn. Yn ystod yr un cyfnod, gwelodd Maes Awyr Bryste nifer y teithwyr yn cynyddu o 2.1 miliwn i 5.7 miliwn. Am dwf ar yr ochr arall i Fôr Hafren. Ar yr ochr hon, mae'n drychineb i'r diwydiant hedfan.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 4.46 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 4.46 p.m.*

A spokesperson for Cardiff Airport blamed airline capacity cuts and the termination of operations by low-cost airline BMI Baby. Last month, Swiss airline Helvetic announced that it had ended flights from Cardiff to Zurich for the winter due to low passenger numbers. Its chief financial officer said that, while the leisure traffic out of Switzerland was more or less satisfactory, he was disappointed with the traffic out of Wales. In 2011, Cardiff Airport suffered an operating loss of £319,000 compared with profits of over £1 million the previous year. To address this sorry situation, the First Minister set up the Cardiff Airport taskforce, which aims to look at how the competitive situation of the airport can be improved through collaboration between its owners, the Welsh Government and the wider public sector and business communities. It is charged with delivering strategic initiatives and growing the airport, maximising its economic impact, and improving the experience of airport users. The taskforce includes representatives from various organisations—Cardiff Airport, the Vale of Glamorgan Council, CBI Wales, the Welsh Local Government Association, and the South Wales Chamber of Commerce. However, not one airline was represented at the inaugural meeting. What a surprise. The airlines are the backbone of running the airport, and yet they are not represented on the taskforce.

Rhoddodd llefarydd ar ran Maes Awyr Caerdydd fai ar doriadau yng nghapasiti cwmnïau hedfan a'r penderfyniad i roi terfyn ar weithrediadau cwmni hedfan cost isel BMI Baby. Fis diwethaf, cyhoeddodd Helvetic, cwmni hedfan o'r Swistir, ei fod wedi rhoi'r gorau i deithiau hedfan o Gaerdydd i Zurich yn ystod y gaeaf oherwydd y niferoedd isel o deithwyr. Dywedodd ei brif swyddog ariannol, er bod y traffig hamdden allan o'r Swistir fwy neu lai yn foddhaol, roedd yn siomedig gyda'r traffig allan o Gymru. Yn 2011, gwnaeth Maes Awyr Caerdydd golled gweithredol o £319,000 o'i gymharu ag elw o fwy na £1 filiwn y flwyddyn flaenorol. Er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa druenus hon, sefydlodd y Prif Weinidog dasglu Maes Awyr Caerdydd, sy'n anelu at edrych ar sut y gellir gwella sefyllfa gystadleuol y maes awyr drwy gydweithio rhwng ei berchnogion, Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus a chymunedau busnes yn fwy cyffredinol. Mae wedi cael y dasg o gyflawni mentrau strategol a datblygu'r maes awyr, sicrhau ei fod yn cael yr effaith economaidd fwyaf, a gwella profiad defnyddwyr y maes awyr. Mae'r tasglu yn cynnwys cynrychiolwyr o wahanol sefydliadau—Maes Awyr Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg, CBI Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Siambr Fasnach De Cymru. Fodd bynnag, ni chafodd yr un cwmni hedfan ei gynrychioli yn y cyfarfod agoriadol. Am syndod. Y cwmnïau hedfan yw asgwrn cefn rhedeg y maes awyr, ac eto nid ydynt yn cael eu cynrychioli ar y tasglu.

It has a difficult task ahead, but it is one made more difficult by the First Minister's own comments in March this year, when he said:

Mae ganddo dasg anodd o'i flaen, ond mae'n un anos yn sgil sylwadau'r Prif Weinidog ei hun ym mis Mawrth eleni, pan ddywedodd:

'I have to say that with the condition of the airport I would not want to bring people in through Cardiff airport because of the impression it would give of Wales'.

'Rhaid i mi ddweud, o ystyried cyflwr y maes awyr ar hyn o bryd, ni fyddwn am ddod â phobl i mewn drwy Faes Awyr Caerdydd, oherwydd yr argraff y byddai'n ei roi o Gymru'.

**David Rees:** Do you agree with me that the First Minister should be applauded because, following that comment, he actually set up the taskforce to look at Cardiff Airport and ensure that it gets to work properly for the people of Wales?

**David Rees:** A ydych yn cytuno â mi y dylai'r Prif Weinidog gael ei ganmol oherwydd, ar ôl gwneud y sylw hwnnw, aeth ati i sefydlu'r tasglu i ystyried Maes Awyr Caerdydd a sicrhau ei fod yn gweithio'n briodol ar ran pobl Cymru?

**Mohammad Asghar:** Of course, he must be disgusted himself—that is why he made those remarks, because the airport is not serving Wales properly. I tell my friends here that under the last Government, and the last Minister for the economy—and you can ask Ieuan Wyn Jones—when he was funding Cardiff Airport, I told him personally, off the record at the time, but on the record now, that he was wasting his money on Cardiff Airport. He cannot confirm it because he is not here. I said it more than three years ago, and this thing is coming up now. This money is still not doing anything, either. What this First Minister is doing is too little, too late.

**Mohammad Asghar:** Wrth gwrs, rhaid ei fod wedi diflasu ei hun—dyna pam y gwnaeth y sylwadau hynny, am nad yw'r maes awyr yn gwasanaethu Cymru'n briodol. Rwy'n dweud wrth fy ffrindiau yma, o dan y Llywodraeth ddiwethaf, a'r Gweinidog diwethaf dros yr economi—a gallwch ofyn i Ieuan Wyn Jones—pan oedd yn ariannu Maes Awyr Caerdydd, dywedais wrtho, yn breifat ar y pryd, ond yn gyhoeddus yn awr, ei fod yn gwastraffu ei arian ar Faes Awyr Caerdydd. Ni all gadarnhau hynny am nad yw yma. Dywedais hynny fwy na thair blynedd yn ôl, ac mae'r peth yn codi yn awr. Nid yw'r arian hwn yn gwneud gwahaniaeth o hyd. Mae'r hyn y mae'r Prif Weinidog hwn yn ei wneud yn rhy ychydig ac yn rhy hwyr.

As Martin Evans, visiting fellow of the University of Glamorgan Business School commented:

Fel y dywedodd Martin Evans, cymrawd gwadd yn Ysgol Fusnes Prifysgol Morgannwg:

'Public criticism of the airport doesn't help to attract new airlines or reassure existing airlines serving the airport. It is also a curious strategy to attract international investment.'

Nid yw beirniadu'r maes awyr yn gyhoeddus yn helpu i ddenu cwmnïau hedfan newydd nac yn rhoi sicrwydd i'r cwmnïau hedfan sy'n gwasanaethu'r maes awyr ar hyn o bryd. Mae hefyd yn strategaeth ryfedd i ddenu buddsoddiad rhyngwladol.

He added:

Ychwanegodd:

'Other international companies will view the criticism of a major international investor in our country and may well reconsider whether Wales offers a good environment to do business.'

Bydd cwmnïau rhyngwladol eraill yn ystyried y feirniadaeth o fuddsoddwr rhyngwladol mawr yn ein gwlad ac mae'n ddigon posibl y byddant yn ailystyried a yw Cymru yn cynnig amgylchedd da i gynnal busnes.

The lack of connectivity through major international hubs makes south Wales an unattractive location for international businesses. This report makes 19 recommendations, which I am pleased to see that the Welsh Government has accepted. The Welsh Government must now act. It is talking about land and sea, but I am sure that the airport should also be developed.

Mae'r diffyg cysylltedd trwy ganolfannau rhyngwladol mawr yn gwneud de Cymru yn lleoliad anneniadol i fusnesau rhyngwladol. Mae'r adroddiad hwn yn gwneud 19 o argymhellion, ac rwyf yn falch o weld bod Llywodraeth Cymru wedi'u derbyn. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu yn awr. Mae'n sôn am dir a môr, ond rwyf yn siŵr y dylai'r maes awyr hefyd gael ei ddatblygu.

**Andrew R.T. Davies:** I welcome the opportunity to contribute to this debate and I congratulate the committee, under the chairmanship of my colleague Nick Ramsay, on putting together a very comprehensive report. There is a lot of information in the report, which, to someone who was not on

**Andrew RT Davies:** Croesawaf y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon, a llongyfarchaf y pwyllgor, o dan gadeiryddiaeth fy nghyd-aelod, Nick Ramsay, ar lunio adroddiad cynhwysfawr iawn. Mae llawer o wybodaeth yn yr adroddiad, sydd, i rywun nad oedd yn aelod o'r pwyllgor, yn codi cryn dipyn o

the committee, poses quite a lot of questions.

gwestiynau.

I want to focus my thoughts in relation to this report on Cardiff Airport, which most of the contributions have been about, without forgetting the important angle in relation to ports. For example, Cardiff has tried to develop its initiatives around the cruise line market, and, in Anglesey, there are various initiatives. I was in Anglesey over the summer, and it was pleasing to see so many coachloads of people who had just disembarked from a cruise liner putting money into the local economy. However, given that I am a South Wales Central Member, it is important that my contribution focuses on Cardiff Airport and particularly on the issues that the Welsh Government has responded to and some of the evidence that the Minister has given. That evidence was given quite some time ago, so, hopefully, the Minister has had time to fill out some of the suggestions that she has put forward, including those, for example, about routes, which are contained in recommendation 2 on page 15. The Minister highlights the considerable work that has been undertaken by the Welsh Government in developing key strategic routes, therefore I would appreciate, as would the many people who are connected to the airport, if the Minister could enlarge on exactly what the Government defines as a strategic route for its economic priorities and inward investment, and which locations it would be able to support.

O ran yr adroddiad hwn hoffwn ganolbwyntio ar Faes Awyr Caerdydd, sef testun y rhan fwyaf o'r cyfraniadau, heb anghofio'r agwedd bwysig mewn perthynas â phorthladdoedd. Er enghraifft, mae Caerdydd wedi ceisio datblygu ei mentrau o ran marchnad y llongau mordeithio, ac, yn Ynys Môn, ceir mentrau amrywiol. Roeddwn ar Ynys Môn dros yr haf, ac roedd yn braf gweld cymaint o bobl mewn coetshys a oedd newydd ddod oddi ar long fordeithio yn rhoi arian i mewn i'r economi leol. Fodd bynnag, gan mai Aelod Canol De Cymru ydwyf, mae'n bwysig bod fy nghyfraniad yn canolbwyntio ar Faes Awyr Caerdydd ac yn enwedig ar y materion y mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb iddynt a rhywfaint o'r dystiolaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi. Rhoddwyd y dystiolaeth honno gryn amser yn ôl, felly, gobeithio bod y Gweinidog wedi cael amser i ymhelaethu ar rai o'r awgrymiadau a gyflwynwyd ganddi, gan gynnwys y rhai, er enghraifft, ynglŷn â llwybrau, a geir yn argymhelliad 2 ar dudalen 15. Mae'r Gweinidog yn tynnu sylw at y gwaith sylweddol a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran datblygu llwybrau strategol allweddol, felly byddwn yn gwerthfawrogi, fel y byddai nifer o bobl sy'n gysylltiedig â'r maes awyr, pe gallai'r Gweinidog ymhelaethu ar beth yn union mae'r Llywodraeth yn ei ddiffinio fel llwybr strategol ar gyfer ei blaenoriaethau economaidd a mewnfuddsoddi, a pha leoliadau y byddai'n gallu eu cefnogi.

What is really stark in this report is the decline in passenger numbers, but also, as my colleague from South West Wales Byron Davies touched on, the 98% decline in freight. That is almost off the Richter scale, given that only a small freight footprint is left at the airport. Any successful commercial airport needs to have a balance of commercial business and passengers. I do not accept the observation contained in the report, which was taken in evidence by the committee, about Cardiff Airport's inability to grow its freight business. Blame is put on the airport itself in that evidence, as the Minister for Local Government and Communities also did in his evidence. There needs to be a combination of agencies

Yr hyn sy'n amlwg iawn yn yr adroddiad hwn yw'r gostyngiad yn nifer y teithwyr, ond hefyd, fel y crybwyllodd fy nghyd-aelod o Dde-orllewin Cymru Byron Davies, mae'r gostyngiad o 98% mewn cludo nwyddau. Mae hynny bron â bod oddi ar raddfa Richter, o ystyried mai dim ond ôl-troed bach o ran busnes cludo nwyddau sy'n weddill yn y maes awyr. Mae angen i unrhyw faes awyr masnachol llwyddiannus gael cydbwysedd o fusnes masnachol a theithwyr. Ni dderbyniaf y sylw a geir yn yr adroddiad, a gafodd ei gymryd mewn tystiolaeth gan y pwyllgor, am anallu Maes Awyr Caerdydd i gynyddu ei fusnes cludo nwyddau. Rhoddir bai ar y maes awyr ei hun yn y dystiolaeth honno, fel y gwnaeth y Gweinidog dros Lywodraeth Leol

working together to promote planning consents in the area for warehousing and better transport links so that freight can move in a timely manner from the airport. The enormous capacity that exists at Cardiff Airport needs to be highlighted. It has one of the longest runways in the UK, it has a relatively modern terminal building and it has enormous potential to grow. Indeed, I believe that, around the airport, there are some 400 acres that have the potential to be developed. With the enterprise zone status that has just been granted, there is now a golden opportunity to pull those things together.

a Chymunedau hefyd yn ei dystiolaeth yntau. Mae angen cyfuniad o asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo caniatadau cynllunio yn yr ardal ar gyfer warysau a gwell cysylltiadau trafnidiaeth fel y gellir cludo nwyddau mewn modd amserol o'r maes awyr. Mae angen tynnu sylw at y capasiti enfawr a geir ym Maes Awyr Caerdydd. Mae ganddo un o'r rhedfeydd hiraf yn y DU, mae ganddo derfynfa gymharol fodern ac mae ganddo botensial enfawr i dyfu. Yn wir, credaf fod tua 400 o erwau a allai gael eu datblygu o amgylch y maes awyr. Gyda statws ardal fenter sydd newydd ei roi, mae cyfle euraidd bellach i dynnu'r pethau hynny ynghyd.

There is one other point on which I would like clarification from the Minister, which is the brand of Wales, on page 21 of the report. I know that the Minister has spoken at length about her thoughts on the brand of Wales. She talks about the fact that we need to get the brand right, and I fully appreciate the announcement that she and the First Minister made recently about a new marketing campaign next year. Therefore, given that announcement, is the Minister able to enlighten us today as to what she believes will be the new brand that will enliven the airport and get the passengers flowing through, given that successive campaigns regrettably have not achieved that passenger uptake that we all want to see.

Mae un pwynt arall yr hoffwn gael eglurhad yn ei gylch gan y Gweinidog, sef brand Cymru, ar dudalen 21 o'r adroddiad. Gwn fod y Gweinidog wedi sôn yn helaeth am ei syniadau ynghylch brand Cymru. Mae'n cyfeirio at y ffaith bod angen inni gael y brand yn iawn, a gwerthfawrogaf yn llwyr y cyhoeddiad a wnaed ganddi hi a'r Prif Weinidog yn ddiweddar am ymgyrch farchnata newydd y flwyddyn nesaf. Felly, o ystyried y cyhoeddiad hwnnw, a yw'r Gweinidog yn gallu ein goleuo heddiw am yr hyn y mae'n credu a fydd yn y brand newydd a fydd yn bywiogi'r maes awyr a chael y teithwyr i lifo drwyddo, o gofio nad yw ymgyrchoedd yn y gorffennol, gwaetha'r modd, wedi llwyddo i sicrhau'r cynnydd yn nifer teithwyr yr ydym ni i gyd am ei weld.

Transport links are mentioned on page 23. Bristol has a 10-minute shuttle bus service running night and day. Cardiff, as has been touched on by the Liberal Member for South Wales Central, has a two hourly service, and on weekends it does not operate. What on earth can people expect if they are a passenger and they have arrived tired or they want to get to somewhere in a relatively timely manner and are told that they have to wait two hours? Their booking psychology will lead them to the neighbouring airport of Bristol, every time. These are things that are not beyond us to rectify, and with a little bit of thought and joined-up thinking, and a little bit of seed-corn money to make sure that these developments are put in place, we can start offering a more attractive proposition.

Cyfeirir at gysylltiadau trafnidiaeth ar dudalen 23. Ym Mryste mae gwasanaeth bws gwennol yn rhedeg bob 10-munud ddydd a nos. Yng Nghaerdydd, fel y crybwyllodd yr Aelod Rhyddfrydol dros Ganol De Cymru, dim ond gwasanaeth bob dwy awr a geir, ac ar benwythnosau nid yw'n gweithredu. Beth ar y ddaear y gall pobl ei ddisgwyl os ydynt yn deithwyr ac wedi cyrraedd wedi blino neu eu bod am gyrraedd rhywle mewn modd cymharol gyflym ac yn cael gwybod bod yn rhaid iddynt aros ddwy awr? Bydd eu seicoleg archebu yn eu tywys i'r maes awyr cyfagos ym Mryste bob tro. Mae'r rhain yn bethau y gallwn eu hunioni, a chydag ychydig bach o feddwl a meddwl cydgysylltiedig, ac ychydig o arian ysgogi i sicrhau bod y datblygiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith, gallwn ddechrau cynnig

rhywbeth mwy atyniadol.

Finally, I will touch on the point about state aid rules on page 25. Professor Stuart Cole touches on the issue that there is scope to develop a state aid package that would enhance route development. I think that he refers to the come-to-Wales strategy. I was in Brussels in June, talking to EU officials about this. I have to say that I was slightly depressed by their response. It has been touched upon already that there has been a consultation in this field, but I just do not believe, from the responses that I was getting, that the officials I was dealing with understood regional airports and the need to increase capacity of regional airports in line with the hub concept that most transport analysts accept. However, I welcome the opportunity of this report being put into the public domain, and I look forward to the Minister's response.

Yn olaf, cyfeiriaf at y pwynt ynghylch rheolau cymorth gwladwriaethol ar dudalen 25. Mae'r Athro Stuart Cole yn crybwyll bod lle i ddatblygu pecyn cymorth gwladwriaethol a fyddai'n helpu i ddatblygu llwybrau. Credaf ei fod yn cyfeirio at y strategaeth dod-i-Gymru. Roeddwn ym Mrwsel ym mis Mehefin, yn siarad â swyddogion yr UE am hyn. Rhaid imi ddweud fy mod yn digalonni braidd o glywed eu hymateb. Mae wedi cael ei grybwyll eisoes i ymgynghoriad gael ei gynnal yn y maes hwn, ond o'r ymatebion a gefais ni chredaf fod y swyddogion yr oeddwn yn ymdrin â hwy yn deall meysydd awyr rhanbarthol na'r angen i gynyddu capasiti meysydd awyr rhanbarthol yn unol â'r cysyniad o ganolbwynt y mae'r rhan fwyaf o ddadansoddwyr cludiant yn ei dderbyn. Fodd bynnag, croesawaf y ffaith bod yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi, ac edrychaf ymlaen at ymateb y Gweinidog.

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** I am very pleased to respond to this debate. I very much welcome the Enterprise and Business Committee's report. The recommendations fall into a number of Government portfolios, but I am responding on behalf of the Government at this time.

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Rwyf yn falch iawn o gael ymateb i'r ddadl hon. Croesawaf yn fawr adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes. Mae'r argymhellion yn rhychwantu nifer o bortffolios y Llywodraeth, ond fi fydd yn ymateb ar ran y Llywodraeth ar hyn o bryd.

The report recognises that a large proportion of policy areas are non devolved and that ports and airports are privately owned. When I heard some of the comments from Byron Davies and Mohammad Asghar, I thought of how I am always told by certain parties in this Chamber that we do not want to interfere with the running of private enterprise and that we should let market forces play on. However, on this occasion, with regard to Cardiff Airport, I think that you are on my side of the house, and are of the belief that sometimes you have to intervene in market forces if you want to get the house in order. Therefore, I thank you very much for your support on that particular aspect. I am also grateful for the support of your leader, Andrew R.T. Davies, who also talked about the utilisation of public money to help with some of the issues around the airport, which I think was a very important and welcome

Mae'r adroddiad yn cydnabod bod cyfran fawr o feysydd polisi nad ydynt wedi'u datganoli a bod porthladdoedd a meysydd awyr yn eiddo preifat. Pan glywais rai sylwadau Byron Davies a Mohammad Asghar, meddyliais am sut y mae rhai pleidiau yn y Siambr hon yn dweud wrthyf drwy'r amser nad ydym am ymyrryd â rhedeg menter breifat ac y dylem roi pob rhyddid i rymoedd y farchnad. Fodd bynnag, ar yr achlysur hwn, o ran Maes Awyr Caerdydd, credaf eich bod ar fy ochr i, ac o'r farn bod yn rhaid ichi ymyrryd â grymoedd y farchnad weithiau os ydych am gael popeth mewn trefn. Felly, rwyf yn diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth ar yr agwedd benodol honno. Rwyf hefyd yn ddiolchgar am gefnogaeth eich arweinydd, Andrew RT Davies, sydd hefyd yn sôn am y defnydd o arian cyhoeddus er mwyn helpu gyda rhai o'r materion ynglŷn â'r maes awyr, a oedd, yn fy

point.

marn i, yn bwynt pwysig iawn i'w groesawu.

The majority of recommendations focus on using ports and airports as economic levers and on improving transport links to and from them. That fits closely with Welsh Government priorities and we are, therefore, able to accept in principle all of the recommendations in the report. In fact, work was already under way on the majority of the recommendations prior to the publication of the committee's report.

Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn canolbwyntio ar ddefnyddio porthladdoedd a meysydd awyr fel sbardun economaidd ac ar wella cysylltiadau trafnidiaeth iddynt ac oddi wrthynt. Mae hynny'n cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac felly gallwn dderbyn mewn egwyddor yr holl argymhellion yn yr adroddiad. Yn wir, roedd gwaith eisoes ar y gweill ar y rhan fwyaf o'r argymhellion cyn cyhoeddi adroddiad y pwyllgor.

I will turn now to some of the recommendations and the contributions made in the Chamber today. Recommendation 1 concerns influencing the aviation framework, and we are happy to accept this recommendation as we provided comments on the draft aviation framework prior to its publication. It was a very nice try from the Liberal Democrats' spokesperson to make the case for the third runway for Heathrow to be at Cardiff; I thought that we were edging towards that. However, there is a serious point behind her comments, because if another airport in the Thames estuary is established it will severely disadvantage Wales in terms of access from London centres, even if it is from Heathrow into Wales. So, there are major issues in that sense. That is why, with regard to policy regarding airports, we should look at what is available within the nation as a whole, and by that I mean developments within the United Kingdom.

Trof yn awr at rai o'r argymhellion a'r cyfraniadau a wnaed yn y Siambr heddiw. Mae argymhelliad 1 yn ymwneud â dylanwadu ar y fframwaith hedfan, ac rydym yn fodlon derbyn yr argymhelliad hwn gan inni wneud sylwadau ar y fframwaith hedfan drafft cyn iddo gael ei gyhoeddi. Chwarae teg i'r llefarydd dros y Democratiaid Rhyddfrydol am gyflwyno'r achos dros gael trydedd rhedfa Heathrow yng Nghaerdydd; roeddwn yn meddwl ein bod yn nesáu at hynny. Fodd bynnag, mae yna bwynt difrifol yn ei sylwadau, oherwydd os caiff maes awyr arall ei sefydlu ym moryd afon Tafwys bydd yn anfantais fawr i Gymru o ran mynediad o ganolfannau yn Llundain, hyd yn oed o Heathrow i Gymru. Felly, cyfyd materion pwysig yn hynny o beth. Dyna pam, o ran polisi ynghylch meysydd awyr, y dylem edrych ar yr hyn sydd ar gael yn y wlad gyfan, ac wrth hynny golygaf ddatblygiadau yn y Deyrnas Unedig.

Work relating to recommendations 2 and 4, on formulating a strategic approach to developing air transport in Wales and working with Cardiff Airport on its master plan, has been taken forward by the Cardiff Airport taskforce. David Rees is right: the taskforce was established to get advice from individuals that actually understood the industry and who were setting the direction of travel. We are working with them. We take our responsibilities, and our relationship with the airport, very seriously. We have seconded a senior member of staff into the airport to help it to establish those links and to understand how it is driving through and who it is talking to in terms of airlines, so that we can be on the front foot in that regard.

Mae tasglu Maes Awyr Caerdydd wedi ymgymryd â gwaith yn ymwneud ag argymhellion 2 a 4, ar lunio ymagwedd strategol tuag at ddatblygu trafnidiaeth awyr yng Nghymru a gweithio gyda Maes Awyr Caerdydd ar ei gynllun meistr. Mae David Rees yn llygad ei le: sefydlwyd y tasglu i gael cyngor gan unigolion a oedd wir yn deall y diwydiant ac a oedd yn pennu'r cyfeiriad yn y dyfodol. Rydym yn gweithio gyda hwy. Rydym yn cymryd ein cyfrifoldebau, a'n perthynas â'r maes awyr, o ddifrif. Rydym wedi secondio uwch aelod o staff i'r maes awyr er mwyn helpu i feithrin y cysylltiadau hynny ac i ddeall sut y mae'n mynd rhagddo a chyda phwy mae'n siarad o ran cwmnïau hedfan, fel y gallwn fod ar y droed flaen yn

hynny o beth.

In terms of transport links to the airport, we were able to accept in principle recommendations 5 and 6 on direct bus and train services, as work to consider the potential of these services is already under way in the Welsh Government with other key stakeholders.

O ran cysylltiadau trafnidiaeth â'r maes awyr, roeddem yn gallu derbyn mewn egwyddor argymhellion 5 a 6 ar wasanaethau bws a thrên uniongyrchol, gan fod gwaith i ystyried potensial y gwasanaethau hyn eisoes ar y gweill yn Llywodraeth Cymru ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol eraill.

I take on board the issues raised about rail transport, which must be long-term and costly. Do you have a shuttle service like other airports? It goes almost in a ring; you set down, pick up and go around. That is one of the key issues that will be looked at in further discussions.

Derbyniaf y materion a godwyd ynghylch trafnidiaeth rheilffyrdd, y mae'n rhaid ei bod yn hirdymor ac yn gostus. A oes gennych wasanaeth gwennol fel meysydd awyr eraill? Mae bron â bod yn gylch; rydych yn mynd â theithwyr yno, casglu teithwyr eraill a dychwelyd eto. Dyna un o'r materion allweddol a gaiff ei ystyried mewn trafodaethau pellach.

5.00 p.m.

A number of the recommendations related to our engagement with the UK Government, such as the recommendation on air passenger duty, recommendation 9 on ports policy and recommendation 13 on rail electrification. We are in regular contact with the UK Government on these areas and therefore we accept these recommendations. I am particularly pleased that Stephen Crabb now has responsibility for ports in his portfolio. I will certainly meet him quite shortly, I hope—diaries permitting—to discuss some of the port issues, particularly the issues relating to trust ports, which are controlled by the UK Government. It should be much easier to deal with trust ports, because they are owned by the state, as opposed to dealing with Associated British Ports, Stena or other port owners. However, I have to say that our relationship with the ports is improving, and I take on board the comments made by Byron Davies about how helpful ABP has been in discussions about developing the local economy.

Roedd nifer o'r argymhellion yn ymwneud â'n hymwneud â Llywodraeth y DU, megis yr argymhelliad ar doll teithwyr awyr, argymhelliad 9 ar bolisi porthladdoedd ac argymhelliad 13 ar drydaneiddio'r rheilffyrdd. Rydym mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r meysydd hyn ac felly derbyniwn yr argymhellion hyn. Rwy'n arbennig o falch bod Stephen Crabb bellach yn gyfrifol am borthladdoedd fel rhan o'i bortffolio. Byddaf yn sicr yn cyfarfod ag ef cyn hir. Gobeithiaf—os bydd ein dyddiaduron yn caniatáu—drafod rhai o'r materion ynglŷn â phorthladdoedd, yn enwedig y materion sy'n ymwneud â phorthladdoedd ymddiriedaeth, a reolir gan Lywodraeth y DU. Dylai fod yn llawer haws ymdrin â phorthladdoedd ymddiriedaeth, am eu bod yn eiddo i'r wladwriaeth, yn hytrach nag ymdrin ag Associated British Ports, Stena neu berchnogion porthladdoedd eraill. Fodd bynnag, rhaid imi ddweud bod ein perthynas â'r porthladdoedd yn gwella, a derbyniaf y sylwadau a wnaed gan Byron Davies ynghylch pa mor ddefnyddiol fu cyfraniad ABP mewn trafodaethau ar ddatblygu'r economi leol.

Recommendations 17 and 18 relate to the tourism aspects of ports, and we can accept these recommendations, because we are working around the Cruise Wales issue. I had

Mae argymhellion 17 a 18 yn ymwneud â'r agweddau ar borthladdoedd sy'n ymwneud â thwristiaeth, a gallwn dderbyn yr argymhellion hyn, am ein bod yn ymdrin â

a very good meeting with stakeholders who represented the ports and the link to local authorities regarding ways in which we could look at the potential of cruises for Wales; what ships could go where—which is quite important in terms of size—what further infrastructure developments we may be prepared to support, because it is not just about us, but about those who own the ports; and how we can link into what is offered. I was very pleased by what Byron Davies said about ABP, because it owns the whole range of south Wales ports. What might be suitable to go into one would not be suitable for another. On the other hand, if something goes into Swansea, the day-trippers could also benefit Cardiff. There are many economic issues there.

mater Cruise Cymru. Cefais gyfarfod da iawn â rhanddeiliaid a oedd yn cynrychioli'r porthladdoedd a'r cyswllt â'r awdurdodau lleol ynghylch sut y gallem edrych ar botensial mordeithiau i Gymru; pa longau sy'n gallu mynd ble—sy'n eithaf pwysig o ran maint—pa ddatblygiadau seilwaith y byddwn yn barod i'w cefnogi o bosibl, oherwydd mae a wnelo hyn nid yn unig â ni, ond â'r rhai sy'n berchen ar y porthladdoedd; a sut y gallwn sicrhau cysylltiad â'r hyn a gynigir. Roeddwn yn falch iawn o glywed sylwadau Byron Davies ynglŷn ag ABP, am ei fod yn berchen ar bob math o borthladd yn y de. Efallai na fyddai rhywbeth sy'n addas ar gyfer un porthladd yn addas ar gyfer un arall. Ar y llaw arall, os bydd rhywbeth yn glanio yn Abertawe, efallai y byddai Caerdydd hefyd yn cael budd o'r ymwelwyr undydd. Cyfyd llawer o faterion economaidd yn hyn o beth.

The other recommendations also cover energy and sustainability, and the importance of the renewable energy supply chain. This is very important. If you look at ports, they are able to bring in stuff and to manufacture, so we can see how useful this would be for renewables. There are many issues to be discussed on that. Therefore, it is very important that we recognise ports in respect of the energy supply chain. The importance of Welsh ports is identified, of course, as a key priority in the energy and environment sector framework.

Mae'r argymhellion eraill hefyd yn cynnwys ynni a chynaliadwyedd, a phwysigrwydd y gadwyn gyflenwi ynni adnewyddadwy. Mae hyn yn bwysig iawn. Os edrychwch ar borthladdoedd, gallant fewnforio pethau a gweithgynhyrchu, felly gallwn weld pa mor ddefnyddiol fyddai hyn o ran ynni adnewyddadwy. Mae llawer o faterion i'w trafod yn hynny o beth. Felly, mae'n bwysig iawn ein bod yn cydnabod porthladdoedd o ran y gadwyn cyflenwi ynni. Mae pwysigrwydd porthladdoedd Cymru yn cael ei nodi, wrth gwrs, fel blaenoriaeth allweddol yn fframwaith y sector ynni a'r amgylchedd.

Cardiff Airport seems to be the favourite topic today. We are looking at how to develop and promote the airport, increase the number of flights, expand the connections with other countries, improve the experience of passengers and boost economic investment. We have just approved a programme of work to rebrand and refresh the terminal ready for the summer schedule in 2013. On the wider branding issue, Andrew R.T., I would be happy to share in the next few weeks where we are going in relation to the wider branding of Wales.

Ymddengys mai Maes Awyr Caerdydd yw'r hoff bwnc heddiw. Rydym yn ystyried sut y gellid datblygu a hyrwyddo'r maes awyr, cynyddu nifer y teithiau hedfan, ymestyn y cysylltiadau â gwledydd eraill, gwella profiad teithwyr a hybu buddsoddiad economaidd. Rydym newydd gymeradwyo rhaglen waith i ailfrandio ac adnewyddu'r derfynell yn barod erbyn teithiau'r haf yn 2013. O ran y mater brandio ehangach, Andrew R.T., byddwn yn fwy na pharod i rannu gwybodaeth yn yr ychydig wythnosau nesaf ynghylch brandio ehangach Cymru.

We have also agreed to launch a new promotional marketing campaign for Wales and Welsh tourism in Barcelona, in Catalonia. We have an airline flying there

Rydym hefyd wedi cytuno i lansio ymgyrch farchnata hyrwyddol newydd i Gymru a thwristiaeth Cymru yn Barcelona, yng Nghatalonia. Mae gennym gwmni hedfan

and the campaign is about promoting tourism to Wales from visitors in Spain. Therefore, we will be having an advertising campaign on Catalan television to see whether we can improve that. That is quite an important step. I was very pleased to hear that the airline will be increasing its capacity to Wales by 35%.

sy’n hedfan yno ac mae’r ymgyrch yn ymwneud â hyrwyddo twristiaeth i Gymru ymhlith ymwelwyr o Sbaen. Felly, byddwn yn cynnal ymgyrch hysbysebu ar y teledu yng Nghatalonia i weld a allwn wella ar hynny. Mae hynny’n gam eithaf pwysig. Roeddwn yn falch iawn o glywed y bydd y cwmni hedfan yn cynyddu nifer yr ymwelwyr y gall eu cludo i Gymru o 35%.

My senior officials do everything they can, and we are also looking to strengthen ties with airlines that are currently based at Cardiff. I have noted the points about their inclusion in the taskforce, and that is a matter that I will refer to the First Minister. We are helping the airport to work much more closely with businesses to boost air freight. There is a real issue in this regard, because a number of companies have approached me to say that they would use Cardiff Airport if they were able to, et cetera. We have made these points to the airport. It is very important that we have more freight on certain routes. We also have to reinforce the excellent connections that we have with KLM into the European hub and look at what further European hubs could be considered.

Mae fy uwch swyddogion yn gwneud popeth o fewn eu gallu, ac rydym hefyd yn ystyried atgyfnerthu cysylltiadau â chwmnïau hedfan sydd wedi eu lleoli ar hyn o bryd yng Nghaerdydd. Rwyf wedi nodi’r pwyntiau am eu cynnwys yn y tasglu, ac mae hynny’n fater y byddaf yn ei gyfeirio at y Prif Weinidog. Rydym yn helpu’r maes awyr i weithio’n llawer agosach gyda busnesau i roi hwb i gludiant awyr. Mae yna broblem wirioneddol yn hyn o beth, am fod nifer o gwmnïau wedi dod ataf ac yn dweud y byddent yn defnyddio Maes Awyr Caerdydd pe baent yn gallu, ac ati. Rydym wedi codi’r pwyntiau hyn gyda’r maes awyr. Mae’n bwysig iawn ein bod yn sicrhau bod mwy o nwyddau yn cael eu cludo ar lwybrau penodol. Rhaid inni hefyd atgyfnerthu’r cysylltiadau ardderchog sydd gennym â KLM i’r ganolfan Ewropeaidd ac edrych ar ba ganolfannau Ewropeaidd pellach y gellid eu hystyried.

Individuals have made further points in the debate. If I can, I would like to refer to the contributions of Mick Antoniw and Leanne Wood, who referred to ownership issues. The question of who owned the airport was very interesting, and local authorities elsewhere continue to own airports. That has allowed them, collectively, within the English regions, to make a success of their airports. We have to understand the potential nature of any partnership. There are issues, particularly with regard to state aid rules, but these are issues that we understand and are aware of. The points made by Leanne and Mick were particularly well made in that regard.

Mae unigolion wedi gwneud pwyntiau pellach yn y ddadl. Os caf, hoffwn gyfeirio at gyfraniadau Mick Antoniw a Leanne Wood, a gyfeiriodd at faterion a oedd yn ymwneud â pherchnogaeth. Roedd y cwestiwn ynglŷn â phwy sy’n berchen ar y maes awyr yn ddiddorol iawn, ac mae awdurdodau lleol mewn mannau eraill yn parhau i fod yn berchen ar eu meysydd awyr eu hun. Mae hynny wedi eu galluogi, ar y cyd, o fewn rhanbarthau Lloegr, i sicrhau llwyddiant eu meysydd awyr. Rhaid inni ddeall natur bosibl unrhyw bartneriaeth. Cyfyd materion, yn enwedig mewn perthynas â rheolau cymorth gwladwriaethol, ond mae’r rhain yn faterion yr ydym yn eu deall ac yn ymwybodol ohonynt. Mae’r pwyntiau a wnaed gan Leanne a Mick yn rhai arbennig o dda yn hynny o beth.

If we look at some of the wider issues that arose from David Rees’s contribution about some of the capacity issues, we will see that

Os edrychwn ar rai o’r materion ehangach a gododd yng nghyfraniad David Rees am rai o’r materion o ran capasiti, gwelwn fod y

these are also very important to the development of our strategies in these areas.

rhain hefyd yn bwysig iawn i ddatblygiad ein strategaethau yn y meysydd hyn.

I will follow up on all of the comments made in the debate, but I would like to say what a constructive report this has been in bringing together the various arguments and points. That is certainly the case from my point of view, as the Minister with responsibility for the economy. If the Chair was indeed extending an invitation earlier to scrutinise how I will take forward my points in the new year, I would be delighted to appear before the committee and explain to Members how we are taking this report forward.

Byddaf yn ymdrin â'r holl sylwadau a wnaed yn y ddadl, ond hoffwn nodi pa mor adeiladol fu'r adroddiad hwn o ran dwyn ynghyd yr amryw ddadleuon a phwyntiau. Mae hynny'n sicr yn wir o'm safbwynt i, fel y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros yr economi. Os oedd y Cadeirydd wir yn estyn gwahoddiad yn gynharach i graffu ar y ffordd y byddaf yn gweithredu ar fy mhwyntiau yn y flwyddyn newydd, byddwn yn falch iawn o ymddangos gerbron y pwyllgor ac egluro i Aelodau sut yr ydym yn gweithredu ar yr adroddiad hwn.

**Nick Ramsay:** I thank all Assembly Members who contributed to the debate and who engaged overall with this committee inquiry into ports and airports. I think that I speak for all members of the committee in saying that it was a fascinating inquiry. It was also interesting to see the extent to which a number of different organisations from different backgrounds engaged with us. I do not think that I would be going too far in saying that some of the evidence received by the inquiry was the best that any committee that I have been involved in over the years has received in terms of its clarity and focus.

**Nick Ramsay:** Hoffwn ddiolch i bob Aelod Cynulliad a gyfrannodd at y ddadl ac a oedd yn ymwneud yn gyffredinol â'r ymchwiliad hwn gan bwyllgor i borthladdoedd a meysydd awyr. Credaf fy mod yn siarad ar ran holl aelodau'r pwyllgor wrth ddweud ei fod yn ymchwiliad hynod ddiddorol. Bu hefyd yn ddiddorol gweld i ba raddau yr ymgysylltodd nifer o sefydliadau gwahanol o gefndiroedd gwahanol â ni. Ni chredaf mai gormodiaith fyddai dweud bod y dystiolaeth a roddwyd i'r ymchwiliad yn cynnwys y dystiolaeth orau i unrhyw bwyllgor yr wyf wedi bod yn ymwneud ag ef dros y blynyddoedd o ran eglurder a ffocws.

Part of the complexity of this inquiry was because we had to deal with an issue—ports and airports—that was not devolved, and with two Ministers with responsibility for two of the large portfolio areas involved. That said, the committee recognised that there is a major role for the Welsh Government to play in supporting our ports and airports and their surrounding infrastructure. The committee also recognised that if we get this right, there will be major economic spin-offs through supporting road and rail infrastructure.

Un peth a gyfrannodd at gymhlethdod yr ymchwiliad hwn oedd y ffaith bod yn rhaid inni ymdrin â mater—porthladdoedd a meysydd awyr—nad oedd wedi'i ddatganoli, a chyda dau Weinidog sy'n gyfrifol am ddau o'r meysydd portffolio mawr dan sylw. Wedi dweud hynny, cydnabu'r pwyllgor fod rôl bwysig i Lywodraeth Cymru ei chwarae o ran cefnogi ein porthladdoedd a'n meysydd awyr a'r seilwaith o'u hamgylch. Cydnabu'r pwyllgor hefyd, os ydym yn gwneud hyn yn iawn, y bydd buddiannau economaidd mawr yn deillio o gefnogi'r seilwaith ffyrdd a rheilffyrdd.

Many Members spoke; I do not intend to refer to all their speeches, but I will pick out a couple of aspects. Eluned Parrott mentioned the issues with Cardiff Airport, and it was timely that, when we were conducting the inquiry, issues arose surrounding its ownership and future. As Eluned Parrott said, we need to look at firm strategic aims for the

Siaradodd nifer o Aelodau; ni fwriadaf gyfeirio at bob un o'u hareithiau, ond hoffwn ddewis un neu ddwy agwedd. Cyfeiriodd Eluned Parrott at y problemau gyda Maes Awyr Caerdydd, a bu'n amserol, wrth inni gynnal yr ymchwiliad, fod materion wedi codi ynghylch ei berchnogaeth a'i ddyfodol. Fel y dywedodd Eluned Parrott, mae angen

airport, and we need to know, moving forward, what it is for and what we hope to achieve. A number of organisations told the committee that people will only use Cardiff Airport if there are services offered that they want to use. We do not necessarily want to take people away from their traditional airports—such as Manchester and other airports. We want to develop a niche in Cardiff Airport. I am pleased that the Government and the First Minister are committed to looking at the future of Cardiff Airport.

inni edrych ar nodau strategol cadarn ar gyfer y maes awyr, ac mae angen inni wybod, gan symud ymlaen, beth yw ei ddiben a beth rydym yn gobeithio ei gyflawni. Dywedodd nifer o sefydliadau wrth y pwyllgor mai dim ond os cynigir gwasanaethau y maent am eu defnyddio y bydd pobl yn defnyddio Maes Awyr Caerdydd. Nid ydym o reidrwydd am ddenu pobl i ffwrdd oddi wrth eu meysydd awyr traddodiadol—fel Manceinion a meysydd awyr eraill. Rydym am ddatblygu marchnadoedd arbenigol ym Maes Awyr Caerdydd. Rwyf yn falch bod y Llywodraeth a'r Prif Weinidog wedi ymrwymo i ystyried dyfodol Maes Awyr Caerdydd.

Dave Rees spoke about the importance of connectivity in north and south Wales, and also about the need to develop road and rail infrastructure. We took evidence from organisations representing both aspects, and it was clear to the committee than neither on its own is capable of supporting our port and airport network. We clearly need to rely on road and rail and to develop those structures.

Soniodd Dave Rees am bwysigrwydd cysylltedd yn y gogledd a'r de, a hefyd am yr angen i ddatblygu seilwaith ffyrdd a rheilffyrdd. Cawsom dystiolaeth gan sefydliadau sy'n cynrychioli'r ddwy agwedd, ac roedd yn amlwg i'r pwyllgor nad yw'r naill na'r llall ar ei ben ei hun yn gallu cefnogi ein rhwydwaith o borthladdoedd a meysydd awyr. Mae'n amlwg bod angen inni ddibynnu ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd i ddatblygu'r strwythurau hynny.

Turning to the Minister's comments, as I said in my opening remarks, I am pleased that the Government has accepted 15 of the recommendations, and also accepted the key point that we made, namely that ports and airports can be used as a key economic driver. I liked what you said about developing the Cardiff Airport master plan, Minister. As Andrew R.T. Davies said, Cardiff Airport has many qualities that have not, perhaps, been utilised, but which, if we get this right, can be utilised in the future.

Gan droi at sylwadau'r Gweinidog, fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, rwyf yn falch bod y Llywodraeth wedi derbyn 15 o'r argymhellion, a hefyd yn derbyn y pwynt allweddol a wnaethpwyd gennym, sef y gall porthladdoedd a meysydd awyr gael eu defnyddio fel sbardun economaidd allweddol. Roeddwn i'n hoffi'r hyn a ddywedasoch am ddatblygu cynllun meistr Maes Awyr Caerdydd, Weinidog. Fel y dywedodd Andrew R.T. Davies, mae gan Faes Awyr Caerdydd nifer o rinweddau nad ydynt, o bosibl, yn cael eu defnyddio, ond a fydd, os ydym yn gwneud hyn yn iawn, yn gallu cael eu defnyddio yn y dyfodol.

A major point that the committee made in the inquiry was that the Welsh Government or the UK Government cannot do this alone—this will require a true partnership over the years to come, and we need close co-operation between the two levels of Government to get where we need to reach. A classic example of this is aviation policy. The airspace across the UK—and beyond—is one, so any Welsh air strategy has to fit in closely with the UK air strategy.

Un pwynt pwysig a wnaeth y pwyllgor yn yr ymchwiliad oedd na all Llywodraeth Cymru na Llywodraeth y DU wneud hyn ar ei phen ei hun—bydd angen partneriaeth wirioneddol dros y blynyddoedd i ddod, a bydd angen cydweithrediad agos rhwng y ddwy lefel o'r Llywodraeth i gyflawni'r hyn y mae angen inni ei gyflawni. Enghraifft glasurol o hyn yw polisi hedfan. Mae'r gofod awyr ar draws y DU—a thu hwnt—yn un, felly bydd yn rhaid i unrhyw strategaeth awyr i Gymru gyd-fynd

yn agos â strategaeth awyr y DU.

Minister, you followed up on Ken Skates's comments about tourism and developing the cruise market in Wales, Cruise Wales. It seems to be a wasted opportunity when, in some cases just a few miles down the road in ports in England, they are capitalising on the cruise market in a way that we have not been able to do in Wales in the past. I am pleased that you took Byron Davies's comments on board that, if you liaise with ABP and port authorities, capacity could be used to develop the cruise market in the future. You also touched on sustainability issues, which are of key importance to the committee in making sure that whatever development we have in the future is sustainable.

Weinidog, gwnaethoch ymdrin â sylw Ken Skates am dwristiaeth a datblygu'r farchnad fordeithio yng Nghymru, Cruise Cymru. Ymddengys fod cyfle yn cael ei golli, o ystyried, mewn rhai achosion, dim ond ychydig filltiroedd i ffwrdd mewn porthladdoedd yn Lloegr, eu bod yn manteisio ar y farchnad fordeithio mewn ffordd nad ydym wedi gallu ei wneud yng Nghymru yn y gorffennol. Rwyf yn falch ichi dderbyn sylwadau Byron Davies, os ydych yn cydgysylltu ag ABP ac awdurdodau porthladd, y gellid defnyddio adnoddau i ddatblygu'r farchnad fordeithio yn y dyfodol. Buoch hefyd yn sôn am faterion cynaliadwyedd, sydd o bwysigrwydd allweddol i'r pwyllgor o ran sicrhau bod pa ddatblygiadau bynnag a welwn yn y dyfodol yn gynaliadwy.

Finally, as I said at the start and as I have reiterated in this speech, this will require probably more co-operation than has happened in many other areas of Government policy; I mentioned aviation policy. I thank all Members who contributed to this debate. I thought that it was a fascinating debate, following on from the committee's fascinating inquiry. We will be watching closely to see that our recommendations are implemented and that we truly make the most of Welsh ports and airports as a means of driving the Welsh economy forward.

Yn olaf, fel y dywedais ar y cychwyn ac fel yr wyf wedi ailadrodd yn yr araith hon, bydd hyn fwy na thebyg yn gofyn am fwy o gydweithio nag sydd wedi digwydd mewn sawl maes arall o bolisi'r Llywodraeth; soniais am bolisi hedfan. Diolchaf i'r holl Aelodau sydd wedi cyfrannu at y ddadl hon. Bu'n ddadl ddiddorol yn fy marn i, gan ddilyn ymchwiliad hynod ddiddorol gan y pwyllgor. Byddwn yn gwylio'n ofalus i weld bod ein hargymhellion yn cael eu gweithredu a'n bod wir yn manteisio i'r eithaf ar borthladdoedd a meysydd awyr Cymru fel modd i sbarduno economi Cymru.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are none. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig
## Welsh Conservatives Debate

### Gofal Newyddenedigol
### Neonatal Care

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol

**The Deputy Presiding Officer:** I have

gwelliant 1 yn enw Aled Roberts.

selected amendment 1 in the name of Aled Roberts.

*Cynnig NDM5054 William Graham*

*Motion NDM5054 William Graham*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*The National Assembly for Wales:*

*1. Yn nodi'r pryderon a fynegwyd ledled Cymru ynghylch cynigion byrddau iechyd lleol ar gyfer dyfodol gofal newyddenedigol; ac*

*1. Notes the concerns expressed across Wales regarding local health board proposals for the future of neonatal care; and*

*2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*2. Calls on the Welsh Government to:*

*a) sicrhau y bydd gwasanaethau gofal newyddenedigol lefel 3 yn dal ar gael yng Ngogledd Cymru;*

*a) ensure that level 3 neonatal care services will continue to be available within North Wales;*

*b) sicrhau na fydd dim o'r gwasanaethau gofal newyddenedigol presennol yng Ngorllewin Cymru yn cael eu hisraddio; ac*

*b) ensure that none of the current neonatal services in West Wales are downgraded; and*

*c) sicrhau bod capasiti gwasanaethau gofal newyddenedigol lefel 3 yn Ne Cymru yn gallu diwallu'r galw.*

*c) ensure that the capacity of level 3 neonatal care services in South Wales are able to meet demand.*

**Darren Millar:** I move the motion.

**Darren Millar:** Cynigiaf y cynnig.

I am pleased to move this motion today, despite a desperate attempt to prevent it being debated.

Mae'n bleser gennyf gynnig y cynnig hwn heddiw, er gwaethaf ymdrech daer i'w atal rhag cael ei drafod.

The care of our smallest and sickest babies is a huge responsibility, and given that one in nine babies will spend time in a neonatal unit at some point, it is crucial that we get these services right. Before I go any further, I want to pay tribute to the doctors, nurses and hospital staff across the country who do a wonderful job of looking after small and sick babies in their care and supporting their families in what can be excruciatingly difficult times.

Mae gofalu am ein babanod lleiaf a mwyaf sâl yn gyfrifoldeb enfawr, ac o gofio y bydd un o bob naw o fabanod yn treulio amser mewn uned i'r newydd-anedig ar ryw bwynt, mae'n hanfodol ein bod yn darparu'r gwasanaethau cywir. Cyn imi fynd ymhellach, hoffwn dalu teyrnged i'r meddygon, y nyrsys a'r staff mewn ysbytai ar draws y wlad sy'n gwneud gwaith gwych yn gofalu am y babanod bach a sâl yn eu gofal ac yn cefnogi eu teuluoedd yn ystod yr hyn a all fod yn gyfnod anodd iawn.

No-one would disagree that all babies deserve the best possible start in life. They deserve care of the highest possible standards and we believe that this care should be provided as close to home as possible. However, health board proposals across Wales and damning admissions in the recently published report by the Children and Young People Committee clearly show that, for our sickest babies, those two values are at

Ni fyddai neb yn anghytuno bod pob baban yn haeddu'r dechrau gorau posibl mewn bywyd. Maent yn haeddu gofal o'r safon uchaf posibl a chredwn y dylai'r gofal hwn gael ei ddarparu mor agos i'w cartrefi â phosibl. Fodd bynnag, mae cynigion byrddau iechyd ar draws Cymru a chyfaddefiadau damniol yn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn dangos yn glir, ar gyfer ein babanod

risk. Across every unit in every health board in Wales, there is a shortfall of appropriately trained neonatal nurses and doctors. Shockingly, Bliss, the charity for small and sick babies, has given the stark warning that the critical nursing shortfall in particular is now putting babies' lives at risk. This can never be right in the twenty-first century.

mwyaf sâl, fod y ddau werth hynny mewn perygl. Ar draws pob uned ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru, mae prinder nyrsys a meddygon newyddenedigol sydd wedi'u hyfforddi'n briodol. Yn syfrdanol, mae Bliss, yr elusen ar gyfer babanod bach a sâl, wedi rhoi rhybudd llym bod y prinder difrifol o nyrsys yn arbennig bellach yn rhoi bywydau babanod mewn perygl. Ni all hyn fod yn iawn yn yr unfed ganrif ar hugain.

Neonatal services across Wales are in desperate need of more high-dependency and intensive care cots. These capacity issues are getting worse as a result of rising birth rates, medical advances, cotblocking and the failure of health boards to address staffing requirements. The result is that it is not unusual for babies to be transferred to hospitals many miles away from home to receive their treatment. As if this picture were not bleak enough, faced with record-breaking budget cuts of more than £0.5 billion, cash-strapped health boards have published proposals that threaten to downgrade services in some of our hospitals.

Mae angen dybryd am fwy o gotiau dibyniaeth uchel a gofal dwys ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol ar draws Cymru. Mae'r problemau hyn o ran capasiti yn dwysáu o ganlyniad i'r cynnydd mewn cyfraddau geni, datblygiadau meddygol, blocio cotiau a methiant byrddau iechyd i ymdrin â gofynion staffio ac, o'r herwydd, nid yw'n anarferol i fabanod gael eu trosglwyddo i ysbytai filltiroedd lawer i ffwrdd o gartref i gael triniaeth. Ac fel pe na bai'r darlun hwn yn ddigon digalon, mae byrddau iechyd sy'n brin o arian ac yn wynebu'r toriadau mwyaf erioed yn y gyllideb o fwy na £0.5 biliwn, wedi cyhoeddi cynigion sy'n bygwth israddio gwasanaethau mewn rhai o'n hysbytai.

In north Wales, the Betsi Cadwaladr University Local Health Board is proposing that complex neonatal intensive care, or level 3 services as they are also know, be moved to Arrowe Park Hospital on the Wirral. This would see a reduction in services at Glan Clwyd and Wrexham Maelor hospitals and mean that there would be no level 3 service at all for sick babies in north Wales. The proposal flies in the face of the health board's own clinical reference group, which indicated a preference for a single level 3 service to be based in the region. I have to say that I have nothing against north Wales patients being treated at hospitals in the north-west of England. In fact, I have argued strongly to maintain existing links with hospitals such as the Walton Centre and Alder Hey Hospital in this Chamber in the past. However, when it comes to transferring care to a hospital that has worse neonatal staffing ratios than the existing hospitals in north Wales, a hospital that itself does not meet the national neonatal standards, I am afraid that I have to draw the line.

Yn y gogledd, mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnig y dylai gofal dwys cymhleth i'r newydd-anedig, neu wasanaethau lefel 3 fel y'u gelwir, gael ei symud i Ysbyty Arrowe Park yng Nghilgwri. Byddai hyn yn arwain at lai o wasanaethau yn ysbytai Glan Clwyd a Maelor Wrecsam ac yn golygu na fyddai unrhyw wasanaeth lefel 3 o gwbl ar gyfer babanod sâl yn y gogledd. Mae'r cynnig yn mynd yn groes i sylwadau grŵp cyfeirio clinigol y bwrdd iechyd ei hun, a oedd yn ffafrio darparu un gwasanaeth lefel 3 yn y rhanbarth. Rhaid imi ddweud nad oes gennyf ddim byd yn erbyn cleifion o ogledd Cymru yn cael eu trin mewn ysbytai yng ngogledd-orllewin Lloegr. Yn wir, rwyf wedi dadlau'n gryf dros gynnal y cysylltiadau presennol ag ysbytai megis Canolfan Walton ac Ysbyty Alder Hey yn y Siambr hon yn y gorffennol. Fodd bynnag, os yw'n fater o drosglwyddo gofal i ysbyty sydd â chymarebau staffio gwaeth na'r ysbytai presennol yn y gogledd o ran gwasanaethau newyddenedigol, ysbyty nad yw'n bodloni'r safonau newyddenedigol cenedlaethol ei hun, mae arnaf ofn fod rhaid imi dynnu'r llinell.

It is no wonder that there has been an outcry across north Wales. Thousands have signed a petition raised by CUDDLES, Care Understanding Devotion to Duty for the Lives of the Extremely Small, a charity that supports baby care services at Ysbyty Glan Clwyd, for example. I want to take this opportunity to commend CUDDLES for the fantastic work that it has been doing in drawing attention to this issue. The charity has also undertaken research into travel times to Arrowe Park, which indicates that if a carless couple from Anglesey wanted to visit their baby, they would have to make an 8-hour trip on public transport that would cost around £40. I know that there is family accommodation at Arrowe Park, but this is not an option for parents who have other children to support and a living to earn. Then there is the issue of national identity. In some cases, mothers would be transferred to Arrowe Park to have their babies, denying them the choice of having their baby in Wales. This may not be an issue for all parents but it certainly is for some.

Nid yw'n syndod bod protestio yn y gogledd. Mae miloedd wedi llofnodi deiseb a luniwyd gan CUDDLES, Care Understanding Devotion to Duty for the Lives of the Extremely Small, elusen sy'n cefnogi gwasanaethau gofal babanod yn Ysbyty Glan Clwyd, er enghraifft. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ganmol CUDDLES am y gwaith gwych y mae wedi bod yn ei wneud i dynnu sylw at y mater hwn. Mae'r elusen hefyd wedi gwneud ymchwil i mewn i amseroedd teithio i Arrowe Park, sy'n dangos, pe bai cwpl heb gar o Ynys Môn yn awyddus i ymweld â'u baban, byddai'n rhaid iddynt wneud taith wyth awr ar drafnidiaeth gyhoeddus a fyddai'n costio tua £40. Gwn fod llety i deuluoedd yn Arrowe Park, ond nid yw hwn yn opsiwn i rieni sydd â phlant eraill i'w cefnogi a bywoliaeth i'w hennill. Yna ceir y mater o hunaniaeth genedlaethol. Mewn rhai achosion, byddai mamau yn cael eu trosglwyddo i Arrowe Park i gael eu babanod, gan olygu na fyddent yn cael y dewis o eni eu baban yng Nghymru. Efallai nad yw hyn yn broblem i bob rhiant, ond mae'n sicr yn broblem i rai.

More than 7,000 babies are born in north Wales each year and the birth rate is rising. That is a similar number to other areas in the north-west of England that are retaining their own level 3 intensive care neonatal units at their hospitals, as is the case in Burnley and Blackburn. If places such as Burnley and Blackburn are able to retain their services, the people of north Wales ought to be able to retain theirs. Betsi Cadwaladr health board must rethink its proposals.

Mae mwy na 7,000 o fabanod yn cael eu geni yn y gogledd bob blwyddyn ac mae'r gyfradd geni yn codi. Mae'r nifer hwnnw'n debyg i'r hyn a welir mewn ardaloedd eraill yng ngogledd-orllewin Lloegr sy'n cadw eu hunedau gofal dwys lefel 3 i'r newydd-anedig eu hunain yn eu hysbytai, fel sy'n wir yn Burnley a Blackburn. Os yw lleoedd megis Burnley a Blackburn yn gallu cadw eu gwasanaethau, dylai fod pobl yn y gogledd yn gallu cadw eu rhai nhw. Rhaid i fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr ailystyried ei gynigion.

5.15 p.m.

Services are also under pressure in west Wales. Many patients and clinicians are concerned that, under plans favoured by Hywel Dda Local Health Board, the neonatal unit at Withybush General Hospital could be downgraded to pave the way for the creation of a single level 2 service at Glangwili General Hospital. Hundreds of members of the public have spoken out against these proposals, and they have been angered enough to sign petitions and write to the local

Mae gwasanaethau hefyd o dan bwysau yn y gorllewin. Mae llawer o gleifion a chlinigwyr yn poeni y gallai'r uned i'r newydd-anedig yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg gael ei hisraddio o dan gynlluniau a ffefrir gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i baratoi'r ffordd ar gyfer creu un gwasanaeth lefel 2 yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili. Mae cannoedd o aelodau'r cyhoedd wedi siarad allan yn erbyn y cynigion hyn, ac maent wedi cael eu gwylltio ddigon i lofnodi deisebau ac

health board. Downgrading services at Withybush would increase travel times by up to 45 minutes. As we know, minutes can be the difference between life and death. Even nurses have spoken out to say that travel in an incubator to another unit could be disastrous.

ysgrifennu at y bwrdd iechyd lleol. Byddai israddio gwasanaethau yn Ysbyty Llwynhelyg yn cynyddu amseroedd teithio hyd at 45 munud. Fel y gwyddom, gall munudau olygu'r gwahaniaeth rhwng byw a marw. Mae hyd yn oed nyrsys wedi siarad allan i ddweud y gallai teithio mewn deorydd i uned arall fod yn drychinebus.

I visited both neonatal units last week. The staff there are dedicated and passionate about the services that they provide. However, what struck me was the clear message from senior clinicians on the health board that it is perfectly possible for the quality of existing services at Withybush to be maintained while still establishing a level 2 service in the area. The public is rightly concerned that if the baby unit closes, it will lead to salami-slicing of other services in the hospital, and it will not be long before other services that are interdependent on the neonatal service, such as paediatrics, go the same way. Of course, if the paediatric service goes, that will affect the A&E department.

Ymwelais â'r ddwy uned i'r newydd-anedig yr wythnos diwethaf. Mae'r staff yno yn ymroddedig ac yn teimlo'n angerddol am y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Fodd bynnag, yr hyn a wnaeth fy nharo i oedd y neges glir gan uwch glinigwyr ar y bwrdd iechyd ei bod yn gwbl bosibl cynnal ansawdd y gwasanaethau presennol yn Llwynhelyg a pharhau i fynd ati i sefydlu gwasanaeth lefel 2 yn yr ardal ar yr un pryd. Mae'r cyhoedd yn iawn i bryderu, os bydd yr uned babanod yn cau, y bydd hyn yn arwain at doriadau tameidiog i wasanaethau eraill yn yr ysbyty, ac ni fydd yn hir cyn i wasanaethau eraill sy'n gyd-ddibynnol ar y gwasanaeth newydd-anedig, megis pediatreg, wynebu'r un dynged. Wrth gwrs, os daw'r gwasanaeth pediatrig i ben, bydd hynny'n effeithio ar yr adran damweiniau ac achosion brys.

Moving on to south Wales, where health chiefs have just embarked upon an engagement exercise of their own on plans for NHS services in the region, alarm bells are already ringing. The health boards have raised the prospect of existing neonatal services at Nevill Hall, Royal Gwent and Singleton hospitals being for the chop. Obviously, these plans for south Wales may change as a result of the engagement programme that has just been embarked upon. However, when you consider that the region already sees a high number of births compared to other parts of Wales, with the University Hospital of Wales in Cardiff seeing over 6,000 births a year alone, for example, it is difficult to see how closing services will help the NHS to meet growing demands. It is, therefore, crucial that whatever the future configuration of neonatal services in the region, the capacity for hospitals to meet the care needs of small and sick babies must be increased, not decreased.

Gan symud ymlaen i'r de, lle mae penaethiaid iechyd newydd gychwyn ar ymarfer ymgysylltu eu hunain ar gynlluniau ar gyfer gwasanaethau'r GIG yn y rhanbarth, mae pobl eisoes yn poeni. Mae'r byrddau iechyd wedi codi'r posibilrwydd y bydd y gwasanaethau newyddenedigol presennol yn Ysbyty Nevill Hall, Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Singleton yn cael eu colli. Yn amlwg, gall y cynlluniau hyn ar gyfer y de newid o ganlyniad i'r rhaglen ymgysylltu sydd newydd gael ei rhoi ar waith. Fodd bynnag, pan ystyriwch fod y rhanbarth eisoes yn gweld nifer uchel o enedigaethau o gymharu â rhannau eraill o Gymru, gydag Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd yn gweld dros 6,000 o enedigaethau'r flwyddyn, er enghraifft, mae'n anodd gweld sut y bydd cau gwasanaethau yn helpu'r GIG i fodloni gofynion cynyddol. Felly, mae'n hanfodol, beth bynnag fydd cyfluniad gwasanaethau newyddenedigol yn y rhanbarth yn y dyfodol, fod gallu ysbytai i ddiwallu anghenion gofal babanod bach a sâl yn cynyddu, yn hytrach na gostwng.

The health boards have admitted that continued concerns over staffing make level 3 provision very difficult as it is, but uncertainty over the future of services is likely to make recruitment even more difficult in the short term. Unlike health boards in other parts of the country, those in south Wales deny that reconfiguration has anything whatsoever to do with the black hole in their finances. However, given that, collectively, the south Wales health boards are facing a huge gulf in their finances of around £200 million in the current financial year, and the fact that the independent Auditor General for Wales has indicated that this is a driver for reorganisation, the public will find this claim hard to believe. Attempting to hoodwink the public that a lack of cash is not an issue, undermines public trust in health boards, and NHS chiefs must realise that there needs to be an honest debate with them about the impact of cuts on front-line services.

Mae'r byrddau iechyd wedi cyfaddef bod pryderon parhaus ynghylch staffio yn gwneud darpariaeth lefel 3 yn anodd iawn fel y mae, ond mae ansicrwydd ynghylch dyfodol gwasanaethau yn debygol o wneud recriwtio hyd yn oed yn fwy anodd yn y tymor byr. Yn wahanol i fyrddau iechyd mewn rhannau eraill o'r wlad, mae'r rheini yn y de yn gwadu bod gan y broses ad-drefnu unrhyw beth o gwbl i'w wneud â'r twll du yn eu cyllid. Fodd bynnag, o gofio bod byrddau iechyd y de, gyda'i gilydd, yn wynebu bwlch enfawr o tua £200 miliwn yn eu cyllid yn y flwyddyn ariannol gyfredol, a'r ffaith bod Archwilydd Cyffredinol annibynnol Cymru wedi nodi bod hwn yn sbardun ar gyfer ad-drefnu, bydd y cyhoedd yn ei chael hi'n anodd credu'r honiad hwn. Mae ceisio twyllo'r cyhoedd i gredu nad yw prinder arian yn broblem yn tanseilio ymddiriedaeth y cyhoedd mewn byrddau iechyd, ac mae'n rhaid i benaethiaid y GIG sylweddoli bod angen trafodaeth onest gyda hwy am effaith y toriadau ar wasanaethau rheng flaen.

In closing, on this side of the Chamber we believe that every baby should be given the best possible start in life. We believe that by supporting our motion today, Assembly Members can demonstrate their commitment to ensuring that this is the case.

Wrth gloi, ar yr ochr hon i'r Siambr rydym o'r farn y dylai pob baban gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Credwn, drwy gefnogi ein cynnig heddiw, y gall Aelodau'r Cynulliad ddangos eu hymrwymiad i sicrhau bod hyn yn wir.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Dileu is-bwynt 2b a rhoi yn ei le:*

*Delete sub-point 2b and replace with:*

*sicrhau bod strategaeth ar waith er mwyn gweld gwasanaethau newyddenedigol yn gwella yng Ngorllewin Cymru.*

*ensure that a strategy is in place to see an improvement in neonatal services in West Wales.*

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** I move amendment 1 in the name of Aled Roberts.

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Cynigiaf welliant 1 yn enw Aled Roberts.

Pregnancy and childbirth should be one of the happiest of times for any family. During pregnancy, I am sure that many women do not give a great deal of thought to the availability of neonatal services. However, as Darren Millar says, unfortunately, one in nine babies will have to spend time receiving some kind of specialist provision. Things can change quickly: one minute you are told that you have a healthy baby girl and, minutes later, the midwives are literally running and

Dylai beichiogrwydd a genedigaeth plentyn fod yn un o'r amseroedd hapusaf i unrhyw deulu. Yn ystod beichiogrwydd, rwy'n siŵr nad yw llawer o fenywod yn meddwl rhyw lawer am argaeledd gwasanaethau newyddenedigol. Fodd bynnag, fel y dywed Darren Millar, yn anffodus, bydd un o bob naw baban yn gorfod treulio amser yn derbyn rhyw fath o ddarpariaeth arbenigol. Gall pethau newid yn gyflym: un funud rydych yn cael gwybod bod gennych ferch fach iach yna,

pushing red alarm bells, only for you to see your beautiful baby girl being carried off by paediatricians to the nearest special care baby unit. I was grateful to the staff in the SCBU at Nevill Hall Hospital for the care that they were able to give my middle daughter. Luckily for my family, her stay in the SCBU was rather short-lived and she was soon able to return to the ward and come home.

funudau yn ddiweddarach, mae'r bydwragedd yn llythrennol yn rhedeg ac yn gwthio clychau larwm coch, dim ond ichi weld pediatregwyr yn mynd â'ch merch fach hardd i'r uned gofal arbennig agosaf i fabanod. Roeddwn yn ddiolchgar i'r staff yn yr uned honno yn Ysbyty Nevill Hall am y gofal a roddwyd i'm merch ganol. Yn ffodus i'm teulu i, ni fu'n rhaid iddi aros yn hir yn yr uned ac, yn fuan, cafodd ddychwelyd i'r ward a dod adref.

I understand what a hugely emotive issue it is for many families when there is talk about moving the units in which their children have been cared for. However, what I also know is that every parent that I spoke to at the SCBU in Nevill Hall, as well as myself as a parent, would have travelled to the ends of the earth to get the care that their child needed, regardless of where that had been. The paramount thing at the forefront of my mind was that my little girl got well, that she got well quickly and that she had the staff, the cot and the qualified nurses to give her the care she needed. Too often, as we have heard in this Chamber, that is not the case in Welsh neonatal services. Too often, there is not a cot available and babies are shipped the entire length and breadth of the UK to find an available cot. Too often, the rotas are fragile to say the least and we do not have the number of specialist trained nurses that we need to provide the very best of care.

Deallaf fod y sôn am symud unedau lle mae plant wedi derbyn gofal yn fater emosiynol iawn i lawer o deuluoedd. Fodd bynnag, gwn hefyd y byddai pob rhiant y siaradais ag ef yn yr uned yn Nevill Hall, yn ogystal â mi fy hun fel rhiant, wedi teithio i ben draw'r byd i gael y gofal yr oedd ei angen, waeth ble roedd y gofal hwnnw. Y prif beth ar flaen fy meddwl oedd bod fy merch fach yn gwella, ei bod yn gwella'n gyflym a bod ganddi'r staff, y cot a'r nyrsys cymwys i roi'r gofal yr oedd ei angen arni. Yn rhy aml, fel rydym wedi clywed yn y Siambr hon, nid yw hynny'n wir am wasanaethau newyddenedigol yng Nghymru. Yn rhy aml, nid oes cot ar gael ac mae babanod yn cael eu cludo ar hyd a lled y DU er mwyn dod o hyd i got. Yn rhy aml, mae'r rotâu yn fregus a dweud y lleiaf, ac nid oes gennym y nifer o nyrsys hyfforddedig arbenigol sydd ei angen arnom i ddarparu'r gofal gorau posibl.

I know that my colleague, Aled Roberts, feels passionately about the issue in north Wales, so I will restrict my remarks to the issues in south and west Wales. I do not think that there is any difference between us, actually, except that I do not think that the current services available in west Wales are good enough. The health board acknowledges in its own document that a population of the size of the Hywel Dda area deserves a level 2 unit, which it does not have at present, and that it needs an enhanced obstetric care unit associated with that. I do not want to let Hywel Dda off the hook and not provide that unit. There is no reason why the development of such a unit needs to jeopardise the services at another hospital.

Gwn fod fy nghydweithiwr, Aled Roberts, yn teimlo'n angerddol am y mater yn y gogledd, felly cyfyngaf fy sylwadau i'r materion yn y de a'r gorllewin. Ni chredaf fod unrhyw wahaniaeth rhyngom ni, mewn gwirionedd, heblaw am y ffaith nad wyf o'r farn bod y gwasanaethau sydd ar gael yn y gorllewin ar hyn o bryd yn ddigon da. Mae'r bwrdd iechyd yn cydnabod yn ei ddogfen ei hun bod poblogaeth o faint ardal Hywel Dda yn haeddu uned lefel 2, uned nad oes ganddi ar hyn o bryd, a bod angen uned gofal obstetreg well arni hefyd. Nid wyf am weld Hywel Dda yn dianc rhag ei gyfrifoldeb drwy beidio â darparu'r uned honno. Nid oes unrhyw reswm pam y dylai'r gwaith o ddatblygu uned o'r fath beryglu'r gwasanaethau mewn ysbyty arall.

The body that represents neonatologists demonstrates that there is clear distinction between the training needed for a level 1

Mae'r corff sy'n cynrychioli neonatolegyddion yn dangos bod gwahaniaeth clir rhwng yr hyfforddiant sydd ei angen ar

service—which is usually provided by paediatricians, which are available in Withybush, and they should stay there—and the level 2 and 3 services, for which you need separate training paths. My only concern with the Hywel Dda problems is that ability to retain consultant-led obstetrics and paediatrics in each of the counties is covered in a little grey box that is dependent on the recruitment of the appropriate staff. What happens if they cannot recruit the appropriate staff? What happens to the services then? What happens to the services in west Wales if the south Wales plan does not talk to the west Wales plan? Currently, the west Wales plan is entirely predicated on the provision of a level 3 unit at Swansea, yet the south Wales plans talk about potentially reducing the provision in south Wales from the three units that currently exist in Swansea, Cardiff and Newport down to two. What happens to west Wales patients if the two units that are chosen are Newport and Cardiff? We need a comprehensive plan. It is not good enough to allow health boards to talk about these in relation. It simply does not work like that when you are talking about tertiary services.

gyfer gwasanaeth lefel 1—a ddarperir fel arfer gan bediatregwyr, sydd ar gael yn Llwynhelyg, a dylent aros yno—a gwasanaethau lefel 2 a 3, lle mae angen llwybrau hyfforddi ar wahân. Fy unig bryder o ran problemau Hywel Dda yw bod y gallu i gadw gwasanaethau obstetreg a phediatreg dan arweiniad ymgynghorwyr ym mhob un o’r siroedd yn cael ei gwmpasu mewn blwch bach llwyd sy’n dibynnu ar recriwtio staff priodol. Beth fydd yn digwydd os na allant recriwtio’r staff priodol? Beth fydd yn digwydd i’r gwasanaethau wedyn? Beth fydd yn digwydd i’r gwasanaethau yn y gorllewin os na fydd y cynllun yn y de yn siarad â’r cynllun yn y gorllewin? Ar hyn o bryd, mae cynllun y gorllewin wedi’i seilio’n gyfan gwbl ar ddarparu uned lefel 3 yn Abertawe, ac eto mae cynlluniau’r de yn nodi’r potensial i leihau’r ddarpariaeth yn y de o’r tair uned sy’n bodoli ar hyn o bryd yn Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd i lawr i ddwy. Beth fydd yn digwydd i gleifion yn y gorllewin os mai’r ddwy uned yng Nghasnewydd a Chaerdydd a ddewisir? Mae angen cynllun cynhwysfawr. Nid yw’n ddigon da i ganiatáu i fyrddau iechyd siarad am y cynlluniau hyn mewn perthynas â’i gilydd. Nid yw’n gweithio felly o safbwynt gwasanaethau trydyddol.

None of these plans talk about retrieval services and how you move sick babies and patients around. None of these plans address the issue of the shortage of specialist nurses. None of these plans address the issue of the shortage of therapy services that sit alongside nurses and doctors in the neonatal unit, and none of them address the ability of parents to stay with their children, which is crucial. If we are to have the neonatal services that our children and our parents deserve in this country, we need a national plan that looks not to preserve the status quo, but to change things for the better. I hope that this debate today gives us yet another opportunity to ram that home to this Government. Welsh babies deserve better.

Nid oes unrhyw un o’r cynlluniau hyn yn sôn am wasanaethau adfer a sut y caiff babanod sâl a chleifion eu symud o gwmpas. Nid oes yr un o’r cynlluniau hyn yn mynd i’r afael â phrinder nyrsys arbenigol. Nid oes yr un o’r cynlluniau hyn yn mynd i’r afael â phrinder gwasanaethau therapi a ddarperir ochr yn ochr â nyrsys a meddygon yn yr uned i’r newydd-anedig, ac nid oes yr un ohonynt yn mynd i’r afael â gallu rhieni i aros gyda’u plant, sy’n hanfodol. Os ydym am sicrhau bod gennym y gwasanaethau newyddenedigol y mae ein plant a’n rhieni yn eu haeddu yn y wlad hon, mae angen cynllun cenedlaethol sy’n anelu, nid i gadw pethau fel y maent, ond i newid pethau er gwell. Rwy’n gobeithio y bydd y ddadl hon heddiw yn rhoi cyfle arall eto inni bwysleisio hyn i’r Llywodraeth hon. Mae babanod Cymru yn haeddu gwell.

**Mark Isherwood:** Our call today to end plans to downgrade neonatal care services across Wales represents widespread and genuine public concern. As I left an open

**Mark Isherwood:** Mae ein galwad heddiw i roi terfyn ar gynlluniau i israddio gwasanaethau gofal newyddenedigol ar draws Cymru yn dangos y pryder eang a

public meeting in Prestatyn last Friday, local campaigners told me how much they hoped Labour would support our motion today. I have spoken at many open public meetings triggered by Betsi Cadwaladr University Local Health Board's proposed changes to healthcare in north Wales. Most of these meetings have been attended by the charity CUDDLES, which Darren referred to—it is a parent support group for the special care baby unit in Glan Clwyd Hospital. The open meeting in Wrexham, which Llyr Huws Gruffydd organised, was also attended by the charity Cherish, a parent support group for the special care baby unit at Wrexham Maelor Hospital. Each is campaigning against the proposed move of neonatal intensive care to Arrowe Park Hospital on the Wirral. I have attended these open public meetings precisely because they were open. Unfortunately, the health board has embargoed them and, instead, has run its own carefully managed closed meetings, but, as a GP told us, real public consultation and engagement means open meetings.

gwirioneddol a deimlir gan y cyhoedd. Wrth imi adael cyfarfod cyhoeddus agored ym Mhrestatyn ddydd Gwener diwethaf, soniodd ymgyrchwyr lleol wrthyf faint yr oeddent yn gobeithio y byddai Llafur yn cefnogi ein cynnig heddiw. Rwyf wedi siarad mewn llawer o gyfarfodydd cyhoeddus agored sydd wedi'u sbarduno gan newidiadau arfaethedig Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i ofal iechyd yn y gogledd. Mae'r elusen CUDDLES, y cyfeiriodd Darren ati—grŵp cefnogi rhieni ar gyfer yr uned gofal arbennig i fabanod yn Ysbyty Glan Clwyd—wedi bod yn bresennol yn y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd hyn. Roedd yr elusen Cherish—grŵp cefnogi rhieni ar gyfer yr uned gofal arbennig i fabanod yn Ysbyty Maelor Wrecsam—hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd agored yn Wrecsam, a drefnwyd gan Llyr Huws Gruffydd. Mae'r ddwy yn ymgyrchu yn erbyn y bwriad i symud gofal dwys i'r newydd-anedig i Ysbyty Arrowe Park yng Nghilgwri. Rwyf wedi mynychu'r cyfarfodydd agored hyn am y rheswm syml eu bod yn rhai agored. Yn anffodus, mae'r bwrdd iechyd wedi gosod embargo arnynt ac, yn hytrach, wedi bod yn rhedeg ei gyfarfodydd caeedig ei hun a reolir yn ofalus. Fodd bynnag, fel y dywedodd un meddyg teulu wrthym, mae ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd go iawn yn golygu cynnal cyfarfodydd agored.

We heard that if the neonatal intensive care services for north Wales's babies move to Arrowe Park Hospital, as proposed by the health board, expertise in our north Wales hospitals would diminish, transport costs would increase and any short-term cost savings to the health board would disappear once north Wales had lost its alternative provision.

Clywsom, pe bai'r gwasanaethau gofal dwys newyddenedigol ar gyfer babanod yn y gogledd yn symud i Ysbyty Arrowe Park, fel y cynigiwyd gan y bwrdd iechyd, y byddai'r arbenigedd yn ein hysbytai yn y gogledd yn lleihau, y byddai costau trafnidiaeth yn cynyddu ac y byddai unrhyw arbedion cost tymor byr i'r bwrdd iechyd yn diflannu unwaith y byddai'r gogledd yn colli ei darpariaeth amgen.

Our first child spent her first week in a special care baby unit and our last two children were born by emergency caesarean at Wrexham Maelor Hospital. Had the expertise not been available when the red lights started flashing, I was told that I could have lost both my wife and our first son.

Treuliodd ein plentyn cyntaf ei hwythnos gyntaf mewn uned gofal arbennig i fabanod a chafodd ein dau blentyn ieuengaf eu geni drwy doriad cesaraidd brys yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Pe na bai'r arbenigedd wedi bod ar gael pan ddechreuodd y goleuadau coch fflachio, dywedwyd wrthyf y gallwn fod wedi colli fy ngwraig a'n mab cyntaf.

The health board has stated that all three hospitals, including Bangor's Ysbyty

Mae'r bwrdd iechyd wedi datgan y bydd pob un o'r tri ysbyty, gan gynnwys Ysbyty

Gwynedd, will continue to provide immediate short-term intensive care as well as special care baby units and high-dependency units, but that a new service will be set up for babies needing further levels of care. It says that there are national standards for neonatal services in Wales and the UK and that our services do not meet those intensive care standards. At the public meetings, however, GPs told us that Arrowe Park does not currently meet these intensive care standards either. The health board tells us that only around 36 north Wales babies per year need referrals to intensive care units. Figures obtained by the charity CUDDLES reveal that 138 babies have been admitted to Glan Clwyd Hospital's neonatal special care baby unit alone so far this year, many of whom will require intensive care at some point, but, in future, that expertise will be lost.

Gwynedd ym Mangor, yn parhau i ddarparu gofal dwys tymor byr uniongyrchol yn ogystal ag unedau gofal arbennig ac unedau dibyniaeth uchel i fabanod, ond y bydd gwasanaeth newydd yn cael ei sefydlu ar gyfer babanod y mae angen lefelau ychwanegol o ofal arnynt. Dywed fod safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol yng Nghymru a'r DU ac nad yw ein gwasanaethau yn cyrraedd y safonau hynny ar gyfer gofal dwys. Yn y cyfarfodydd cyhoeddus, fodd bynnag, dywedodd meddygon teulu wrthym nad yw Arrowe Park yn cyrraedd y safonau gofal dwys hyn ychwaith ar hyn o bryd. Dywed y bwrdd iechyd wrthym mai dim ond tua 36 o fabanod o'r gogledd y mae angen eu cyfeirio at unedau gofal dwys bob blwyddyn. Mae ffigurau a gafwyd gan yr elusen CUDDLES yn datgelu bod 138 o fabanod wedi cael eu derbyn i'r uned gofal arbennig i fabanod newydd-anedig yn Ysbyty Glan Clwyd hyd yn hyn eleni, y bydd angen i lawer ohonynt gael gofal dwys ar ryw adeg, ond, yn y dyfodol, caiff yr arbenigedd hwnnw ei golli.

One constituent told me that, last November, she was rushed into Ysbyty Glan Clwyd where her baby daughter was born by caesarean at just 25 weeks, weighing just 1 pound 9 ounces. Her baby was in intensive care for 41 days. It was unbearable for her to think what it would have been like had she been transferred to Arrowe Park on the Wirral. She would not have been able to see her baby, because she was so ill. Her husband would have been torn between her daughter and her.

Dywedodd un etholwraig wrthyf, fis Tachwedd diwethaf, iddi gael ei rhuthro i Ysbyty Glan Clwyd lle ganed ei merch drwy doriad cesaraidd pan oedd ond yn 25 wythnos, ac ond yn pwyso 1 pwys 9 owns. Bu ei baban yn yr uned gofal dwys am 41 diwrnod. Ni allai feddwl sut byddai pethau wedi bod pe bai wedi cael ei throsglwyddo i Arrowe Park yng Nghilgwri. Ni fyddai wedi gallu gweld ei baban, oherwydd ei bod mor sâl. Byddai ei gŵr wedi gorfod dewis rhyngddi hi a'i merch.

As another constituent has said, there are three neonatal intensive care units in south Wales, and the proposal is that there should be none in north Wales. How can this be equitable? Currently, 7,500 babies are born in this area—enough to justify a neonatal intensive care unit in north Wales. The constituent said that Welsh citizens are being denied the right to be born in their own country if they are transferred in utero and if sick babies are transferred following their birth, the morbidity or mortality rates rise considerably, depending on the journey's length. This was the service provision in north Wales 25 years ago, why would the Welsh Government want to take such a backward step? Reducing neonatal service provision in north Wales will have a

Fel y dywedodd etholwr arall, mae yna dair uned gofal dwys i'r newydd-anedig yn y de, a'r cynnig yw na ddylai fod un yn y gogledd. Sut y gall hyn fod yn deg? Ar hyn o bryd, mae 7,500 o fabanod yn cael eu geni yn yr ardal hon—digon i gyfiawnhau uned gofal dwys i'r newydd-anedig yn y gogledd. Dywedodd yr etholwr nad yw dinasyddion Cymru yn cael arfer eu hawl i gael eu geni yn eu gwlad eu hunain os cânt eu trosglwyddo yn y groth ac, os caiff babanod sâl eu trosglwyddo ar ôl eu geni, mae'r cyfraddau morbidrwydd neu farwolaeth yn cynyddu'n sylweddol, yn dibynnu ar hyd y daith. Dyma'r gwasanaeth a ddarparwyd yn y gogledd 25 mlynedd yn ôl, pam y byddai Llywodraeth Cymru eisiau cymryd y fath gam yn ôl? Bydd gostwng y ddarpariaeth newyddenedigol yn y gogledd yn

catastrophic effect on training. No neonatal and paediatric medical trainings will be allocated to north Wales by the medical deaneries because of reduced clinical opportunities. As the current workforce retires, it will be difficult to employ good-quality staff because of poor career prospects and this also applies to nursing staff. A spiral of suboptimal service provision will result, and it will cost babies their lives. The constituent ended by saying that, unfortunately, it is not the Welsh Government that will pick up the pieces, but the unfortunate second-class citizens of north Wales who feel so disengaged from their Government.

cael effaith drychinebus ar hyfforddiant. Ni fydd unrhyw sesiynau hyfforddi newydd-anedig a phediatrig meddygol yn cael eu dyrannu i'r gogledd gan y deoniaethau meddygol oherwydd y ffaith bod llai o gyfleoedd clinigol ar gael. Wrth i'r gweithlu presennol ymddeol, bydd yn anodd cyflogi staff o safon oherwydd rhagolygon gyrfa gwael ac mae hyn yn berthnasol hefyd i staff nyrsio. Bydd hyn yn arwain at wasanaethau is na'r safon, a bydd bywydau babanod yn cael eu colli. Gorffennodd yr etholwr drwy ddweud nad Llywodraeth Cymru, yn anffodus, fydd yn gorfod delio â'r canlyniad ond, yn hytrach, ddinasyddion eilradd anffodus y gogledd sy'n teimlo eu bod wedi'u hymddieithrio cymaint oddi wrth eu Llywodraeth.

**Jenny Rathbone:** It is difficult, it seems, for the opposition to try to frame the terms of this debate without ratcheting up the emotions, and that is dangerous. It is important to state that children's lives are potentially being put at risk unless we are prepared to listen and absorb expert experience and the reality of the services that we face. The current situation in Betsi Cadwaladr health board area, as we heard in the Children and Young People Committee, is that we have 1.5 neonatal consultants serving three hospitals across a wide geographical area. I am not familiar with the Bexley and Burnley situation, but I would be surprised if the clinical standards in England are not as rigorous as they need to be in Wales. We are not talking about Zambia, where one in six babies die.

**Jenny Rathbone:** Ymddengys ei bod yn anodd i'r wrthblaid geisio llunio safbwynt y ddadl hon heb fynd yn emosiynol, ac mae hynny'n beryglus. Mae'n bwysig nodi y gallai bywydau plant gael eu rhoi mewn perygl oni bai ein bod yn barod i wrando a derbyn profiad arbenigol a realiti'r gwasanaethau a wynebwn. Y sefyllfa bresennol yn ardal bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr, fel y clywsom yn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, yw bod gennym 1.5 o ymgynghorwyr newyddenedigol yn gwasanaethu tri ysbyty ar draws ardal ddaearyddol eang. Nid wyf yn gyfarwydd â'r sefyllfa yn Bexley a Burnley, ond byddwn yn synnu pe na bai'r safonau clinigol yn Lloegr mor drylwyr ag y mae angen iddynt fod yng Nghymru. Nid sôn am Zambia ydym, lle mae un o bob chwe baban yn marw.

5.30 p.m.

Emotive language like 'up for the chop' and 'allowing babies to die' is really not helpful. It is absolutely clear that some babies do die. As we are constantly shifting the boundaries of what is possible in relation to very early gestation babies, some babies do die. It is important that we have an adult conversation about this with families, so that they realise that, if they have a very early gestation baby, their baby may die. However, its chances of being saved are much higher if there is a high-quality neonatal consultant to look after it.

Nid yw iaith gynhyrfiol fel 'rhoi'r fwyell ar rywbeth' a 'caniatáu i fabanod farw' yn ddefnyddiol o gwbl. Mae'n gwbl glir bod rhai babanod yn marw. Gan fod ffiniau'r hyn sy'n bosibl o ran babanod a enir yn gynnar iawn yn symud yn gyson, mae rhai babanod yn marw. Mae'n bwysig ein bod yn cael sgwrs aeddfed am hyn gyda theuluoedd, fel eu bod yn sylweddoli, os ydynt yn cael baban yn ystod cyfnod beichiogrwydd cynnar iawn, y gallai eu baban farw. Fodd bynnag, mae'r siawns y caiff bywyd y baban ei achub yn llawer uwch os oes ymgynghorydd o safon ym maes babanod newydd-anedig yn gofalu amdano.

**Darren Millar:** I am grateful to you for

**Darren Millar:** Rwy'n ddiolchgar ichi am

taking the intervention. I am also grateful for the lesson that you, as a south Wales Assembly Member, are giving me on the situation in the area in which I live and with which I am very familiar. The situation there is quite clear: the health board received advice from its own clinicians that recommended the retention of a service in north Wales. Therefore, I agree with you that we should listen to clinicians. Do you not accept that we should listen to them?

dderbyn yr ymyriad. Rwyf hefyd yn ddiolchgar am y wers rydych chi, fel Aelod Cynulliad de Cymru, yn ei rhoi imi ar y sefyllfa yn yr ardal lle'r wyf yn byw, ardal yr wyf yn gyfarwydd iawn â hi. Mae'r sefyllfa yno yn hollol glir: derbyniodd y bwrdd iechyd gyngor gan ei glinigwyr ei hun a oedd yn argymell y dylid cadw gwasanaeth yn y gogledd. Felly, rwy'n cytuno â chi y dylem wrando ar glinigwyr. Onid ydych yn derbyn y dylem wrando arnynt?

**Jenny Rathbone:** Yes. I have heard you make some remarks about services in south Wales. I am not criticising you for doing that, and I am therefore perfectly able to make some observations about services in north Wales, on which I have heard much evidence from Betsi Cadwaladr University Health Board and others.

**Jenny Rathbone:** Ydw. Rwyf wedi'ch clywed yn gwneud rhai sylwadau am wasanaethau yn y de. Nid wyf yn eich beirniadu am wneud hynny, ac felly mae gennyf berffaith hawl i wneud rhai sylwadau am wasanaethau yn y gogledd, yr wyf wedi clywed llawer o dystiolaeth amdanynt gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac eraill.

Kirsty Williams talked about the need for capacity to be increased—I beg your pardon, it was Darren Millar who said that capacity must be increased in all of these hospitals. That sounds like an attempt to conjure up resources that are simply not there. This is not just about cash. It is about capacity, and the numbers of people involved in any one instance. The number of children and mothers involved in this circumstance is tiny. That is where this is not just about cash; it is about competence. If there is a clinician who only deals with a particular clinical issue three times a year, they are not nearly as competent as someone who is dealing with that problem every single week. That is why the deaneries are saying that it is not possible for them to have training placements in places that simply do not have the capacity to give people the training that they need. Therefore, this is not about downgrading services. It is about upgrading services by reconfiguring them so that we have better outcomes for our babies.

Siaradodd Kirsty Williams am yr angen i gynyddu capsiti—maddeuwch imi, Darren Millar a ddywedodd fod yn rhaid cynyddu capasiti ym mhob un o'r ysbytai hyn. Mae hynny'n swnio fel ymgais i gael gafael ar adnoddau nad ydynt ar gael. Nid oes a wnelo hyn ag arian yn unig. Mae a wnelo â chapasiti, a nifer y bobl sy'n gysylltiedig ag unrhyw achos penodol. Mae nifer y plant a'r mamau sy'n gysylltiedig ag achosion o'r fath yn fach iawn. Dyna lle nad oes a wnelo hyn ag arian yn unig; mae a wnelo â chymhwysedd. Os oes clinigwr sydd ond yn delio â mater clinigol penodol deirgwaith y flwyddyn, nid yw'r clinigwr hwnnw hanner mor gymwys â rhywun sy'n delio â'r broblem honno bob wythnos. Dyna pam y dywed y deoniaethau nad yw'n bosibl iddynt drefnu lleoliadau hyfforddiant mewn llefydd sy'n methu rhoi'r hyfforddiant sydd ei angen ar bobl. Felly, nid oes a wnelo hyn ag israddio gwasanaethau. Mae a wnelo ag uwchraddio gwasanaethau drwy eu had-drefnu er mwyn sicrhau bod gennym ganlyniadau gwell ar gyfer ein babanod.

This most definitely has to be a 24-hour service. The days when babies were born to suit the golfing schedules of our obstetricians are absolutely long gone. Quite rightly, babies will arrive at any time of the day or night. That means that you need 24-hour consultant cover. Certainly, in south Wales,

Yn sicr, mae'n rhaid iddo fod yn wasanaeth 24-awr. Mae'r dyddiau pan roedd genedigaethau babanod yn cyd-fynd ag amserlenni golff ein hobstetryddion wedi hen ddarfod. Yn gwbl briodol, bydd babanod yn cyrraedd ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos. Mae hynny'n golygu bod angen sicrhau bod

the recommendation is that there is 24-hour consultant cover for level 2 and level 3 services. I therefore suggest that you think again and allow the public consultation to take place. Clearly, these need to be open public consultations, with everyone having access to the information, and, clearly, if services are not up to scratch in Arrowe Park Hospital, we have to think again about the detail. However, that is not the point here. You have wanted to tie the Assembly's hands and force it to make a decision on these very important services without allowing these consultations to go ahead and people to have their say and us to then reflect on what the expert opinion advises us to do.

meddygon ymgynghorol ar gael 24 awr y dydd. Yn sicr, yn y de, argymhellir bod meddygon ymgynghorol ar gael 24 awr y dydd ar gyfer gwasanaethau lefel 2 a lefel 3. Cynigiaf felly y dylech ailfeddwl a chaniatáu i'r ymgynghoriad cyhoeddus fynd rhagddo. Yn amlwg, mae angen i'r rhain fod yn ymgynghoriadau cyhoeddus agored, gyda phawb yn cael mynediad at y wybodaeth, ac, yn amlwg, os nad yw gwasanaethau yn cyrraedd y safon yn Ysbyty Arrowe Park, mae'n rhaid inni feddwl eto am y manylion. Fodd bynnag, nid dyna'r pwynt yma. Rydych wedi bod yn awyddus i glymu dwylo'r Cynulliad a'i orfodi i wneud penderfyniad ar y gwasanaethau pwysig iawn hyn heb ganiatáu i'r ymgynghoriadau hyn fynd rhagddynt ac i bobl ddweud eu dweud ac inni wedyn fyfyrio ar yr hyn y mae'r farn arbenigol yn ein cynghori i wneud.

**Paul Davies:** I am pleased to take part in this important debate this afternoon. Neonatal services are a huge concern for the people of west Wales, particularly for my constituents, in light of Hywel Dda Local Health Board's preferred option to close the special care baby unit at Withybush hospital. As has already been said, it is the local health board's preferred option to develop a level 2 neonatal unit at Glangwili hospital and close the current unit at Withybush. There has been overwhelming opposition to these plans from the people of Pembrokeshire. I fully accept that delivering health services in a rural area such as the one that I represent is hugely challenging. However, I believe that the Welsh Government must realise that a one-size-fits-all approach is not appropriate for all areas because, naturally, delivering health services in urban areas is totally different from delivering health services in rural areas. It is absolutely essential that the Welsh Government allow local health boards such as the Hywel Dda Local Health Board to develop a flexible model that fits in with people's specific needs in the Hywel Dda health board area. Our geography in Pembrokeshire must be taken into consideration, and that is why I have been pressing the Welsh Government to recognise our LHB as a special case when it comes to funding health services.

**Paul Davies:** Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon y prynhawn yma. Mae gwasanaethau newyddenedigol yn destun pryder mawr i bobl yn y gorllewin, yn enwedig ar gyfer fy etholwyr i, o ystyried yr opsiwn a ffefrir gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, sef cau'r uned gofal arbennig i fabanod yn Ysbyty Llwynhelyg. Fel y soniwyd eisoes, yr opsiwn a ffefrir gan y bwrdd iechyd lleol yw datblygu uned lefel 2 i fabanod newydd-anedig yn ysbyty Glangwili a chau'r uned bresennol yn Llwynhelyg. Bu gwrthwynebiad cryf i'r cynlluniau hyn gan bobl Sir Benfro. Derbyniaf yn llwyr fod darparu gwasanaethau iechyd mewn ardal wledig fel yr un yr wyf yn ei chynrychioli yn heriol iawn. Fodd bynnag, credaf fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sylweddoli nad yw un ateb yn briodol i bob ardal oherwydd, yn naturiol, mae darparu gwasanaethau iechyd mewn ardaloedd trefol yn gwbl wahanol i ddarparu gwasanaethau iechyd mewn ardaloedd gwledig. Mae'n gwbl hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn caniatáu i fyrddau iechyd lleol fel Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ddatblygu model hyblyg sy'n cyd-fynd ag anghenion penodol pobl yn ardal bwrdd iechyd Hywel Dda. Rhaid ystyried ein daearyddiaeth ni yn Sir Benfro, a dyna pam yr wyf wedi bod yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i gydnabod ein BILl fel achos arbennig o safbwynt ariannu gwasanaethau iechyd.

Clearly, the current special care baby unit at

Yn amlwg, mae'r uned gofal arbennig

Withybush provides life-saving services, and it is vital that this unit is not closed or relocated. I agree with the Member for Cardiff Central that we should be listening to professionals and to clinicians. Locally, we have heard from clinicians and staff how closing this unit would have a detrimental effect on the families of unborn babies in Pembrokeshire. Senior sister and unit manager of the special care baby unit, Linda Jones,

bresennol i fabanod yn Llwynhelyg yn darparu gwasanaethau sy'n achub bywydau, ac mae'n hanfodol nad yw'r uned hon yn cael ei chau na'u hadleoli. Cytunaf â'r Aelod dros Ganol Caerdydd y dylem fod yn gwrando ar weithwyr proffesiynol a chlinigwyr. Yn lleol, rydym wedi clywed gan glinigwyr a staff ynghylch sut y byddai cau'r uned hon yn cael effaith niweidiol ar deuluoedd babanod heb eu geni yn Sir Benfro. Dywedodd uwch nyrs a rheolwr yr uned gofal arbennig i fabanod, Linda Jones,

'who has worked at Haverfordwest for 27 years, said she and other staff members believe closing the unit is "unthinkable" for the county's families.'

'sydd wedi gweithio yn Hwlffordd ers 27 o flynyddoedd, ei bod hi ac aelodau eraill o staff o'r farn bod cau'r uned "y tu hwnt i amgyffred" teuluoedd yn y sir.'

Paediatric consultant at Withybush, Gustav vas Falco, said that

Dywedodd Gustav vas Falco, sy'n ymgynghorydd pediatrig yn Llwynhelyg,

'he had "grave reservations" about moving the special care baby unit from Haverfordwest.'

'fod ganddo "amheuon difrifol" ynghylch symud yr uned gofal arbennig i fabanod o Hwlffordd.'

Hywel Dda Local Health Board must listen seriously to the views of these medical professionals, as well as taking on board the views of the people of Pembrokeshire. I am told that, at a meeting with clinicians a few weeks ago, LHB senior management made it clear that it did not matter how many responses they received from the public during the consultation; it was made clear to them that the process is not a referendum. One can only ask, therefore, what the purpose of the consultation process is if the voices and opinions of local communities are not heard. Surely, consultation should be open, transparent and meaningful.

Mae'n rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wrando o ddifrif ar farn y gweithwyr meddygol proffesiynol hyn ac ystyried barn pobl Sir Benfro. Dywedir wrthyf, mewn cyfarfod â chlinigwyr ychydig wythnosau yn ôl, fod uwch reolwyr y Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei gwneud yn glir nad oedd ots faint o ymatebion a dderbynnir gan y cyhoedd yn ystod yr ymgynghoriad; cafodd ei wneud yn glir iddynt nad refferendwm yw'r broses. Rhaid gofyn, felly, beth yw pwrpas y broses ymgynghori os nad yw lleisiau a barn cymunedau lleol yn cael eu clywed. Oni ddylai'r broses ymgynghori fod yn agored, yn dryloyw ac yn ystyrlon.

**Jenny Rathbone:** You have told us the views of a particular paediatrician and a senior nurse; could you tell us the views of the neonatal consultants serving the babies and mothers in your area?

**Jenny Rathbone:** Rydych wedi sôn wrthym am farn pediatregydd penodol ac uwch nyrs; a allech sôn wrthym am farn yr ymgynghorwyr newydd-anedig sy'n gwasanaethu'r babanod a'r mamau yn eich ardal?

**Paul Davies:** The senior clinicians have made it absolutely clear that closing this unit at Withybush hospital would put lives at risk. It is as simple as that.

**Paul Davies:** Mae'r uwch glinigwyr wedi ei gwneud yn gwbl glir y byddai cau'r uned hon yn ysbyty Llwynhelyg yn rhoi bywydau mewn perygl. Mae mor syml â hynny.

Two weeks ago, I attended a public meeting to discuss the health board's reorganisation plans in Haverfordwest, along with 500 other

Bythefnos yn ôl, bûm mewn cyfarfod cyhoeddus i drafod cynlluniau ad-drefnu'r bwrdd iechyd yn Hwlffordd, ynghyd â 500 o

people who were concerned about the potential downgrading of services at Withybush hospital. There were certainly strong feelings aired in that room, particularly over the proposal to close this unit. The people of Pembrokeshire spoke loud and clear at that meeting on this issue, and the health board must now address their concerns. My constituents should not have to travel even further for life-saving services. Withybush's catchment area extends into deep rural areas. These areas have challenging transport links, and therefore travelling any distance to obtain emergency treatment would reduce the chances of survival. These are real risks for patients should services be centralised at any one site.

bobl eraill a oedd yn pryderu am y posibilrwydd o israddio gwasanaethau yn ysbyty Llwynhelyg. Yn sicr, mynegwyd teimladau cryf yn yr ystafell honno, yn enwedig ynghylch y cynnig i gau'r uned hon. Mynegodd pobl Sir Benfro eu barn yn glir ar y mater hwn yn y cyfarfod hwnnw, ac mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â'u pryderon yn awr. Ni ddylai fy etholwyr orfod teithio ymhellach fyth er mwyn cael gwasanaethau achub bywyd. Mae dalgylch Llwynhelyg yn ymestyn i ardaloedd gwledig anghysbell. Mae'r cysylltiadau trafnidiaeth yn yr ardaloedd hyn yn rhai heriol, ac felly byddai teithio unrhyw bellter i gael triniaeth frys yn lleihau'r siawns o oroesi. Byddai'r rhain yn risgiau gwirioneddol i gleifion pe bai gwasanaethau'n cael eu canoli ar un safle.

I agree with what the leader of the Welsh Liberal Democrats said about improving services in west Wales. However, clinicians have told me that establishing a level 2 high-dependency unit at Glangwili will not only lead to closing the SCBU at Withybush, but that additional staff would be needed to operate the new unit, which could then take staff away from other departments, such as paediatrics at Withybush, which, in turn, could lead to its closure also. Of course, a paediatrics department is essential to a district general hospital given that 25% of admissions to A&E are of children. Clearly, if paediatrics is taken away, then children could not be admitted to A&E, which could then make the A&E department unsustainable in the future.

Cytunaf â'r hyn a ddywedodd arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru am wella gwasanaethau yn y gorllewin. Fodd bynnag, mae clinigwyr wedi dweud wrthyf y byddai sefydlu uned dibyniaeth uchel lefel 2 yng Nglangwili nid yn unig yn arwain at gau'r uned gofal arbennig i fabanod yn Llwynhelyg, ond y byddai hefyd angen staff ychwanegol i weithredu'r uned newydd, a allai wedyn gymryd staff i ffwrdd oddi wrth adrannau eraill, megis pediatreg yn Llwynhelyg, a allai, yn ei dro, arwain at gau honno hefyd. Wrth gwrs, mae adran bediatreg yn hanfodol i ysbyty cyffredinol dosbarth o gofio mai plant sy'n cyfrif am 25% o'r derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys. Yn amlwg, pe bai'r adran bediatreg yn cael ei chau, yna ni allai plant gael eu derbyn i'r adran damweiniau ac achosion brys, a gallai hynny yn ei dro wneud yr adran honno'n anghynaliadwy yn y dyfodol.

**Kirsty Williams:** Will the Member give way?

**Kirsty Williams:** A wnaiff yr Aelod ildio?

**The Deputy Presiding Officer:** No. There is no time.

**Y Dirprwy Lywydd:** Na. Nid oes amser.

**Paul Davies:** Taking away a particular service from the district general hospital will certainly have a knock-on effect on the sustainability of other core essential services, and I hope that people will support our motion today.

**Paul Davies:** Bydd diddymu gwasanaeth penodol o'r ysbyty cyffredinol dosbarth yn sicr yn effeithio hefyd ar gynaliadwyedd gwasanaethau hanfodol craidd eraill, ac rwy'n gobeithio y bydd pobl yn cefnogi ein cynnig heddiw.

**Llyr Huws Gruffydd:** Rwy'n cefnogi'r

**Llyr Huws Gruffydd:** I support this motion.

cynnig hwn. Cyfeiriwyd yn gynharach at y ddeiseb a gasglwyd gan CUDDLES, sef y grŵp gwirfoddol elusennol sy'n cefnogi'r gwasanaethau hyn. Dros 4,000 o enwau sydd ar y ddeiseb hon, sydd bellach wedi cael ei chyflwyno i swyddfa'r Gweinidog. Mae hynny'n adlewyrchu'r teimlad cryf sydd nid yn unig yng ngogledd Cymru, ond, fel y clywsom, ar draws Cymru, o safbwynt y gwasanaethau allweddol hyn.

Reference was made earlier to the petition collected by CUDDLES, a voluntary charity group that supports these services. There are over 4,000 names on that petition, which has now been presented to the Minister's office. That reflects the strong feelings not only in north Wales, but, as we have heard, across Wales, about these crucial services.

Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, oherwydd mae angen i fwrdd iechyd Hywel Dda amddiffyn a gwella ei wasanaethau presennol, nid eu hisraddio. Mae'r achos dros newid heb ei wneud.

We will not be supporting the Liberal Democrat amendment, because Hywel Dda health board needs to protect and improve its current service, not to downgrade them. The case for change has not been made.

Yr hyn sydd yn fy mhoeni fwyaf fel Aelod o'r gogledd—byddaf i'n siarad o'r cyd-destun neu o'r safbwynt hwnnw rhan fwyaf—yw, fel yr ydym wedi ei glywed yn barod, yn ôl dogfen ymgynghorol Betsi Cadwaladr BILl, cyngor y *clinicians*, y bobl meddygol profesiynol, yw i gadw a datblygu gwasanaethau gofal dwys *neonatal* yn y gogledd. Y bwrdd iechyd sydd yn argymell y newidiadau hyn oherwydd, meddai, problemau staffio a chyllideb. Codais hyn ddoe, ac mae'n arwydd clir nad yw'r gwasanaeth iechyd—yng ngogledd Cymru, beth bynnag—yn cael ei arwain gan ystyriaethau meddygol, ond bellach mae'n cael ei arwain gan ystyriaethau cyllidebol ac adnoddau dynol. Nid dyna'r math o wasanaeth, rwy'n siŵr, sy'n rhoi iechyd a lles pobl Cymru'n gyntaf.

What concerns me most of all as a north Wales Member—I shall mostly speak from that context or point of view—is that, as we have heard already, according to Betsi Cadwaladr LHB's consultation document, the advice of the clinicians, the medical professionals, is to retain and develop neonatal intensive care services in north Wales. It is the health board that is recommending these changes, because, it says, of staffing and budget problems. I raised this yesterday, and it is a clear sign that the health service—in north Wales, anyway—is not being led by medical priorities, but rather by budgetary and resource considerations. That is not the type of service, I am sure, that puts the health and wellbeing of the people of Wales first.

Wrth symud yr unedau gofal dwys hyn allan o ogledd Cymru i Loegr, bydd y staff meddygol mwy arbenigol yn mynd hefyd. Felly, pwy fydd wrth llaw i ddelio ag achosion brys yng ngogledd Cymru? Mae'r bwrdd iechyd yn dweud y bydd babanod sydd arnynt angen gofal dwys yn cael eu sefydlogi yng ngogledd Cymru cyn cael eu trosglwyddo i Ysbyty Arrowe Park. Pa mor sicr a allem fod bydd y sgiliau angenrheidiol hynny wrth law? Mae unrhyw un sydd yn siarad â rhai o'r mamau sydd wedi bod yn cyfathrebu gyda fi ac eraill ohonoch dros yr wythnosau diwethaf, sydd wedi eistedd wrth got gofal dwys, yn methu gafael yn ei phlentyn newydd-anedig, yn gwylio pob anadl yn cael ei recordio ar fonitor, yn

In moving these intensive care units out of north Wales to England, the most specialist medical staff will go there too. Who, therefore, will be on hand to deal with emergency cases in north Wales? The health board says that babies who need intensive care will be stabilised in north Wales before being transferred to Arrowe Park Hospital. How sure can we be that those key skills will be to hand? Anyone who has talked to some of the mothers who have been talking to me and others of you over the past weeks, who have sat by an intensive care cot, not able to hold their newborn child, watching every breath being recorded on a monitor, will know full well how much of a risk it is to move a baby, just hours or days old, in that condition.

gwybod yn iawn cymaint o risg yw symud babi, oriau neu efallai dyddiau yn unig oed, yn y fath gyflwr.

Last November, Lucy Owen was rushed into Ysbyty Glan Clwyd. Her baby daughter, Beatrice Rose, was born by emergency caesarean section at just 25 weeks, weighing just 1lb 9oz. The baby was in a critical condition and was in intensive care for 41 days. She moved into a high-dependency unit for a further 31 days, then special care for 35 days. Eventually, she was allowed to come home, and she is now four months old.

Fis Tachwedd diwethaf, cafodd Lucy Owen ei rhuthro i mewn i Ysbyty Glan Clwyd. Cafodd ei merch fach, Beatrice Rose, ei geni drwy doriad cesaraidd brys yn 25 wythnos, ac yn pwyso dim ond 1 pwys 9 owns. Roedd y baban mewn cyflwr difrifol a threuliodd 41 diwrnod yn yr uned gofal dwys. Cafodd ei symud wedyn i'r uned dibyniaeth uchel am 31 diwrnod arall, ac yna i'r uned gofal arbennig am 35 diwrnod. Yn y pen draw, cafodd fynd adref, ac mae hi bellach yn bedwar mis oed.

Another baby, Elin, was carried full term, having had no problems during the pregnancy and none that presented themselves during labour. She was stillborn. Doctors called from the next-door special care baby unit to the labour ward resuscitated her and ventilated her immediately. She was to spend the next 11 days on life support and a further three weeks in special care. Without the immediate assistance of those doctors and the close proximity of the intensive care unit in the SCBU to the labour ward—and this is not emotive language, but the reality of the situation—Elin would have died. Beatrice Rose would have died. How many deaths will it take for Betsi Cadwaladr LHB to see sense? Currently, north Wales has 10 level 3 neonatal cots, while Arrowe Park has only six. Nursing care for neonatal intensive care babies in north Wales has a ratio of one nurse to one cot. In Arrowe Park, it is one nurse to two cots. Once north Wales has lost this service, there will be no going back; Arrowe Park can charge what it likes and costs will escalate. Who is to say that in a year or two the health authorities there might not decide to relocate services from Arrowe Park to elsewhere?

Cafodd baban arall, Elin, ei chario am y cyfnod llawn. Ni chafwyd unrhyw broblemau yn ystod y beichiogrwydd nac yn ystod y cyfnod esgor. Roedd hi'n farw-anedig. Aeth y meddygon a alwyd o'r uned gofal arbennig i fabanod drws nesaf i'r ward esgor ati i'w dadebru a'i hawyru ar unwaith. Treuliodd yr 11 diwrnod nesaf ar beiriant cynnal bywyd a thair wythnos arall yn yr uned gofal arbennig. Heb gymorth di-oed y meddygon hynny ac agosrwydd yr uned gofal dwys yn yr uned gofal arbennig i fabanod at y ward esgor—ac nid iaith emosiynol mohono, ond realiti'r sefyllfa—byddai Elin wedi marw. Byddai Beatrice Rose wedi marw. Faint o farwolaethau sydd eu hangen cyn i BILl Betsi Cadwaladr weld synnwyr? Ar hyn o bryd, mae gan y gogledd 10 cot lefel 3 ar gyfer babanod newydd-anedig, tra mai dim ond chwech sydd gan Arrowe Park. Mae gan ofal nyrsio ar gyfer babanod newydd-anedig mewn unedau gofal dwys yn y gogledd gymhareb o un nyrs i un cot. Yn Arrowe Park, mae'n un nyrs i bob dau got. Unwaith y bydd y gogledd wedi colli'r gwasanaeth hwn, ni fydd troi'n ôl; gall Arrowe Park godi'r hyn a fynno a bydd costau'n cynyddu. Pwy sydd i ddweud ymhen blwyddyn neu ddwy na fydd yr awdurdodau iechyd yno yn penderfynu adleoli gwasanaethau o Arrowe Park i rywle arall?

Why can we not pull out all the stops and show the ambition that we need to develop our own centres as centres of excellence in north Wales? Let us think about bringing patients in from England for a change, instead of the other way around, and let us bring cash into the Welsh NHS by doing that.

Pam na allwn fynd ati o ddifrif a dangos yr uchelgais sydd ei angen arnom i ddatblygu ein canolfannau ein hunain fel canolfannau rhagoriaeth yn y gogledd? Gadewch inni ystyried dod â chleifion i mewn o Loegr, yn hytrach na'r gwrthwyneb, a gadewch inni ddod ag arian i mewn i'r GIG yng Nghymru

Why can we not attach a research centre to the unit to attract additional funding from both public and private sectors, helping to solve some of the recruitment problems that we are hearing about? People follow the research money and the training. Let us link the research unit to several medical schools using ICT, video-conferencing, and so on. That way, we get several placements from students there. Let us sell Wales as a place in which to work based on our commitment to the traditions of the national health service, using the unpopular reforms in England as a recruiting tool.

drwy wneud hynny. Pam na allwn atodi canolfan ymchwil i'r uned er mwyn denu cyllid ychwanegol o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan helpu i ddatrys rhai o'r problemau recriwtio yr ydym yn clywed amdanynt? Mae pobl yn dilyn yr arian ymchwil a'r hyfforddiant. Gadewch inni gysylltu'r uned ymchwil â sawl ysgol feddygol gan ddefnyddio TGCh, fideo-gynadledda, ac yn y blaen. Fel hyn, cawn nifer o leoliadau gan fyfyrwyr yno. Gadewch inni werthu Cymru fel lle i weithio ynddo yn seiliedig ar ein hymrwymiad i draddodiadau'r gwasanaeth iechyd gwladol, gan ddefnyddio'r diwygiadau amhoblogaidd yn Lloegr fel offeryn recriwtio.

I also ask whether the Minister will honour her commitment, when she was re-elected as the Wrexham Assembly Member, to protect the special care baby unit in her own hospital. It is within the Minister's gift to stop this madness, and I ask her to do it and to do it now.

Gofynnaf hefyd a fydd y Gweinidog yn anrhydeddu'r ymrwymiad a wnaed ganddi, pan gafodd ei hail-ethol fel Aelod Cynulliad Wrecsam, i warchod yr uned gofal arbennig i fabanod yn ei hysbyty ei hun. Gall y Gweinidog atal y gwallgofrwydd hwn, a gofynnaf iddi wneud hynny ac i wneud hynny yn awr.

**Janet Finch-Saunders:** I feel compelled to take part in this debate. Darren Millar has eloquently made the case on an all-Wales basis, and I would like to continue with what has been eloquently said with regard to the north Wales aspects, and how concerned I am. Neonatal care is a very specific and advanced form of healthcare to which 4,000 vulnerable and fragile babies across Wales are admitted every year.

**Janet Finch-Saunders:** Teimlaf reidrwydd i gymryd rhan yn y ddadl hon. Mae Darren Millar wedi cyflwyno achos huawdl ar sail Cymru gyfan, a hoffwn barhau â'r hyn a ddywedwyd yn huawdl o ran yr agweddau ar y gogledd, a nodi pa mor bryderus ydwyf. Mae gofal i'r newydd-anedig yn ffurf benodol a datblygedig iawn ar ofal iechyd ac mae 4,000 o fabanod bregus ac agored i niwed ar draws Cymru yn derbyn y gofal hwnnw bob blwyddyn.

5.45 p.m.

One in nine new parents will go through the agonising experience of their baby being taken into neonatal care. This debate today recognises the benefits of strengthened localised and supported neonatal care services in all areas of Wales. However, I want to focus today on north Wales, particularly on the current proposal of the Betsi Cadwaladr University Local Health Board to move all level 3 intensive neonatal care to Arrowe Park Hospital on the Wirral. My contribution really is to ask the Minister for health please to get involved in the consultation and to have some dialogue with Betsi Cadwaladr. The concern that is

Bydd un o bob naw rhiant newydd yn mynd drwy'r profiad ingol o weld eu baban yn cael gofal mewn uned i'r newydd-anedig. Mae'r ddadl hon heddiw yn cydnabod manteision gwasanaethau gofal lleol atgyfnerthedig a gefnogir i'r newydd-anedig ym mhob rhan o Gymru. Fodd bynnag, rwyf am ganolbwyntio heddiw ar y gogledd, yn enwedig ar gynnig presennol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i symud yr holl ofal dwys lefel 3 i fabanod newydd-anedig i Ysbyty Arrowe Park yng Nghilgwri. Fy nghyfraniad i, mewn gwirionedd, yw gofyn i'r Gweinidog dros iechyd gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a chychwyn rhywfaint o ddeialog gyda Betsi

resonating across north Wales on this issue alone is not scaremongering, it is fact.

Cadwaladr. Nid codi bwganod mo'r pryder sy'n atseinio ar draws y gogledd o ran y mater hwn, mae'n ffaith.

**Jenny Rathbone** *rose*—

**Jenny Rathbone** *a gododd*—

**Janet Finch-Saunders:** No, I will not give way.

**Janet Finch-Saunders:** Na, nid ildiaf.

With respect, the Minister for health has stated time and again that no services in Wales will be downgraded. However, as she is saying it, we are seeing the threats and we are seeing it happen, and no more so than in Llandudno General Hospital. In north Wales, level 3 neonatal services may be removed altogether. The Royal College of Paediatrics and Child Health and Bliss have stated the importance of families receiving care as closely to home as possible within north Wales. Outsourcing to Arrowe Park will leave 36 babies and 36 families with up to four-hour, 180-mile round trips to access care. Just what considerations have been given to families with children who need to attend school or for parents who need to go to work on a daily basis at this crucial time? What considerations have been given to those predominantly Welsh-speaking families who, at times of such emotional challenge, would prefer to be communicated to in their own language?

Gyda phob parch, mae'r Gweinidog dros iechyd wedi dweud dro ar ôl tro na fydd unrhyw wasanaethau yng Nghymru yn cael eu hisraddio. Fodd bynnag, ar yr un pryd, rydym yn gweld y bygythiadau ac yn ei weld yn digwydd, ac nid unman yn fwy felly nag yn Ysbyty Cyffredinol Llandudno. Yn y gogledd, mae'n bosibl y caiff gwasanaethau newyddenedigol lefel 3 eu dileu'n gyfan gwbl. Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant a Bliss wedi datgan pa mor bwysig ydyw bod teuluoedd yn derbyn gofal mor agos â phosibl i'w cartref yn y gogledd. Byddai defnyddio cyfleusterau Arrowe Park yn golygu y byddai 36 o fabanod a 36 o deuluoedd yn wynebu teithiau dwyffordd o hyd at bedair awr neu 180 o filltiroedd i gael gofal. Pa ystyriaethau yn union sydd wedi'u rhoi i deuluoedd â phlant sydd angen mynd i'r ysgol neu i rieni sydd angen mynd i'r gwaith yn ddyddiol ar yr adeg dyngedfennol hon? Pa ystyriaethau sydd wedi'u rhoi i'r teuluoedd hynny sy'n siarad Cymraeg yn bennaf ac y byddai'n well ganddynt, ar adegau mor emosiynol, gyfathrebu yn eu hiaith eu hunain?

Neonatal care in north Wales has seen some improvement and development, and it needs further investment, not cash starvation and destruction. Since 2010, we have seen the development of the 12-hour neonatal care transport service, which the recent report of the Assembly's Children and Young People Committee suggested could further be developed to a 24-hour service. Furthermore, Arrowe Park does fall short, as has been pointed out, of current neonatal care standards, which poses some serious concerns. As has been mentioned, north Wales has 10 intensive care cots, but we learned that Arrowe Park has only six. The expectations that these are sufficient to provide care for north Wales and its own current intake are baffling, to say the least.

Mae rhywfaint o welliant a datblygiad wedi bod o ran gofal newyddenedigol yn y gogledd, ond mae angen rhagor o fuddsoddiad, nid cyllidebau tynnach a dinistr. Ers 2010, rydym wedi gweld datblygiad y gwasanaeth cludiant gofal newyddenedigol 12-awr ac mae adroddiad diweddar gan Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad yn awgrymu y gallai'r gwasanaeth hwn gael ei ddatblygu ymhellach yn wasanaeth 24-awr. Ar ben hynny, nid yw Arrowe Park, fel y nodwyd, yn bodloni safonau gofal newyddenedigol cyfredol, sy'n codi rhai pryderon difrifol. Fel y soniwyd eisoes, mae gan y gogledd 10 cot gofal dwys, ond cawsom wybod mai dim ond chwech sydd gan Arrowe Park. Mae'r disgwyliadau y bydd y nifer hwnnw'n ddigonol i ddarparu gofal ar gyfer y gogledd a'r babanod a dderbynnir o ddalgylch yr ysbyty ei hun yn ddirgelwch, a dweud y lleiaf.

Arrowe Park has half as many nurses to cots than north Wales, again falling 50% short of the UK standard guidelines. Healthcare for a baby at Arrowe Park will cost the Welsh NHS £216 extra per day, equating to £1 million over the course of a year. Even the Royal College of Nursing has called for the retention of these vital services in north Wales, stating that this is clearly an example of a situation where investment would ultimately reduce costs. Devastatingly, 10 babies have died on the unit this year, which is up from six in 2011. I have highlighted just a few concerns, and there remain many unanswered questions. Many of our residents and stakeholders from north Wales are also highlighting their concerns—even directly to the Minister, as little ago as last week, in a meeting—regarding these nonsensical proposals to move level 3 neonatal care in north Wales to Arrowe Park.

Hanner nifer y nyrsys i gotiau sydd gan Arrowe Park o gymharu â'r hyn a geir yn y gogledd ac, unwaith eto, mae'n syrthio 50% yn fyr o ganllawiau safonol y DU. Bydd gofal iechyd ar gyfer baban yn Arrowe Park yn costio £216 ychwanegol y diwrnod i'r GIG yng Nghymru, sy'n cyfateb i £1 filiwn dros gyfnod o flwyddyn. Mae hyd yn oed y Coleg Nyrsio Brenhinol wedi galw am gadw'r gwasanaethau hanfodol hyn yn y gogledd, gan nodi bod hyn yn amlwg yn enghraifft o sefyllfa lle byddai buddsoddiad yn arwain at lai o gostau yn y pen draw. Yn anffodus, mae 10 baban wedi marw ar yr uned eleni, o gymharu â chwech yn 2011. Rwyf ond wedi amlinellu rhai pryderon, ac mae yna lawer o gwestiynau heb eu hateb o hyd. Mae llawer o'n trigolion a'n rhanddeiliaid o'r gogledd hefyd yn amlygu eu pryderon—hyd yn oed yn uniongyrchol i'r Gweinidog, cyn lleied yn ôl â'r wythnos ddiwethaf, mewn cyfarfod—am y cynigion disynnwyr hyn i symud gofal newyddenedigol lefel 3 yn y gogledd i Arrowe Park.

Minister, I do hope that you will take on board the widespread concerns of the people of north Wales and engage in an immediate dialogue with Betsi Cadwaladr with regard to these concerns. It is our parents and our babies who deserve the very best care during a time of such fragile health and emotional challenge. Devolution should not be about downgrading vital services, but about striving to become world leaders in service provision. It is vital that we ensure that no neonatal services in Wales are downgraded and that level 3 neonatal care services continue to be available in north Wales. I make that plea on behalf of many in the Chamber and many outside of it.

Weinidog, rwy'n gobeithio y gwnewch ystyried pryderon eang pobl yn y gogledd a chychwyn deialog ar unwaith gyda Betsi Cadwaladr o ran y pryderon hyn. Mae ein rhieni a'n babanod yn haeddu'r gofal gorau posibl yn ystod cyfnod o iechyd bregus a her emosiynol. Ni ddylai datganoli fod yn gyfystyr ag israddio gwasanaethau hanfodol, ond yn hytrach ymdrechu i ddod yn arweinwyr byd-eang o ran y gwasanaethau a ddarperir. Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau na chaiff unrhyw wasanaethau newyddenedigol yng Nghymru eu hisraddio a bod gwasanaethau gofal newyddenedigol lefel 3 yn parhau i fod ar gael yn y gogledd. Gwnaf y ple hwnnw ar ran llawer yn y Siambr a llawer y tu allan iddi.

**Mick Antoniw:** There is probably not a single person in the Chamber who does not have as one of their utmost priorities in life the importance and wellbeing of the health service and all that it does and contributes. There is no doubt that every Member here will do their best for their constituencies and will seek to represent their constituents in the best way possible in the interests of the national health service and the wellbeing of all our constituents. However, I have

**Mick Antoniw:** Mae'n debyg nad oes neb yn y Siambr na fyddai'n nodi mai un o'i flaenoriaethau pennaf mewn bywyd yw pwysigrwydd a lles y gwasanaeth iechyd a'r cyfan y mae'n ei wneud ac yn ei gyfrannu. Does dim amheuaeth y bydd pob un o'r Aelodau yma yn gwneud eu gorau glas dros eu hetholaethau ac yn ceisio cynrychioli eu hetholwyr yn y ffordd orau bosibl er budd y gwasanaeth iechyd gwladol a lles pob un o'n hetholwyr. Fodd bynnag, rwy'n cael cryn

considerable difficulty with this debate for this reason. We gave certain assurances to the people out there that, when we embarked upon the reconfiguration process, there would be an honest, open and transparent and genuine consultation, which we would not enter into as a façade, and that we would genuinely listen to its outcomes in, ultimately, drawing our conclusions.

anhawster gyda'r ddadl hon am y rheswm hwn. Pan ddechreuwyd ar y broses ad-drefnu, rhoesom sicrwydd penodol i bobl y byddem yn cynnal ymgynghoriad gonest, agored, tryloyw a dilys, na fyddem yn ymrwymo iddo fel ffasâd, ac y byddem wir yn gwrando ar ei ganlyniadau wrth ddod i gasgliadau yn y pen draw.

The difficulty that I have is not with debate and not with the emotions and expressions that everyone has, but with the fact that it leads to agreeing motions that, effectively, predetermine the outcome of the consultation process. I think that that sends out a message that we are undermining that process. What it chooses to debate is a matter for the Assembly, but, for my part—

Nid oes gennyf anhawster gyda'r ddadl na'r emosiynau a'r sylwadau a fynegir, ond yn hytrach â'r ffaith ei bod yn arwain at gytuno ar gynigion sydd, i bob pwrpas, yn rhagdynghedu canlyniad y broses ymgynghori. Credaf fod hynny'n anfon neges ein bod yn tanseilio'r broses honno. Mater i'r Cynulliad yw dewis testun y ddadl, ond, o'm rhan i—

**Darren Millar:** Will you take an intervention?

**Darren Millar:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Mick Antoniw:** No, because I am making a statement rather than a contribution to the debate issue itself.

**Mick Antoniw:** Na, oherwydd rwyf yn gwneud datganiad yn hytrach na chyfraniad at destun y ddadl.

I will participate in the consultation and represent my constituents, but I will await the outcome of that genuine consultation before I form any particular conclusions. I will make my contributions in the debate at the appropriate time and will not be voting in this debate.

Byddaf yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac yn cynrychioli fy etholwyr, ond arhosaf am ganlyniad yr ymgynghoriad dilys hwnnw cyn dod i unrhyw gasgliadau penodol. Byddaf yn gwneud fy nghyfraniadau yn y ddadl ar yr adeg briodol ac ni fyddaf yn pleidleisio yn y ddadl hon.

**Aled Roberts:** Many of us who sat on the Children and Young People Committee were of the opinion that there was a need for change as far as neonatal services were concerned throughout Wales. It was the case that most of our services did not meet the British Association of Perinatal Medicine guidance. Certainly, the greatest concern was reserved for the position in north Wales, where, consistently since 2008, Betsi Cadwaladr has failed to address problems with the recruitment of neonatal nurses and specialist neonatal consultants.

**Aled Roberts:** Roedd llawer ohonom ar y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc o'r farn bod angen newid o ran gwasanaethau newyddenedigol ar draws Cymru. Gwelwyd nad oedd y rhan fwyaf o'n gwasanaethau yn bodloni canllawiau Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain. Yn sicr, y pryder mwyaf oedd y sefyllfa yn y gogledd, lle, yn gyson ers 2008, mae Betsi Cadwaladr wedi methu ag ymdrin â phroblemau sy'n ymwneud â recriwtio nyrsys newyddenedigol ac ymgynghorwyr newyddenedigol arbenigol.

I have no difficulty with what Mick Antoniw said with regard to honest, open debate. The difficulty that we have in north Wales is that it is difficult at times to understand the level of openness that we are assured.

Nid oes gennyf unrhyw anhawster â'r hyn a ddywedodd Mick Antoniw o ran dadl onest, agored. Yr anhawster sydd gennym yn y gogledd yw ei bod yn anodd weithiau ddeall lefel y didwylledd y rhoddir sicrwydd yn ei gylch.

I want to concentrate on three issues as far as the current proposals by Betsi Cadwaladr are concerned. That is to underline that if the health board is able to convince the Minister that its current preferred option should proceed, the reality is that that will lead to a great deal of concern for people in north Wales.

Hoffwn ganolbwyntio ar dri mater o ran cynigion presennol Betsi Cadwaladr. Hynny yw tanlinellu, os gall y bwrdd iechyd argyhoeddi'r Gweinidog y dylai'r opsiwn a ffefrir ganddo ar hyn o bryd fynd rhagddo, y bydd hynny'n arwain at gryn dipyn o bryder i bobl yn y gogledd.

Darren Millar referred to the public transport links for the general population, but it is not only about public transport links, but road journeys from, say, Llangefni to Arrowe Park Hospital, which is a distance of 140 miles. When the health board is asked what transport arrangements it will make, it tells us that there is a charitable trust in operation at Arrowe Park that patients can have access to in times of great need.

Cyfeiriodd Darren Millar at y cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer y boblogaeth gyffredinol, ond nid oes a wnelo â chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn unig. Mae a wnelo hefyd â theithiau ar y ffyrdd o, dyweder, Llangefni i Ysbyty Arrowe Park, sy'n bellter o 140 o filltiroedd. Pan ofynwyd i'r bwrdd iechyd am y trefniadau cludiant y byddai'n eu gwneud, dywedodd wrthym fod ymddiriedolaeth elusennol ar waith yn Arrowe Park y gall cleifion fanteisio arni ar adegau o angen dybryd.

What we, as people in north Wales, fail to understand is quite where the idea has come from, because, as Darren Millar and Llyr Huws Gruffydd have outlined, the clinicians reference group clearly stated that it favoured the retention of a level 3 unit in north Wales. Interestingly, we are told that north Wales has insufficient population to justify the retention of a level 3 unit, yet when we look across the border, to Blackburn and to Burnley, we see fewer live births and level 3 units retained. In Tayside, Scotland, where reconfiguration is also under way, a level 3 unit is provided for a population with 4,300 live births, but there were 7,804 live births in north Wales in the previous year. Lanarkshire, which has 6,302 live births a year, has a unit. [*Interruption.*] I hear what the people say, but these are the facts that we have in front of us.

Yr hyn yr ydym ni, fel pobl yn y gogledd, yn methu â deall yw o ble y daeth y syniad, oherwydd, fel y mae Darren Millar a Llyr Huws Gruffydd wedi'i amlinellu, nododd y grŵp cyfeirio o glinigwyr yn glir ei fod yn ffafrio cadw uned lefel 3 yn y gogledd. Yn ddiddorol, dywedir wrthym nad yw poblogaeth y gogledd yn ddigon mawr i gyfiawnhau cadw uned lefel 3, ond pan edrychwn ar draws y ffin, i Blackburn ac i Burnley, gwelwn lai o enedigaethau byw ac unedau lefel 3 yn dal i weithredu. Yn Tayside, yr Alban, lle mae proses ad-drefnu hefyd ar y gweill, darperir uned lefel 3 ar gyfer poblogaeth â 4,300 o enedigaethau byw, ond roedd 7,804 o enedigaethau byw yn y gogledd yn y flwyddyn flaenorol. Mae yna uned yn Swydd Lanark sydd â 6,302 o enedigaethau byw y flwyddyn. [*Torri ar draws.]* Clywaf yr hyn y mae'r bobl yn ei ddweud, ond dyma'r ffeithiau sydd gennym o'n blaenau.

**Joyce Watson:** They are selective facts.

**Joyce Watson:** Rydych yn dewis a dethol eich ffeithiau.

**Aled Roberts:** They are not selective. This is the list. I will provide it to the Member afterwards.

**Aled Roberts:** Na wnaf. Dyma'r rhestr. Byddaf yn ei rhoi i'r Aelod wedyn.

Worryingly, we are also told that, despite not accepting its clinicians reference group recommendation, the same health board adopted this as a preferred option and was

Yr hyn sy'n peri pryder yw y dywedir wrthym hefyd, er nad yw wedi derbyn argymhellion ei grŵp cyfeirio o glinigwyr, fod yr un bwrdd iechyd wedi mabwysiadu hyn fel opsiwn a

unaware at the time of the public meeting in Rhyl that, where health boards were unable to provide level 3 units from now on, the Wales Deanery had announced that it would not provide training for junior doctors in those regions. I am sure that Members will be aware that, currently, the staffing rotas at both Glan Clwyd and Wrexham Maelor hospitals rely heavily on junior doctors.

ffefrir. Nid oedd y bwrdd yn ymwybodol ychwaith ar adeg y cyfarfod cyhoeddus yn y Rhyl fod Deoniaeth Cymru wedi cyhoeddi, lle na fyddai byrddau iechyd yn gallu darparu unedau lefel 3 o hyn ymlaen, na fyddai'n darparu hyfforddiant ar gyfer meddygon iau yn y rhanbarthau hynny. Rwy'n siŵr y bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod y rotâu staffio cyfredol yn ysbyty Glan Clwyd ac ysbyty Maelor Wrecsam yn dibynnu'n drwm ar feddygon iau.

Perhaps more worrying is the lack of strategic leadership being given by the NHS in Wales. The previous Minister for health announced that each local health board would be obliged to provide neonatal plans by January of last year. We discovered that that policy had been put to one side by the current Minister. We now find that, due to the criticism of the current situation in Wales, health boards will be asked to provide local delivery plans by December. However, Betsi Cadwaladr University Local Health Board, in all the proposals, can provide us with no reassurance that it will meet the BAPM guidance, even after the reconfiguration. As Mick Antoniw stated, we need a proper debate based on transparency and openness. That is certainly not the case currently in north Wales.

Efallai mai'r hyn sy'n peri'r pryder mwyaf yw'r diffyg arweinyddiaeth strategol sy'n cael ei roi gan y GIG yng Nghymru. Cyhoeddodd y Gweinidog blaenorol dros iechyd y byddai'n ofynnol i bob bwrdd iechyd lleol ddarparu cynlluniau newyddenedigol erbyn mis Ionawr y llynedd. Gwnaethom ddarganfod bod y polisi hwnnw wedi'i roi o'r neilltu gan y Gweinidog presennol. Gwelwn yn awr, oherwydd y feirniadaeth o'r sefyllfa bresennol yng Nghymru, y bydd gofyn i fyrddau iechyd ddarparu cynlluniau cyflawni lleol erbyn mis Rhagfyr. Fodd bynnag, ni all Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, mewn unrhyw un o'r cynigion, roi unrhyw sicrwydd inni y bydd yn bodloni canllawiau BAPM, hyd yn oed ar ôl ad-drefnu. Fel y nododd Mick Antoniw, mae angen dadl go iawn yn seiliedig ar dryloywder a didwylledd. Yn sicr, nid yw hynny'n wir ar hyn o bryd yn y gogledd.

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** Local health boards have set out their plans for services and have embarked upon a process of public consultation. I hope that each of you is contributing constructively to this consultation process, ensuring that your constituents' voices are heard by local health boards.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Mae byrddau iechyd lleol wedi nodi eu cynlluniau ar gyfer gwasanaethau ac wedi cychwyn ar ymgynghoriad cyhoeddus. Rwy'n gobeithio bod pob un ohonoch yn cyfrannu'n adeiladol at y broses ymgynghori hon, gan sicrhau bod lleisiau eich etholwyr yn cael eu clywed gan fyrddau iechyd lleol.

The formal public consultations currently under way are being conducted in accordance with national guidance for engagement and consultation on changes to health services. Where a community health council is not satisfied that proposals for substantial changes to services would be in the interests of health services in its district or believes that consultation on any such proposal has not been adequate, it has the power of referral to me under the Community Health Councils (Constitution, Membership and Procedures)

Mae'r ymgynghoriadau cyhoeddus ffurfiol sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori ar newidiadau i wasanaethau iechyd. Lle nad yw cyngor iechyd cymuned yn fodlon y byddai cynigion ar gyfer newidiadau sylweddol i wasanaethau er budd y gwasanaethau iechyd yn ei ardal neu'n credu nad yw'r ymgynghoriad ar unrhyw gynnig o'r fath wedi bod yn ddigonol, mae ganddo'r pŵer i atgyfeirio'r mater ataf i o dan Reoliadau

(Wales) Regulations 2010. Accordingly, it would not be appropriate for me or any Welsh Government Minister to comment on any specific options put forward by health boards for public consultation, since doing so might compromise any quasi-judicial function that I may have to exercise under the regulations. Therefore, under the circumstances, the Government will offer no view on the terms of the motion proposed for debate here today.

Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010. Yn unol â hynny, ni fyddai'n briodol i mi nac unrhyw un o Weinidogion Llywodraeth Cymru roi sylwadau ar unrhyw opsiynau penodol a gyflwynwyd gan fyrddau iechyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, gan y gallai gwneud hynny beryglu unrhyw swyddogaeth led-farnwrol y gallai fod gennyf i'w harfer o dan y rheoliadau. Felly, o dan yr amgylchiadau, ni fydd y Llywodraeth yn cynnig unrhyw farn ar delerau'r cynnig a gynigir ar gyfer y ddadl yma heddiw.

**Angela Burns:** Wow! What a day of surprises today has been. First, we have a Member whom I respect immensely trying to stifle this debate by calling for it to be cancelled. I am so glad that the Presiding Officer has allowed us to debate this, whatever its merits, because this is about scrutiny. Secondly, I am exceptionally disappointed by the Minister's response. Minister, you have to take a grip on leadership here. Let us be crystal clear: three reports in short order have very clearly said that neonatal services in Wales are appalling, dreadful and horrific. We have listened to people give passionate and truthful accounts about the vital service that neonatal units offer. Therefore, Minister, what you are doing is saying that here is a service in which no-one has confidence, in which endless committees have had no confidence and in which clinicians have no confidence—and I am picking my words very clearly here, because I do not want them to be twisted; I am not saying that we have no confidence in the staff, but in the service and its strategic direction—and that what you will do is palm it out to seven local health boards, which everyone is wrangling over, in the hope that, whenever they finish their discussions, somehow, just like that, we will get the gorgeous and fantastic service that we deserve in Wales. It ain't going to happen. Let us get real.

**Angela Burns:** Wel! Am ddiwrnod annisgwyl. Yn gyntaf, mae gennym Aelod yr wyf yn ei barchu'n fawr yn ceisio atal y ddadl hon drwy alw am iddi gael ei chanslo. Rwyf mor falch bod y Llywydd wedi caniatáu inni drafod hyn, beth bynnag fo ei rinweddau, gan fod a wnelo hyn â chraffu. Yn ail, rwy'n siomedig tu hwnt gydag ymateb y Gweinidog. Weinidog, rhaid ichi gymryd gafael ar arweinyddiaeth yma. Gadewch inni fod yn hollol glir: mae tri adroddiad mewn byr o dro wedi nodi'n glir iawn fod gwasanaethau newyddenedigol yng Nghymru yn ofnadwy, yn arswydus ac yn erchyll. Rydym wedi gwrando ar bobl yn rhoi adroddiadau angerddol a gonest am y gwasanaeth hanfodol a gynigir gan unedau newyddenedigol. Felly, Weinidog, beth rydych yn ei wneud yw dweud bod hwn yn wasanaeth nad oes gan unrhyw un hyder ynddo, gwasanaeth nad yw pwyllgorau diddiwedd wedi cael unrhyw hyder ynddo a gwasanaeth nad oes gan glinigwyr unrhyw hyder ynddo—ac rwy'n dewis fy ngeiriau'n ofalus iawn yma, gan nad wyf am iddynt gael eu camliwio; nid dweud ydwyf nad oes gennym unrhyw hyder yn y staff, ond yn hytrach yn y gwasanaeth a'i gyfeiriad strategol—a'r hyn y byddwch yn ei wneud yw ei roi yn nwylo'r saith bwrdd iechyd lleol, y mae pawb yn dadlau drostynt, yn y gobaith, pryd bynnag y byddant yn gorffen eu trafodaethau, rywsut, yn union fel yna, y byddwn yn cael y gwasanaeth hyfryd a gwych yr ydym yn ei haeddu yng Nghymru. Ni fydd hynny'n digwydd. Gadewch inni fod o ddifrif.

One Member—and I forget who, for which I apologise—pointed out very clearly that, when we look at the reconfiguration plans that are happening in south Wales, we see

Nododd un Aelod yn glir iawn—rwy'n anghofio pwy, ac ymddiheuraf am hynny—pan edrychwn ar y cynlluniau ad-drefnu sy'n digwydd yn y de, rydym yn gweld y gallem ni

that we in north and west Wales could end up having to go to Newport and Cardiff. I appreciate that this is a debate that can be emotive, but of course it is going to be emotive. The public meetings that Paul and I have attended in our area have been very emotional, because of all the times in your life when the NHS will touch you right here, it is when it saves your life, the life of someone you love, and, more importantly, the life of your child. We have all heard people tell us about the time that their son or daughter just made it through, thanks to the NHS. So, we cannot pretend that this is not going to be an emotional issue, but we can show real leadership here.

yn y gogledd a'r gorllewin orfod mynd i Gasnewydd a Chaerdydd yn y pen draw. Rwy'n gwerthfawrogi bod hon yn ddadl a all fod yn emosiynol, ond wrth gwrs mae'n mynd i fod yn emosiynol. Mae'r cyfarfodydd cyhoeddus y mae Paul a minnau wedi'u mynychu yn ein hardal ni wedi bod yn emosiynol iawn, oherwydd yr holl adegau yn eich bywyd pan fydd y GIG yn cyffwrdd â chi fan hyn—pan fydd yn achub eich bywyd chi, bywyd rhywun rydych yn ei garu, ac, yn bwysicaf oll, bywyd eich plentyn. Rydym i gyd wedi clywed pobl yn sôn am yr amser pan ddaeth eu mab neu'u merch drwyddi o drwch blewyn, diolch i'r GIG. Felly, ni allwn gymryd arnom nad yw hyn yn mynd i fod yn fater emosiynol, ond gallwn ddangos arweinyddiaeth go iawn yma.

6.00 p.m.

I am not going to talk too much about the Children and Young People's Committee report on neonatal care in Wales, because I am conscious that the Chair has not had an opportunity to bring it to the Chamber. However it is an excellent report that clearly lays out what we need to do. Leadership is one of the big issues that we can tackle, and I think that seven disparate leaders dotted around Wales doing this will not cut the mustard.

Ni fwriadaf sôn gormod am adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar ofal newyddenedigol yng Nghymru, oherwydd gwn nad yw'r Cadeirydd wedi cael cyfle i ddod ag ef i'r Siambr. Fodd bynnag, mae'n adroddiad ardderchog sy'n nodi'n glir yr hyn y mae angen inni ei wneud. Mae arweinyddiaeth yn un o'r materion mawr y gallwn fynd i'r afael ag ef, ac nid wyf o'r farn ei bod hi'n ddigon inni ofyn i saith arweinydd gwahanol mewn gwahanol rannau o Gymru wneud hyn.

There are a couple of clear areas where we can—[*Interruption*.] If you wish to address me, do stand up, but do not mutter in that background, because that really annoys me.

Mae yna un neu ddau faes amlwg lle y gallwn—[*Torri ar draws.]* Os ydych yn dymuno fy nghyfarch i, yna sefwch i fyny, ond peidiwch â mwmian yn y cefndir, oherwydd mae hynny wir yn fy ngwylltio.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. It is best if Members just completely ignore remarks from a sedentary position.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Mae'n well os yw Aelodau yn anwybyddu sylwadau gan Aelodau sydd ar eu heistedd yn llwyr.

**Angela Burns:** It is so much easier to ignore her.

**Angela Burns:** Mae'n haws o lawer ei hanwybyddu hi.

We have to look at some important areas, and my concern is the lack of joined-up thinking. I was with the shadow Minister for health in Glangwili hospital last week and saw a young couple with a tiny little baby who had managed to hang on to life for quite a long time, but has been there for about five or six weeks and will still be there for another five,

Rhaid inni edrych ar rai meysydd pwysig, a'r hyn sy'n peri pryder imi yw'r diffyg meddwl cydgysylltiedig. Roeddwn gyda Gweinidog yr wrthblaid dros iechyd yn ysbyty Glangwili yr wythnos ddiwethaf a gwelais bâr ifanc gyda babi bach a oedd wedi llwyddo i ddal gafael ar fywyd am gryn amser, ond sydd wedi bod yno am ryw bum neu chwe wythnos a bydd yn

six or seven weeks. I did not ask them where they came from, what they did or how they were managing, because they were just so thrilled to have their child. However, as I walked away, I thought 'Gosh, that's Carmarthen; if that young couple lived in Angle or Fishguard, how would they cope if they did not have somewhere where they could take their baby back to, like Withybush, once that baby had stepped down from intensive care?'.

rhaid iddo fod yno am bum, chwe neu saith wythnos arall. Wnes i ddim gofyn iddynt o ble roeddent yn dod, beth roeddent yn ei wneud na sut roeddent yn ymdopi, oherwydd roeddent mor hapus i gael eu plentyn. Fodd bynnag, wrth imi gerdded i ffwrdd, meddyliais 'Caerfyrddin yw hwn; pe bai'r pâr ifanc yn byw yn Angle neu Abergwaun, sut byddent yn ymdopi pe na bai ganddynt rywle, fel Llwynhelyg, i fynd â'u baban unwaith y byddai'n gallu gadael yr uned gofal dwys?'

I happen to believe passionately that we should have a level 2 SCBU at Glangwili, but my real concern is that we will not, in three or four years' time, be able to recruit the staff that we need. So, we will have to start sucking staff away from places such as Withybush, where we have a super level 1 or 1.5 SCBU, to maintain places such as Glangwili. This will happen all over. We are all reasonable people—we all understand that the NHS has to undergo some changes and that the pots of money are not finite. However, if we are going to do this, how will we be able to look at areas such as transportation, accommodation, cot provision and babies suddenly having to be whizzed to Taunton all the way down the M4 because we do not have enough cots, and those that we have are all full? This is why we need to have an overarching view and a strategic direction that tells us how the whole thing should hang together. Leaving it to seven health boards is simply not going to do it.

Rwy'n digwydd credu'n gryf y dylai fod gennym uned gofal arbennig lefel 2 i fabanod yng Nglangwili, ond fy mhryder mawr yw na fyddwn, ymhen tair neu bedair blynedd, yn gallu recriwtio'r staff sydd eu hangen arnom. Felly, bydd yn rhaid inni ddechrau cymryd staff o leoedd fel Llwynhelyg, lle mae gennym uned gofal arbennig lefel 1 neu 1.5 wych, er mwyn cynnal lleoedd fel Glangwili. Bydd hyn yn digwydd drwyddi draw. Rydym i gyd yn bobl resymol—rydym i gyd yn deall bod yn rhaid cyflwyno rhai newidiadau i'r GIG ac nad yw'r potiau o arian yn ddiderfyn. Fodd bynnag, os ydym yn mynd i wneud hyn, sut y byddwn yn gallu edrych ar feysydd fel cludiant, llety, darpariaeth cotiau a babanod yn gorfod cael eu rhuthro'n sydyn i Taunton yr holl ffordd i lawr yr M4 am nad oes gennym ddigon o gotiau, ac mae'r rheini sydd gennym i gyd yn llawn? Dyma pam y mae angen inni gael golwg gyffredinol a chyfeiriad strategol sy'n dweud wrthym sut y dylai'r holl beth edrych. Nid yw gadael hynny i saith bwrdd iechyd yn mynd i'w gyflawni.

I think that I am going to leave it there, Deputy Presiding Officer, because that is our clarion call: to take forward our debate. Finally, I have one quick point on the notion that we should not be discussing this: we are doing so because this is all part of raising that level of debate, of engaging with the people of Wales, of getting people to completely understand what the plans are so that they can have their say.

Credaf fy mod i'n mynd i'w gadael hi fan yna, Ddirprwy Lywydd, oherwydd dyna yw ein galwad glir: i fwrw ymlaen â'n dadl. I gloi, mae gennyf un pwynt cyflym ar y syniad na ddylem fod yn trafod hyn: rydym yn gwneud hynny oherwydd mae a wnelo hyn oll â chodi lefel y ddadl, ymgysylltu â phobl Cymru, a chael pobl i ddeall y cynlluniau yn llwyr er mwyn iddynt allu dweud eu dweud.

**Simon Thomas**: Will you give way on that point?

**Simon Thomas:** A wnewch ildio ar y pwynt hwnnw?

**Angela Burns:** I give way to Simon Thomas.

**Angela Burns:** Ildiaf i Simon Thomas.

**Simon Thomas:** I hope that this may help her. The Minister for health has just tweeted 'Please join the debate', yet here in the

**Simon Thomas:** Gobeithiaf y gall hyn ei helpu. Mae'r Gweinidog dros iechyd newydd drydar 'Ymunwch â'r ddadl', ond yma yn y

elected Chamber, she refuses to take part in the debate.

Siambr etholedig, mae'n gwrthod cymryd rhan yn y ddadl.

**Angela Burns:** What can I say? It is a matter of debate, openness and transparency. To answer Jenny Rathbone's question quickly, the neonatologist at Hywel Dda LHB said that we should be able to keep Withybush and Glangwili open. So, clinicians are not being listened to, and that is not helping the debate. We need to listen to the public and to the doctor and nurses who deliver on the ground. We have to look at the money, but, above all, we have to keep compassion and reasonableness in this, and we must have joined-up thinking. If you were to look at where Hywel Dda Local Health Board and south Wales hospitals are planning to put their special care baby units, you would see that there is no joined-up thinking. That is why we need you to step forward, Minister, and if you will not engage in the debate, at least engage with getting a grip on this whole area and giving us the joined-up, world-class neonatal service that we need here in Wales.

**Angela Burns:** Beth y gallaf ei ddweud? Mae'n fater o ddadl, bod yn agored ac yn dryloyw. I ateb cwestiwn Jenny Rathbone yn gyflym, dywedodd y neonatolegydd yn BILl Hywel Dda y dylem fod yn gallu cadw Llwynhelyg a Glangwili ar agor. Felly, nid ydym yn gwrando ar glinigwyr, ac nid yw hynny'n helpu'r drafodaeth. Mae angen inni wrando ar y cyhoedd ac ar y meddygon a'r nyrsys sy'n darparu ar lawr gwlad. Mae'n rhaid inni edrych ar yr arian, ond, yn anad dim, mae'n rhaid inni gadw tosturi a rhesymoldeb yn hyn o beth, a rhaid inni gael meddwl cydgysylltiedig. Pe baech yn edrych ar fwriad Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ac ysbytai'r de o ran lleoliad eu hunedau gofal arbennig i fabanod, byddech yn gweld nad oes unrhyw feddwl cydgysylltiedig. Dyna pam y mae angen ichi gamu ymlaen, Weinidog, ac os nad ydych am gymryd rhan yn y ddadl, dylech o leiaf geisio mynd i'r afael â'r maes hwn yn ei gyfanrwydd a sicrhau gwasanaeth newyddenedigol cydgysylltiedig o'r radd flaenaf, sef yr hyn sydd ei angen arnom yma yng Nghymru.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion without amendment. Are there any objections? I see that there are. Therefore, I defer voting on this item until voting time.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, rwy'n gohirio'r bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

**The Deputy Presiding Officer:** It has been agreed that voting time will take place before the short debate. Unless there are three Members who wish for the bell to be rung, we will proceed directly to voting time.

**Y Dirprwy Lywydd:** Cytunwyd y bydd y cyfnod pleidleisio yn digwydd cyn y ddadl fer. Oni bai bod tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu, byddwn yn symud ymlaen yn syth i amser pleidleisio.

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Cynnig NDM5054: O blaid 27, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Motion NDM5054: For 27, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Gruffydd, Llyr Huws
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Members leaving the Chamber should do so quickly and quietly.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Dylai'r Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel.

## Dadl Fer
## Short Debate

### Cefnogi Buddsoddiad yn Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod
### Supporting Investment in Llandrindod Wells County War Memorial Hospital

**Kirsty Williams:** I am grateful for the requests from Joyce Watson and William Powell to contribute to this afternoon's debate, should time allow. I am delighted to have this opportunity to highlight the work of Llandrindod Wells hospital and the important role it plays in the community and, I hope, to persuade the Government that a modest capital investment in the hospital would bring huge benefits to patients, allowing more patients to be treated closer to home and helping to produce revenue savings for Powys local health board.

**Kirsty Williams:** Rwyf yn ddiolchgar am y ceisiadau gan Joyce Watson a William Powell i gyfrannu at ddadl y prynhawn yma, os bydd amser yn caniatáu. Rwyf wrth fy modd o gael y cyfle hwn i dynnu sylw at waith ysbyty Llandrindod a'r rôl bwysig y mae'n ei chwarae yn y gymuned a, gobeithio, i ddwyn perswâd ar y Llywodraeth y byddai buddsoddiad cyfalaf cymharol fach yn yr ysbyty yn dod â manteision enfawr i gleifion, gan ei gwneud yn bosibl i drin mwy o gleifion yn agosach i'w cartrefi a helpu i gynhyrchu arbedion refeniw i fwrdd iechyd lleol Powys.

The first hospital in Llandrindod was opened by a local doctor to cater to the tourists who flocked to the spa town to take the waters in

Agorwyd yr ysbyty cyntaf yn Llandrindod gan feddyg lleol i ddarparu ar gyfer y twristiaid a heidiai i'r dref sba i gymryd y

its Victorian heyday. Today, the hospital is situated in a central location in the county town. Llandrindod Wells has a population of only approximately 5,000 people, but the hospital caters for a large rural hinterland and attracts patients from all of Radnorshire and north Breconshire; sometimes we even let them come from south Montgomeryshire. [*Laughter*.] This population is characterised by being more elderly than the Welsh average and we also have more disabled children living in Powys than the Welsh average. In Llandrindod itself, we have lower income levels than the rest of the county and higher numbers of children in receipt of free school meals. This is not a well-to-do rural idyll. These are people who are often struggling to make ends meet. The nearest district general hospital to Llandrindod is in Hereford, more than 41 miles away. Llandrindod has poor public transport links and the roads are not the best.

dyfroedd pan oedd yn ei hanterth yn ystod oes Fictoria. Heddiw, mae’r ysbyty wedi’i leoli yng nghanol y dref sirol. Dim ond 5,000 o bobl, fwy neu lai, sy’n byw yn Llandrindod ond mae’r ysbyty yn darparu ar gyfer cefnwlad wledig fawr ac yn denu cleifion o bob rhan o Sir Faesyfed a gogledd Sir Frycheiniog; weithiau rydym hyd yn oed yn caniatáu iddynt ddod o dde Sir Drefaldwyn. [*Chwerthin*.] Nodweddir y boblogaeth hon drwy fod yn fwy oedrannus na chyfartaledd Cymru ac mae gennym hefyd fwy o blant anabl yn byw ym Mhowys na chyfartaledd Cymru. Yn Llandrindod ei hun, mae gennym lefelau incwm is na gweddill y sir a’r niferoedd uchaf o blant sy’n derbyn prydau ysgol am ddim. Nid eidyl gefnog wledig mo hon. Dyma’r bobl sy’n aml yn ei chael hi’n anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Mae’r ysbyty cyffredinol dosbarth agosaf i Landrindod yn Henffordd, fwy na 41 o filltiroedd i ffwrdd. Mae gan Landrindod gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus gwael ac nid yw’r ffyrdd ymhlith y gorau.

Although some local health boards around Wales are looking to close their community facilities, I am glad to say that we have a vibrant and busy hospital, providing a whole host of services. At the centre of it, the general ward provides in-patient beds to which local GPs from Rhayader and Llandrindod can admit their patients for care. The Clywedog ward provides beds for elderly patients with mental health issues under the care of an age-care consultant, a service that is often utilised by a larger range of GPs. These beds are crucial in providing care options to GPs who, if those local beds were not available, might have no alternative but to admit people to Hereford hospital. The hospital also provides day surgery. It is a valuable resource, and I believe that we are unique in Wales in having a podiatric surgery unit, that is a unit that performs surgery on feet. That is just one procedure that is available.

Er bod rhai byrddau iechyd lleol ledled Cymru yn ystyried cau eu cyfleusterau cymunedol, rwyf yn falch o ddweud bod gennym ysbyty bywiog a phrysur, sy’n darparu llu o wasanaethau. Yng nghanol yr ysbyty, mae’r ward gyffredinol yn darparu gwelyau cleifion mewnol y gall meddygon teulu lleol o Raeadr Gwy a Llandrindod anfon eu cleifion iddynt er mwyn iddynt gael gofal. Mae ward Clywedog yn darparu gwelyau ar gyfer cleifion oedrannus â phroblemau iechyd meddwl o dan ofal meddyg ymgynghorol sy’n arbenigo mewn gofalu am bobl oedrannus, gwasanaeth a ddefnyddir yn aml gan ystod fwy o feddygon teulu. Mae’r gwelyau hyn yn hanfodol i ddarparu opsiynau gofal i feddygon teulu na fyddai ganddynt unrhyw ddewis efallai ond anfon pobl i ysbyty Henffordd, pe na bai’r gwelyau lleol hynny ar gael. Mae’r ysbyty hefyd yn darparu llawdriniaeth ddydd. Mae’n adnodd gwerthfawr, a chredaf ein bod yn unigryw yng Nghymru gan fod gennym uned llawdriniaeth bodiatrig sy’n cyflawni llawdriniaethau ar draed, sydd ond yn un o’r triniaethau sydd ar gael.

We have a 24-hour nurse-led minor injuries unit, which is the busiest in the county, and

Mae gennym uned mân anafiadau 24 awr dan arweiniad nyrsys, sef y brysuraf yn y sir, a

this is supported by x-ray services that are linked to the district general hospital in Hereford to ensure that there is clinical overview. Of course, we would like extended x-ray hours in Llandrindod Wells, and I hope that the LHB will increase this provision shortly. However, the local health board has worked proactively with neighbouring authorities. Thus, we are able to offer a range of out-patient clinics. These can provide a range of services where consultants from Hereford come across to the hospital to provide clinics—in ophthalmology, for example, or in gynaecology—and they are equally as popular with the consultants as with the patients who are able to avail themselves of them.

gefnogir gan wasanaethau pelydr-x sydd wedi'u cysylltu â'r ysbyty cyffredinol dosbarth yn Henffordd er mwyn sicrhau bod trosolwg clinigol. Wrth gwrs, byddem yn hoffi cael oriau pelydr-x estynedig yn Llandrindod ac rwyf yn gobeithio y bydd y BILl yn cynyddu'r ddarpariaeth hon cyn bo hir. Fodd bynnag, mae'r bwrdd iechyd lleol wedi gweithio'n rhagweithiol gydag awdurdodau cyfagos. Felly, gallwn gynnig ystod o glinigau cleifion allanol. Gall y rhain ddarparu ystod o wasanaethau lle mae meddygon ymgynghorol o Henffordd yn dod draw i'r ysbyty i ddarparu clinigau—mewn offthalmoleg, er enghraifft, neu mewn gynaecoleg—ac maent yr un mor boblogaidd gyda'r meddygon ymgynghorol ag y meant gyda'r cleifion sy'n gallu manteisio arnynt.

The hospital also provides a midwife-led birthing unit for low-risk births, and hosts a range of community clinics. These include a community dental service as well as audiology, speech and language therapy, diabetic retinopathy, orthotics and child and adolescent mental health services. We have a full physiotherapy and occupational therapy department. These community services, and all of the services in the hospital, are enhanced by the fact that many community staff who work outside the hospital, such as district nurses, health visitors and child protection staff, have their base in the hospital, thus enhancing communication and joint working.

Mae'r ysbyty hefyd yn darparu uned eni dan arweiniad bydwragedd ar gyfer genedigaethau risg isel ac yn cynnal amrywiaeth o glinigau cymunedol, gan gynnwys gwasanaeth deintyddol cymunedol yn ogystal ag awdioleg, therapi iaith a lleferydd, retinopathi diabetig, orthoteg a gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Mae gennym adran ffisiotherapi a therapi galwedigaethol lawn. Mae'r gwasanaethau cymunedol hyn, a phob un o'r gwasanaethau yn yr ysbyty, yn cael eu hatgyfnerthu gan y ffaith bod llawer o staff cymunedol sy'n gweithio y tu allan i'r ysbyty, fel nyrsys ardal, ymwelwyr iechyd a staff amddiffyn plant, wedi'u lleoli yn yr ysbyty, sy'n gwella prosesau cyfathrebu a chydweithio.

Last, but not least, we have the new jewel in the crown—our renal dialysis unit. I cannot begin to tell colleagues what a difference this much longed for and hard-fought-for service has made to my constituents. Previously, many of them had existed on a regime that saw them travelling to Hereford and even further afield, often for whole days three times a week, leaving their homes early in the morning and returning after midnight. This new unit is a joy to see. All of the services are delivered in an atmosphere of kindness, dignity and care by well-motivated staff who thrive on the challenges of enhanced practice in a rural setting.

Yn olaf, ond nid y lleiaf, mae gennym y trysor newydd yn y goron, sef ein huned dialysis arennol. Ni allaf ddechrau dweud wrth gyd-Aelodau y gwahaniaeth y mae'r gwasanaeth hwn, y mae mawr alw amdano ac y brwydrwyd yn galed i'w gael, wedi'i wneud i'm hetholwyr. Yn flaenorol, roedd llawer ohonynt wedi bodoli ar gyfundrefn a'u gwelodd yn teithio i Henffordd a hyd yn oed ymhellach i ffwrdd, yn aml am ddiwrnodau cyfan dair gwaith yr wythnos, gan adael eu cartrefi yn gynnar yn y bore a dychwelyd ar ôl hanner nos. Mae'r uned newydd hon yn bleser i'w gweld. Mae pob un o'r gwasanaethau yn cael ei ddarparu mewn awyrgylch o garedigrwydd, urddas a gofal

gan staff llawn cymhelliant sy'n ffynnu ar yr heriau sy'n gysylltiedig ag ymarfer gwell mewn lleoliad gwledig.

However, in a way, Llandrindod has become a victim of its own success. In some areas, it is simply bursting at the seams and has reached its capacity. In other ways, the building is showing its age and is not configured to meet the exacting standards of modern healthcare delivery. The building cannot keep pace with the vision of the staff to be able to deliver even more services and care closer to people's homes by repatriating services and patients from the Hereford hospital.

Fodd bynnag, mewn ffordd, mae ysbyty Llandrindod bellach yn dioddef oherwydd ei lwyddiant ei hun. Mewn rhai meysydd, mae'n llawn at yr ymylon ac wedi cyrraedd ei gapasiti. Mewn ffyrdd eraill, mae'r adeilad yn dangos ei oedran ac nid yw wedi'i gyflunio i gyrraedd y safonau uchel iawn a ddisgwylir wrth ddarparu gofal iechyd modern. Ni all yr adeilad gadw i fyny â gweledigaeth y staff o allu darparu hyd yn oed fwy o wasanaethau a gofal yn nes at gartrefi pobl drwy symud gwasanaethau a chleifion yn ôl o ysbyty Henffordd.

The proposed redevelopment of Llandrindod hospital would give local staff the opportunity to maximise their skills and treat more people closer to home, and would assist the health board with its financial deficit. At present, it is impossible to have any more out-patient clinics—patients are already waiting in corridors. The redesign of the hospital would allow for an additional 6,500 out-patient appointments each year, and they would be delivered in a much more comfortable setting. The same is true for the community dental service, which is also desperate for additional space.

Byddai'r cynnig i ailddatblygu ysbyty Llandrindod yn rhoi cyfle i staff lleol wneud y gorau o'u sgiliau a thrin pobl yn agosach at eu cartrefi, a byddai'n cynorthwyo'r bwrdd iechyd gyda'i ddiffyg ariannol. Ar hyn o bryd, mae'n amhosibl cael rhagor o glinigau cleifion allanol—mae cleifion eisoes yn aros mewn coridorau. Byddai ailgynllunio'r ysbyty yn darparu ar gyfer 6,500 o apwyntiadau ychwanegol i gleifion allanol bob blwyddyn, a byddent yn cael eu darparu mewn lleoliad llawer mwy cyfforddus. Mae'r un peth yn wir am y gwasanaeth deintyddol cymunedol, sydd hefyd yn awyddus iawn i gael mwy o le.

As I mentioned, the day theatre service is a vital part of the hospital. However, despite a recent refurbishment of the theatre itself, the current configuration of the recovery rooms constrains the number of procedures carried out, and falls below some of the standards that are required for these purposes. Under these proposals, we could move the recovery room and create a dedicated new endoscopy suite that would meet all of the latest standards. Such a reconfiguration would allow that suite and the theatre to offer an additional 2,400 day surgery procedures each year—that is 2,400 fewer trips for my constituents to take to Hereford hospital or further afield. To put it another way, that is a saving of 197,000 miles each and every year.

Fel y soniais, mae'r gwasanaeth theatr dydd yn rhan hanfodol o'r ysbyty. Fodd bynnag, er gwaethaf gwaith adnewyddu diweddar a wnaed ar y theatr ei hun, mae cyfluniad presennol yr ystafelloedd adfer yn cyfyngu ar nifer y triniaethau sy'n cael eu cyflawni, ac mae islaw rhai o'r safonau sy'n ofynnol at y dibenion hyn. O dan y cynigion hyn, gallem symud yr ystafell adfer a chreu ystafell endosgopi benodol newydd a fyddai'n bodloni'r holl safonau diweddaraf. Byddai'r fath ad-drefnu yn ei gwneud yn bosibl i'r ystafell honno a'r theatr gynnig 2,400 o lawdriniaethau dydd ychwanegol bob blwyddyn—-hynny yw 2,400 yn llai o deithiau i'w cymryd gan fy etholwyr i ysbyty Henffordd neu ymhellach i ffwrdd. Mewn geiriau eraill, mae'n arbed 197,000 o filltiroedd bob blwyddyn.

The proposals would also allow us to create a

Byddai'r cynigion hefyd yn ein galluogi i

standalone birthing and midwifery annexe. While at present the midwives do an excellent job, many women are put off by a lack of facilities—for instance, the lack of a birthing pool—and the fact that labouring women have to walk along an administrative corridor to visit the ladies' toilets, which does not help. What midwives want to be delivered is a standalone annexe with a private entrance and the space to provide the first-class service that they can deliver, with all of the things that expectant women can expect and deserve to have. It would give them much more confidence to choose to have their babies in Llandrindod rather than going to Hereford. Proposals by the local health board to bring ultrasound scanning to Llandrindod will, hopefully, improve the birth rate at that particular unit.

greu adeilad geni a bydwreigiaeth annibynnol. Er bod bydwragedd yn gwneud gwaith ardderchog ar hyn o bryd, mae llawer o fenywod yn cael eu siomi gan ddiffyg cyfleusterau—er enghraifft, dim pwll geni—a'r ffaith bod yn rhaid i fenywod sy'n esgor gerdded ar hyd coridor gweinyddol er mwyn ymweld â thoiledau'r merched, nad yw'n helpu. Yr hyn yr hoffai bydwragedd ei gael yw adeilad annibynnol â mynedfa breifat a digon o le i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf y gallant ei gyflawni, gyda'r holl bethau y gall merched beichiog eu disgwyl ac y maent yn haeddu eu cael. Byddai'n rhoi llawer mwy o hyder iddynt ddewis cael eu babanod yn Llandrindod yn hytrach na mynd i Henffordd. Bydd cynigion gan y bwrdd iechyd lleol i ddod â gwasanaeth sganio uwchsain i Landrindod, gobeithio, yn gwella'r gyfradd geni yn yr uned benodol honno.

6.15 p.m.

If this work was to be carried out, it would not only solve every hospital's perennial problem of a lack of parking spaces, it would also create new space within the building. It is my real desire to see some of that space used to provide chemotherapy services. Now that we have finally cracked the nut of renal dialysis, chemotherapy services must be the next thing that we bring to Powys. At present, a tiny number of people are able to get their chemotherapy services locally. Most people have to travel to Velindre, Hereford or, again, even further afield. A recent report by Macmillan demonstrated that the costs associated with a cancer diagnosis were the highest for Powys patients, because of the amount of travelling that they had to do. Clinically, there is no reason why some chemotherapy could not be delivered more locally in a new, redeveloped Llandrindod Wells hospital.

Pe bai'r gwaith hwn yn cael ei wneud, yn ogystal â datrys problem barhaol pob ysbyty, sef diffyg lleoedd parcio, byddai hefyd yn creu lle newydd o fewn yr adeilad. Yn ddiau, hoffwn weld rhywfaint o'r lle hwnnw yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau cemotherapi. Gan ein bod bellach wedi llwyddo i gael uned dialysis arennol, gwasanaethau cemotherapi yw'r peth nesaf y mae'n rhaid inni ei gael ym Mhowys. Ar hyn o bryd, nifer fach iawn o bobl sy'n gallu cael eu gwasanaethau cemotherapi yn lleol. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o bobl deithio i Felindre, Henffordd neu, unwaith eto, hyd yn oed ymhellach i ffwrdd. Dangosodd adroddiad diweddar gan Macmillan bod y costau sy'n gysylltiedig â diagnosis o ganser ar eu huchaf i gleifion Powys, oherwydd yr holl deithio roedd yn rhaid iddynt ei wneud. Yn glinigol, nid oes rheswm pam na allai rhai triniaethau cemotherapi gael eu darparu'n fwy lleol mewn ysbyty newydd, wedi'i ailddatblygu yn Llandrindod.

More services, a better environment for staff and patients, improved energy efficiency in the building, a reduction in staff travel times and net savings of over £520,000 to the Powys LHB budgets are reasons why we should back Llandrindod Wells hospital and Powys local health board's bid for capital

Mae mwy o wasanaethau, amgylchedd gwell i staff a chleifion, gwell effeithlonrwydd ynni yn yr adeilad, gostyngiad yn amseroedd teithio staff ac arbedion net o fwy na £520,000 i gyllidebau BILl Powys yn rhesymau pam y dylem gefnogi cais ysbyty Llandrindod a bwrdd iechyd lleol Powys am

investment. I hope that the Minister will back the LHB's case and make the money available. I cannot think of a better way for the Welsh Minister for health to say 'Thank you' to the hard-working staff of Llandrindod Wells hospital.

fuddsoddiad cyfalaf. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn cefnogi achos y BILl ac yn darparu'r arian. Ni allaf feddwl am ffordd well i Weinidog Iechyd Cymru ddweud 'Diolch yn fawr' i staff gweithgar ysbyty Llandrindod.

**Joyce Watson:** I thank Kirsty for letting me make a contribution to this debate. During the summer, I had the pleasure of joining the Minister and Kirsty for the official opening of the renal dialysis unit at the hospital. Anyone who knows anyone receiving dialysis treatment can begin to appreciate what it means to have that service closer to home. We were told that there was an arduous four-hour round trip three times a week for patients until the renal dialysis unit opened in March. It had an overwhelming bearing on their quality of life. For me, it was an example of how more treatments could be delivered in the community these days, as technology and medical expertise advance. That new renal unit in Llandrindod hospital can treat up to 16 patients, and, for those 16 patients and their families, it is an invaluable resource. I echo and support Kirsty today in highlighting this investment and the difference that it has made to community health service.

**Joyce Watson:** Diolch i Kirsty am roi cyfle i mi gyfrannu at y ddadl hon. Yn ystod yr haf, cefais y pleser o ymuno â'r Gweinidog a Kirsty ar gyfer agoriad swyddogol yr uned dialysis arennol yn yr ysbyty. Gall unrhyw un sy'n adnabod unrhyw un sy'n derbyn triniaeth dialysis ddechrau gwerthfawrogi'r hyn y mae'n ei olygu i gael y gwasanaeth hwnnw agosach at eu cartrefi. Dywedwyd wrthym fod taith bedair awr anodd yn ôl a blaen dair gwaith yr wythnos yn wynebu cleifion nes i'r uned dialysis arennol agor ym mis Mawrth. Cafodd effaith enfawr ar ansawdd eu bywyd. I mi, roedd yn enghraifft o'r ffordd y gallai mwy o driniaethau gael eu darparu yn y gymuned y dyddiau hyn, wrth i dechnoleg ac arbenigedd meddygol ddatblygu. Gall yr uned arennol newydd honno yn ysbyty Llandrindod drin hyd at 16 o gleifion, ac, ar gyfer yr 16 o gleifion hynny a'u teuluoedd, mae'n adnodd amhrisiadwy. Ategaf a chefnogaf Kirsty heddiw wrth dynnu sylw at y buddsoddiad hwn a'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud i wasanaeth iechyd cymunedol.

**William Powell:** I am grateful to Kirsty Williams for giving me a moment of her time in this debate to give my strong backing for the capital bid that is currently going forward for the enhancement of Llandrindod Wells hospital. It was built, as Kirsty said, in 1881, back in the nineteenth century, and this bid would be the next stage in taking it forward into twenty-first century healthcare. The recently opened renal unit is very much a jewel in the crown, as Kirsty said, and it relieves pressure on other units, including the unit at Prince Charles Hospital in Merthyr Tydfil, which I recently had cause to visit with the Petitions Committee. That is important. Reducing the health miles is also an important aspect to this. I flag up another partner bid that has been made by Powys local health board in relation to the out-patients and day hospital at Bronllys Hospital. Taken together, these two bids would enormously enhance the capacity of

**William Powell:** Rwyf yn ddiolchgar i Kirsty Williams am roi ychydig o'i hamser i mi yn y ddadl hon i roi fy nghefnogaeth gref i'r cais am gyfalaf sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd er mwyn gwella ysbyty Llandrindod. Cafodd ei adeiladu, fel y dywedodd Kirsty, yn 1881, yn ôl yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a'r cais hwn fyddai'r cam nesaf yn y broses o'i ddatblygu fel y gall gynnig gofal iechyd sy'n addas i'r unfed ganrif ar hugain. Yn ddiau, mae'r uned arennol a agorwyd yn ddiweddar yn sicr yn amhrisiadwy, fel y dywedodd Kirsty, ac mae'n lleihau'r pwysau ar unedau eraill, gan gynnwys yr uned yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful, yr ymwelais â hi yn ddiweddar gyda'r Pwyllgor Deisebau. Mae hynny'n bwysig. Mae lleihau milltiroedd iechyd hefyd yn agwedd bwysig ar hyn. Tynnaf sylw at gais partner arall sydd wedi cael ei wneud gan fwrdd iechyd lleol Powys mewn perthynas â'r adran cleifion allanol ac ysbyty dydd yn

Powys Teaching Local Health Board to deliver care effectively, locally and at a reasonable cost.

Ysbyty Bronllys. Gyda'i gilydd, byddai'r ddau gais hyn yn gwella'n aruthrol allu Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys i ddarparu gofal yn effeithiol, yn lleol ac ar gost resymol.

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I thank Kirsty Williams for bringing this short debate forward and Bill Powell and Joyce Watson for their contributions. In Wales, we are aiming to have health and healthcare services that match the best anywhere in the world. 'Together for Health', my five-year vision for the NHS and its partners, sets the challenge in terms of making significant improvements to make health better for everyone; to improve access and the patient experience; and to progress service safety and quality. Like other NHS organisations in Wales, Powys Teaching Local Health Board is responding to the vision set out in 'Together for Health' for sustainable and high-quality services. The local health board faces particular challenges in terms of demography and health needs. Powys has an estimated population of just over 132,000 people and covers a quarter of Wales, making it the most sparsely populated county in England and Wales. The proportion of people over 60 is above the Welsh average. The proportion of elderly people will increase in the coming years, with the numbers over 75 years projected to almost double. As Kirsty Williams mentioned, Powys also has a higher proportion of children with a disability compared with other Welsh counties.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Diolch i Kirsty Williams am ddod â'r ddadl fer hon gerbron ac i Bill Powell a Joyce Watson am eu cyfraniadau. Yng Nghymru, rydym yn anelu at gael gwasanaethau iechyd a gofal iechyd sy'n cyfateb i'r gorau unrhyw le yn y byd. Mae 'Law yn Llaw at Iechyd', fy ngweledigaeth bum mlynedd ar gyfer y GIG a'i bartneriaid, yn nodi'r her o ran gwneud gwelliannau sylweddol er mwyn gwella iechyd i bawb; gwella mynediad a phrofiad y claf, a gwella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau. Fel sefydliadau GIG eraill yng Nghymru, mae Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys yn ymateb i'r weledigaeth a nodir yn 'Law yn Llaw at Iechyd' i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy o safon uchel. Mae'r bwrdd iechyd lleol yn wynebu heriau penodol o ran demograffeg ac anghenion iechyd. Amcangyfrifir bod gan Bowys boblogaeth o ychydig dros 132,000 o bobl ac mae'n cwmpasu chwarter tir Cymru, sy'n golygu mai Powys yw'r sir fwyaf tenau ei phoblogaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae cyfran y bobl dros 60 yn uwch na chyfartaledd Cymru. Bydd cyfran y bobl oedrannus yn cynyddu yn y blynyddoedd i ddod, a rhagwelir y bydd nifer y bobl dros 75 oed bron yn dyblu. Fel y nododd Kirsty Williams, mae gan Bowys hefyd gyfran uwch o blant ag anabledd o gymharu â siroedd eraill Cymru.

The health board is developing a model of services for mid Powys that aims to care for more people in their own homes; further develop the integrated delivery of community-based health and social care; maximise opportunities for delivering safe and cost-effective care to patients as close as possible to where they live; and make best use of the resources available. The continuing development of Llandrindod Wells County War Memorial Hospital will play a key role in the health board's ability to provide the best standards of healthcare. It will continue to serve as the focal point for hospital services. In particular, it will play an essential

Mae'r bwrdd iechyd yn datblygu model o wasanaethau ar gyfer canol Powys sy'n anelu at ofalu am fwy o bobl yn eu cartrefi eu hunain; datblygu ymhellach y ddarpariaeth integredig o iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned; manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddarparu gofal diogel a chost-effeithiol i gleifion mor agos â phosibl at lle maent yn byw; a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Bydd y gwaith parhaus o ddatblygu Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod yn chwarae rôl allweddol yng ngallu'r bwrdd iechyd i ddarparu'r safonau uchaf o ofal iechyd. Bydd yn parhau i wasanaethu fel canolbwynt ar gyfer

part in supporting the delivery of out-patient and day surgical care in a local setting. This will prevent the need for patients to make what are otherwise time-consuming and unnecessary journeys to district general hospitals.

gwasanaethau ysbyty. Yn benodol, bydd yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu i ddarparu gofal cleifion allanol a gofal dydd llawfeddygol mewn lleoliad lleol. Bydd hyn yn atal yr angen i gleifion wneud yr hyn a fyddai fel arall yn deithiau hir, diangen i ysbytai cyffredinol dosbarth.

The Welsh Government has already made a number of investments in the hospital. I was very pleased to visit and officially open the new renal dialysis unit there on 1 August this year. Renal disease is a serious issue for a large percentage of people in Wales. There are around 10,000 people with renal disease in Wales, with many more at risk. It affects the daily lives of the patients themselves, as well as their families and friends. We are continuing to invest in services in Wales to ensure that people have easier access to renal dialysis, closer to their homes. The unit at Llandrindod Wells has four stations, and this enables the treatment of up to 16 patients at any one time. This is a great example of the shift in focus in treatment traditionally provided in a secondary care setting, but that can now be provided more locally. When I opened the unit, like Joyce Watson, I found that every patient whom I met told me of their relief that the hours that they had previously spent travelling to other hospitals for dialysis had come to an end, and how delighted they were with the new unit. As Kirsty Williams said, it is a joy to see. The issue to which Bill Powell and Kirsty referred, namely reducing health miles, is obviously very important.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwneud nifer o fuddsoddiadau yn yr ysbyty. Roeddwn yn falch iawn o ymweld â'r uned dialysis arennol newydd yno ar 1 Awst eleni a'i hagor yn swyddogol. Mae clefyd arennol yn broblem ddifrifol i ganran fawr o bobl yng Nghymru. Mae tua 10,000 o bobl sydd â chlefyd arennol yng Nghymru, gyda llawer mwy mewn perygl. Mae'n effeithio ar fywydau dyddiol y cleifion eu hunain, yn ogystal â'u teuluoedd a'u ffrindiau. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau yng Nghymru er mwyn sicrhau ei bod yn haws i bobl allu manteisio ar wasanaeth dialysis arennol, yn agosach at eu cartrefi. Mae gan yr uned yn Llandrindod bedair gorsaf ac mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i drin hyd at 16 o gleifion ar unrhyw adeg benodol. Mae hon yn enghraifft wych o'r newid mewn ffocws o ran triniaeth a ddarperir yn draddodiadol mewn lleoliad gofal eilaidd, ond y gellir ei darparu bellach yn fwy lleol. Pan agorais yr uned, fel Joyce Watson, soniodd pob claf y cyfarfûm ag ef am eu rhyddhad bod yr oriau yr oeddent wedi'u treulio'n flaenorol yn teithio i ysbytai eraill i gael dialysis wedi dod i ben, a pha mor falch yr oeddent o gael yr uned newydd. Fel y dywedodd Kirsty Williams, mae'n bleser ei gweld. Mae'r mater y cyfeiriodd Bill Powell a Kirsty ato, sef lleihau milltiroedd iechyd, yn amlwg yn bwysig iawn.

Last year, I also invested capital funding totalling £645,000 in the refurbishment of the orthopaedic operating theatre. The scheme is part of the programme for creating sustainable orthopaedic services in NHS Wales. The scheme is currently on-site and is expected to complete in this month. The development also involves new equipment, as well as construction work, to improve the ultra-clean ventilation systems in the orthopaedic operating theatre. I have also approved a similar scheme to refurbish the orthopaedic theatre at Breconshire War Memorial Hospital.

Y llynedd, buddsoddais hefyd arian cyfalaf gwerth cyfanswm o £645,000 i adnewyddu'r theatr lawdriniaeth orthopedig. Mae'r cynllun yn rhan o'r rhaglen ar gyfer creu gwasanaethau orthopedig cynaliadwy yn y GIG yng Nghymru. Mae'r cynllun ar hyn o bryd ar y safle a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn y mis hwn. Mae'r datblygiad hefyd yn cynnwys offer newydd, yn ogystal â gwaith adeiladu, er mwyn gwella'r systemau awyru glân iawn yn y theatr lawdriniaeth orthopedig. Rwyf hefyd wedi cymeradwyo cynllun tebyg i adnewyddu'r theatr orthopedig yn Ysbyty Coffa Rhyfel Sir

Frycheiniog.

Last year, through its discretionary capital allocation, the health board invested in a number of building improvements and equipment at Llandrindod Wells hospital, including a medical camera system, emergency lighting, replacement windows and radiators, and a new ophthalmology imaging scanner for use in the theatre. In terms of further investment, the health board has submitted a capital investment business case for the reconfiguration of Llandrindod Wells hospital and associated properties. This is a strategic outline case, the first of a three-stage business case development process, which is intended to articulate the case for change and set out the preferred way forward. The business case seeks approval for a capital investment of approximately £5.5 million, far above the modest sum that Kirsty Williams requested in her opening remarks. The proposed investment is intended to maximise capacity and deliver improvements in patient experience and throughput. It will also result in better patient accommodation, higher levels of infection control, and improved health and safety and statutory compliance. The proposals are integral to the development of the service model for the mid Powys locality, women and children's services, and adult mental health services. The proposed development is significant and includes undertaking all essential health and safety work; providing a new maternity unit and an integrated day theatre/endoscopy unit; establishing enhanced car parking facilities; a new dental services suite; improved patient facilities on two wards; a redesigned theatre area; an improved dining area; and the upgrading of adjacent properties to provide improved patient and staff accommodation. The business case is currently undergoing scrutiny, and I expect to receive it shortly for consideration.

Y llynedd, trwy ei ddyraniad cyfalaf dewisol, buddsoddodd y bwrdd iechyd mewn nifer o welliannau i adeiladau ac offer yn ysbyty Llandrindod, gan gynnwys system camera meddygol, goleuadau argyfwng, ffenestri a rheiddiaduron newydd, a sganiwr delweddu offthalmoleg newydd i'w ddefnyddio yn y theatr. O ran buddsoddiad pellach, mae'r bwrdd iechyd wedi cyflwyno achos busnes ar gyfer buddsoddi cyfalaf i ad-drefnu ysbyty Llandrindod ac eiddo cysylltiedig. Mae hwn yn achos amlinellol strategol, y cyntaf mewn proses datblygu achos busnes dri cham, y bwriedir iddo gyfleu'r achos dros newid a nodi'r ffordd orau ymlaen. Mae'r achos busnes yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer buddsoddiad cyfalaf o tua £5.5 miliwn, sydd gryn dipyn yn uwch na'r swm cymedrol y gofynnodd Kirsty Williams amdano yn ei sylwadau agoriadol. Bwriedir i'r buddsoddiad arfaethedig gynyddu capasiti cymaint â phosibl a sicrhau gwelliannau o ran profiad y claf a thrwybwn cleifion. Bydd hefyd yn arwain at lety gwell i gleifion, lefelau uwch o reoli heintiau, a gwella iechyd a diogelwch a chydymffurfiaeth statudol. Mae'r cynigion yn rhan annatod o'r gwaith o ddatblygu'r model gwasanaeth ar gyfer ardal canol Powys, gwasanaethau merched a phlant a gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion. Mae'r datblygiad arfaethedig yn un sylweddol ac yn cynnwys ymgymryd ag unrhyw waith iechyd a diogelwch hanfodol; darparu uned famolaeth newydd ac uned theatr dydd / endosgopi integredig; sefydlu cyfleusterau parcio ceir gwell; ystafelloedd gwasanaeth deintyddol newydd; gwell cyfleusterau i gleifion ar ddwy ward; ardal theatr wedi'i hailgynllunio; ardal fwyta well; ac uwchraddio eiddo cyfagos er mwyn darparu gwell llety i gleifion a staff. Mae'r achos busnes ar hyn o bryd yn destun craffu, ac rwyf yn disgwyl cael adroddiad yn fuan i'w ystyried.

Clearly, this significant proposed investment, in addition to the investments to date, demonstrates the ongoing commitment to supporting the delivery of safe and sustainable services in Llandrindod Wells, and confirms the key role that the hospital plays in the future of healthcare in Powys.

Yn amlwg, mae'r buddsoddiad sylweddol arfaethedig hwn, yn ychwanegol at y buddsoddiadau a wnaed hyd yma, yn dangos ymrwymiad parhaus i helpu i ddarparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy yn Llandrindod ac yn cadarnhau'r rôl allweddol y mae'r ysbyty yn ei chwarae yn nyfodol gofal iechyd ym Mhowys.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.25 p.m.*
*The meeting ended at 6.25 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)

Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)